# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO | GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE |
| DYDD IAU, 8 RHAGFYR 2022 am 2:00 y. p. | THURSDAY, 8 DECEMBER, 2022 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1 AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM | COMMITTEE ROOM 1 AND VIRTUALLY VIA ZOOM |
| Swyddog Pwyllgor — Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Geraint Bebb, Neville Evans, Dyfed Wyn Jones, Euryn Morris ***(Diprwy Gadeirydd),*** Margaret M. Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Dafydd Roberts

**LLAFUR CYMRU/WELSH LABOUR**

Keith Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Liz Wood

**AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Dilwyn Evans ***(Cadeirydd),*** William Parry, Sharon Warnes, Michael Wilson

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**R H A G L E N**

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 14)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol –

- 28 Medi, 2022
- 20 Hydref, 2022

**3** **ADOLYGIAD O ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU A ZURICH RISK ENGINEERING YN YMWNEUD AG YMATEB I NEWID HINSAWDD YN Y SECTOR CYHOEDDUS A CHYNGOR SIR YNYS MÔN** (Tudalennau 15 - 106)

Cyflwyno adroddiad y Prif Weithredwr.

**4** **STRATEGAETH ATAL TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD 2022-2025** (Tudalennau 107 - 128)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**5** **ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN O REOLI'R TRYSORLYS** (Tudalennau 129 - 144)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**6** **DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 145 - 156)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**7** **SIARTR ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 157 - 170)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

**8** **ADOLYGIADAU CENEDLAETHOL A'U HARGYMHELLION CYSYLLTIEDIG** (Tudalennau 171 - 194)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.

**9** **CÔD LLYWODRAETHU LLEOL 2023-28** (Tudalennau 195 - 220)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.

**10** **ADOLYGIAD O'R BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 221 - 226)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## Cofnodion y Cyfarfod Rhithwir a gynhaliwyd ar 28 Medi, 2022

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Mr Dilwyn Evans (Cadeirydd)<br>Y Cynghorwr Euryn Morris (Dirprwy Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Neville Evans, Dyfed Wyn Jones, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Liz Wood.<br><br>Aelodau Lleyg: Sharon Warnes, William Parry, Michael Wilson |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor/Swyddog Monitro<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Pennaeth Archwilio a Risg (MP)<br>Rheolwr Tîm TG (MH)<br>Rheolwr Yswiriant a Risg (JJ)<br>Prif Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (SN)<br>Prif Archwilydd (NW)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Margaret Roberts, Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Boddhad Cwsmeriaid) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Alan Hughes (Arweinydd Archwilio Perfformiad – Archwilio Cymru), Yvonne Thomas (Rheolwr Archwilio Archwilio Ariannol – Archwilio Cymru), Bethan H. Owen, (Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg), Andrew Lewis (Uwch Archwilydd Mewnol), Cameron Cunliffe-Timperley (Peiriannydd Seiberddiogelwch TGCh) |

---

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Bu i Mr William Parry ddatgan diddordeb personol yn eitem 10 ar yr agenda gan ddweud y gallai rhai o'r cleientiaid yr ymdriniodd â nhw yn ei waith o ddydd i ddydd fod yn derbyn arian gan y Cyngor neu rywle arall.

### 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf, 2022 ac fe'u cadarnhawyd fel rhai cywir.

### 3. ADRODDIAD BLYNYDDOL: PRYDERON A CHWYNION 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a oedd yn nodi materion yn codi o dan Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill, 2021 i 31 Mawrth, 2022 i'r Pwyllgor ei ystyried. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol ond dim ond y rhai lle nad yw'r achwynydd yn ddefnyddiwr gwasanaeth. Ymdrinnir â chwynion defnyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ar wahân o dan y Polisi Gwasanaethau Cymdeithasol - Gweithdrefn Gwyno a Sylwadau ar gyfer Plant ac Oedolion sy'n cael eu hadrodd i'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mewn ymateb i bwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor ar gynnwys yr adroddiad, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) /Swyddog Monitro –

- fod patrwm a nifer y cwynion yn gyson ac yn dangos arwyddion o ddychwelyd i'r niferoedd cyn Covid, roedd y pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar weithgaredd Cyngor dros gyfnod o ddwy flynedd.
- Eglurodd fod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn ysgrifennu at achwynwyr pan ystyrir nad yw eu cwynion yn cyrraedd y trothwy ar gyfer ymchwilio iddynt. Fel arfer mewn achosion o'r fath, mae'r OGCC yn fodlon gydag ymateb ffurfiol y Cyngor a'i ymchwiliad ei hun. Mae gwefannau'r OGCC a'r Cyngor yn egluro sut i wneud cwyn a beth mae'r Ombwdsmon yn gallu a ddim yn gallu edrych arno.
- O ran diffyg cyfathrebu, sy'n thema gyffredin ymysg y cwynion, a'r angen i atgoffa gwasanaethau o bwysigrwydd cyfathrebu amserol, o dan y trefniadau newydd gyda'r OGCC a fydd yn berthnasol i adroddiad flwyddyn nesaf, eglurodd y bydd yr un lefel o ddata a gesglir ar hyn o bryd ar gyfer cwynion yn cael ei chasglu a'i hadrodd ar wefan y Cyngor ac i OGCC mewn perthynas â mynegi pryder. Gallai hyn o bosibl olygu bod llif gwybodaeth fanylach a mwy cynhwysfawr ar gael a thrwy hynny fod mwy o gyfle i wasanaethau ddysgu. Cynigir newid mewn terminoleg hefyd sy'n cynnwys cyflwyno proses dri cham. Cam un fydd mynegi pryderon, cam dau fydd cwyno'n ffurfiol ac yng ngham 3 caiff y gŵyn ei huwchgyfeirio i OGCC. Y bwriad yw sicrhau eglurder a chael mwy o wybodaeth o'r broses. Caiff y newidiadau eu rhannu â gwasanaethau a bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu.
- Dywedodd er nad yw perfformiad y Cyngor o ran delio â chwynion yn cael ei feincnodi bellach yn erbyn perfformiad cynghorau eraill Cymru, pan oedd hynny'n digwydd roedd Cyngor Môn yn agos at frig y tabl perfformiad cenedlaethol o ran darparu gwasanaethau. Dywedodd OGCC a benodwyd o'r newydd mewn cyfarfod gyda Phrif Weithredwr y Cyngor ei fod yn fodlon â'r ffordd y mae'r Cyngor yn rheoli cwynion a'r nifer y mae'n eu derbyn ac ni chodwyd unrhyw faterion. Cyfeiriodd swyddog o Swyddfa OGCC a roddodd hyfforddiant ar gwynion i aelodau'r Pwyllgor hwn at y ffaith bod angen i'r data mynegi pryderon gael ei gyhoeddi dan drefniadau newydd OGCC. Bydd y Cyngor yn casglu ac yn adrodd ar y data yma'r flwyddyn nesaf.
- Fel mewn nifer o gynghorau eraill, dywedodd mai cwynion yn erbyn agweddau ar wasanaeth ym maes Adnoddau, Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol sydd i gyfri am y mwyafrif o'r cwynion a dderbyniwyd gan y Cyngor; dyma wasanaethau sy'n effeithio ar bobl yn bersonol ac felly'n feysydd sy'n fwy tebygol o ddenu cwynion.

**Penderfynwyd bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn yr adroddiad fel un sy'n darparu sicrwydd rhesymol bod y Cyngor yn ymdrin â'i gwynion yn effeithiol ac nid yw'n gwneud unrhyw argymhelliad o ran gallu'r Cyngor i ymdrin â chwynion yn effeithiol ac yn unol â'i Bolisi Pryderon a Chwynion Corfforaethol.**

## 4. OMBWDSMON GWASANAETH CYHOEDDUS CYMRU: LLYTHYR BLYNYDDOL 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Council Business)/Swyddog Monitro a oedd yn cynnwys y Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) 2021/22 er mwyn i'r Pwyllgor ei ystyried. Ers 2006, mae OGCC wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y gwaith a wnaed gan ei swyddfa dros y deuddeg mis blaenorol. Mae OGCC hefyd yn cyhoeddi crynodeb blynyddol ar wahân o berfformiad ar gyfer pob cyngor trwy lythyr blynyddol ac yn gwneud ceisiadau penodol ynghylch adrodd y llythyr yn cynnwys ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i helpu aelodau i graffu ar berfformiad y Cyngor a bod eu hadborth yn cael ei rannu gyda swyddfa'r OGCC.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi a derbyn y Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) 2021/22 heb sylw pellach.**
- **Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i ysgrifennu at OGCC i gadarnhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi rhoi ystyriaeth ffurfiol i'w Llythyr Blynyddol ac i roi sicrwydd y bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cwynion a thrwy hynny roi'r wybodaeth sydd ei hangen i Aelodau graffu ar berfformiad y Cyngor.**

**5. ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL 2021/22**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd oedd yn cynnwys yr Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar gyfer 2021/22 i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd y Prif Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fod yr adroddiad yn ddatganiad o berfformiad iechyd a diogelwch y Cyngor yn ystod 2021/22 a bod Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch corfforaethol hefyd yn cael ei weithredu gan y Cyngor ar hyn o bryd. Mae'r dystiolaeth gafodd ei chynnwys gan yr adroddiad yn dangos bod y Cyngor yn darparu safonau priodol o ran iechyd a diogelwch.

Wrth ystyried yr adroddiad, fe wnaeth y Pwyllgor y pwyntiau canlynol –

- Er eu bod yn croesawu'r wybodaeth ynglŷn â phresenoldeb mewn sesiynau hyfforddi, awgrymwyd y byddai'n fuddiol pe bai data Adroddiadau Blynyddol Iechyd a Diogelwch yn y dyfodol yn gallu cynnwys nifer y bobl sy'n bresennol fel canran o'r nifer y byddai disgwyl iddyn nhw fod yn bresennol a,
- Byddai hefyd yn fuddiol pe bai'n haws dangos unrhyw dueddiadau, patrymau a/neu bwyntiau dysgu sy'n dod i'r amlwg o'r wybodaeth a gyflwynir e.e. yr atgyfeiriadau at HSE o dan ofynion RIDDOR yn adran 9 yr adroddiad.

Dywedodd y Prif Gynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fod gwybodaeth a ddarparwyd gan Adnoddau Dynol a Hyfforddiant yn dangos bod pandemig Covid wedi effeithio ar hyfforddiant wyneb yn wyneb oherwydd y cyfyngiadau a oedd yn eu lle ar y pryd. Er bod cyrsiau hyfforddi ar gynnydd mae disgwyl y bydd cynnydd ym mhresenoldeb sesiynau hyfforddi yn cael ei adlewyrchu yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf. O ran RIDDOR, cadarnhaodd y Swyddog nad oedd yr HSE wedi cymryd unrhyw gamau dilynol mewn perthynas â'r digwyddiadau RIDDOR a adroddwyd. O ran bod unrhyw feysydd sy'n dod i'r amlwg sydd angen camau ataliol ychwanegol, dywedodd y Cynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fod ffigyrau'n parhau i fod yn is na'r lefelau cyn Covid wrth i'r Cyngor barhau i ddod allan o'r pandemig; Er bod disgwyl i adroddiad y flwyddyn nesaf roi adlewyrchiad cywirach o'r sefyllfa iechyd a diogelwch, mae'n bosibl y bydd y pandemig wedi arwain at rai newidiadau arferion gan gynnwys ymwybyddiaeth gynyddol o iechyd a diogelwch.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar gyfer 2021/22 a chymeradwyo'r argymhellion.**

**Camau a Argymhellir – Bod adroddiadau Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn y dyfodol yn cynnwys data am nifer y bobl y disgwylir iddynt fynychu sesiynau hyfforddi unigol yn ogystal â'r nifer sy'n mynychu mewn gwirionedd.**

**6. ADRODDIAD BLYNYDDOL ATAL TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD 2021/22**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2021/22 i'r Pwyllgor ei ystyried. Roedd yr adroddiad yn

amlinellu’r gweithgaredd a gynhaliwyd yn ystod 2021/22 i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd o fewn ac yn erbyn y Cyngor, a thynnwyd sylw at rai o'r meysydd risg twyll presennol a rhai sy’n dod i’r amlwg, gan gynnwys y rhai hynny sy’n gysylltiedig â’r pandemig Covid-19.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor ar gynnwys yr adroddiad, dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg –

- Er bod y Cyngor wedi ymrwymo i atal a nodi twyll a bod ganddo bolisïau a gweithdrefnau yn eu lle i'w helpu i wneud hynny, nid yw'n bosibl rhoi sicrwydd llwyr ar draws holl weithgareddau'r Cyngor nad yw twyll yn digwydd. Mae cynghorau mewn perygl cyson o dwyll ac ni waeth beth yw'r mesurau atal, bydd nifer o gynghorau ar ryw adeg yn delio â cholledion oherwydd twyll. Dylai'r Cyngor barhau i wella ymwybyddiaeth twyll ymhlith staff gan sicrhau bod pob aelod o staff yn cwblhau'r hyfforddiant priodol.
- O ran defnyddio technoleg i fynd i'r afael â thwyll, mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn ymarfer paru data gyda'r Fenter Twyll Genedlaethol lle mae cofnodion yn cael eu cymharu i nodi hawliadau a thaliadau a allai fod yn dwyllodrus. O ran yswiriant dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth(Adnoddau)/Adran 151 fod y Cyngor yn cyflogi cwmni allanol sy'n rhannu gwybodaeth ar draws y sector sy'n golygu bod hawliadau amheus neu reolaidd yn cael eu nodi.
- Er bod y tîm archwilio allanol, wrth archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, yn asesu'r risg o ddiystyru dulliau rheoli posibl gan reolwyr, prif ddull y Cyngor o atal twyll yw ei system rheoli mewnol.
- Y Gostyngiad yn y Dreth Gyngor i Berson Sengl yw'r prif faes risg o ran twyll i'r Cyngor. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y Cyngor yn gweithio â chwmni allanol i wirio eiddo o bryd i'w gilydd lle mae Gostyngiad i Berson Sengl yn berthnasol yn erbyn cronfeydd data eraill i nodi unrhyw anghysonderau a/neu wallau. Pan geir anghysonderau o'r fath, bydd y sawl sy’n hawlio’r Gostyngiad i Berson Sengl yn cael gwybod bod y gostyngiad yn cael ei ganslo oni bai eu bod yn gallu darparu tystiolaeth eu bod yn byw ar eu pennau eu hunain.

  Nododd y Pwyllgor fod y diffyg data rhanbarthol a lleol cyfredol am lefel y twyll a’r prif sectorau y mae'n digwydd ynddynt yn annigonol.

**Penderfynwyd derbyn Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2021 a nodi'r gweithgaredd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd o fewn y Cyngor, ac yn ei erbyn.**

## 7. ADOLYGIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 oedd yn cynnwys adolygiad o weithgaredd rheoli'r Trysorlys yn 2021/22 i’r Pwyllgor ei ystyried.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Adran 151 grynodeb o’r prif ganlyniadau am flwyddyn ariannol 2021/22 gan gyfeirio at y canlynol –

- Ffactorau allanol gan gynnwys y cyd-destun economaidd, perfformiad cyfraddau llog ac effaith Covd-19.
- Ffactorau mewnol gan gynnwys perfformiad gwariant cyfalaf, yr effaith ar y cronfeydd wrth gefn a balansau arian parod, archwaeth risg o ran buddsoddiadau, y benthyciadau a gymerwyd gan y Cyngor a’r effaith ar y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC).
- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn 2021/22
- Rheoli'r Trysorlys drwy Ddangosyddion Darbodus a sut y cânt eu rheoli



DRAFT

- Cymharu Dangosyddion Darbnodus gwirioneddol gyda'r rhagolygon ar ddechrau'r flwyddyn
- Y rhagolygon ar gyfer 2022/23 a thu hwnt.

Wrth ystyried yr adroddiad bu'r Pwyllgor yn trafod gwariant cyfalaf a'r tanwariant ar y gyllideb gyfalaf; eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) y ffactorau perthnasol - y prif un oedd y tanwariant sylweddol ar y Cyfrif Refeniw Tai oherwydd y rhesymau a amlinellwyd. Mewn ymateb i gwestiwn am gynnal pŵer prynu'r Cyngor, eglurodd sut y gall sefyllfa contractau'r Cyngor yn enwedig ei gontractau refeniw mwyaf weithio o blaid y Cyngor i'w ddiogelu rhag chwyddiant ond dim ond os yw'r elfen chwyddiant yn fyr dymor gan fod y rhan fwyaf o'r contractau'n cael eu hadolygu'n flynyddol. Os yw chwyddiant yn parhau'n uchel pan fydd contractau'n cael eu hadolygu a/neu eu hadnewyddu, yna bydd y Cyngor yn wynebu prisiau uwch. O ran cynyddu enillion drwy fuddsoddiad, dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) gan fod cyfraddau llog ar i fyny, mae'n debygol y bydd mwy o gyfleoedd i gynyddu elw ar fuddsoddiadau eleni a bydd yr incwm ychwanegol yn gymorth i wrthbwyso prisiau cynyddol.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi y bydd y ffigyrau alldro yn yr adroddiad hwn yn parhau i fod yn rhai dros dro nes bod yr archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2021/22 wedi'i gwblhau a'i lofnodi; adroddir fel sy'n briodol ar unrhyw addasiadau sylweddol sy'n deillio o'r ffigyrau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn;**
- **Nodi'r dangosyddion darbodus a thrysorlys dros dro ar gyfer 2021/22 yn yr adroddiad hwn;**
- **Ystyried yr adroddiad rheoli trysorlys blynyddol ar gyfer 2021/22 a'i gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith gydag unrhyw sylwadau.**

## 8. DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg gyda diweddariad ar 31 Awst, 2022 ar yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad blaenorol i'r Pwyllgor ym mis Mehefin, 2022 i'r Pwyllgor ei ystyried. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi llwyth gwaith presennol Archwilio Mewnol a'i flaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i'r tymor canolig wrth symud ymlaen. Rhoddwyd copïau o'r pedwar darn o waith sicrwydd i aelodau'r Pwyllgor a gwblhawyd yn y cyfnod mewn perthynas â Rheoli'r Risg o Dwyll a Llygredd wrth Gaffael (Sicrwydd Rhesymol); Taliadau Uniongyrchol (Sicrwydd Rhesymol) a Pharhad Gwasanaeth TG (Gwe-rwydo) - Dilyniant Cyntaf (Sicrwydd Rhesymol) a Rheoli Gwendid TG (Sicrwydd Cyfyngedig) ar wahân.

Bu'r Pwyllgor yn trafod yr Adolygiad Sicrwydd Cyfyngedig mewn cysylltiad â Rheoli Gwendid TG a chododd gwestiynau am yr amserlen ar gyfer mudo dyfeisiau i Microsoft Endpoint/Azure a fyddai'n mynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd gan yr adolygiad. Dywedodd y Pwyllgor fod y ffaith bod cynnydd yn araf a bod risgiau sylweddol yn bodoli yn y cyfamser yn destun pryder.

Esboniodd Rheolwr Tîm TG y materion sy'n gysylltiedig â'r broses fudo a chadarnhaodd fod y dyddiad cau ar 30 Medi, 2023 ar gyfer y dasg yn adlewyrchu amserlen y credir sy'n gywir ar gyfer cwblhau'r gwaith. Er bod disgwyl y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei gwblhau cyn y dyddiad cau mae rhai meysydd busnes lle mae hen raglenni meddalwedd o hyd sy'n dibynnu ar ddulliau defnyddio hanesyddol na ellir eu hefelychu. Er y gallai'r dyddiad gweithredu fod yn hirach o dan yr amgylchiadau hynny, mae'n berthnasol i ganran fach o ddefnyddwyr lle mae angen cwblhau'r gwaith o uwchraddio meddalwedd neu waith mudo. Mae gwaith yn parhau gyda'r meysydd busnes a'r cyflenwyr hynny i nodi atebion yn ogystal â sefydlu pa gyfradd trosi y gellir ei chyflawni pan fydd cynllun strwythuredig yn ei le. Hefyd

gwnaed trefniadau i sicrhau bod newidiadau'n cael eu cofnodi'n ffurfiol a byddant yn cynnwys proses ddigidol sy’n tynnu sylw at newidiadau ar sail risg. Bydd unrhyw newid sy'n cael ei gategoreiddio fel un sylweddol gyda risg i systemau craidd yn cael ei gyfeirio at fwrdd newid o fewn yr adran TG.

Sicrhawyd y Pwyllgor hefyd yng nghyd-destun adolygiad Dilyniant Cyntaf y Gwasanaeth TGCh (Gwe-rwydo) fod hyfforddiant ymwybyddiaeth seiber yn cael ei ddiweddaru er mwyn cadw i fyny gydag ymosodiadau seiber cynyddol soffistigedig, a bod y cwrs hyfforddi presennol yn y broses o gael ei addasu ac y bydd angen i staff ddangos eu dysgu drwy gwis a fydd yn darparu gwybodaeth ynghylch cyfraddau pasio a throthwyon. Mae rhaglen hyfforddi newydd hefyd yn cael ei chaffael i wella ymwybyddiaeth a chydnabyddiaeth o ymosodiadau gwe-rwydo.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi lefel sicrwydd a blaenoriaethau Archwilio Mewnol wrth symud ymlaen.**

**Camau a argymhellir - bod y Pwyllgor yn cael ei ddiweddaru yn ei gyfarfod ym mis Chwefror, 2023, ar y cynnydd a wneir i weithredu'r Cynllun Gweithredu Rheoli Gwendid TG.**

## 9. MATERION A RISGIAU SYDD ANGEN SYLW

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn rhoi diweddariad ar statws materion/risgiau sydd angen sylw a godwyd gan Archwilio Mewnol i'w hystyried gan y Pwyllgor.

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol yr adroddiad a rhoddodd drosolwg o'i gynnwys.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi cynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r Materion/Risgiau Archwilio Mewnol sydd angen sylw.**
- **Cefnogi’r cynnig fod perchnogion gweithredoedd sylweddol neu ambr, nad ydynt wedi cael eu datrys 12 mis ar ôl i’r dyddiad targed gwreiddiol fynd heibio, yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfod o’r Pwyllgor er mwyn rhoi gwybodaeth am y rheswm dros unrhyw oedi wrth fynd i’r afael â’r mater/risg.**

## 10. ARCHWILIO ALLANOL: TALIADAU UNIONGYRCHOL AR GYFER GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION

- Cyflwynwyd adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Daliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion i’r Pwyllgor ei ystyried. Roedd yn edrych ar sut mae awdurdodau lleol yng Nghymru’n darparu gwasanaethau taliadau uniongyrchol i oedolion, gan ystyried eu heffaith a'u gwerth am arian. Gwneir deg argymhelliad i wella

- Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, a oedd yn nodi ymateb y Gwasanaethau Cymdeithasol i adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i’r Pwyllgor ei ystyried a chael sicrwydd. Roedd yr ymateb ar sail Cynllun Gweithredu oedd yn mynd i'r afael â phob un o argymhellion adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn unigol.

Cadarnhaodd Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod y Gwasanaeth yn cydnabod manteision Taliadau Uniongyrchol wrth ddarparu dewis, amrywiaeth a chyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth ac o ran cynnig hyblygrwydd o ran pwy maent yn dewis eu cyflogi ac ar gyfer pa dasg y maent yn eu cyflogi.  Mae Swyddog penodol wedi'i gyflogi i annog pobl i fanteisio ar y

cynllun ac mae 239 wedi gwneud hyd yn hyn. Ers cyhoeddi adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, mae Ynys Môn wedi cynyddu ei gyfradd cymorth personol bob awr i £13.10 sy'n is na'r gyfradd y byddai'n ei thalu pe bai'r gwasanaeth yn cael ei gomisiynu'n allanol sy'n golygu, yn ogystal â bod yn fanteisiol i'r unigolyn, bod y cynllun Taliadau Uniongyrchol hefyd yn gost-effeithiol i'r Awdurdod. Yn ddiweddar, adolygwyd polisi Taliadau Uniongyrchol, y canllawiau a'r wefan gyda'r bwriad o sicrhau bod Taliadau Uniongyrchol yn cael eu cynnig fel opsiwn ochr yn ochr â dewisiadau eraill ac nid yn unig pan nad yw dewisiadau eraill ar gael.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor am y cynllun Taliadau Uniongyrchol a sut mae'n gweithio, cadarnhaodd Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod cyfradd yr awr ar Ynys Môn tua'r canol o gymharu ag awdurdodau lleol eraill Cymru. Dywedodd y Swyddog fod sefydliad trydydd sector - Cyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru wedi ei gomisiynu i ddarparu cymorth ac arweiniad i ddefnyddwyr gwasanaeth wrth weinyddu Taliadau Uniongyrchol ac eglurodd beth mae hyn yn ei olygu. Er y bydd unigolion o bosibl am weinyddu'r taliadau eu hunain maent yn cael eu hannog i wneud hynny drwy Gyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru gan fod hyn yn cynnig mesurau diogelu ac elfen o ddiogelwch. Er y credir bod potensial i ymestyn y cynllun Taliadau Uniongyrchol ymhellach rhagwelir y bydd y nifer sy'n manteisio ar y cynllun yn lleihau yn y pen draw gan nad yw'r cynllun yn addas i bob cleient.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â Thaliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion.**
- **Cydnabod ymateb y Gwasanaethau Cymdeithasol i adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n deillio o'i astudiaeth genedlaethol o Daliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion a**
- **Chadarnhau bod y Pwyllgor yn cael sicrwydd drwy ymateb y Gwasanaeth ar sail y Cynllun Gweithredu i'r astudiaeth genedlaethol o Daliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion.**

**11. RHAGLEN WAITH AC AMSERLEN ARCHWILIO CYMRU – CYNGOR SIR YNYS MÔN**

Cyflwynwyd adroddiad Archwilio Cymru ar ei Raglen Waith a'r Amserlen ar 30 Mehefin, 2022 er gwybodaeth i'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar gynnydd a statws gwaith archwilio ariannol a pherfformiad Archwilio Cymru a oedd yn cynnwys astudiaethau wedi'u cynllunio a'u cyhoeddi ac yn cynnwys gwaith Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch archwilio'r datganiadau ariannol a ph'un ai y gallai fod unrhyw faterion a allai ohirio'r gwaith o gwblhau'r archwiliad erbyn y dyddiad cau ar ddiwedd mis Tachwedd, cadarnhaodd Ms Yvonne Thomas, Arweinydd Archwilio Cymru, fod yr archwiliad yn parhau a bod rhan sylweddol o'r gwaith wedi ei gwblhau. Er nad oes unrhyw faterion wedi'u nodi hyd yma mae rhai gwelliannau wedi'u hamlygu; unwaith y daw'r cyfrifon diwygiedig i law Archwilio Cymru ynghyd â'r wybodaeth brisio y mae'r Cyngor yn ei darparu - deallir bod hynny ar fin digwydd - ni ddylai'r gwaith o gwblhau'r archwiliad gael ei ohirio. Fodd bynnag, mae mater posibl wedi codi mewn perthynas â thrin asedau isadeiledd a sut mae'r rhain yn cael eu harchwilio – disgwylir am ganllawiau pellach a chadarnhad ynghylch y sefyllfa derfynol ar y mater hwn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredu (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 er y cytunwyd ag Archwilio Cymru i flaenoriaethu'r meysydd hynny o'r cyfrifon y gellir eu harchwilio, mae dau fater sy'n effeithio ar bob cyngor yng Nghymru a'r rhan fwyaf yn Lloegr sy'n ymwneud â –



DRAFT

- Phrisio eiddo, peiriannau ac offer. Gan fod prisiau eiddo ar gynnydd a gan nad yw pob eiddo'n cael ei brisio'n flynyddol, mae pryderon wedi'u lleisio y gallai gwerth eiddo felly gael ei dan ddatgan ar fantolenni'r awdurdod lleol. Mae'r Cyngor yn gorfod gwneud gwaith pellach i ddangos nad yw gwerth ei eiddo yn cael ei dan ddatgan neu os ydyw, o faint. Tra bod trafodaethau rhwng Archwilio Cymru a CIPFA ynglŷn â sut y gall cynghorau ddangos hyn wedi achosi rhywfaint o oedi, mae Ynys Môn wedi penderfynu cynnal prisiad bwrdd gwaith sydd yn y broses o gael ei gwblhau ac yn dilyn hynny bydd yr wybodaeth yn cael ei chyflwyno i'r archwilwyr.
- Trin asedau isadeiledd sy'n cynnwys ffyrdd a phontydd. Yn hanesyddol mae'r rhain wedi cael eu prisio ar y fantolen yn ôl y gwariant arnynt a chânt eu dibrisio dros amser. Mae mater wedi ei godi mewn perthynas â sut mae cynghorau'n dangos, pan fydd rhan o ased isadeiledd yn cael ei newid fod gwerth yr ased gwreiddiol wedi ei ddibrisio i sero yn y cyfrifon. Er mai dyna'r dybiaeth, gofynnir i gynghorau ddarparu tystiolaeth ategol sef gwybodaeth nad yw llawer o gynghorau yn ei chadw gan nad ydynt yn cofnodi gwariant/gwerth asedau fel hyn.

Mae trafodaethau rhwng y cyrff cyfrifo perthnasol i ddod o hyd i ffordd ymlaen o ran cyfrifon 2021/22 (ac yn achos rhai awdurdodau lleol yn Lloegr o ran cyfrifon 2020/21 lle mae hyn yn parhau i fod yn fater sydd angen sylw ac yn atal eu cadarnhau) yn parhau a gallai hyn ohirio'r gwaith o gwblhau'r broses archwilio cyfrifon. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y posibilrwydd o gyflwyno hawl statudol i ddiystyru'r maes hwn o'r gofynion yn y Cod Ymarfer. Fodd bynnag, hyd nes y gwneir hynny neu os na fydd yr hawl statudol yn cael ei gyhoeddi mewn pryd gallai cyfrifon 2021/22 y Cyngor fod yn destun barn archwilio gymwys ar y sail nad ydynt yn cydymffurfio â'r Cod wrth drin asedau isadeiledd fel y mae, neu tra bo'n aros am ateb i'r mater, bydd y dyddiad cau statudol ar gyfer cyhoeddi'r cyfrifon archwilio yn cael ei fethu. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod Prif Swyddogion Cyllid y 22 awdurdod lleol yng Nghymru fel Cymdeithas Trysoryddion Cymru wedi uwchgyfeirio'r mater i Archwilio Cymru a Cipfa Cymru a bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'u pryderon gan fod cynrychiolaeth o'r gwasanaeth sifil yn y cyfarfodydd hynny.

Gan gydnabod yr angen am ddatrysiad buan i'r mater, mynegodd y Pwyllgor bryder am y diffyg cynnydd i ddod i benderfyniad ar sut i fwrw ymlaen a'r effaith bosibl o ganlyniad ar broses archwilio'r cyfrifon os na wneir penderfyniad mewn pryd i'r Cyngor allu cadw at y dyddiad cau statudol. Pwysleisiwyd y dylid ystyried pob llwybr ac awgrymwyd bod y Pwyllgor yn cefnogi'r sylwadau a wnaed eisoes neu fod y Cyngor trwy'r Arweinydd a/neu'r Prif Weithredwr yn gweithredu law yn llaw â chynghorau eraill Cymru i gyflwyno sylwadau yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru ynghylch yr angen i gyflwyno hawl statudol i ddiystyru'r maes hwn. **Er mwyn hwyluso'r mater ymhellach, dywedodd Cyfarwyddwyr Swyddogaeth (Adnoddau)/y Swyddog Adran 151 y byddai'n codi pryderon y Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf o Grŵp Gweithredu Cymdeithas Trysoryddion Cymru ddydd Mercher, 5 Hydref, 2022**.

**Nodwyd Rhaglen Archwilio Cymru a'r Diweddariad o'r Amserlen.**

## 12. ADOLYGIAD O'R BLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys Blaenraglen Waith a Rhaglen Hyfforddi y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 i'r Pwyllgor ei ystyried.

Pwysleisiodd y Pennaeth Archwilio a Risg nad yw'r Rhaglen Waith fel y'i cyflwynwyd yn adlewyrchu cyfarfod ychwanegol ar 23 Tachwedd 2022 i ystyried y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Terfynol ar gyfer 2021/22 a Datganiad Terfynol y Cyfrifon 2021/22.



DRAFT

**Penderfynwyd derbyn y Blaenraglen Waith fel un sy'n cyflawni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'r cylch gorchwyl gan ychwanegu cyfarfod 23 Tachwedd, 2022.**

**13. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**Ystyriwyd a phenderfynwyd -**

**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeedig."**

**14. ADRODDIAD BLYNYDDOL SEIBERDDIOGELWCH 2022**

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Seiberddiogelwch 2022 i'r Pwyllgor ei ystyried.

Roedd yr adroddiad yn rhoi amlinelliad cyffredinol o'r bygythiadau seibr cyffredin sy'n wynebu'r Cyngor ynghyd â rhai o'r mesurau rheoli lliniarol a'r mesurau rheoli gweithredol a sefydlwyd gan y Cyngor i ganfod ac atal gweithgarwch maleisus. Cafodd y Pwyllgor wybod bod yr Adran TG wedi bod yn gweithredu technolegau newydd i helpu i ganfod gwendidau a digwyddiadau ymwthiol yn gynnar. Mae polisïau a gweithdrefnau hefyd wedi bod yn cael eu diweddaru yn ystod 2021/22. Bydd hyn yn helpu i gryfhau'r broses ymchwiliol wrth ymateb i ddigwyddiadau yn ogystal â'r Polisi Ymateb i Ddigwyddiadau newydd.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad fel un sy'n rhoi sicrwydd fod gan y Cyngor fesurau rhesymol yn eu lle i reoli bygythiadau seibr i lefel derbyniol.**

**15. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**Ystyriwyd a phenderfynwyd -**

**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig."**

**16. DIWEDDARIAD COFRESTR RISG STRATEGOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys y Gofrestr Risg Strategol i'r Pwyllgor ei ystyried. Dywedwyd wrth y Pwyllgor nad oes unrhyw risgiau newydd wedi'u nodi ac nad oes unrhyw risgiau wedi'u cau ers i'r gofrestr risg strategol gael ei chyflwyno ddiwethaf i'r Pwyllgor. Tynnodd yr adroddiad sylw at dri risg lle gwnaed newidiadau o ran tebygolrwydd ac effaith yn dilyn adolygiad gan y Tîm Arweinyddiaeth Strategol gyda lefel y risg wedi'i diwygio yn unol â ffactorau yn yr amgylchedd economaidd a chadernid mesurau lliniaru presennol. Nododd yr adroddiad hefyd y prif risgiau strategol gweddilliol (coch/critigol) i'r Cyngor.

Bu'r Pwyllgor yn trafod y saith perygl gweddilliol coch/ critigol ar y Gofrestr Risg a mynegwyd peth bryder. Gofynnwyd a oedd y risgiau hyn yn gofyn am reolaeth neu gamau ychwanegol i ostwng y sgôr neu a oedd y sgôr wedi'i gosod yn uwch nag y dylai fod. Cafodd y Pwyllgor wybod bod yr holl risgiau ar y Gofrestr Risg wedi cael eu hasesu gan y Tîm Arweinyddiaeth yn erbyn y matrics sgorio risg sy'n gosod archwaeth risg y Cyngor. Er y gellir grwpio'r saith risg gweddilliol coch/critigol yn dair thema hanfodol sy'n cwmpasu'r economi, technoleg gwybodaeth ac asedau ffisegol, mae'n haws at ddibenion Archwilio Mewnol os ydynt yn cael eu nodi ar wahân.



DRAFT

Roedd y Pwyllgor yn derbyn y bydd rhai o'r risgiau gweddilliol coch/critigol yn eu hanfod wastad yn bodoli - gan eu bod yn gysylltiedig â phobl, asedau, technoleg gwybodaeth a'r economi ehangach maent yn rhan barhaol o fusnes y Cyngor a gweithrediadau o ddydd i ddydd. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'r Cyngor fyw gyda'r risgiau hyn ond trwy eu nodi, eu hasesu a'u monitro'n rheolaidd, gellir eu rheoli i lefel dderbyniol.

*(Gan fod y cyfarfod bellach wedi bod ar y gweill ers tair awr, yn unol â gofynion para. 4.1.10 o'r Cyfansoddiad gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau oedd yn bresennol a oedden nhw'n dymuno i'r cyfarfod barhau. Pleidleisiodd mwyafrif o'r Aelodau hynny oedd yn bresennol o blaid parhau â'r cyfarfod).*

**Penderfynwyd nodi'r gwelliannau a wnaed mewn perthynas â'r Gofrestr Risg Strategol a chael sicrwydd bod y Tîm Arweinyddiaeth wedi cydnabod ac yn rheoli'r risgiau i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.**

**Mr Dilwyn Evans**
**(Cadeirydd)**

DRAFFT

## PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## Cofnodion y Cyfarfod Rhithwir a gynhaliwyd 20 Hydref 2022

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Mr Dilwyn Evans (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Euryn Morris (Dirprwy Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Neville Evans, Dyfed W Jones, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Margaret M Roberts.<br><br>Aelodau Lleyg – Mr William Parry, Mrs Sharon Warnes, Mr Michael Wilson. |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Pennaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff,<br>Pennaeth Archwilio a Risg (MP),<br>Prif Archwilydd (NW),<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Boddhad Cwsmeriaid). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr Andrew Lewis – Uwch Archwilydd |

---

**1 DATGAN DIDDORDEB**

Ni ddaeth yr un i law.

**2 ADOLYGIAD O’R ADRODDIAD HUNAN-ASESIAD BLYNYDDOL DRAFFT.**

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid sy'n cynnwys Hunanasesiad Corfforaethol 2021/2022 i’r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid fod yr adroddiad yn cynnwys tystiolaeth o allbwn y fframwaith cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad y Cyngor.  Ystyriwyd yr Adroddiad Hunanasesu Blynyddol drafft i ddechrau gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf, 2022 ac wedyn gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf, 2022 yn unol â'r Cyfansoddiad.  Dywedodd fod gwelliannau a gynigiwyd gan y cyfarfod hwn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a bydd diwygiadau pellach y mae'r Pwyllgor yn dymuno eu gwneud yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Sir llawn ar 27 Hydref, 2022.

Wrth ystyried yr adroddiad, fe wnaeth y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:-

DRAFT

- Er bod eglurhad wedi'i gynnwys bellach o fewn yr adroddiad o ran y cynnydd yn y cronfeydd wrth gefn, codwyd cwestiynau ynghylch a yw'r Cyngor yn fodlon gyda'r lefel bresennol o gronfeydd wrth gefn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ar gyfer risgiau posibl ac i ariannu prosiectau penodol. Mae'r cronfeydd cyffredinol wrth gefn yn cael eu cadw ar 5% o gyllideb net yr awdurdod sy'n cyfateb i £8m. Nododd oherwydd ansicrwydd yn 2021/2022 wedi i'r cyfyngiadau Covid ddod i ben, a hefyd p'un ai a fyddai Llywodraeth Cymru'n gallu ariannu'r costau ychwanegol, roedd yn argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn gosod y balans isaf ar gyfer diwedd blwyddyn ariannol 2021/2022 ar £9m. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol roedd yn fwy na'r isafswm o £12m, a bydd hyn nawr yn caniatáu i'r Cyngor fod mewn sefyllfa ariannol well er mwyn mynd i'r afael â heriau cyllido y mae'n eu hwynebu o 2023/2024 ymlaen.
- Cyfeiriwyd y dylid cynnwys yn yr adroddiad fod Archwilio Mewnol wedi adolygu'r ddogfen yn hytrach nag yn yr adroddiad eglurhaol.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod a gynhelir ar 27 Hydref, 2022 fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn yr adroddiad yn amodol ar gynnwys y canlynol:-**

- **Nodi ar dudalen 20 o'r adroddiad fod y Cyngor yn fodlon â'r lefel gyffredinol o gronfeydd wrth gefn; a**
- **Bod Archwilio Mewnol wedi adolygu'r ddogfen ac y dylai gael ei chynnwys o fewn yr adroddiad yn hytrach nag yn yr adroddiad eglurhaol.**

**GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.**

**3 ARCHWILIO ALLANOL: LLAMU YMLAEN – CYNGOR SIR YNYS MÔN**

Cyflwynwyd adroddiad Archwilio Cymru i'r Pwyllgor ei ystyried.

Yn absenoldeb Mr Alan Hughes, Archwilio Cymru darllenwyd y sylwadau canlynol ar ei ran i'r Pwyllgor:-

*'Prif negeseuon adroddiad Llamu Ymlaen oedd y byddai ystyried a chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n fwy amlwg yn arwain at ddealltwriaeth fwy cyflawn am yr heriau a gyflwynir gan asedau adeiladau a gweithlu'r Cyngor, ac yn arwain at weledigaethau, strategaethau a chynlluniau gwell:-*

- *Mae'r Cyngor yn deall yr heriau a gyflwynir gan ei bortffolio tir ac adeiladau ond nid yw wedi datblygu gweledigaeth gorfforaethol ar gyfer ei asedau na'r cynlluniau cyflawni cysylltiedig eto*
- *Mae'r Cyngor wedi rhesymoli a moderneiddio rhan o'i sylfaen asedau a'i fodel darparu gwasanaethau, ond nid yw hyn yn cael ei lywio gan weledigaeth gorfforaethol glir eto*
- *Bydd diffinio ac adolygu cynnydd tuag at amcanion tymor byr, canolig a hir ar*
- *gyfer ei sylfaen asedau'n cryfhau gallu'r Cyngor i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu ei wasanaethau;*

DRAFT

- *Mae gan y Cyngor weledigaeth a themâu cyflawni allweddol ar gyfer ei weithlu a all gael eu cryfhau trwy ystyriaeth fwy amlwg o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy a gwreiddio ymhellach y gwersi a ddysgwyd o'r pandemig*
- *Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â staff a rheolwyr ac mae'n ymatebol i'r heriau o ran y gweithlu, ac yn cydnabod yr angen i ddatblygu strategaethau integredig tymor hirach ac wedi cychwyn ar wneud hynny*
- *Mae'r Cyngor yn cynnal trosolwg o faterion cyfredol o ran y gweithlu ond mae cyfle i wneud mwy o ddefnydd o ddata a defnyddio meincnodi i fesur llwyddiant cyfredol a thymor hir ei fentrau mewn perthynas â'r gweithlu.*

Dywedodd y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid fod crynodeb adroddiad 'Llamu Ymlaen' yn berthnasol i bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru; nid yw popeth sydd yn y cyflwyniad yn benodol ac yn berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn. Dywedodd y Swyddog ei bod yn gwerthfawrogi'r cyfle i drafod y ddogfen Archwilio Cymru. Dywedodd ei bod yn galonogol fod yr adroddiad yn cydnabod bod gan y Cyngor arferion da a'i fod cefnogi ac yn cadw at y pum ffordd o weithio y manylir arnynt o fewn Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd yn bwysig nodi bod y cyfweliadau a'r gwaith archwilio cychwynnol wedi dechrau ym mis Rhagfyr 2021 a bod nifer o faterion a gafodd eu codi o fewn yr adroddiad wedi cael sylw ers hynny. Fel esiampl, cyfeiriodd at y materion recriwtio cenedlaethol a nododd fod y Cyngor hwn wedi mynd i'r afael â hyn drwy baratoi strategaeth farchnata ynghyd â phenodi swyddog penodol i ddelio â marchnata swyddi gwag; Mae cynllun gweithredu strategaeth pobl wedi'i weithredu ar gyfer 2022/2023, polisi hybrid ar gyfer staff sy'n weithredol ers 1 Chwefror 2022, mae strategaeth y gweithlu wrthi'n cael ei diweddaru.

Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff fod cyfeiriad yn yr adroddiad at y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol a'i bod yn fwriad cyflwyno'r ddogfen hon i'r Pwyllgor Gwaith cyn etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai eleni ond yn dilyn cyfarwyddyd gan y Pwyllgor Gwaith, nodwyd bod y Cynllun yn cael ei ystyried gan y weinyddiaeth newydd ar ôl yr etholiadau ym mis Mai. Mae swyddog dynodedig bellach wedi'i benodi i ganolbwyntio ar faterion eiddo a'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol. Pwysleisiodd ymhellach fod cyfrifoldebau adeiladau'r Cyngor yn cynnwys pob gwasanaeth o fewn y Cyngor gyda staff wedi eu symud i'r prif adeilad. Mae gwaith eisoes wedi'i wneud i resymoli asedau corfforaethol y Cyngor ac nad oes llawer o gapasiti i wneud mwy. Byddai rhesymoli unrhyw asedau gwasanaeth (Ysgolion, Llyfrgelloedd, a Chanolfannau Hamdden ac ati) yn fater ehangach i bob gwasanaeth ei ystyried. Mae gan y Cyngor dros 100 o fân ddaliadau i'w cynnal ac mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i uwchraddio'r stad mân ddaliadau, a bydd cynllun 10 mlynedd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried yn y Flwyddyn Newydd. Dywedodd ymhellach fod gwaith yn cael ei wneud drwy Grŵp Llywio o ran defnyddio ynni, datgarboneiddio, lleihau'r costau ynni oherwydd yr argyfwng ynni presennol.

Wrth ystyried yr adroddiad, fe wnaeth y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:-

- Cyfeiriwyd o fewn yr adroddiad Archwilio Allanol nad yw'r Cyngor wedi datblygu gweledigaeth gorfforaethol ar gyfer ei asedau eto. Mewn ymateb, fod y gwasanaeth yn ymateb i argyfwng ar hyn o bryd all godi o fewn adeiladau'r Cyngor. Penodir swyddog dynodedig i ddelio â'r Cynllun Rheoli Asedau

DRAFT

Corfforaethol a fydd yn gyfrifol am y portffolio eiddo a fydd yn delio â datblygu gweledigaeth gorfforaethol asedau'r Cyngor.

- Cyfeiriwyd at yr argymhellion o fewn yr adroddiad o ran datblygu'r defnydd o ddata a meincnodi i lywio cynllunio, gosod cyllidebau, a monitro ac asesu llwyddiant mwy hirdymor ei asedau a chynlluniau'r gweithlu. Codwyd cwestiynau ynghylch a yw gwasanaethau'r Cyngor yn defnyddio'r data sydd ganddyn nhw i gynllunio ymlaen llaw a chael gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth y Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid fod cynllunio'r gweithlu yn cael ei ystyried yn aml fel gweithgaredd Adnoddau Dynol tra mai gweithgaredd gwasanaeth a gefnogir gan Adnoddau Dynol ydyw mewn gwirionedd.
- Cyfeiriwyd fod angen i'r adroddiad fod yn berthnasol i Gyngor Sir Ynys Môn yn hytrach nag i'r 22 awdurdod lleol. Nodwyd bod angen paratoi Cynllun Gweithredu i fynd i'r afael â'r materion perthnasol sy'n cael eu codi yn yr adroddiad. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth y Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid fod llawer o'r materion a godwyd yn yr adroddiadau wedi cael sylw. Dywedodd, o fewn ei chyfrifoldebau, fod cynllun marchnata a recriwtio strategol wedi ei baratoi a fydd yn cael ei gynnwys o fewn strategaeth pobl y Cyngor i ddarparu'r gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod.

**PENDERFYNWYD paratoi Cynllun Gweithredu i fynd i'r afael â'r materion a godwyd o fewn yr adroddiad 'Llamu Ymlaen' sy'n berthnasol i'r Cyngor hwn.**

**GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.**

## 4 ADOLYGIAD O'R BLAENRAGLEN WAITH AR GYFER 2022/2023

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn ymgorffori Blaenraglen Waith a Rhaglen Hyfforddi y Pwyllgor 2022/23 i'r Pwyllgor ei ystyried.

Rhoddodd y Pennaeth Archwilio a Risg ddiweddariad ar y Blaenraglen Waith gan dynnu sylw at y ffaith bod cwblhau hyfforddiant gorfodol i Aelodau fel y gwelir yn Atodiad B yn wag ar hyn o bryd; bydd fersiwn wedi'i diweddaru yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn. Dywedodd ymhellach fod disgwyl i'r hyfforddiant Rheoli Risg gael ei gynnal yn y Flwyddyn Newydd. Dywedodd Pennaeth Archwilio a Risg nad yw'n sicr ar hyn o bryd a fydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor a gynhelir ar 23 Tachwedd, 2022 i ystyried y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Terfynol 2021/2022 a Datganiad Terfynol Cyfrifon 2021/2022 yn cael ei gynnal. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Adran 151 ddadansoddiad manwl o'r sefyllfa bresennol i hwyluso'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol Terfynol ar gyfer 2021/2022 a Datganiad Terfynol y Cyfrifon ar gyfer 2021/2022 i'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD derbyn y Blaenraglen Waith yn bodloni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'r cylch gorchwyl.**

**MR DILWYN EVANS**
**CADEIRYDD**

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 8 Rhagfyr 2022 |
| **Pwnc:** | Adolygiad o adroddiadau Archwilio Cymru a Zurich Risk Engineering yn ymwneud ag ymateb i newid hinsawdd yn y sector cyhoeddus a Chyngor Sir Ynys Môn |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Dylan Williams – Prif Weithredwr |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Rhys A Williams – Rheolwr Newid Hinsawdd |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Cyflwyno dadansoddiad y Cynghor o argymhellion a wnaed yn Adroddiadau Archwilio Cymru a Zurich Risk Engineering. Amlinellu'r camau a nodwyd gan y Cyngor mewn ymateb i gryfhau ei agwedd at Newid Hinsawdd. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad ym mis Gorffennaf 2022 gan ofyn: 'Sut mae'r sector cyhoeddus yn paratoi i gyflawni uchelgais cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer sector cyhoeddus sero net erbyn 2030?'. Mae'r adroddiad yn amlinellu casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol yn seiliedig ar yr ymatebion o bob rhan o'r sector cyhoeddus

1.2. Yn gydamserol, comisiynodd y Cyngor 'Gwiriad Iechyd Newid Hinsawdd' gyda Pheirianneg Risg Zurich i gynnal asesiad cychwynnol o ymateb yr Awdurdod i newid hinsawdd.

1.3. Mae'r adroddiad ynghlwm yn tynnu sylw at y negeseuon cynradd ac argymhellion o'r ddau adolygiad ac yn nodi newidiadau i'w gweithredu dros y tymor byr, canolig a hir felly sicrhewch fod ymateb y Cynghorau i newid hinsawdd yn addas i'r diben

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried yr adroddiad ac yn cymryd sicrwydd bod y ddau adroddiad wedi eu adolygu a newidiadau a nodwyd i wella dull y Cynghor wrth ymateb i Newid Hinsawdd.

**Gwasanaeth Prif Weithredwr**

# Dadnsoddiad Adroddiadau Archwilio Cymru a Zurich Risk Engineering

Dadansoddiad ac ymateb i adroddiadau ar newid hinsawdd yn y sector cyhoeddus ac o fewn Cyngor Sir Ynys Môn

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

**Dyddiad cyhoeddi:** Hydref 2022

# Dadnsoddiad Adroddiadau Archwilio Cymru a Zurich Risk Engineering

**Trosolwg**

Dadansoddiad ac ymateb i adroddiadau ar newid hinsawdd yn y sector cyhoeddus ac o fewn Cyngor Sir Ynys Môn

**Mwy o wybodaeth**

Cyfeiriwch ymholiadau am y ddogfen hon at:
Rhys Alun Williams
Rheolwr Newid Hinsawdd
Cyngor Sir Ynys Mon

Ffôn: [01248 751854]
E-bost: Rhyswilliams3@ynysmon.llyw.cymru

## 1. Cyflwyniad a Chyd-destun

1.1. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ymrwymo i raglen waith hirdymor ar newid hinsawdd. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022 yn adolygiad llinell sylfaen sy'n gofyn: 'Sut mae'r sector cyhoeddus yn paratoi i gyflawni uchelgais gyfunol Llywodraeth Cymru o sector cyhoeddus sero net erbyn 2030?'. I lywio'r adolygiad llinell sylfaen, ymatebodd 48 corff cyhoeddus (Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG ac yn y blaen) i gais am dystiolaeth. Mae'r adroddiad yn amlinellu casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar yr ymatebion a dderbyniwyd o bob rhan o'r sector cyhoeddus.

1.2. Cyflwynodd y Cyngor dystiolaeth i Archwilio Cymru gan ddefnyddio'r templed a ddarparwyd - cydlynwyd hyn gan Gethin Morgan, y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad, gyda chymorth gan Rhys Alun Williams, y Rheolwr Newid Hinsawdd.

1.3. Yn ogystal, yn ddiweddar comisiynodd y Cyngor 'Wiriad Iechyd Newid Hinsawdd' gan Zurich Risk Engineering er mwyn cynnal asesiad cychwynnol o weithgareddau'r Awdurdod yn gysylltiedig â newid hinsawdd. Mae adolygiad o argymhellion y Gwiriad Iechyd wedi'i gynnwys yng nghwmpas yr adroddiad hwn.

1.4. Bydd yr adroddiad Tîm Arweinyddiaeth hwn yn :-

- Amlinellu prif argymhellion Adroddiad 'Parodrwydd y Sector Cyhoeddus' Archwilio Cymru ac 'Adroddiad Gwiriad Iechyd' Zurich
- Arfarnu Cynllun Tuag at Sero Net cyfredol y Cyngor yn erbyn y prif argymhellion hynny
- Ceisio nodi gweithredoedd tymor byr, canolig a thymor hir i wella a chryfhau dull gweithredu'r Cyngor (a'r Cynllun Tuag at Sero Net) er mwyn cyflawni ei darged sero net erbyn 2030.

## 2. Dadansoddiad o'r Adroddiadau

2.1. Mae adroddiad Archwilio Cymru'n targedu uwch arweinwyr a'r rhai sydd â swyddogaethau sgriwtini gyda'r nod o'u hysbrydoli i gynyddu cyflymder eu gwaith ar gyflawni uchelgais gyfunol 2030. Yn ddiweddarach, cyhoeddwyd ail adroddiad tystiolaeth sy'n darparu canfyddiadau a data manylach o'r dystiolaeth a gasglwyd ac mae wedi'i gynnwys yn Atodiad A – Adroddiad Tystiolaeth er mwyn cyfeirio ato.

2.2. Mae casgliad cyffredinol Adroddiad Archwilio Cymru (Atodiad A - Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol) yn cael ei grynhoi isod :-

- ansicrwydd ynghylch a fydd y sector cyhoeddus yn cyflawni ei uchelgais gyfunol ar gyfer 2030.
- rhwystrau cyffredin i gynnydd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus fynd i'r afael â nhw ar y cyd er mwyn cyflawni'r uchelgais o sector cyhoeddus sero net erbyn 2030.
- er bod cyrff cyhoeddus yn dangos ymrwymiad i leihau allyriadau carbon, erbyn hyn, mae'n rhaid iddynt gynyddu eu gweithgareddau'n sylweddol, cynyddu cydweithrediad a rhoi datgarboneiddio wrth wraidd eu gweithgareddau a'u penderfyniadau o ddydd i ddydd.
- mae angen i sefydliadau fod yn feiddgar ac yn arloesol a rhannu profiadau o'u llwyddiant a'u methiannau.
- ni fydd yr Archwilydd Cyffredinol yn beirniadu sefydliadau am gymryd risgiau a reolir yn dda i fynd i'r afael â'r her ddigynsail hon.

2.3. Er mwyn ategu'r casgliadau cyffredinol, mae Archwilio Cymru wedi nodi pum galwad i weithredu i sefydliadau eu hystyried o ran datgarboneiddio yn y sector cyhoeddus. Y rhain yw:

I. Cryfhau arweinyddiaeth a dangos cyfrifoldeb ar y cyd drwy gydweithrediad effeithiol
II. Egluro cyfeiriad strategol a chynyddu cyflymder y gweithrediad
III. Mynd i'r afael â'r cyllid sydd ei angen
IV. Nodi bylchau sgiliau a chynyddu capasiti
V. Gwella ansawdd data a gwaith monitro i gefnogi proses o wneud penderfyniad

Mae pob galwad i weithredu yn trafod y dystiolaeth a gasglwyd a'r mewnwelediad a gafwyd ac mae'n gorffen gyda chwestiynau y dylai uwch arweinwyr ac arweinyddion sgriwtini eu hystyried.

2.4. Mae dadansoddiad o'r bylchau sy'n arfarnu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn y cwestiynau a godwyd yn adroddiad Archwilio Cymru wedi'i gynnwys yn Atodiad B. Mae'r dadansoddiad yn ystyried y cwestiynau a godwyd ym mhob galwad i weithredu ac mae'n nodi gweithredoedd posib lle mae bwlch wedi'i ganfod. Yn ogystal, mae'r dadansoddiad o'r bylchau'n nodi lle mae cysylltiad rhwng y cwestiynau a godwyd a'r Cynllun Tuag at Sero Net presennol a'r cynllun gweithredu blynyddol.

2.5. Mae dadansoddiad o'r bylchau yn seiliedig ar Adroddiad Zurich (Atodiad C) yn arfarnu'r argymhellion a wnaed ac mae'n nodi gweithredoedd lle bo angen. Mae gweithredoedd sy'n debyg i'r rhai a nodwyd ar gyfer adroddiad Archwilio Cymru yn cael eu nodi fel 'cysylltu â gweithredoedd a argymhellwyd' er mwyn osgoi dyblygu. Yn yr un modd, mae cysylltiadau â gweithredoedd a gynlluniwyd yn y cynllun Tuag at Sero Net yn cael eu nodi.

2.6. Mae gweithredoedd a nodwyd yn y dadansoddiad o'r bylchau wedi eu blaenoriaethau yn ôl gweithredu tymor byr / canolig / hir ac maent yn cael eu crynhoi yn yr argymhellion isod.

## 3. Casgliad

3.1. Yn gyffredinol, mae'n deg dod i'r casgliad fod y Cyngor ar y trywydd cywir o ran ei ddull gweithredu i gyflawni sero net ar hyn o bryd. Mae'r Cynllun Tuag at Sero Net, a fabwysiadwyd ym mis Mawrth 2022, yn nodi'r ffordd ymlaen i'r Cyngor mewn cysylltiad â'i feysydd rhaglen penodol.
Trwy ddadansoddi'r argymhellion o'r ddau adroddiad, mae'n bosib nodi cysylltiadau rhyngddynt a'r cynllun Tuag at Sero Net e.e. Datgarboneiddio asedau, ymateb i'r argyfwng, datblygu llinell sylfaen, gwaith ôl osod ar dai a chyfathrebu.

3.2. Serch hynny, mae'r casgliad hwn yn amodol ar gadw mewn cof y gweithredoedd a'r newidiadau sylweddol y mae'n rhaid i'r Cyngor cyflawni er mwyn cyrraedd ei dargedau sero net, megis:

- Integreiddio syniadau datgarboneiddio yn llawn yng ngweithredoedd o ddydd i ddydd y cyngor a'r broses gwneud penderfyniadau.
- Cyfrifo carbon yn llawn ac yn fanwl ac ymgorffori targedau datgarboneiddio yn y broses cynllunio busnes a chynllunio ariannol.
- Nodi'r ymrwymiadau ariannol tymor hir fydd eu hangen i gyflawni targed 2030.
- Nodi'r sgiliau, y galluoedd a'r capasiti fydd eu hagen i gyflawni targed 2030.

## 4. Argymhellion

4.1. Integreiddio'r gweithredoedd a nodwyd yn ôl blaenoriaethau tymor byr a chanolig yn y Cynlluniau Gweithredu presennol (22/23) a chynlluniau gweithredu yn y dyfodol (23/24 a 24/25) yn y drefn honno

Tymor Byr (Cynnwys yn y Cynllun Gweithredu presennol – y Rheolwr Newid Hinsawdd i Weithredu)

- **Monitro –** Y Rheolwr Newid Hinsawdd, ar y cyd â swyddogion perthnasol, i archwilio'r posibilrwydd o ymestyn gwaith monitro aer glân yn asedau presennol y cyngor

Tymor Canolig (Cynllun Gweithredu Sero Net Blwyddyn 2 a 3 – Swyddogion perthnasol i weithredu)

**Arweinyddiaeth a chydgyfrifoldeb**

- Parhau i ddatblygu ei ddull gweithredu sero net gan sicrhau ei fod yn gymesur â'r argyfwng newid hinsawdd h.y. rheoli risg, gweithredu, dyrannu adnoddau, llywodraethiant
- Parhau i roi datgarboneiddio wrth wraidd penderfyniadau busnes o ddydd i ddydd.

**Egluro cyfeiriad strategol a chyflymder gweithredu**

- Sicrhau fod strategaethau a pholisïau corfforaethol newydd yn cael eu datblygu / diweddaru i adlewyrchu'r ymagwedd sero net.

**Cyllid a Chynaliadwyedd**

- Sicrhau lefel ddigonol o fanylder mewn datganiadau ariannol sy'n ymwneud â gwariant ar ddatgarboneiddio
- Nodi yn y cynlluniau ariannol tymor hir pa adnoddau a phenderfyniadau sydd eu hangen i gyflawni targed datgarboneiddio 2030
- Ystyried cyfleoedd buddsoddi tymor hir sy'n cynnig cyfraniad cadarnhaol tuag at nodau newid hinsawdd y cyngor

**Bwlch sgiliau a chapasiti –** Mae angen dadansoddi'r bwlch sgiliau a sgiliau ar gyfer y dyfodol i gynorthwyo i gyflawni targed 2030

**Ansawdd data a monitro i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau**

- Datblygu gwaith monitro carbon o'r gadwyn gyflenwi yn y tymor canolig a'r tymor hir.
- Sefydlu cysylltiadau rhwng monitro allyriadau carbon a chynllunio busnes ac ariannol.

4.2. Cynnwys gweithredoedd tymor hir wrth gynllunio ar gyfer y cynllun olynol, Cynllun Tuag at Sero Net 25-28

**Cadarnhau cyfeiriad strategol a chyflymder gweithredu**

- Ceisio integreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn well yn y Cynlluniau Tuag at Sero Net olynol
- Sicrhau mewnbwn gan staff, rhanddeiliaid a dinasyddion wrth ddatblygu'r Cynllun Tuag at Sero Net nesaf

# 5. Atodiadau

## Atodiad A – Dogfennau Cysylltiedig

- Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030 (audit.wales)
- Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030: Adroddiad Tystiolaeth (audit.wales)
- Adroddiad Gwiriad Iechyd Newid Hinsawdd *Zurich* – Awst 2022.

## Atodiad B – Dadansoddiad o’r Bylchau yn seiliedig ar Adroddiad Archwilio Cymru

**Tymor Byr** – Yn y cynllun gweithredu presennol **Tymor Canol** – Blwyddyn 2 neu 3 Cynllun Gweithredol Tuag at Sero Net **Long Term** – Cynllun Tuag at Sero Net nesaf



| **Adroddiad Archwilio Cymru**<br>Cwestiynau a godwyd yn y Galwadau i Weithredu | **Sefyllfa / Gweithredoedd Arfaethedig CSYM** | **Tymor Gweithredu**<br>**Byr** | **Canolig** | **Hir** |
|---|---|---|---|---|
| **1.Cryfhau eich arweinyddiaeth a dangos eich cyfrifoldeb ar y cyd drwy gydweithrediad effeithiol**<br>Paragraffau sy’n amlinellu’r prif negeseuon wedi eu hamlygu yn yr adroddiad. Cwestiynau a godwyd ar ddiwedd pob adran | | | | |
| i. A ydym yn trin yr argyfwng hinsawdd a’r angen i ddatgarboneiddio fel ‘argyfwng’ go iawn? | **Gweithred –** Parhau i ddatblygu’r dull gweithredu i sicrhau ei fod yn gymesur â’r argyfwng hinsawdd h.y. trefniadau llywodraethu, rheoli risg, gweithredu, dyrannu adnoddau. | | ✓ | |
| ii. A allwn ddangos bod datgarboneiddio wrth wraidd penderfyniad a gweithrediadau busnes o ddydd i ddydd? | **Gweithred** – Cyflawni cynlluniau presennol a nodwyd er mwyn rhoi datgarboneiddio wrth wraidd penderfyniadau o ddydd i ddydd e.e. adolygu polisïau a strategaethau, llythrennedd carbon, gweithdrefnau caffael. | | ✓ | |
| iii. A yw brys a maint yr her yn cael ei chyfleu’n dda gan uwch-arweinwyr ac yn cael ei ddeall ym mhab rhan o’r sefydliad? | Mae cynllun cyfathrebu’n cael ei ddatblygu | - | - | - |
| iv. A oes gennym drefniadau craffu a llywodraethu penodol ac effeithiol ar gyfer rheoli’r daith tuag at sero net? | Gweler 1.i | - | - | - |
| v. A ydym yn deall y prif rwystrau i gynnydd a pha mor dda ydym yn cydweithredu i’w goresgyn nhw? | Cyswllt â 3.i | - | - | - |
| **2. Egluro eich cyfeiriad strategol a chynyddu cyflymder y gweithrediad**<br>Paragraffau sy’n amlinellu’r prif negeseuon wedi eu hamlygu yn yr adroddiad. Cwestiynau a godwyd ar ddiwedd pob adran | | | | |
| i. A ydym wedi nodi dull strategol a chynllun gweithredu clir ar gyfer datgarboneiddio? Os nad ydym, pam lai? | Ydym – Cynllun 3 blynedd gyda chynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol. | | | |
| ii. A ydym wedi rhoi ystyriaeth briodol i argymhellion Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol ar ddatgarboneiddio, gan gynnwys y rhai sydd yn Adroddiad Cenedlaethau’r Dyfodol 2020? | **Gweithred –** Ceisio ymgorffori’r Ddeddf yn well yn y cynlluniau olynol, Cynlluniau Tuag at Sero Net ‘25-28. | | | ✓ |
| iii. A ydym yn cynnwys ein staff, ein rhanddeiliaid a’n dinasyddion wrth ddatblygu a chyflawni ein dull strategol? | **Gweithred –** Cynnwys cyfle i staff, rhanddeiliaid a dinasyddion gyfrannu at y Cynllun Tuag at Sero Net ’25-28 nesaf e.e. defnyddio strwythurau a phrosesau cynllunio lle fel cerbyd ar gyfer ymgysylltu/cyfranogiad. | | | ✓ |
| iv. A ydym wedi cydweithredu ag eraill i ddatblygu ein dull gweithredu cyffredinol? | Cyswllt â 2.iii | | | ✓ |

| **Adroddiad Archwilio Cymru**<br>Cwestiynau a godwyd yn y Galwadau i Weithredu | **Sefyllfa / Gweithredoedd Arfaethedig CSYM** | **Tymor Gweithredu**<br>**Byr** | <br>**Canolig** | <br>**Hir** |
|---|---|---|---|---|
| v. Sut y bydd ein dull o ddatgarboneiddio yn ein helpu i gyflawni o gymharu ag amcanion strategol eraill (gan gynnwys amcanion llesiant) yn ogystal â chyflawni uchelgais gyfunol 2030? | Mae'r Cynllun Tuag at Sero Net yn Gynllun Strategol o fewn y Cyngor sy'n cyfrannu at 'Gynllun y Cyngor', cynlluniau strategol tymor hir eraill a Chynlluniau Cyflawni blynyddol Gwasanaethau. | - | - | - |
| vi. A yw ein strategaethau, ein polisïau a'n gweithrediadau corfforaethol eraill yn adlewyrchu'r dull strategol a nodwyd gennym ar gyfer datgarboneiddio? | **Gweithred –** Sicrhau gwaith datblygu / diweddaru strategaethau corfforaethol newydd, y strategaeth gyfalaf pholisïau'n adlewyrchu'r dull strategol a nodwyd ar gyfer datgarboneiddio. | | ✓ | ✓ |
| vii. A yw ein cynllun gweithredu yn nodi cerrig milltir clir sy'n gyson ag uchelgais gyfunol 2030 ac a yw'n cael ei weithredu'n ddigon cyflym? | Gweler 5i - Ar hyn o bryd mae'r cynllun gweithredu'n canolbwyntio ar dargedau blynyddol. Bydd datblygu llinell sylfaen yn cynorthwyo i osod targedau seiliedig ar dystiolaeth fwy eglur. | - | - | - |
| **3. Mynd i'r afael â'r cyllid sydd ei angen arnoch** | | | | |
| i. A ydym y gwybod faint yr ydym yn ei wario ar hyn o bryd ar weithgareddau i helpu i gyflawni uchelgais gyfunol 2030? | **Gweithred –** Cefnogi'r Strategaeth Gyfalaf, cynllun costau tymor hir sy'n ofynnol i gynllunio gweithgareddau, er mwyn cyflawni uchelgais gyfunol 2030. | ✓ | ✓ | ✓ |
| ii. A ydym yn gwybod faint y byddai angen i ni ei wario i helpu i gyflawni uchelgais gyfunol 2030? | Nodwyd rhai costau ar gyfer gwaith ôl-osod yn y stoc tai. Bydd angen cadarnhau cynlluniau gwariant ar sail arolwg o gyflwr y stoc a datblygu cynlluniau SATC2. | - | - | - |
| iii. Sut yr ydym yn penderfynu faint i'w wario ar ddatgarboneiddio? | Cyswllt â 3i – integreiddio costau / buddion datgarboneiddio yn y prosesau cynllunio ariannol a'r Strategaeth Gyfalaf. | - | - | - |
| iv. Os nad ydym wedi asesu goblygiadau ariannol uchelgais gyfunol 2030 eto, a ydym yn deall pam nad ydym wedi gallu gwneud hynny? | Nid oedd adnoddau i ddatblygu'r agenda datgarboneiddio mewn lle tan yn ddiweddar. Sefydlwyd y Cynllun Tuag at Sero Net ym mis Mawrth 2022. | - | - | - |
| v. Beth yr ydym yn ei wneud i gydweithredu ag eraill, i ddeall y goblygiadau ariannol, ac i rannu costau? | Mae grwpiau datgarboneiddio rhanbarthol yn rhannu gwybodaeth.<br>Mae gan rai prosiectau ddull cydweithredu rhanbarthol (LEAP). | - | - | - |
| vi. A yw ein cyllidebau a'n gwariant yn adlewyrchu'r angen i leihau allyriadau carbon ar frys? | **Gweithred –** Sicrhau fod gwariant ar leihau Carbon yn cael ei nodi, lle bo angen, yn y Strategaeth Gyfalaf, cyllidebau a gwariant. | - | ✓ | ✓ |
| vii. A ydym yn nodi lefel dda o fanylion yn ein datganiadau ariannol mewn cysylltiad â gwariant ar ddatgarboneiddio? (Gweler ein blog ar y mater hwn). | **Gweithred –** Arfarnu lefel y manylion yn y datganiadau ariannol mewn cysylltiad â gwariant ar ddatgarboneiddio. | | ✓ | |
| 4. **Nodi eich bylchau sgiliau a chynyddu eich capasiti** | | | | |

| Adroddiad Archwilio Cymru<br>Cwestiynau a godwyd yn y Galwadau i Weithredu | Sefyllfa / Gweithredoedd Arfaethedig CSYM | Tymor Gweithredu | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Byr | Canolig | Hir |
| i. A ydym yn gwybod pa sgiliau sydd eu hangen, yn awr ac yn y dyfodol, i sicrhau y gallwn gyflawni o gymharu ag uchelgais gyfunol 2030? | **Gweithred -** Mae angen dadansoddi'r bylchau sgiliau a sgiliau fydd eu hangen yn y dyfodol i gynorthwyo i gyflawni targed 2030. | | ✓ | ✓ |
| ii. A oes gennym gynllun ar waith i ymdrin ag unrhyw fylchau mewn sgiliau a chapasiti a nodwyd trwy hyfforddiant, recriwtio neu weithio gyda chymheiriaid a rhanddeiliaid er mwyn rhannu adnoddau ac arbenigedd? | **Gweithred -** Mae angen hyfforddiant sgiliau a chynllun bylchau capasiti i sicrhau fod targed 2030 yn cael ei gyflawni. | | ✓ | ✓ |
| **5. Gwella ansawdd data a gwaith monitro i gefnogi eich proses o wneud penderfyniadau** | | | | |
| i. A ydym yn chwarae ein rhan yn y broses o adeiladu system a fydd yn darparu data cyson, cywir o ansawdd uchel ar allyriadau carbon ar draws y sector cyhoeddus er mwyn cefnogi tryloywder a gwaith craffu? | Mae adeiladu llinell sylfaen a dangosfwrdd cysylltiedig yn flaenoriaeth ar gyfer 22/23. Bydd gwaith datblygu cychwynnol hefyd yn nodi cynllun rheoli data sydd ei angen i sicrhau data o ansawdd uchel ar allyriadau carbon. | - | - | - |
| ii. A ydym yn gwybod beth mae'r data presennol yn ei ddweud wrthym a pha ddata ychwanegol sydd eu hangen arnom i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau? | **Gweithred -** Sefydlu cysylltiadau rhwng y llinell sylfaen a chynlluniau busnes ac ariannol i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau. | | ✓ | ✓ |
| iii. Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'n data ein hunain, a oes gennym gynlluniau ar waith i gymryd camau priodol? | Cyswllt â 5ii – Dim cynlluniau ar waith i gymryd camau priodol yn seiliedig ar ddata ar hyn o bryd. | - | - | - |
| iv. Sut y gallwn wella ein dealltwriaeth o allyriadau sy'n deillio o'n cadwyn gyflenwi ni a chadwyn gyflenwi trydydd partïon perthnasol? | **Gweithred –** Angen newid tymor hir yn y cyngor er mwyn casglu gwybodaeth gywir am wariant ar allyriadau; ac mae angen ymgysylltu gyda'r gadwyn gyflenwi yn y tymor hir i ddatblygu sgiliau, dealltwriaeth a chapasiti i fesur allyriadau yn llawn. | | ✓ | ✓ |

## Atodiad C – Crynodeb a Dadansoddiad o'r Bylchau yn seiliedig ar Argymhellion Gwiriad Iechyd *Zurich*

| | |
|---|---|
| **Tymor Byr** – Yn y cynllun gweithredu presennol<br>**Tymor Canolig** - Bl. 2 neu Bl. 3 Cynllun Gweithredol Tuag at Sero Net<br>**Tymor Hir** – Cynllun Tuag at Sero Net nesaf | Nodwyd gweithredoedd ble canfuwyd bylchau h.y. lle nad oes unrhyw weithgareddau wedi eu cynllunio |

| Argymhellion y Gwiriad Iechyd | Sefyllfa / Gweithredoedd Arfaethedig CSYM | Tymor Gweithredu<br>Byr | <br>Canolig | <br>Hir |
|---|---|---|---|---|
| **Diwylliant – diwylliant a dulliau gweithredu yn y sefydliad** | | | | |
| Ymwybyddiaeth o Newid Hinsawdd (Allanol) – dylid ystyried sut mae'r daith tuag at sero net yn cael ei chyfathrebu yn fewnol ac allanol. | Ar hyn o bryd mae Cynllun Cyfathrebu wedi'i gynnwys fel prosiect yn y Cynllun Gweithredu Sero Net 2022/23. | - | - | - |
| Cael gwared ar Seilos a Nodi Cyfleoedd ar y Cyd. Nodi unrhyw gyfleoedd ar y cyd mewn rhaglenni neu brosiectau sero net sy'n bodoli'n barod er mwyn gwneud y gorau o fuddion a chyfleoedd – er enghraifft, gellid ychwanegu gorsafoedd monitro aer glân at offer monitro tywydd pob ysgol er mwyn cynyddu graddfa a sgôp y gwaith monitro aer glân. | Cyswllt â'r cynllun cyfathrebu mewnol sy'n cynnwys gwybodaeth a rhannu'r dysgu. | - | - | - |
| **Ariannu newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd** | | | | |
| Ariannu – Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) CSYM a'r Rheolwr Newid Hinsawdd i gynnal adolygiad manwl o'r holl brosiectau a gynlluniwyd sy'n gysylltiedig â sero net / lliniaru newid hinsawdd, ac wedyn cynnal adolygiad o'r cynllun ariannol tymor hir gan nodi buddsoddiadau a phenderfyniadau ariannol allweddol a cherrig milltir tuag at y targed 2030. | Cyswllt â'r weithred a argymhellir i ddatblygu cynlluniau costau tymor hir i nodi gweithgareddau a gynlluniwyd i gyflawni sero net. | - | - | - |
| Strategaethau Buddsoddi ar gyfer y dyfodol - Mae CSYM yn gweithredu dull traddodiadol ar gyfer buddsoddi arian. Yn y dyfodol, efallai y byddai'n werth ystyried a yw'r cyfleoedd buddsoddi hyn yn cynnig dewis amgen i'r Cyngor sydd wedi'i alinio â'i nodau cynaliadwyedd ei hun. | **Gweithred** – Ystyried cyfleoedd buddsoddi tymor hir sy'n cynnig cyfraniad cadarnhaol tuag at nodau Hinsawdd y Cyngor. | | ✓ | ✓ |
| **Monitro** | | | | |
| Ariannu - Gan adeiladu ar lwyddiant cynlluniau ail-osod blaenorol, y Gwasanaethau Eiddo i ddatblygu cynllun hirdymor manwl mewn perthynas â sut fydd / sut gallai'r holl asedau gael eu trosi i sero net erbyn 2030. Rhaid ystyried yr agwedd gyllido hefyd fel rhan o'r ymarfer arfarnu manwl hwn. | Cyswllt â'r gweithredoedd a argymhellir yn gysylltiedig â rhagolwg ariannol sero net tymor hir arfaethedig a'r Cynllun Rheoli Asedau. | - | - | - |

| Argymhellion y Gwiriad Iechyd | Sefyllfa / Gweithredoedd Arfaethedig CSYM | Tymor Gweithredu | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Byr | Canolig | Hir |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 – Dylai newidiadau i'r Cynllun Corfforaethol / cynllun Tuag at Sero Net ymgorffori ac alinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. | Cyswllt â'r gweithredoedd a nodwyd i sicrhau fod y defnydd o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn fwy eglur yn y Cynllun Tuag at Sero Net olynol. | - | - | - |
| Monitro aer glân – Ar hyn o bryd mae nifer benodol o orsafoedd monitro aer glân wedi eu lleoli ledled Ynys Môn. Mae gorsafoedd monitro wedi eu lleoli mewn ysgolion ledled yr Ynys ac efallai bod cyfle i gynyddu capasiti monitro aer glân. Y Rheolwr Newid Hinsawdd i archwilio'r posibilrwydd | **Gweithred –** Rheolwr Newid Hinsawdd, gyda swyddogion perthnasol, i archwilio'r posibilrwydd o ymestyn cyfleusterau monitro aer glân gan ddefnyddio asedau presennol y cyngor. | ✓ | | |
| **Pobl a Hyfforddiant** | | | | |
| Adnoddau – mae prinder gweithwyr proffesiynol a sgiliau a gwybodaeth mewn meysydd gwasanaeth allweddol, neu nid ydynt yn cael eu hariannu ar hyn o bryd, er bod cyflwyno swyddi hyfforddeion wedi rhoi sylw i'r bylchau. Dylai'r Cyngor arfarnu a fydd y model gweithlu presennol yn ddigonol i gyflawni'r newidiadau sero net a gynlluniwyd. | Cysylltu'r argymhelliad â'r bylchau sgiliau a nodwyd a'r dadansoddiad / cynllun capasiti. | - | - | - |
| Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth – Dylai'r Rheolwr Newid Hinsawdd rannu negeseuon rheolaidd â'r holl staff, swyddogion ac aelodau etholedig ynghylch cynnydd yn erbyn amserlenni cyflawni a thrywydd o ran cwblhau. Dylai hyn gael ei gynnwys fel rhan o'r Hyfforddiant Llythrennedd Carbon cyffredinol sydd wedi'i gynnwys yn y Crynodeb Gweithredol. | Hyfforddiant – cyswllt â Llythrennedd Carbon a'r rhaglen hyfforddiant gyffredinol a gyflwynir.<br><br>Cyfathrebu – bydd yn derbyn sylw yn y cynllun cyfathrebu mewnol. | - | - | - |
| **Prosiectau, partneriaid a'r gadwyn gyflenwi** | | | | |


| Argymhellion y Gwiriad Iechyd | Sefyllfa / Gweithredoedd Arfaethedig CSYM | Tymor Gweithredu | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Byr | Canolig | Hir |
| Contractau / Cyflenwyr – argymhellir fod yr holl gontractau presennol, pan fyddant yn cael eu hadnewyddu, neu gontractau newydd, yn cael eu gwirio a'u halinio fel eu bod yn cyflawni, neu'n symud tuag at gyflawni targedau mewnol ar gyfer newid hinsawdd a dyheadau newid hinsawdd. Dylid tynnu sylw'r Rheolwr Newid Hinsawdd at ddyddiadau gorffen contractau a dylai gyfrannu at ddatrysiadau newid hinsawdd / sero net posib sy'n cael eu cynnig neu eu cytuno gyda thrydydd parti, neu dylai fod ganddo drosolwg o hynny. Trwy weithio gyda'r Rheolwr Caffael Corfforaethol gall y Rheolwr Newid Hinsawdd nodi trywydd posib ar gyfer nodi a lleihau allyriadau o nwyddau a gwasanaethau a brynir / ymgysylltu ym mhob rhan o gadwyn gyflenwi'r Cyngor. | Cyswllt â gwaith adolygu a diweddaru polisïau a gweithdrefnau caffael sydd wedi'i gynnwys yn barod yn y Cynllun Tuag at Sero Net presennol. | - | - | - |

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Gorffennaf 2022



Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2022

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Diwygiwyd arddangos 2 o'r adroddiad hwn ar 9 Awst 2022 i gywiro mân wall.

# Cynnwys


## Adroddiad manwl

Cefndir 4

Casgliad cyffredinol 6

Galwadau i weithredu 7

1 Cryfhau eich arweinyddiaeth a dangos eich cyfrifoldeb ar y cyd drwy gydweithrediad effeithiol 7

2 Egluro eich cyfeiriad strategol a chynyddu cyflymder y gweithrediad 9

3 Mynd i'r afael â'r cyllid sydd ei angen arnoch 12

4 Nodi eich bylchau sgiliau a chynyddu eich capasiti 15

5 Gwella ansawdd data a gwaith monitro i gefnogi eich proses o wneud penderfyniadau 16

## Atodiadau

1 Dulliau a moddau archwilio 19

2 Fframwaith deddfwriaethol a pholisi sy'n tanategu datgarboneiddio 21

3 Trywydd ac arweiniad adrodd y sector cyhoeddus 23

# Adroddiad manwl

## Cefndir

1 Mae newid hinsawdd yn un o heriau diffiniol y byd ac mae angen i bawb weithredu ar unwaith. Dywed adroddiad nodedig gan y Cenhedloedd Unedig ym mis Awst 2021 fod gweithgarwch dynol yn newid ein hinsawdd mewn ffyrdd digynsail a bod angen lleihau allyriadau carbon yn sylweddol.

2 Mae'r amcanestyniadau hinsawdd diweddaraf ar gyfer Cymru yn dangos mwy o siawns o aeafau mwynach a gwlypach, a hafau poethach a sychach, gyda lefelau'r môr yn codi a chynnydd yn amlder a dwyster digwyddiadau tywydd eithafol. Mae'r goblygiadau'n amlwg.

3 Un ffordd hanfodol o liniaru effeithiau newid hinsawdd yw lleihau allyriadau carbon. Ym mis Mawrth 2021, yn dilyn cyngor gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd[1] ym mis Rhagfyr 2020, pennodd Llywodraeth Cymru dargedau newydd, sef gostyngiad o 63% mewn allyriadau carbon erbyn 2030, gostyngiad o 89% erbyn 2040, a gostyngiad o 100% erbyn 2050[2]. Hefyd, nododd Llywodraeth Cymru uchelgais gyfunol fwy heriol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru[3] sef cyflawni carbon sero net erbyn 2030 (uchelgais gyfunol 2030).

4 Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 2021-2026, sy'n rhoi mynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur wrth wraidd y llywodraeth newydd. Mae'r Rhaglen Lywodraethu hefyd yn gwneud cyfres o ymrwymiadau i ymgorffori ymateb i newid yn yr hinsawdd ym mhopeth a wneir gan Lywodraeth Cymru.

1 Corff annibynnol statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yw'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd. Ei swyddogaeth yw cynghori llywodraethau'r DU ar dargedau allyriadau ac adrodd ar y cynnydd a wnaed o ran lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a pharatoi ar gyfer effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddynt.

2 Nid yw sero net yn golygu dileu allyriadau nwyon tŷ gwydr, ond cydbwyso'r allyriadau nwyon tŷ gwydr â swm y nwyon sy'n cael eu tynnu o'r atmosffer.

3 Mae diffiniad Llywodraeth Cymru o'r 'sector cyhoeddus' yn yr achos hwn yn cynnwys 65 o gyrff fel y nodir yn Atodiad 2 Sero Net y Sector Cyhoeddus yng Nghymru: Llinell sylfaen ac argymhellion, Llywodraeth Cymru, Mehefin 2022.

5 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi Statws carbon sero-net erbyn 2030: Trywydd ar gyfer datgarboneiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru (trywydd y sector cyhoeddus) i gefnogi sector cyhoeddus Cymru i gyflawni uchelgais gyfunol 2030. Ochr yn ochr â thrywydd y sector cyhoeddus, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y canllaw ar gyfer adrodd ar garbon sero-net a'r daenlen gysylltiedig i ganiatáu i'r sector cyhoeddus nodi ac adrodd ar allyriadau yn gyson.

6 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ymrwymo i gynnal rhaglen waith hirdymor ar newid hinsawdd. Ein darn cyntaf o waith yw adolygiad llinell sylfaen sy'n gofyn: **'Sut mae'r sector cyhoeddus yn paratoi i gyflawni uchelgais gyfunol Llywodraeth Cymru o sector cyhoeddus sero net erbyn 2030?'**. Er mwyn llywio'r adolygiad llinell sylfaen, cwblhaodd 48 o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys

7 Rydym yn cyhoeddi dau adroddiad i rannu ein canfyddiadau:

- **yr adroddiad canfyddiadau allweddol hwn**: mae'r adroddiad hwn yn targedu uwch-arweinwyr a'r rhai sydd â swyddogaethau craffu mewn cyrff cyhoeddus, gyda'r nod o'u hysbrydoli i gynyddu cyflymder eu gwaith ar gyflawni uchelgais gyfunol 2030. Rydym wedi cynnwys cwestiynau ar ddiwedd pob adran o'r adroddiad hwn i sefydliadau fyfyrio yn eu cylch. Er nad yw'r cwestiynau hyn yn gynhwysfawr, maent yn darparu awgrymiadau pwysig i sefydliadau eu hystyried.
- **adroddiad tystiolaeth – i ddilyn**: adroddiad a fydd yn darparu canfyddiadau a data manylach o'r cais am dystiolaeth a'n gwaith ehangach.


# Casgliad cyffredinol

8 Mae ansicrwydd amlwg ynghylch a fydd y sector cyhoeddus yn cyflawni ei uchelgais gyfunol ar gyfer 2030. Mae ein gwaith yn nodi rhwystrau sylweddol cyffredin i gynnydd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus fynd i'r afael â nhw ar y cyd er mwyn cyflawni'r uchelgais o sector cyhoeddus sero net erbyn 2030. Ac er bod cyrff cyhoeddus yn dangos ymrwymiad i leihau allyriadau carbon, erbyn hyn, mae'n rhaid iddynt gynyddu eu gweithgareddau'n sylweddol, cynyddu cydweithrediad a rhoi datgarboneiddio wrth wraidd eu gweithrediadau a'u penderfyniadau o ddydd i ddydd. Mae angen i sefydliadau fod yn feiddgar ac yn arloesol a rhannu profiadau o'u llwyddiannau a'u methiannau. Ni fydd yr Archwilydd Cyffredinol yn beirniadu sefydliadau am gymryd risgiau a reolir yn dda i fynd i'r afael â'r her ddigynsail hon.

9 Rydym wedi nodi pum galwad i weithredu fel y gall sefydliadau fynd i'r afael â'r rhwystrau cyffredin i ddatgarboneiddio yn y sector cyhoeddus. Y rhain yw:



1 Cryfhau eich arweinyddiaeth a dangos eich cyfrifoldeb ar y cyd drwy gydweithrediad effeithiol




2 Egluro eich cyfeiriad strategol a chynyddu cyflymder y gweithrediad




3 Mynd i'r afael â'r cyllid sydd ei angen arnoch



4 Nodi eich bylchau sgiliau a chynyddu eich capasiti



5 Gwella ansawdd data a gwaith monitro i gefnogi eich proses o wneud penderfyniadau

10 Nid ydym yn gwneud argymhellion penodol o ystyried natur lefel uchel ein hadolygiad. Fodd bynnag, rydym yn annog cyrff cyhoeddus i ystyried y negeseuon yn yr adroddiad hwn, a thrwy eu strwythurau llywodraethu mewnol, nodi'n gyhoeddus sut y maent yn bwriadu ymateb i'r galwadau i weithredu.

# Galwadau i weithredu

## Cryfhau eich arweinyddiaeth a dangos eich cyfrifoldeb ar y cyd drwy gydweithrediad effeithiol

11 Dangosodd Llywodraeth Cymru arweiniad pan ddatganodd argyfwng hinsawdd yn 2019. Mae llawer o'r cyrff cyhoeddus eraill wedi dilyn eu hesiampl, er enghraifft, mae 18 o'r 22 o gynghorau yng Nghymru wedi datgan argyfwng hinsawdd erbyn hyn.

12 Dangosodd Llywodraeth Cymru arweinyddiaeth hefyd pan bennodd uchelgais gyfunol 2030 ac ym mis Mai 2021 pan sefydlodd bortffolio Gweinidogol newydd ar gyfer newid yn yr hinsawdd. Daeth newid cysylltiedig i strwythur sefydliadol Llywodraeth Cymru i rym o 1 Ebrill 2022.

13 Rydym wedi dod o hyd i weithgarwch sylweddol gan gyrff cyhoeddus sy'n cefnogi'r symudiad tuag at ddatgarboneiddio. Felly, mae'n amlwg bod cyrff cyhoeddus yn cymryd yr agenda hon o ddifrif.

14 Er gwaethaf hyn, mae'n rhaid iddynt wneud mwy oherwydd bod cryn ansicrwydd (ac amheuaeth glir gan rai sefydliadau) ynghylch a fydd uchelgais gyfunol 2030 yn cael ei chyflawni. Yn y GIG, gwelsom ansicrwydd y byddai hyd yn oed gostyngiad o 34% mewn allyriadau yn cael ei gyflawni ar draws y sector hwnnw[4]. Dywedodd cyrff wrthym am rwystrau sylweddol i gynnydd o ran datgarboneiddio, megis anawsterau wrth drosi strategaeth yn weithred, ansicrwydd ynghylch cyllid, diffyg sgiliau a chapasiti, a materion yn ymwneud â data datgarboneiddio. Trafodir y materion hyn drwy gydol yr adroddiad hwn.

15 Nawr yw'r amser am arweinyddiaeth feiddgar. Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus leihau allyriadau carbon o'u hystadau, o'u gwasanaethau, ac o'r nwyddau a'r gwasanaethau y maent yn eu caffael. Yn ogystal â hynny, mae'n rhaid iddynt fabwysiadu swyddogaeth arwain ehangach drwy hyrwyddo'r agenda datgarboneiddio ym mhob sector yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu i weithio tuag at 'broses bontio deg'[5].

16 Bydd angen i gyrff cyhoeddus ddangos arweiniad cyfunol cryfach oherwydd y bydd cydweithredu rhwng sefydliadau yn hanfodol i gyflawni uchelgais gyfunol 2030. Dywedodd rhai ymatebwyr wrthym fod angen newid meddwl ar raddfa eang, gyda dull mwy cydgysylltiedig ar draws y sector cyhoeddus.

4 Mae Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru yn nodi 46 o fentrau yr amcangyfrifir y byddant yn lleihau allyriadau carbon 34% erbyn 2030.

5 Mae 'proses bontio deg' yn golygu gweithredu ar newid yn yr hinsawdd a gwneud yr economi'n fwy gwyrdd mewn ffordd sydd mor deg a chynhwysol â phosibl i bawb dan sylw. Mae Polisi 1 yn Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021-25) yn nodi barn Llywodraeth Cymru ar broses bontio deg.

17 Mae nifer o baneli traws-sefydliadol a byrddau rhaglenni sydd eisoes yn bodoli er mwyn cydweithredu ar faterion sy'n ymwneud â'r hinsawdd gan gynnwys datgarboneiddio. Ac er bod cyrff cyhoeddus wedi mynegi safbwyntiau cadarnhaol ar y cyfan am y ffordd y maent yn cydweithredu, cydnabuwyd hefyd fod angen cynyddu'r ymdrechion hyn. Mae cyfrifoldeb cyfunol ar y sector cyhoeddus i wneud i'r strwythurau presennol weithio. Mae angen i gyrff cyhoeddus ystyried hefyd pa gydweithrediad ychwanegol sydd ei angen mewn sectorau ac ar draws y sector cyhoeddus.

18 Mae'n rhaid i uwch-arweinwyr wneud mwy i ddangos eu bod yn llwyr amgyffred brys a maint yr her ac yn nodi hyn yn glir fel prif flaenoriaeth i'w sefydliad os ydynt am gyflawni eu huchelgeisiau. Mae'n rhaid i ddatgarboneiddio (a risgiau ehangach yn yr hinsawdd) fod wrth wraidd penderfyniadau a gweithrediadau busnes o ddydd i ddydd. Mae'n rhaid i'r agenda hon gael ei hintegreiddio i bob gwasanaeth a gweithrediad, fel bod datgarboneiddio yn cael ei gyflawni ochr yn ochr â chanlyniadau eraill.

19 Gellir defnyddio'r fframweithiau a ddarperir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (gan gynnwys byrddau gwasanaethau cyhoeddus a phennu amcanion llesiant) i helpu sefydliadau i ddatgarboneiddio. Bydd cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn meysydd allweddol megis caffael, cynllunio'r gweithlu a chyllid hefyd yn helpu i gyflawni'r agenda ddatgarboneiddio.

20 Mae angen i'r rhai sy'n gyfrifol am swyddogaethau llywodraethu a chraffu mewn sefydliadau unigol gefnogi'r cyfeiriad teithio gan herio ar yr un pryd a oes digon yn cael ei wneud.

**Cwestiynau y gallai uwch-arweinwyr a'r rhai sy'n craffu arnynt eu gofyn**

- A ydym yn trin yr argyfwng hinsawdd a'r angen i ddatgarboneiddio fel 'argyfwng' go iawn?
- A allwn ddangos bod datgarboneiddio wrth wraidd penderfyniadau a gweithrediadau busnes o ddydd i ddydd?
- A yw brys a maint yr her yn cael ei chyfleu'n dda gan uwch-arweinwyr ac yn cael ei deall ym mhob rhan o'n sefydliad?
- A oes gennym drefniadau craffu a llywodraethu penodol ac effeithiol ar gyfer rheoli'r daith tuag at sero net?
- A ydym yn deall y prif rwystrau i gynnydd a pha mor dda ydym yn cydweithredu i'w goresgyn nhw?



## Egluro eich cyfeiriad strategol a chynyddu cyflymder y gweithrediad

21 Er mwyn cyflawni uchelgais gyfunol 2030, mae'n hanfodol bod gan Gymru strategaethau clir, cydgysylltiedig ac integredig ar draws y sector cyhoeddus. Bydd yn rhaid i'r cynlluniau gweithredu sy'n deillio o'r strategaethau hynny gael eu gweithredu'n gyflym hefyd.

22 Mewn ymateb i'n cais am dystiolaeth, roedd cyrff cyhoeddus yn gadarnhaol ar y cyfan am y cyfeiriad strategol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru a'i fod wedi ei gyfleu'n dda drwy drywydd y sector cyhoeddus (**Atodiad 3**). Mewn ymateb i'n cwestiwn ynghylch i ba raddau yr oeddent yn defnyddio trywydd y sector cyhoeddus, dywedodd y mwyafrif o'r cyrff cyhoeddus eu bod yn ei ddefnyddio i raddau amrywiol, a dim ond pump a ddywedodd nad oeddent yn ei ddefnyddio.


23 Er gwaethaf safbwyntiau cadarnhaol ar y cyfan am y cyfeiriad strategol cenedlaethol, mae cyrff cyhoeddus yn dymuno cael mwy o gymorth i roi'r strategaeth ar waith. Dywedodd sawl sefydliad wrthym, er bod trywydd y sector cyhoeddus yn darparu templed lefel uchel, fod angen mwy o eglurder, cymorth a chanllawiau arnynt ar sut i ddatgarboneiddio.

24 Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod wedi cynllunio trywydd y sector cyhoeddus â'r nod o lunio fframwaith lefel uchel i helpu cyrff cyhoeddus i ddatblygu atebion lleol yn seiliedig ar amgylchiadau unigol, yn hytrach nag un dull gweithredu sy'n addas i bawb. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu mathau eraill o gymorth canolog ar ddatgarboneiddio, gan gynnwys cymorth drwy Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, sef cyllid grant ar gyfer gwahanol raglenni, a chyllid rhaglen Gefnogi Trosglwyddiad ac Adferiad Llywodraeth Leol Cymru.

25 Mae rhai canllawiau ar gyfer sectorau penodol sydd ar gael i gefnogi cyrff cyhoeddus i roi'r weledigaeth ar waith. Ar gyfer y GIG, mae'r Ymddiriedolaeth Garbon a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi nodi camau gweithredu manylach yng Nghynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru. O ran llywodraeth leol, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn datblygu cymorth a chanllawiau mwy pwrpasol i gynghorau.


26 Yn gyffredinol, mae ein gwaith wedi dangos bod cyrff cyhoeddus ar gamau gwahanol iawn o ran nodi eu cynlluniau gweithredu ar gyfer datgarboneiddio. Er bod **Arddangosyn 1** yn dangos bod y mwyafrif o'r cyrff cyhoeddus yn teimlo eu bod wedi pennu cyfeiriad strategol clir, mae **Arddangosyn 2** yn dangos nad oedd gan ychydig dros draean o sefydliadau gynllun datgarboneiddio ar adeg ein cais am dystiolaeth. Roedd pob sefydliad wedi dechrau datblygu eu cynllun o leiaf, ac o dan bolisi Llywodraeth Cymru, mae ganddynt tan fis Ebrill 2023 i ddatblygu un.

**Arddangosyn 1: ymatebion cyrff cyhoeddus i'r datganiad, 'Mae ein sefydliad wedi pennu cyfeiriad strategol clir i gefnogi'r gwaith o gyflawni targedau lleihau carbon 2030'**




Ffynhonnell: Cais Archwilio Cymru am dystiolaeth

**Arddangosyn 2: statws cynlluniau gweithredu cyrff cyhoeddus**




Noder: Mae un corff cyhoeddus na ymatebodd i'r cwestiwn hwn.

Ffynhonnell: Cais Archwilio Cymru am dystiolaeth

27 Mae trywydd y sector cyhoeddus yn nodi cerrig milltir ar gyfer 2021-22 pan mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r sector cyhoeddus 'wasgu'r sbardun'. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cynnydd da wedi bod a bod y sector cyhoeddus yn cyflymu. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gwaith sylweddol i'w wneud o hyd a, hyd yma, nad yw'r sector cyhoeddus wedi cyflawni cerrig milltir 'gwasgu'r sbardun' yn llawn.

**Cwestiynau y gallai uwch-arweinwyr a'r rhai sy'n craffu arnynt eu gofyn**

- A ydym wedi nodi dull strategol a chynllun gweithredu clir ar gyfer datgarboneiddio? Os nad ydym, pam lai?
- A ydym wedi rhoi ystyriaeth briodol i argymhellion Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar ddatgarboneiddio, gan gynnwys y rhai sydd yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020[6]?
- A ydym yn cynnwys ein staff, ein rhanddeiliaid a'n dinasyddion wrth ddatblygu a chyflawni ein dull strategol?
- A ydym wedi cydweithredu ag eraill i ddatblygu ein dull gweithredu cyffredinol?
- Sut y bydd ein dull o ddatgarboneiddio yn ein helpu i gyflawni o gymharu ag amcanion strategol eraill (gan gynnwys amcanion llesiant) yn ogystal â chyflawni uchelgais gyfunol 2030?
- A yw ein strategaethau, ein polisïau a'n gweithrediadau corfforaethol eraill yn adlewyrchu'r dull strategol a nodwyd gennym ar gyfer datgarboneiddio?
- A yw ein cynllun gweithredu yn nodi cerrig milltir clir sy'n gyson ag uchelgais gyfunol 2030 ac a yw'n cael ei weithredu'n ddigon cyflym?



6 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020, Mai 2020.


## Mynd i'r afael â'r cyllid sydd ei angen arnoch

28 Mae angen i gyrff cyhoeddus gynllunio eu cyllid yn y fath fodd fel y gallant gyflawni eu strategaethau datgarboneiddio a'u cynlluniau gweithredu. Bydd hyn yn gofyn am gynllunio hirdymor oherwydd y bydd angen buddsoddi mewn datgarboneiddio am flynyddoedd lawer. Bydd hefyd yn gofyn am wariant ar unwaith oherwydd, os yw uchelgais gyfunol 2030 i gael ei chyflawni, mae gweithredu ar frys yn hanfodol.

29 Roedd cyrff cyhoeddus yn cydnabod y bydd angen buddsoddiad sylweddol mewn datgarboneiddio, yn enwedig ar gyfer costau seilwaith ymlaen llaw. Ond roeddent yn ansicr ynghylch o ble y byddai'r cyllid ar gyfer y buddsoddiad hwn yn dod. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i gyrff cyhoeddus mewn gwahanol ffyrdd, ond mae wedi dweud na all gyllido popeth. Felly, bydd angen i gyrff cyhoeddus feddwl yn ofalus am sut y gallant ddefnyddio eu cyllid presennol mewn gwahanol ffyrdd, archwilio cyfleoedd cyllido ychwanegol posibl ac ystyried sut y gallent rannu costau â sefydliadau partner.

30 Yn gyffredinol, dywedodd cyrff cyhoeddus wrthym fod cyllid yn rhwystr sylweddol i gyflawni uchelgais gyfunol 2030. Mae hyn oherwydd ansicrwydd o ran y cyllid ychwanegol hirdymor a fydd ar gael iddynt, ac anawsterau wrth fynd i'r afael â chostau datgarboneiddio. Dengys **Arddangosyn 3** nad yw'r mwyafrif o'r cyrff cyhoeddus wedi asesu goblygiadau ariannol uchelgais gyfunol 2030 yn llawn. Mewn rhai achosion, y rheswm dros hyn yw nad ydynt wedi nodi cyfres glir o gamau gweithredu a gweithgareddau i gyflawni sero net eto.

**Arddangosyn 3: ymatebion cyrff cyhoeddus i'r datganiad, 'Mae ein sefydliad wedi asesu'n llawn oblygiadau ariannol cyflawni targedau lleihau carbon 2030'**




Noder: Mae un corff cyhoeddus na ymatebodd i'r cwestiwn hwn.

Ffynhonnell: Cais Archwilio Cymru am dystiolaeth

**Cwestiynau y gallai uwch-arweinwyr a'r rhai sy'n craffu arnynt eu gofyn**

- A ydym yn gwybod faint yr ydym yn ei wario ar hyn o bryd ar weithgareddau i helpu i gyflawni uchelgais gyfunol 2030?
- A ydym yn gwybod faint y byddai angen inni ei wario i helpu i gyflawni uchelgais gyfunol 2030?
- Sut yr ydym yn penderfynu faint i'w wario ar ddatgarboneiddio?
- Os nad ydym wedi asesu goblygiadau ariannol uchelgais gyfunol 2030 eto, a ydym yn deall pam nad ydym wedi gallu gwneud hynny?
- Beth yr ydym yn ei wneud i gydweithredu ag eraill, i ddeall y goblygiadau ariannol, ac i rannu costau?
- A yw ein cyllidebau a'n gwariant yn adlewyrchu'r angen i leihau allyriadau carbon ar frys?
- A ydym yn nodi lefel dda o fanylion yn ein datganiadau ariannol mewn cysylltiad â gwariant ar ddatgarboneiddio? (Gweler ein blog ar y mater hwn).





## Nodi eich bylchau sgiliau a chynyddu eich capasiti

31 Mewn cyrff cyhoeddus, cyfrifoldeb pawb yw gweithredu tuag at uchelgais gyfunol 2030. Bydd gwireddu'r uchelgais hwnnw yn gofyn i gyrff cyhoeddus fod â staff ar waith sydd â pheth arbenigedd penodol. Canfu ein gwaith frwdfrydedd i gyflawni, ond gwelsom broblemau eang o ran capasiti a bylchau sgiliau hefyd. Nid yw bylchau sgiliau mewn cysylltiad â datgarboneiddio yn unigryw ac maent yn arwydd o her ehangach ar draws y sector cyhoeddus. Er enghraifft, yn ein hadroddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2021, rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod nifer y staff wedi gostwng a bod diffygion mewn sgiliau wedi dod i'r amlwg.

32 Dywedodd cyrff cyhoeddus wrthym fod eu hadnoddau dan bwysau wrth ddarparu eu gwasanaethau craidd, ac nad oes ganddynt sgiliau arbenigol mewn lleihau allyriadau carbon a monitro allyriadau carbon. Hefyd, mae natur gymhleth y maes yn golygu bod cyrff yn cystadlu am wybodaeth ac arbenigedd cyfyngedig.

33 Mae angen i gyrff cyhoeddus ddeall y capasiti staff a'r sgiliau sydd ganddynt ar waith drwy gynllunio'r gweithlu'n gadarn. Bydd hyfforddiant yn chwarae rhan hanfodol o ran sicrhau bod staff yn deall eu cyfrifoldebau datgarboneiddio a'u bod yn y sefyllfa orau i ymdrin â'r dasg dan sylw. Mae cyfle hefyd i rannu'r wybodaeth, yr arbenigedd a'r capasiti sy'n bodoli yn y sector cyhoeddus yn ogystal â'r sector preifat a'r trydydd sector.

**Cwestiynau y gallai uwch-arweinwyr a'r rhai sy'n craffu arnynt eu gofyn**

- A ydym yn gwybod pa sgiliau sydd eu hangen, yn awr ac yn y dyfodol, i sicrhau y gallwn gyflawni o gymharu ag uchelgais gyfunol 2030?
- A oes gennym gynllun ar waith i ymdrin ag unrhyw fylchau mewn sgiliau a chapasiti a nodwyd trwy hyfforddiant, recriwtio neu weithio gyda chymheiriaid a rhanddeiliaid er mwyn rhannu adnoddau ac arbenigedd?



## Gwella ansawdd data a gwaith monitro i gefnogi eich proses o wneud penderfyniadau

34 Mae angen i gyrff cyhoeddus ddeall o ble y mae eu hallyriadau yn dod fel y gallant wirio a ydynt yn gwneud cynnydd. Canfuom fod materion data yn rhwystr mawr i gael dealltwriaeth gyffredin am y broblem ac i wneud penderfyniadau strategol am yr atebion.

35 Mae monitro ac adrodd ar allyriadau carbon yn faes cymhleth sy'n datblygu'n gyflym ledled y byd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi methodoleg adrodd gyffredin fel y gall cyrff cyhoeddus adrodd ar eu hallyriadau drwy Canllaw sector cyhoeddus Cymru ar gyfer adrodd ar garbon sero-net a'r daenlen adrodd sero net. Wrth wneud hynny, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o wella data allyriadau. Ymatebodd cyrff cyhoeddus Cymru drwy roi trefniadau newydd ar waith a thrwy gyflwyno ei set gyntaf o ddata blynyddol ym mis Hydref 2021.

36 Comisiynodd Llywodraeth Cymru ymgynghorwyr annibynnol i adolygu'r data allyriadau cyntaf a gyflwynwyd gan gyrff cyhoeddus ac ym mis Mehefin 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr adroddiad ymgynghori llawn. Mae'r adroddiad[7] yn rhoi'r amcangyfrif cyntaf o'r ystod lawn o allyriadau gan y sector cyhoeddus wrth ddarparu gwasanaethau i bobl Cymru. Dywed yr adroddiad fod y ffigurau'n cynnwys ansicrwydd sylweddol, yn enwedig mewn cysylltiad ag allyriadau'r gadwyn gyflenwi, ac nad yw'r data wedi eu harchwilio'n drylwyr. Mae'r ffigurau'n awgrymu y bu gostyngiad o 5% yn allyriadau'r sector cyhoeddus ledled Cymru rhwng 2019-20 a 2020-21.

37 Mewn ymateb i'n cais am dystiolaeth, cydnabu cyrff cyhoeddus pa mor ddefnyddiol oedd cael methodoleg adrodd gyffredin. Fodd bynnag, cyfeiriodd rhai ymatebion at bryderon ynghylch rhai dulliau cyfrifo, yn enwedig o ran y gadwyn gyflenwi a defnydd tir, a galwyd am ragor o eglurder ar gyfer y diffiniadau er mwyn sicrhau bod diffiniadau'n cael eu dehongli a'u hadrodd yn gyson. Nododd rhai ymatebion hefyd nad oedd y systemau presennol yn gallu casglu'r data gofynnol, a bod yn rhaid eu diweddaru, neu fod yn rhaid rhoi systemau newydd ar waith. Roedd hyn yn cymryd llawer o amser yn aml ac yn defnyddio llawer o adnoddau. Cododd cyrff y GIG bryderon ynghylch dyblygu hefyd gyda'r trefniadau adrodd presennol ar allyriadau carbon.

7 Gweler Troednodyn 3.

38 Mae'n bwysig cael y data'n iawn oherwydd bydd yr wybodaeth hon yn tanategu'r broses o wneud penderfyniadau ac o fonitro'r cynnydd am ddegawdau i ddod. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod mai hon yw blwyddyn gyntaf y trefniadau newydd i adrodd am fater cymhleth ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu'r canllawiau ymhellach er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodir yn yr adroddiad ymgynghori (**paragraff 36**) ac adlewyrchu sylwadau ehangach. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau adrodd diwygiedig ym mis Gorffennaf 2022. Er ein bod yn cydnabod bod pryderon ynghylch data'r gadwyn gyflenwi, mae'r gofyniad i adrodd y data hyn yn atgyfnerthu canfyddiadau astudiaethau blaenorol sy'n dangos pwysigrwydd lleihau allyriadau o'r broses gaffael a'r gadwyn gyflenwi[8].

**Cwestiynau y gallai uwch-arweinwyr a'r rhai sy'n craffu arnynt eu gofyn**

- A ydym yn chwarae ein rhan yn y broses o adeiladu system a fydd yn darparu data cyson, cywir o ansawdd uchel ar allyriadau carbon ar draws y sector cyhoeddus er mwyn cefnogi tryloywder a gwaith chraffu?
- A ydym yn gwybod beth mae'r data presennol yn ei ddweud wrthym a pha ddata ychwanegol sydd eu hangen arnom i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau?
- Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'n data ein hunain, a oes gennym gynlluniau ar waith i gymryd camau priodol?
- Sut y gallwn wella ein dealltwriaeth o allyriadau sy'n deillio o'n cadwyn gyflenwi ni a chadwyn gyflenwi trydydd partïon perthnasol?



8 Llywodraeth Cymru, Trywydd ar gyfer datgarboneiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru (Atodiad A), Mai 2021.

# Atodiadau

1 Dull a moddau archwilio

2 Fframwaith deddfwriaethol a pholisi sy’n tanategu datgarboneiddio

3 Trywydd ac arweiniad adrodd y sector cyhoeddus

# 1 Dull a moddau archwilio

Ym mis Tachwedd 2021, gwnaethom gyhoeddi cais am dystiolaeth i 48 o gyrff cyhoeddus, gan ofyn cwestiynau am eu sefyllfa llinell sylfaen o ran cyflawni uchelgais gyfunol 2030. Ymatebodd y mwyafrif o'r cyrff cyhoeddus yn ystod y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Ionawr 2022. Anfonwyd y cais am dystiolaeth at y cyrff a gwmpaswyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar y pryd. Roedd hyn yn cynnwys yr holl brif gynghorau, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG, a'r cyrff mwy a noddir gan Lywodraeth Cymru.

Anfonwyd y cais am dystiolaeth at Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru hefyd er mwyn sicrhau bod gennym ddarlun mwy cyflawn ar draws y GIG. Anfonwyd y cais am dystiolaeth i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru hefyd, sef sefydliad cydfuddiannol annibynnol sy'n eiddo i GIG Cymru ac a gyfarwyddir ganddo, sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau i GIG Cymru ac ar ei ran. Cynhelir Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru o dan fframwaith cyfreithiol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac mae'n gweithredu o dan fframwaith cyfreithiol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, a gwmpesir ei hun gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Cawsom ymatebion gan bob corff yr anfonwyd y cais am dystiolaeth atynt, er nad atebwyd pob cwestiwn mewn nifer fach o achosion. Pan nad atebwyd cwestiynau gan bob corff cyhoeddus, cynhwysir hyn mewn nodyn i bob graff perthnasol.

Er mwyn llywio ein gwaith, gwnaethom gynnal trafodaethau â rhanddeiliaid perthnasol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, cynrychiolwyr GIG Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Gwnaethom adolygu dogfennau allweddol hefyd, gan gynnwys polisïau a chanllawiau, a gwybodaeth berthnasol arall a ddarparwyd inni gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill.

Ni wnaethom gynnal adolygiad manwl ym mhob un o'r cyrff cyhoeddus. Er ein bod wedi dibynnu i raddau helaeth ar yr hyn a adroddwyd ganddynt drwy eu hatebion i'n cais am dystiolaeth ac unrhyw ddogfennau ategol, rydym hefyd wedi ceisio triongli ein canfyddiadau drwy drafodaethau â rhanddeiliaid a thystiolaeth o'n hadolygiad o ddogfennau a data ehangach. Gwnaethom rannu a thrafod ein canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg mewn gweminar gyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Mai 2022 hefyd. Roedd 109 o bobl o du allan i Archwilio Cymru yn bresennol yn y gweminar, ac roedd y rhain yn cynrychioli amrywiaeth o sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

Fel y nodir yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ymrwymo i raglen waith hirdymor ar newid hinsawdd. Yr ydym eisoes wedi adrodd ar ymdrechion datgarboneiddio awdurdodau tân ac achub, yr ydym wedi dechrau adolygu cynlluniau gweithredu datgarboneiddio cynghorau ac yr ydym yn paratoi adroddiad ar reoli'r perygl o lifogydd. Yn dilyn ymgynghoriad diweddar ar ein rhaglen waith yn y dyfodol, rydym yn ystyried ein camau nesaf mewn cysylltiad ag archwilio camau gweithredu i ddatgarboneiddio ac addasu i'r newidiadau sydd eisoes yn digwydd i'n hinsawdd.

# 2 Fframwaith deddfwriaethol a pholisi sy’n tanategu datgarboneiddio

Mae’r graffigyn isod yn nodi’r ddeddfwriaeth, y polisïau a’r canllawiau allweddol sy’n ymwneud â datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd sy’n berthnasol i’r sector cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn cyfeirio at ddeddfwriaeth a pholisïau sy’n benodol i’r sector ym mhrif gorff yr adroddiad hwn pryd bynnag y bo hynny’n berthnasol.

### Mawrth 2016

Daeth Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i rym a rhoddwyd dyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwy tŷ gwydr ac i osod cyllidebau carbon.

### Ebrill 2016

Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus a gwmpesid gan y Ddeddf weithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy. Nod y pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf yw helpu cyrff i gydweithio’n well, osgoi ailadrodd camgymeriadau’r gorffennol a mynd i’r afael â heriau hirdymor.

### Gorffennaf 2017

Pennodd Llywodraeth Cymru uchelgais o gyflawni sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030.

### Mawrth 2019

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Cynllun Cyflawni Carbon Isel statudol cyntaf, Ffyniant i bawb: Cymru carbon isel (LCDP1).

### Ebril 2019

Gwnaeth Llywodraeth Cymru ddatgan ei bod yn argyfwng ar yr hinsawdd.

### Tachwedd 2019

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ffyniant i bawb: Cymru sy’n effro i’r hinsawdd, sef ei chynllun ymaddasu i’r hinsawdd diweddaraf.

### Mawrth 2021

Yn dilyn cyngor gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd ym mis Rhagfyr 2020, pennodd Llywodraeth Cymru dargedau cyfreithiol newydd, sef gostyngiad o 63% mewn allyriadau carbon erbyn 2030, gostyngiad o 89% erbyn 2040, a gostyngiad o 100% erbyn 2050.



## Mai 2021

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Canllaw Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero-Net a’r daenlen adrodd carbon sero-net. Ceir rhagor o fanylion yn **Atodiad 3**.

## Mehefin 2021

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 2021-2026, sy’n rhoi mynd i’r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur wrth wraidd y llywodraeth newydd ac yn gwneud cyfres o ymrwymiadau i ymgorffori newid yn yr hinsawdd mewn nifer o ffyrdd.

## Gorffennaf 2021

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Statws carbon sero-net erbyn 2030: Trywydd ar gyfer datgarboneiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru. Ceir rhagor o fanylion yn **Atodiad 3**.

## Hydref 2021

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021-25). Mae hyn yn nodi polisïau penodol ar gyfer y sector cyhoeddus, gan gynnwys targed ar gyfer rhoi cynlluniau datgarboneiddio ar waith erbyn mis Mawrth 2023, targedau sy’n ymwneud ag adeiladau, cerbydau a chaffael, a datblygu cynllun datgarboneiddio iechyd a gofal cymdeithasol newydd.



## Gorffennaf 2022

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiynau wedi’u diweddaru o ganllaw adrodd sero-net sector cyhoeddus Cymru a’r daenlen adrodd carbon sero-garbon net.

# 3 Trywydd ac arweiniad adrodd y sector cyhoeddus

Er mwyn cefnogi'r sector cyhoeddus i gyflawni sero net, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei thrywydd sector cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2021. Mae'r trywydd yn nodi pedwar maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu: adeiladau, symudedd a thrafnidiaeth, caffael a defnydd tir. Mae hefyd yn nodi cerrig milltir allweddol i'r sector cyhoeddus eu cyflawni, sef:

2021-2022

**Gwasgu'r sbardun:** Lle mae'n hanfodol ein bod yn deall y cyd-destun a'r hyn sydd angen ei wneud, a lle mae angen gweithredu'n gynt.

2022-2026

**Cryn bellter ar hyd y daith:** Lle mae disgwyliad i garbon isel ddatblygu'n norm a lle mae'r sector cyhoeddus yn bendant ar y ffordd at sector cyhoeddus sero net.

2026-2030

**Cyrraedd Ein Nod:** Lle mae dewisiadau di-garbon yn rhan o'r drefn arferol, lle byddant wedi ymwreiddio yn ein diwylliant ac yn cael eu hunan-reoleiddio.

Ym mis Mai 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Canllaw Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero-Net. Nod y canllaw yw datblygu set gyffredinol o gyfarwyddiadau i'w defnyddio gan gyrff cyhoeddus i helpu i gyflawni uchelgais gyfunol 2030, yn benodol:

- **Llinell sylfaen:** Deall maint yr allyriadau sefydliadol a faint sy'n cael ei ddal ar hyn o bryd er mwyn gweld ffin sydd wedi ei nodi mewn modd cyson. A meintioli'r bwlch tebygol o ran allyriadau i weithrediadau carbon niwtral erbyn 2030.
- **Nodi potensial ar gyfer lliniaru:** Asesiad i nodi ffynonellau allyriadau sylweddol gan alluogi sefydliadau a'r sector cyhoeddus i flaenoriaethu camau gweithredu y mae eu hangen i newid i weithrediadau carbon niwtral erbyn 2030.
- **Monitro cynnydd:** Angen i gasglu, coladu a dadansoddi data er mwyn asesu a yw sefydliadau ar y trywydd iawn i gyrraedd eu nodau o ran niwtraliaeth carbon erbyn 2030.

Ochr yn ochr â'r canllaw, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Daenlen adrodd carbon sero-net i'w defnyddio gan gyrff cyhoeddus i gasglu ac adrodd eu data allyriadau mewn ffordd gyson. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i gyrff cyhoeddus gyflwyno'r data cyntaf erbyn mis Hydref 2021 ar gyfer blwyddyn ariannol 2020–21. Mae angen yr ail gyflwyniad erbyn mis Medi 2022 ar gyfer blwyddyn ariannol 2021–22.

Mae'r canllaw yn nodi y dylai cyrff cyhoeddus adrodd am gamau gweithredu i leihau allyriadau a symud i weithrediadau carbon niwtral erbyn 2030, ond nid yw fformat na naratif yr adroddiad hwnnw wedi eu rhagnodi. Mae'r canllaw yn awgrymu y gallai fod ar ffurf adroddiad blynyddol ar gynnydd o'i gymharu â chynllun gweithredu cyhoeddedig neu ddogfen ar wahân. Mae hefyd yn awgrymu y bydd gwybodaeth reoli a ddefnyddir wrth goladu adroddiad allyriadau yn darparu sail dda ar gyfer yr adroddiad naratif. Yn rhan o'n gwaith, nid ydym wedi adolygu unrhyw adroddiadau naratif a gynhyrchwyd gan gyrff cyhoeddus, er bod **paragraffau 34-38** o'r adroddiad hwn yn rhoi sylwadau ar yr heriau sy'n gysylltiedig â data allyriadau carbon ac adrodd. Yn dilyn sylwadau gan gyrff cyhoeddus ac adolygiad o gyflwyniadau data'r flwyddyn gyntaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau adrodd diwygiedig ym mis Gorffennaf 2022.

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn destun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru


Gwefan: www.archwilio.cymru

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030: Adroddiad Tystiolaeth

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Awst 2022



Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2022

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys


## Adroddiad manwl

Cefndir 4

Hyder wrth gyflawni uchelgais gyfunol 2030 6

Cyfeiriad strategol a chynllunio camau gweithredu ar gyfer datgarboneiddio 9

Trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth ar gyfer datgarboneiddio 17

Goblygiadau ariannol datgarboneiddio 19

Adrodd ar gynnydd o ran datgarboneiddio 22

Cydweithredu ac ymgysylltu â chyrff eraill, staff a dinasyddion 26

Rhwystrau, cyfleoedd ac arferion diddorol ar ddatgarboneiddio 30

## Atodiad

1 Dull a moddau archwilio 38

# Adroddiad manwl

## Cefndir

1 Mae newid hinsawdd yn un o heriau diffiniol y byd ac mae angen i bawb weithredu ar unwaith. Dywed adroddiad nodedig gan y Cenhedloedd Unedig ym mis Awst 2021 fod gweithgarwch dynol yn newid ein hinsawdd mewn ffyrdd digynsail a bod angen lleihau allyriadau carbon yn sylweddol.

2 Mae'r amcanestyniadau hinsawdd diweddaraf ar gyfer Cymru yn dangos mwy o siawns o aeafau mwynach a gwlypach, a hafau poethach a sychach, a lefelau'r môr yn codi a chynnydd yn amlder a dwyster digwyddiadau tywydd eithafol. Mae'r goblygiadau'n amlwg.

3 Un ffordd hanfodol o liniaru effeithiau ychwanegol newid hinsawdd yw lleihau allyriadau carbon. Ym mis Mawrth 2021, yn dilyn cyngor gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd[1] ym mis Rhagfyr 2020, pennodd Llywodraeth Cymru dargedau, sef gostyngiad o 63% mewn allyriadau carbon erbyn 2030, gostyngiad o 89% erbyn 2040, a gostyngiad o 100% erbyn 2050[2]. Hefyd, nododd Llywodraeth Cymru uchelgais gyfunol fwy heriol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru[3] sef cyflawni carbon sero net erbyn 2030 (uchelgais gyfunol 2030).

4 Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 2021-2026, sy'n rhoi mynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur wrth wraidd y llywodraeth newydd. Mae'r Rhaglen Lywodraethu hefyd yn gwneud cyfres o ymrwymiadau i ymgorffori ymateb i newid hinsawdd ym mhopeth a wneir gan Lywodraeth Cymru.

1 Corff annibynnol statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yw'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd. Ei swyddogaeth yw cynghori llywodraethau'r DU ar dargedau allyriadau ac adrodd ar y cynnydd a wnaed o ran lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a pharatoi ar gyfer effeithiau newid hinsawdd ac addasu iddynt.

2 Nid yw sero net yn golygu dileu allyriadau nwyon tŷ gwydr, ond cydbwyso'r allyriadau nwyon tŷ gwydr â swm y nwy sy'n cael ei dynnu o'r atmosffer.

3 Mae diffiniad Llywodraeth Cymru o'r 'sector cyhoeddus' yn yr achos hwn yn cynnwys 65 o gyrff fel y nodir yn Atodiad 2 Sero Net y Sector Cyhoeddus yng Nghymru: Llinell sylfaen ac argymhellion, Llywodraeth Cymru, Mehefin 2022.

5 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi Statws carbon sero-net erbyn 2030: Trywydd ar gyfer datgarboneiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru (trywydd y sector cyhoeddus) i gefnogi sector cyhoeddus Cymru i gyflawni'r uchelgais gyfunol. Ochr yn ochr â thrywydd y sector cyhoeddus, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r canllaw ar gyfer adrodd ar garbon sero-net a'r daenlen gysylltiedig i ganiatáu i'r sector cyhoeddus nodi ac adrodd ar allyriadau yn gyson. Mae ein hadroddiad canfyddiadau allweddol ar wahân yn rhoi rhagor o fanylion am y cyfeiriad strategol cenedlaethol ar gyfer datgarboneiddio a'i fframwaith polisi a deddfwriaethol sylfaenol.

6 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ymrwymo i gynnal rhaglen waith hirdymor ar newid hinsawdd. Ein darn cyntaf o waith yw adolygiad llinell sylfaen sy'n gofyn: **'Sut mae'r sector cyhoeddus yn paratoi i gyflawni uchelgais gyfunol Llywodraeth Cymru o sector cyhoeddus sero net erbyn 2030?'**. Er mwyn llywio'r adolygiad llinell sylfaen, cwblhaodd 48 o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, galwad am dystiolaeth. Mae **Atodiad 1** yn esbonio ein dull archwilio a'n dulliau.

7 Rydym wedi cyhoeddi dau adroddiad i rannu ein canfyddiadau:


a **adroddiad canfyddiadau allweddol:** adroddiad cryno a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022 sy'n targedu uwch-arweinwyr a'r rhai sydd â swyddogaethau craffu mewn cyrff cyhoeddus, gyda'r nod o'u hysbrydoli i gynyddu cyflymder eu gwaith ar gyflawni uchelgais gyfunol 2030. Yn yr adroddiad hwnnw, rydym yn nodi'r casgliad cyffredinol o'n gwaith a phum galwad i weithredu fel y gall sefydliadau fynd i'r afael â'r rhwystrau cyffredin i ddatgarboneiddio yn y sector cyhoeddus. Mae'r adroddiad canfyddiadau allweddol hefyd yn nodi y gellir defnyddio cymhwysiad yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r fframweithiau a ddarperir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i helpu sefydliadau i ddatgarboneiddio.

b **yr adroddiad tystiolaeth hwn:** ategu'r adroddiad canfyddiadau allweddol drwy ddarparu canfyddiadau a data manylach o'r alwad am dystiolaeth a'n gwaith ehangach.

# Hyder wrth gyflawni uchelgais gyfunol 2030

8 Canfuom gryn ansicrwydd (ac amheuaeth glir gan rai) ynghylch a fydd yr uchelgais gyfunol o sector cyhoeddus sero net yn cael ei chyflawni erbyn 2030. Dengys **Arddangosyn 1** yn ein galwad am dystiolaeth fod 20 o'r 48 corff yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn hyderus y byddai eu sefydliad yn bodloni uchelgais gyfunol 2030, dywedodd 23 nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd pump yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf.

**Arddangosyn 1: ymatebion cyrff cyhoeddus i'r datganiad, 'Mae ein sefydliad yn hyderus y bydd yn cyflawni targed 2030 o fod ag allyriadau carbon sero net'**




Ffynhonnell: Galwad am dystiolaeth Archwilio Cymru

9 Ar gyfer cyrff y GIG, mae Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru (cynllun y GIG) yn cynnwys targed i gyflawni gostyngiad o 34% mewn allyriadau carbon erbyn 2030. Mae'r targed hwn yn seiliedig ar gyfrifiad am y gostyngiad mewn allyriadau y gellir eu disgwyl yn realistig o'r 46 menter a nodir yn y cynllun. Mae ein tystiolaeth gan gyrff y GIG yn dangos cryn ansicrwydd ynghylch cyflawni'r targed hwn (yn ogystal â'r uchelgais sero net mwy heriol). Mae **paragraff 50** yn rhoi ystyriaeth bellach i'r rhwystrau i gyflawni uchelgais gyfunol 2030.

10 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod angen mwy o eglurder ynghylch sut mae'r targed o 34% yn cyd-fynd â chyd-destun ehangach uchelgais gyfunol 2030. Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu uchelgais gyfunol ymestynnol yn fwriadol i ysgogi gweithrediad, er nad yw'n darged statudol. Ar yr un pryd, mae'r GIG wedi pennu targed llai ymestynnol iddo ei hun o ostyngiad o 34% erbyn 2030, ac nid oes gan rannau eraill o'r sector cyhoeddus dargedau ar wahân. Mae'r sector iechyd yn gyfrifol am oddeutu un rhan o dair o allyriadau carbon y sector cyhoeddus yng Nghymru[4]. Pe byddai'r GIG ond yn cyflawni gostyngiad o 34% mewn allyriadau, byddai'n ei gwneud yn llawer anos sicrhau sefyllfa sero net gyffredinol ar draws y sector cyhoeddus.

11 Mae **Arddangosyn 2** yn rhoi enghreifftiau o'r hyn a ddywedodd cyrff cyhoeddus wrthym mewn cysylltiad ag uchelgais gyfunol 2030 a'r tebygolrwydd y caiff ei chyflawni.

4 Fel y nodir yn nata ac argymhellion Sero Net: Sector Cyhoeddus, cynhyrchodd byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau 1,134,000 tunnell o $CO_2$ o'u cymharu â chyfanswm o 3,279,000 tunnell a gynhyrchwyd gan y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd yn 2020-21.

**Arddangosyn 2: rhai sylwadau gan gyrff cyhoeddus am uchelgais gyfunol 2030**

- ‘Rydym yn cydnabod difrifoldeb yr her sy’n ein hwynebu.’
- ‘Rydym wedi ymrwymo i gyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector cyhoeddus i fod yn sero net erbyn 2030 a byddwn yn ymdrechu i gyflawni’r targedau y mae’n eu gosod, neu’n rhagori arnynt.’
- ‘Nid yw’n ddigon clir eto beth fydd hyn yn ei olygu yn ymarferol.’
- ‘Nid oes gennym hyder llwyr y byddwn yn gallu mesur canlyniadau ein gweithredoedd.’
- ‘Bydd yn golygu camau datgarboneiddio mewn meysydd nad ydym wedi datblygu arbenigedd datgarboneiddio ynddynt eto, er enghraifft, ym maes caffael a chynllunio ynni ardal leol.’
- ‘Os nad yw ein cadwyni cyflenwi cyfan yn ddi-garbon, yna ni allwn ni fod ychwaith.’
- ‘Mae’r cyngor wedi ymrwymo i gyflawni ei uchelgeisiau sero net, er gwaethaf yr heriau.’
- ‘Bydd lefel y buddsoddiad ariannol yn sbardun i weld a ydym yn cyflawni ein huchelgais ai peidio a pha mor gyflym rydym yn gallu gweithredu.’

Ffynhonnell: Galwad am dystiolaeth Archwilio Cymru


“Rydym yn cydnabod difrifoldeb yr her sy’n ein hwynebu”

# Cyfeiriad strategol a chynllunio camau gweithredu ar gyfer datgarboneiddio

## Cyfeiriad strategol cenedlaethol

12 Dengys **Arddangosyn 3** fod cyrff cyhoeddus yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch cyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru ar ddatgarboneiddio. Roedd cyrff cyhoeddus hefyd yn gadarnhaol ar y cyfan ynglŷn â'r ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â nhw drwy sianeli amrywiol ynghylch y dull o gyflawni sero net.

**Arddangosyn 3: ymatebion cyrff cyhoeddus i'r datganiad, 'Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu cyfeiriad strategol clir i gyrff cyhoeddus yng Nghymru i'w cefnogi i gyflawni eu targedau lleihau carbon 2030'**




Ffynhonnell: Galwad am dystiolaeth Archwilio Cymru

13 Mae **Arddangosyn 4** yn rhoi enghreifftiau o'r hyn a ddywedodd cyrff cyhoeddus wrthym mewn cysylltiad â'r cyfeiriad strategol cenedlaethol.

**Arddangosyn 4: rhai sylwadau gan gyrff cyhoeddus am y cyfeiriad strategol cenedlaethol**

- 'Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod cyfeiriad strategol clir o ran uchelgais ac mae neges glir a chyson o ran ble mae angen i ni ei gyrraedd.'
- 'Rydym wedi defnyddio'r cyfeiriad a'r canllawiau strategol fel fframwaith i ddatblygu cynllun newid hinsawdd sefydliadol.'
- 'Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r cyfeiriad strategol yn glir ond nid yw'r ffordd yr ydym yn cyrraedd yno fel awdurdodau lleol, a'r cymorth a gawn yn glir.'
- 'Rwy'n credu y gallai'r llywodraeth gynnig mwy o gefnogaeth gan sicrhau bod y canllawiau a ddarperir yn gyson i bawb.'
- 'Mae angen rhagor o waith gan (Lywodraeth Cymru) i roi cyhoeddusrwydd i'r naratif strategol ehangach a'r offer sydd ar gael.'
- 'Mae Cynllun Datgarboneiddio Strategol Cenedlaethol (GIG Cymru) yn rhoi cyfeiriad clir i Gymru a sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer y blaenoriaethau sydd yn (ein hardal).
- 'Mae Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru yn nodi nifer o gamau gweithredu gydag amserlenni clir.'

Ffynhonnell: Galwad am dystiolaeth Archwilio Cymru

> **"Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r cyfeiriad strategol yn glir ond nid yw'r ffordd yr ydym yn cyrraedd yno fel awdurdodau lleol, a'r cymorth a gawn… yn glir"**

14 Mae trywydd y sector cyhoeddus yn rhan allweddol o'r cyfeiriad strategol cenedlaethol. Dywedodd rhai cyrff cyhoeddus wrthym eu bod yn ystyried trywydd y sector cyhoeddus yn fframwaith thematig a strategol lefel uchel. Fe wnaethon nhw ddweud wrthym ei fod yn gosod y cyfeiriad cyffredinol, ac yn hygyrch, a'i bod yn ddogfen hawdd ei defnyddio sydd wedi ei chyflwyno'n dda. Gwnaeth sawl corff sylwadau am ddefnyddioldeb y trywydd fel dull o esbonio, nodi, datblygu a chyflawni camau gweithredu. Dywedodd rhai wrthym hefyd fod y trywydd yn gymorth gwerthfawr i esbonio cyfrifoldebau a gofynion i uwch-reolwyr, aelodau ac aelodau bwrdd.

15 Serch hynny, dywedodd nifer o gyrff nad ydynt yn rhan o'r GIG eu bod yn dymuno cael mwy o gymorth i drosi'r strategaeth yn weithrediadau lleol o ddydd i ddydd, drwy eu cynlluniau gweithredu. Dywedodd y sefydliadau hyn wrthym, er bod trywydd y sector cyhoeddus yn darparu templed lefel uchel, fod angen mwy o eglurder, cymorth a chanllawiau arnynt o ran sut i ddatgarboneiddio. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod wedi cynllunio'r trywydd â'r nod o lunio fframwaith lefel uchel i helpu cyrff cyhoeddus i ddatblygu atebion lleol yn seiliedig ar amgylchiadau unigol, yn hytrach nag un dull gweithredu sy'n addas i bawb. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru'n darparu ffynonellau eraill o gymorth i gyrff cyhoeddus drwy Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a thrwy Raglen Ariannu Cymru, fel y nodir ym **mharagraff 22**.

16 Mae **Arddangosyn 5** yn rhoi crynodeb o rai pryderon a fynegwyd gan gyrff cyhoeddus am drywydd y sector cyhoeddus. Mae **Arddangosyn 18** yn ymhelaethu ar rai o'r pryderon hyn yn rhan o drafodaeth am rwystrau ehangach i ddatgarboneiddio.

**Arddangosyn 5: crynodeb o bryderon gan gyrff cyhoeddus am drywydd y sector cyhoeddus**

- **Amseroldeb:** Ar y cyfan, roedd cyrff cyhoeddus yn teimlo bod cysondeb rhwng y cyfeiriad a bennwyd gan Lywodraeth Cymru a'i dulliau gweithredu unigol. Fodd bynnag, oherwydd yr amseru wrth gyhoeddi'r trywydd[5], roedd rhai cyrff eisoes wedi dechrau datblygu eu strategaethau a'u cynlluniau gweithredu eu hunain felly nid oes cydberthynas gyflawn â'r trywydd bob amser. Mae cyfle i sicrhau cysondeb llawn pan fo strategaethau a chynlluniau gweithredu yn cael eu hadnewyddu.
- **Manylion:** mae angen eglurder, cymorth a chanllawiau ychwanegol o ran sut i ddatgarboneiddio ar drywydd y sector cyhoeddus.
- **Targedau:** mae rhai o'r targedau a'r amserlenni i'w cyflawni yn heriol iawn.
- **Cyllid:** mae diffyg buddsoddiad allanol, hirdymor, sydd wedi ei gynllunio gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith cyflawni.
- **Anghysondeb:** y posibilrwydd o ddehongli'r canllawiau a'r gofynion adrodd yn anghyson.
- **Cyfrifiadau:** mae angen rhagor o fanylion ac eglurder yn y carboniadur, yn benodol mewn cysylltiad â'r themâu caffael a defnydd tir.

Ffynhonnell: Galwad am dystiolaeth Archwilio Cymru

5 Dewisodd Llywodraeth Cymru ohirio cyhoeddiad y trywydd yn ystod pandemig COVID-19 oherwydd nad oedd yn dymuno gorlwytho cyrff cyhoeddus ar adeg mor anodd.

## Strategaethau a chymorth datgarboneiddio sy'n benodol i sectorau

17 Yn y sector iechyd a gofal, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnull Bwrdd Newid Hinsawdd a Rhaglen Datgarboneiddio ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, i helpu i arwain, cefnogi a rhoi trosolwg strategol i waith datgarboneiddio. Mae canllawiau ar ddatgarboneiddio ar gael i gyrff y GIG drwy gynllun y GIG a gyhoeddwyd ochr yn ochr â thrywydd y sector cyhoeddus ym mis Mai 2021. Datblygodd yr Ymddiriedolaeth Garbon a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru gynllun y GIG, sy'n nodi 46 o fentrau ar gyfer datgarboneiddio a fydd yn cael eu hasesu a'u hadolygu yn 2025 ac yn 2030.

18 Mae cynllun y GIG yn gyson â thrywydd y sector cyhoeddus, mae'n darparu mwy o fanylion ac yn dyrannu cyfrifoldeb am fentrau a chamau gweithredu i wahanol rannau o GIG Cymru. Mae cynllun y GIG yn canolbwyntio ar feysydd traddodiadol datgarboneiddio, megis adeiladau a thrafnidiaeth. Er bod y rhain yn parhau i fod yn feysydd ffocws pwysig, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod yr adran ar ddatgarboneiddio gofal iechyd[6] yn llai manwl, gan adlewyrchu'r arferion sy'n datblygu yn y maes hwn.

19 Dangosodd ein hymatebion i'r alwad am dystiolaeth gan gyrff y GIG bwyslais ar gyflawni'r camau gweithredu a nodir yng nghynllun y GIG ac ymrwymiad iddynt. Ac er ei bod yn ymddangos bod cefnogaeth yn y sector iechyd i gynllun y GIG, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod lle i gryfhau ei chyd-drefniant a'i harweinyddiaeth.

20 O ran llywodraeth leol, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn datblygu cymorth a chanllawiau pwrpasol ar ddatgarboneiddio i gynghorau. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu rhaglen cymorth pontio ac adfer Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Gan ganolbwyntio ar themâu allweddol trywydd y sector cyhoeddus, mae'r rhaglen yn darparu ystod o gymorth gan gynnwys pecynnau cymorth, ymchwil a gomisiynwyd ar ymyriadau i gyflawni sero net, hyfforddiant i feithrin gwybodaeth ac arbenigedd, a digwyddiadau i hwyluso'r dasg o rannu arferion gorau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhan o Banel Strategaeth Hinsawdd Llywodraeth Leol sy'n cefnogi ac yn rhoi trosolwg strategol i waith datgarboneiddio mewn llywodraeth leol.

21 Ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynhyrchu cynlluniau datgarboneiddio penodol ar gyfer sectorau eraill a gwmpesir gan drywydd y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n cydnabod efallai fod angen mwy o gymorth a chanllawiau ar gyrff y tu allan i'r GIG a llywodraeth leol.


6 Mae datgarboneiddio gofal iechyd yn cyfeirio at leihau allyriadau carbon mewn gwasanaethau iechyd yn hytrach na datgarboneiddio'r seilwaith ffisegol sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Mae enghreifftiau'n cynnwys y defnydd o nwyon meddygol ac anadlwyr sy'n cynnwys nwyon tŷ gwydr.

22 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth canolog arall ar ddatgarboneiddio, gan gynnwys cymorth drwy Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a chyllid grant ar gyfer gwahanol raglenni. Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn darparu cyngor technegol a chymorth arall ar effeithlonrwydd ynni, prosiectau ynni adnewyddadwy a gwelliannau fflyd i gyrff y sector cyhoeddus a mentrau cymunedol. Mae adroddiad blynyddol Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o wybodaeth am y cymorth y mae'n ei ddarparu. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ar gyfer prosiectau datgarboneiddio yn y sector cyhoeddus drwy Raglen Ariannu Cymru, sy'n ceisio gwneud adeiladau ac asedau'n fwy effeithlon o ran ynni.

## Cyfeiriad strategol lleol

23 Dengys **Arddangosyn 6** fod y mwyafrif o'r cyrff cyhoeddus yn hyderus bod eu sefydliad wedi gosod cyfeiriad strategol clir a lleol i gyflawni uchelgais gyfunol 2030.


**Arddangosyn 6: ymatebion cyrff cyhoeddus i'r datganiad, 'Mae ein sefydliad wedi pennu cyfeiriad strategol clir i gefnogi'r gwaith o gyflawni targedau lleihau carbon 2030'**




Ffynhonnell: Galwad am dystiolaeth Archwilio Cymru

24 Fodd bynnag, dengys **Arddangosyn 7** fod cyrff cyhoeddus ar gamau gwahanol iawn o ran nodi eu cynlluniau gweithredu ar gyfer datgarboneiddio. Yn yr ymatebion hyn, roedd yn ymddangos bod cyrff y GIG ychydig yn fwy y tu ôl i lywodraeth leol.

**Arddangosyn 7: statws cynlluniau gweithredu cyrff cyhoeddus**





Noder: Mae un corff cyhoeddus na ymatebodd i'r cwestiwn hwn.

Ffynhonnell: Galwad am dystiolaeth Archwilio Cymru

25 Dengys **Arddangosyn 8** amrywiad o ran i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yn defnyddio trywydd y sector cyhoeddus i lywio eu dull strategol eu hunain, a phump ohonynt yn ymateb gan ddweud nad ydynt yn ei ddefnyddio o gwbl.

**Arddangosyn 8: ymatebion cyrff cyhoeddus i'r cwestiwn, 'A yw eich sefydliad yn defnyddio trywydd sector cyhoeddus Llywodraeth Cymru i lywio ei ddull o leihau allyriadau carbon?'**




Ffynhonnell: Galwad am dystiolaeth Archwilio Cymru

## Trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth ar gyfer datgarboneiddio

26 Mae'n bwysig bod gan gyrff cyhoeddus drefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth mewnol effeithiol i sbarduno datgarboneiddio. Disgrifiodd cyrff cyhoeddus amrywiol strwythurau presennol a newydd, gan gynnwys byrddau ac uwch-grwpiau staff penodedig. Er enghraifft, mae gan holl gyrff y GIG gyfarwyddwr neu gyfarwyddwr gweithredol dynodedig i oruchwylio datgarboneiddio. Roedd yr ymatebion i'r alwad am dystiolaeth hefyd yn cydnabod bod strwythurau clir yn hanfodol a bod angen eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben.

27 Roedd cyrff cyhoeddus yn cydnabod pwysigrwydd cynnwys yr holl staff yn y mater hollbwysig o ddatgarboneiddio, ond roeddent yn cydnabod bod angen gwneud mwy. Nodwyd bod uwchsgilio staff drwy hyfforddiant yn allweddol i gefnogi'r gwaith o gyflawni uchelgais gyfunol 2030. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy i sicrhau bod uwchsgilio'n cwmpasu'r sylfaen staff gyfan ac nid uwch-arweinwyr yn unig neu'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

28 Mae **Arddangosyn 9** yn rhoi enghreifftiau o'r hyn a ddywedodd cyrff cyhoeddus wrthym mewn cysylltiad â'u trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth ar gyfer datgarboneiddio.

**Arddangosyn 9: rhai sylwadau gan gyrff cyhoeddus am eu trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth ar gyfer datgarboneiddio**

- ‘Mae grŵp swyddogion argyfwng hinsawdd a natur wedi ei sefydlu i arwain, hwyluso a chefnogi’r gwaith o gyflawni’r cynllun gweithredu.’
- ‘Mae’r bwrdd iechyd wedi sefydlu bwrdd rhaglen cynaliadwyedd a datgarboneiddio dan arweiniad y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid.’
- ‘Mae’r cyngor newydd benodi ... Rheolwr Newid Hinsawdd.’
- ‘Rydym yn cynnwys datgarboneiddio yn y model clinigol a fydd yn gweithredu mewn seilwaith ysbytai newydd gan fynd drwy gamau achos busnes.’
- ‘Mae rhai adrannau clinigol sydd wedi mabwysiadu trefniadau yn gynnar yn creu eu cynlluniau gweithredu cynaliadwyedd eu hunain.’
- ‘[Byddwn] yn penodi cyfarwyddwr bwrdd i weithredu fel arweinydd datgarboneiddio (ac uwch-swyddog cyfrifol) ac yn sefydlu grŵp llywio i oruchwylio ein rhaglen ddatgarboneiddio.’
- ‘Cadeirir y Grŵp Cynaliadwy gan y Cyfarwyddwr Strategaeth Gweithredol ac mae staff o bob rhan o’r bwrdd iechyd yn bresennol, gan gynnwys clinigwyr a’r rhai sydd wedi eu rhwydweithio i ystod eang o fforymau partner.’
- ‘Sefydlodd y cyngor ei Weithgor Newid Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol trawsbleidiol ar ôl datgan yr argyfwng hinsawdd ac ecolegol. Cefnogwyd y Gweithgor gan dîm o swyddogion.’


Ffynhonnell: Galwad am dystiolaeth Archwilio Cymru

> **“Rydym yn cynnwys datgarboneiddio yn y model clinigol”**

# Goblygiadau ariannol datgarboneiddio

29 Dengys **Arddangosyn 10** nad yw'r mwyafrif o'r cyrff cyhoeddus wedi asesu goblygiadau ariannol cyflawni uchelgais gyfunol 2030 yn llawn. Roedd rhai o'r ymatebion i'r alwad am dystiolaeth yn cynnwys costau prosiectau penodol diweddar neu brosiectau sydd ar fin digwydd ond ni welsom dystiolaeth o raglenni datgarboneiddio hirdymor yr oedd eu costau wedi eu pennu'n llawn. Rydym yn ymwybodol ers hynny bod rhai cyrff cyhoeddus wedi datblygu amcangyfrifon manylach am wariant tymor byr i ganolig.

**Arddangosyn 10: ymatebion cyrff cyhoeddus i'r datganiad, 'Mae ein sefydliad wedi asesu goblygiadau ariannol cyrraedd targedau lleihau carbon 2030 yn llawn'**




Noder: Mae un corff cyhoeddus nad ymatebodd i'r cwestiwn hwn.

Ffynhonnell: Galwad am dystiolaeth Archwilio Cymru

30 Mewn rhai achosion, dywedodd cyrff cyhoeddus wrthym nad ydynt wedi asesu'r goblygiadau ariannol oherwydd nad ydynt wedi nodi cyfres glir o gamau gweithredu a gweithgareddau i gyflawni sero net eto. Fodd bynnag, roeddent yn ymwybodol o'r brys a'r angen i gyflymu'r broses o roi camau gweithredu ar waith. Roedd cyrff cyhoeddus yn glir iawn y bydd angen adnoddau ariannol ychwanegol sylweddol i ddatgarboneiddio ar raddfa ac y bydd absenoldeb y cronfeydd hyn yn rhwystr sylweddol i gynnydd.

31 Mae angen i gyrff cyhoeddus gynllunio eu cyllid yn y fath fodd fel y gallant gyflawni eu strategaethau datgarboneiddio a'u cynlluniau gweithredu. Bydd hyn yn gofyn am gynllunio hirdymor oherwydd y bydd angen buddsoddi mewn datgarboneiddio am flynyddoedd lawer. Bydd hefyd yn gofyn am wariant ar unwaith oherwydd, os yw uchelgais gyfunol 2030 i gael ei chyflawni, mae gweithredu ar frys yn hanfodol. Dywedodd cyrff cyhoeddus wrthym y bydd angen buddsoddiad hirdymor sylweddol, yn enwedig o ran sicrhau bod eu seilwaith yn addas i'r diben fel y gellir datgarboneiddio gweithrediadau. Fodd bynnag, mynegodd cyrff cyhoeddus ansicrwydd ynghylch pa gyllid ychwanegol fyddai ar gael gan Lywodraeth Cymru. Gwnaethant gyfeirio hefyd at natur tymor byr cyllid y sector cyhoeddus a chylchoedd cyllideb, sy'n gwneud eu gwaith cynllunio ariannol tymor hirach yn anos.

32 Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod yn darparu cyllid sydd wedi ei dargedu i gyrff cyhoeddus mewn rhai meysydd, ond dywedodd hefyd na allai gyllido'r holl weithgarwch sydd ei angen. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd costau ychwanegol mewn rhai meysydd ac y darperir cyllid i bontio rhai o'r bylchau hynny wrth symud i ddewisiadau eraill carbon isel, er enghraifft, y gost gynyddol o brynu fflyd drydan yn hytrach na'r rhai sy'n cael eu pweru gan danwydd ffosil traddodiadol. Fodd bynnag, dywedodd Llywodraeth Cymru, wrth i ddatgarboneiddio gael ei brif ffrydio fwyfwy i feddylwaith rheolaidd, na ddylai cyrff cyhoeddus ganolbwyntio ar gyllid ychwanegol, ac y dylent symud i sefyllfa lle bo datgarboneiddio yn cael ei gyllido drwy eu cyllidebau cyfredol o ganlyniad i achos busnes cryf.

33 Mae **Arddangosyn 11** yn rhoi enghreifftiau ychwanegol o'r hyn a ddywedodd cyrff cyhoeddus wrthym mewn cysylltiad â goblygiadau ariannol datgarboneiddio.

**Arddangosyn 11: rhai sylwadau gan gyrff cyhoeddus am oblygiadau ariannol datgarboneiddio**

- ‘Nid yw goblygiadau ariannol datgarboneiddio wedi eu hystyried yn llawn.’
- ‘Rydym yn cydnabod bod gennym waith ychwanegol i’w wneud yn hyn o beth.’
- ‘Mae’r cyngor yn cydnabod y bydd cyflawni ei uchelgais sero net yn effeithio ar ei gyllideb yn y tymor byr a’r hirdymor.’
- ‘Hyd nes y bydd y cyngor yn llunio cynllun cyflawni sero net 2030 manwl a’i gostau wedi eu pennu’n llawn, ni all y cyngor asesu’r goblygiadau ariannol yn gywir.’
- ‘Dylid cydnabod y bydd angen cyllid i gyflawni’r nod o sero net erbyn 2030.’
- ‘Nid oes unrhyw amcangyfrifon o gostau y lefelau gwariant tymor canolig.’
- ‘Nid yw’r gost o ddatgarboneiddio ein gweithrediadau clinigol wedi ei hamcangyfrif.’


Ffynhonnell: Galwad am dystiolaeth Archwilio Cymru

> **“Mae’r cyngor yn cydnabod y bydd cyflawni ei uchelgais sero net yn effeithio ar ei gyllideb yn y tymor byr a’r hirdymor”**

# Adrodd ar gynnydd o ran datgarboneiddio

34 Mae angen i gyrff cyhoeddus ddeall o ble y mae eu hallyriadau yn dod fel y gallant wirio a ydynt yn gwneud cynnydd a blaenoriaethu eu gweithredoedd. Canfuom fod materion data yn rhwystr mawr i gael dealltwriaeth gyffredin am y broblem ac i wneud penderfyniadau strategol am yr atebion. Dengys **Arddangosyn 12** fod 14 o gyrff wedi nodi bod ganddynt drefniadau adrodd yr oeddent yn teimlo eu bod yn addas i'r diben, nad oedd gan 10 ohonynt drefniadau ar waith, a bod gan 24 ohonynt drefniadau yr oedd angen eu diweddaru.

**Arddangosyn 12: ymatebion cyrff cyhoeddus i'r cwestiwn, 'Pa un o'r dewisiadau canlynol sy'n disgrifio orau drefniadau eich sefydliad ar gyfer adrodd ar y cynnydd tuag at allyriadau carbon sero net?'**




Ffynhonnell: Galwad am dystiolaeth Archwilio Cymru

35 Mae'r monitro a'r adrodd presennol yn tueddu i gael eu gwneud drwy adroddiadau neu ddangosfyrddau i'r cabinet, y cyngor, y bwrdd, y pwyllgor craffu neu grwpiau eraill. Mae rhai cyrff yn adrodd ar ddatgarboneiddio fel rhan o broses o adrodd ar gynnydd eu cynlluniau corfforaethol neu eu hamcanion llesiant. Cyfeiriodd rhai ymatebion at grwpiau hinsawdd penodol a threfniadau eraill sydd wedi eu sefydlu'n benodol i fonitro ac adrodd ar weithgarwch datgarboneiddio.

36 Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod lle i adrodd yn well ar ddatgarboneiddio. Mae'r canfyddiad hwn yn gydnaws â blog a gyhoeddwyd gennym ym mis Chwefror 2022 a oedd yn galw am gynnwys gwybodaeth gliriach am gamau gweithredu newid hinsawdd yn natganiadau ariannol cyrff cyhoeddus, er mwyn sicrhau mwy o dryloywder ac atebolrwydd.

37 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi methodoleg adrodd gyffredin (gweler **paragraff 5**) fel y gall cyrff cyhoeddus adrodd ar eu hallyriadau drwy Canllaw sector cyhoeddus Cymru ar gyfer adrodd ar garbon sero-net a thaenlen adrodd sero net. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i gyrff cyhoeddus gyflwyno'r data cyntaf erbyn mis Hydref 2021 ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21.

38 Mewn ymatebion i'n galwad am dystiolaeth, roedd cyrff cyhoeddus yn cydnabod yn gyffredinol pa mor ddefnyddiol oedd bod â methodoleg adrodd gyffredin, ond roeddent yn canfod bod agweddau ar y cyflwyniad yn heriol a gwnaethant amlygu problemau wrth gasglu data ym mis Hydref 2021. Cyfeiriodd rhai ymatebion at bryderon ynghylch dulliau cyfrifo, yn enwedig o ran y gadwyn gyflenwi. O ran allyriadau'r gadwyn gyflenwi, cyfeiriodd cyrff cyhoeddus at y ffaith bod y cyfrifiad yn seiliedig ar gost y contract yn hytrach na'r allyriadau gwirioneddol a gynhyrchir gan y cynnyrch neu'r gwasanaeth a gafaelwyd. Galwodd cyrff cyhoeddus am fwy o eglurder o ran diffiniadau hefyd, er mwyn sicrhau bod y diffiniadau'n cael eu dehongli a'u hadrodd yn gyson. Nododd rhai ymatebion hefyd nad oedd y systemau presennol yn gallu casglu'r data gofynnol, a bod yn rhaid eu diweddaru, neu fod yn rhaid rhoi systemau newydd ar waith. Roedd hyn yn cymryd llawer o amser yn aml ac yn defnyddio llawer o adnoddau.

39 Cyfeiriodd cyrff cyhoeddus at rai pryderon eraill am y fethodoleg adrodd gyffredin. Dywedodd rhai ymatebwyr fod y ffordd yr adroddir ar allyriadau sy'n deillio o ddefnydd tir yn rhy syml.

40 Cododd cyrff y GIG bryderon hefyd ynghylch dyblygu ag adroddiadau ar allyriadau carbon sydd eisoes wedi eu sefydlu megis y rhai sy'n ofynnol gan y System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau[7]. Creodd hyn ddryswch yn ystod y flwyddyn adrodd gyntaf. Dymunai cyrff y GIG fwy o eglurder er mwyn osgoi dyblygu rhwng y gofynion adrodd hyn.

7 Set gynhwysfawr o ddata ar ystadau a chyfleusterau yw'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau. Sefydlodd Llywodraeth Cymru y system yn 2002 i wella'r ffordd y rheolir ystad y GIG. Mae'n caniatáu i gyrff y GIG gymharu eu perfformiad â chyrff eraill y GIG yng Nghymru a Lloegr.

41 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen gwelliannau yn y dull adrodd presennol ac mae wedi ymrwymo i ddysgu oddi wrth sylwadau ac i wella dulliau a systemau pan fo hynny'n angenrheidiol. Comisiynodd Llywodraeth Cymru ymgynghorwyr i adolygu'r data cyntaf a gyflwynwyd gan gyrff cyhoeddus ac, ym mis Mehefin 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr adroddiad ymgynghori, sef Sero Net y Sector Cyhoeddus yng Nghymru: Llinell sylfaen ac argymhellion, yn llawn. Dywed yr adroddiad fod y ffigurau'n cynnwys ansicrwydd sylweddol, yn enwedig mewn cysylltiad ag allyriadau'r gadwyn gyflenwi, sy'n 87% o allyriadau'r sector cyhoeddus. Nid yw'r data wedi eu harchwilio'n drylwyr ychwaith. Mae'r ffigurau hefyd yn awgrymu y bu gostyngiad o 5% yn allyriadau'r sector cyhoeddus ledled Cymru rhwng 2019-20 a 2020-21.

42 Gan mai hon yw blwyddyn gyntaf y canllaw ar gyfer adrodd, cyfnod o ddysgu yw hi, a bydd y cyfrifiad ar gyfer adrodd ar allyriadau yn cael ei ddatblygu ymhellach pan fo hynny'n angenrheidiol. Yn dilyn sylwadau gan gyrff cyhoeddus, a'r adolygiad o'r data a gyflwynwyd gan ymgynghorydd allanol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllaw diwygiedig ar gyfer adrodd ac offeryn ym mis Gorffennaf 2022.

43 Mae **Arddangosyn 13** yn rhoi enghreifftiau o'r hyn a ddywedodd cyrff cyhoeddus wrthym mewn cysylltiad â monitro ac adrodd ar ddatgarboneiddio.

**Arddangosyn 13: rhai sylwadau gan gyrff cyhoeddus am fonitro ac adrodd ar ddatgarboneiddio**

- ‘Dilynwyd y canllawiau adrodd ar allyriadau mor agos â phosibl.’
- ‘Mae angen cryfhau/egluro dau faes penodol, sef gwastraff a’r gadwyn gyflenwi.’
- ‘Rydym yn gwerthfawrogi’r manteision o gael fformat cyson i’n helpu ni a Llywodraeth Cymru i fonitro’r cynnydd.’
- ‘Mae angen mireinio’r dull o adrodd ar allyriadau’r gadwyn gyflenwi yn sylweddol fel y gellir ei ystyried yn gywir.’
- ‘Mae angen diweddaru’r swyddogaethau casglu data ac adrodd presennol.’
- ‘Rydym yn datblygu’r offer adrodd angenrheidiol i fodloni gofynion Canllawiau Adrodd Carbon Sero Net.’

Ffynhonnell: Galwad am dystiolaeth Archwilio Cymru

> **“Rydym yn gwerthfawrogi’r manteision o gael fformat cyson i’n helpu ni a Llywodraeth Cymru i fonitro’r cynnydd”**


## Cydweithredu ac ymgysylltu â chyrff eraill, staff a dinasyddion

44 Er mwyn cefnogi'r gwaith o gydweithredu ac ymgysylltu ar lefel genedlaethol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Newid yn yr Hinsawdd: Dull Ymgysylltu Llywodraeth Cymru 2022-26 ym mis Mehefin 2021. Cyfeiria'r ddogfen at ddull Tîm Cymru, lle mae pawb yng Nghymru yn chwarae rhan mewn gweithredu ar y cyd ar newid hinsawdd. Mae dau amcan allweddol i'r dull ymgysylltu:

- ymgysylltu â rhanddeiliaid ar faterion sy'n ymwneud â newid hinsawdd mewn ffordd amserol ac effeithiol; a
- chryfhau a datblygu cynghrair Tîm Cymru i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

45 Dengys **Arddangosyn 14** fod cyrff cyhoeddus yn teimlo eu bod yn gweithio'n dda gyda sefydliadau eraill ar ddatgarboneiddio. Ac mae **Arddangosyn 15** yn nodi sylwadau a wnaed gan gyrff cyhoeddus am eu hymdrechion cydweithredol hyd yma a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.

**Arddangosyn 14: ymatebion cyrff cyhoeddus i'r datganiad, 'Mae ein sefydliad yn cydweithredu'n effeithiol â chyrff eraill er mwyn cyflawni targedau lleihau carbon 2030'**




Ffynhonnell: Galwad am dystiolaeth Archwilio Cymru

**Arddangosyn 15: rhai sylwadau gan gyrff cyhoeddus am gydweithredu**

- ‘Trwy’r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus, rydym wedi sefydlu Bwrdd Argyfwng Hinsawdd sy’n cynnwys aelodau presennol y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus, ond sefydliadau ychwanegol hefyd gan gynnwys darparwyr cyfleustodau a’n prifysgol leol.’
- ‘Yn rhan o’n gwaith Cynllun Llesiant, rydym yn cydweithredu â’n partneriaid ar hyn o bryd ac rydym yn y camau cynnar o ddatblygu Strategaeth Hinsawdd ar gyfer y ddinas.’
- ‘Rydym yn gweithio’n agos gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus drwy Fwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Rydym yn cymryd rhan yng Ngrŵp Cynghori Ar Ddatgarboneiddio Gogledd Cymru.’
- ‘Rydym wedi cwblhau dadansoddiad anffurfiol o bwy y mae angen i ni weithio gyda nhw, ond nid ydym wedi cwblhau dadansoddiad ffurfiol o bartneriaid eto.’
- ‘Mae’r cydweithrediad rhwng sefydliadau’r GIG wedi bod yn isel, er bod hyn yn newid drwy Fwrdd Rhaglen Newid Hinsawdd a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru.’
- ‘Mae gennym nifer o gynrychiolwyr ar y Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio: Cymuned o Arbenigwyr. Bydd hyn yn rhannu’r hyn a ddysgwyd ac arferion da ar draws y byrddau iechyd yng Nghymru.’
- ‘Teimlwn y byddai gweithgor datgarboneiddio ffurfiol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn mynd i’r afael â rhai o’r heriau sy’n wynebu cymunedau sy’n gwasanaethu a gwmpesir gan nifer o asiantaethau awdurdodau lleol.’

Ffynhonnell: Galwad am dystiolaeth Archwilio Cymru

> **“Teimlwn y byddai gweithgor datgarboneiddio ffurfiol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn mynd i’r afael â rhai o’r heriau”**

46 Mae rhai cyrff wedi sefydlu eu trefniadau cydweithredol lleol eu hunain ar gyfer datgarboneiddio, ac mae cyrff eraill yn cydweithredu drwy drefniadau a gynullwyd gan Lywodraeth Cymru neu Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru neu drwy fforymau statudol megis byrddau gwasanaethau cyhoeddus. Hefyd, roedd cyfran sylweddol o gyrff wedi cynnwys arbenigwyr allanol yn eu hymdrechion datgarboneiddio, megis yr Ymddiriedolaeth Garbon.

47 Dywedodd cyrff llai, megis y parciau cenedlaethol a chyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru, wrthym eu bod wedi bod yn cydweithredu'n dda gyda'i gilydd. Oherwydd eu maint, fe wnaethon nhw ddweud eu bod braidd yn ddibynnol ar arbenigedd a chyngor allanol mewn cysylltiad â datgarboneiddio.

48 Roedd rhai cyrff cyhoeddus yn cydnabod bod eu pwyslais hyd yma wedi bod ar sefydlu strwythurau mewnol, yn hytrach nag ar gydweithredu allanol. Ac er gwaethaf yr ymatebion a ddangosir yn **Arddangosyn 14**, roedd llawer o gyrff cyhoeddus yn cytuno bod angen cryfhau'r gwaith cydweithredu ac ymgysylltu.


49 Mae lle i ymgysylltu'n gryfach â'r staff a'r cyhoedd, gan eu cynnwys yn fwy. Dengys **Arddangosyn 16** safbwyntiau cymysg gan gyrff cyhoeddus ynghylch i ba raddau y maent yn ymgysylltu â'u staff ac yn eu cynnwys. Ac mae **Arddangos 17** yn dangos mai dim ond 15 o'r 48 cyrff cyhoeddus y gwnaethom gysylltu â nhw oedd yn hyderus eu bod yn ymgysylltu'n effeithiol ag amrywiaeth lawn y boblogaeth. Dywedodd rhai cyrff cyhoeddus wrthym am ymdrechion ymgysylltu â'r cyhoedd drwy ddulliau megis arolygon ar-lein, sianeli cyfryngau cymdeithasol a grwpiau cymunedol, ond roeddent yn cydnabod yn gyffredinol fod angen gwella'r gwaith ymgysylltu hwn. Mae hyn yn arwyddocaol oherwydd achos bod ein hadroddiad yn 2019 ar dlodi tanwydd[8] a'r Grŵp Cynghori ar Ddatgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru[9] yn canfod bod yna rai achosion anodd o gyfaddawd rhwng cyfiawnder cymdeithasol a nodau i leihau carbon. Dylai ymgysylltu ag amrywiaeth lawn y boblogaeth helpu cyrff cyhoeddus yn eu hymdrechion ar gyfer trawsnewid cyfiawn[10] i gyfeiriad allyriadau carbon sero net.

8 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tlodi Tanwydd, Hydref 2019

9 Grŵp Cynghori ar Ddatgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru, Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell: Datgarboneiddio cartrefi presennol yng Nghymru, Gorffennaf 2019


10 Mae 'trawsnewid cyfiawn' yn golygu gweithredu ar newid hinsawdd a gwyrddio'r economi mewn ffordd sydd mor deg a chynhwysol â phosibl i bawb dan sylw. Mae Polisi 1 yn nogfen Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021-2025) yn nodi barn Llywodraeth Cymru ar drawsnewid cyfiawn.

**Arddangosyn 16: ymatebion cyrff cyhoeddus i'r datganiad, 'Mae ein sefydliad yn ymgysylltu'n effeithiol â'r staff ac yn eu cynnwys er mwyn cyflawni targedau lleihau carbon 2030'**




Ffynhonnell: Galwad am dystiolaeth Archwilio Cymru

**Arddangosyn 17: ymatebion cyrff cyhoeddus i'r datganiad, 'Mae ein sefydliad yn ymgysylltu'n effeithiol ag amrywiaeth lawn ein poblogaeth er mwyn cyflawni targedau lleihau carbon 2030'**






Ffynhonnell: Galwad am dystiolaeth Archwilio Cymru


# Rhwystrau, cyfleoedd ac arferion diddorol ar ddatgarboneiddio

50 Gofynnwyd i gyrff cyhoeddus am y rhwystrau i gyflawni uchelgais gyfunol 2030. Mae **Arddangosyn 18** yn crynhoi'r rhwystrau y gwnaethon nhw ddweud wrthym amdanynt a oedd yn gyffredin ar draws y sector cyhoeddus i raddau helaeth yr archwilir llawer ohonynt yn gynharach yn yr adroddiad. Un thema gyffredin oedd bod datgarboneiddio'n gymhleth, yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol a bod llawer o'r buddugoliaethau rhwydd wedi eu cyflawni. Fodd bynnag, roedd cyrff cyhoeddus yn ymwybodol bod angen cynyddu cyflymder y gweithgarwch a bod risgiau o golli enw da wrth beidio â gwneud hynny.

**Arddangosyn 18: crynodeb o safbwyntiau cyrff cyhoeddus am y rhwystrau i gyflawni uchelgais gyfunol 2030**

| Rhwystrau | |
|---|---|
| **Cyllid**  | Dyma'r rhwystr a grybwyllwyd amlaf. Cyfeiriodd cyrff at yr angen am fuddsoddiad refeniw a chyfalaf sylweddol a pharhaus yn y tymor byr a'r hirdymor. Fe wnaethon nhw ddweud bod angen penodol i fuddsoddi mewn gwella seilwaith, ystadau, offer a chyfarpar nad ydynt yn addas ar gyfer lleihau allyriadau carbon.<br><br>Trafodir y materion hyn ymhellach ym **mharagraffau 29 i 33**. |
| **Bylchau o ran capasiti a sgiliau staff**  | Dywedodd cyrff cyhoeddus wrthym fod capasiti'r staff presennol yn cael ei estyn i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae datgarboneiddio yn faes cymhleth ac mae cyrff cyhoeddus yn credu nad oes ganddynt y sgiliau na'r arbenigedd yn y maes hwn. Mae cryn gystadleuaeth i bobl sydd ag arbenigedd a gwybodaeth arbenigol.<br><br>Mae cyfyngiadau ariannol yn ei gwneud yn anodd i rai cyrff ddod â staff ychwanegol i mewn. Hefyd, oherwydd bod y sector preifat yn gallu cynnig cyflogau uwch, nid yw cyrff cyhoeddus o dan anfantais o ran denu staff. |

| | |
|---|---|
| **Deall y gweithgareddau sydd eu hangen**  | Mae cyrff cyhoeddus yn dal i feithrin dealltwriaeth o’r gweithgareddau penodol sydd eu hangen i ddatgarboneiddio a sut y dylid blaenoriaethu’r rhain. Mae cyrff cyhoeddus yn teimlo bod angen cymorth a chanllawiau ychwanegol arnynt ar sut i drosi’r dull strategol yn weithredu. |
| **Diwylliant, addysg a hyfforddiant**  | Gall ymgorffori datgarboneiddio mewn gweithgareddau o ddydd i ddydd fod yn newid diwylliannol sylweddol. Dywedodd rhai cyrff cyhoeddus wrthym fod datgarboneiddio’n gymhleth ac y gallai fod yn anodd newid dulliau gweithredu hirsefydlog.<br><br>Dywedodd rhai cyrff fod posibilrwydd o ddifaterwch staff wrth iddynt orfod ymgymryd â gweithgareddau datgarboneiddio ychwanegol ar ben gwaith y dydd. Bydd angen cyfathrebu sylweddol â staff i gael eu cefnogaeth a bydd angen hyfforddiant helaeth hefyd er mwyn uwchsgilio staff i gyflawni. |
| **Technoleg a seilwaith**  | Mae llawer o dechnolegau newydd yn ddrud ac mae cyrff cyhoeddus yn bwyllog ynghylch buddsoddi oherwydd y risgiau nad yw’r dechnoleg yn effeithiol neu’n mynd yn ddiwerth.<br><br>Mewn meysydd eraill, megis datblygu ambiwlansys a chyfarpar tân sy’n cael eu pweru â thrydan, dywedodd cyrff cyhoeddus wrthym nad oedd y technolegau’n datblygu’n ddigon cyflym a’u bod yn afresymol o ddrud mewn rhai achosion.<br><br>Roedd pryderon hefyd ynghylch diffyg pwyntiau gwefru trydan a diffyg capasiti’r grid i ymdopi â’r ddibyniaeth gynyddol ar drydan.<br><br>Hefyd, mae materion yn ymwneud â chyflenwad a galw yn broblem mewn cysylltiad â rhai technolegau newydd, lle y ceisir technolegau ond eu bod yn gyfyngedig o ran cyflenwad. |

| | |
|---|---|
| **Data**<br> | Cydnabu cyrff cyhoeddus pa mor ddefnyddiol oedd bod â methodoleg gyffredin ar gyfer adrodd ar allyriadau carbon. Fodd bynnag, cyfeiriodd rhai ymatebion at bryderon ynghylch dulliau cyfrifo, yn enwedig o ran y gadwyn gyflenwi a defnydd tir, a galwyd am ragor o eglurder o ran diffiniadau er mwyn sicrhau cysondeb.<br>Nododd rhai ymatebion nad oedd y systemau presennol yn gallu casglu'r data gofynnol, a bod yn rhaid eu diweddaru, neu fod yn rhaid rhoi systemau newydd ar waith. Roedd hyn yn cymryd llawer o amser yn aml ac yn defnyddio llawer o adnoddau. Cododd cyrff y GIG bryderon ynghylch dyblygu gyda'r trefniadau adrodd presennol ar allyriadau. |
| **Dull cydgysylltiedig**<br> | Dywedodd rhai ymatebwyr wrthym fod angen newid meddwl ar raddfa eang, gyda dull mwy cydgysylltiedig ar draws y sector cyhoeddus a sbardunir gan Lywodraeth Cymru.<br>Roedd un enghraifft a roddwyd yn ymwneud ag asesu technolegau newydd a thechnolegau datblygol. Roedd cyrff cyhoeddus yn pryderu am fuddsoddi mewn technolegau a fyddai'n cael eu disodli'n gyflym neu nad oedd yn arfer gorau, felly byddai un penderfyniad ar draws y sector cyhoeddus ynghylch yr hyn sydd orau yn helpu i liniaru'r risg hon. |
| **Trydydd partïon**<br> | Mae gan drydydd partïon swyddogaeth i'w chwarae o ran helpu cyrff cyhoeddus i symud tuag at uchelgais gyfunol 2030. Er enghraifft, allyriadau gan bartneriaid yn y gadwyn gaffael, a'r galw mawr am adnoddau arbenigol cyfyngedig a thechnolegau mwy newydd megis cerbydau trydan, sy'n golygu nad ydynt ar gael yn aml.<br>Mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi argymell o'r blaen y dylai cyrff cyhoeddus nodi'n glir sut maen nhw wedi ystyried effaith carbon o ran eu penderfyniadau ar gaffael[11]. |

Ffynhonnell: Galwad am dystiolaeth Archwilio Cymru

11 Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Caffael Llesiant yng Nghymru, Chwefror 2021.

51 Er bod cyrff cyhoeddus wedi nodi amrywiaeth o rwystrau i gyflawni uchelgais gyfunol 2030, maent hefyd yn gweld rhai cyfleoedd sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio (**Arddangosyn 19**) ac maent wedi rhannu rhai enghreifftiau o arferion diddorol gyda ni yr oeddent yn teimlo efallai y gall cyrff eraill ddysgu ohonynt (**Arddangosyn 20**).

**Arddangosyn 19: rhai cyfleoedd y dywedodd cyrff cyhoeddus wrthym amdanynt mewn cysylltiad â datgarboneiddio**

Tynnodd cyrff cyhoeddus sylw at gyfleoedd i wneud y canlynol:

- adeiladu ar y proffil newid hinsawdd sy'n deillio o COP26 er mwyn manteisio ar yr ymwybyddiaeth gyhoeddus uwch a meithrin perthynas â chymunedau lleol a rhanddeiliaid eraill;
- cynyddu cydweithrediad â sefydliadau eraill, rhannu arferion gorau wrth weithio tuag at ddatgarboneiddio a datblygu dulliau caffael lleol;
- cynyddu'r defnydd o dechnolegau newydd a thechnoleg sy'n datblygu, gwireddu arbedion cost o ynni adnewyddadwy ac ystyried y posibiliadau economaidd a'r posibiliadau o greu swyddi sy'n deillio o ddiwydiannau gwyrdd newydd;
- cynyddu ymwybyddiaeth o frys datgarboneiddio ymhlith staff, gweithredwyr, byrddau ac aelodau, a diwygio trefniadau llywodraethu ac arwain er mwyn sicrhau bod datgarboneiddio yn cael ei ymgorffori mewn busnes a phenderfyniadau bob dydd; ac
- adeiladu ar yr arferion gweithio hyblyg a gododd yn ystod pandemig COVID-19 i fanteisio ymhellach ar dechnolegau digidol wrth ddarparu gwasanaethau a gweithio bob dydd.

Ffynhonnell: Galwad am dystiolaeth Archwilio Cymru

**Arddangosyn 20: rhai enghreifftiau o arferion diddorol y gallai cyrff eraill ddysgu ohonynt**

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Mae'r bwrdd iechyd yn rhan o fenter o'r enw Iechyd Gwyrdd Cymru i ddatblygu cymuned o weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gallu rhannu profiad â'u cydweithwyr ledled y wlad. Nod Iechyd Gwyrdd Cymru yw grymuso'r sector iechyd a gofal cymdeithasol â'r offer a'r wybodaeth i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Nid yw'r bwrdd iechyd wedi amcangyfrif cost seilwaith adeiladu sero-net ar y cyfluniad ystâd bresennol, fodd bynnag, amcangyfrifodd arbenigwyr yn 2021, o fewn senario adeliadu newydd o ran Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Athrofaol Llandochau, y gallai cost seilwaith adeiladu sero net fod rhwng £89 miliwn a £266 miliwn.

### Cyngor Sir Ddinbych

Sefydlodd y cyngor ei Weithgor Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol trawsbleidiol ar ôl datgan yr argyfwng hinsawdd ac ecolegol. Argymhelliad allweddol gan y gweithgor oedd diwygio cyfansoddiad y cyngor i gynnwys yr angen i roi 'sylw i fynd i'r afael â newid hinsawdd ac ecolegol' o fewn egwyddorion penderfynu. Mae'r cyngor bellach wedi ymrwymo'n ffurfiol i ystyried newid hinsawdd ac ecolegol wrth wneud holl benderfyniadau'r cyngor.

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Mae'r bwrdd iechyd yn datblygu offeryn llwybr er mwyn mesur effaith gwahanol senarios o fewnbwn ariannol i fesurau datgarboneiddio. Bydd yn defnyddio'r offeryn i fonitro effeithiolrwydd ei fesurau datgarboneiddio.

Mae fferm solar wedi ei chysylltu'n uniongyrchol ag Ysbyty Treforys, sy'n cyflenwi 30% o'i thrydan.

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Mae'r cyngor wedi bod yn rhan o sefydlu grŵp llywio lliniaru trwy Bartneriaeth Llesiant Lleol Blaenau Gwent, ac mae blaenoriaethau trigolion wedi llywio gwaith y grŵp trwy argymhellion Cynulliad Hinsawdd Blaenau Gwent. Yn ei gynllun datgarboneiddio, mae'r cyngor wedi nodi nifer o lwybrau pontio i'w dilyn er mwyn cyflawni sero net. Mae pob llwybr pontio yn faes gweithredu cydlynol sydd â thechnolegau carbon isel, modelau busnes a seilwaith penodol. Datblygwyd y llwybrau hyn i ganiatáu i bob un ohonynt fynd rhagddynt ar eu cyflymder priodol ei hunain. Cefnogir y gwaith o gyflawni'r llwybrau gan asesiadau parodrwydd i dderbyn arferion gorau a addaswyd o offer a ddatblygwyd gan Place-Based Climate Action Network ar gyfer Leeds Climate Commission.

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Mae'r cyngor wedi sefydlu gwefan ymgysylltu 'Dewch i siarad' lle gall aelodau o'r cyhoedd adael sylwadau a syniadau am amrywiaeth o faterion newid yn yr hinsawdd.

### Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Prosiect Carbon Positif Cyfoeth Naturiol Cymru, a ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru i ddangos arweiniad o ran sut y gall y sector cyhoeddus fesur a lleihau ei effaith carbon, wedi llywio'r gwaith o ddatblygu trywydd sector cyhoeddus a'r canllaw adrodd sero net. Fel rhan o'r prosiect, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd camau nid yn unig i leihau allyriadau carbon ond hefyd i wella a diogelu carbon sydd wedi'i storio ar y tir y mae'n ei reoli a rhannu ei brofiadau er mwyn annog rhagor o ddatgarboneiddio yng Nghymru.

**Cyngor Castell-nedd Port Talbot**

Mae'r cyngor yn cydweithio gyda chwmni preifat sy'n arbenigo mewn ailddefnyddio nwyon gwastraff sy'n deillio o brosesau diwydiannol, fel y gellir eu troi'n fiodanwyddau. Y bwriad yw cyflwyno prosiect peilot yng Nghastell-nedd Port Talbot a fydd yn defnyddio nwyon gwastraff o'r diwydiant dur. Pan fydd yn gwbl weithredol, rhagwelir y bydd y gwaith yn cynhyrchu 30 miliwn galwyn o fiodanwyddau bob blwyddyn i'w defynyddio gan y diwydiant hedfan.

Mae Prosiect Adfer Mawndiroedd y cyngor yn ceisio adfer dros 540 hectar o dirwedd a chynefin hanesyddol.

**Nifer o gyrff cyhoeddus**

Rhoddodd sawl sefydliad enghreifftiau o'r canlynol inni:

- defnyddio gwaith adeiladu newydd neu waith ailddatblygu cyfleusterau i wella eu hôl troed carbon yn sylweddol;
- caffael cerbydau allyriadau isel;
- gosod pwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan;
- cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle;
- datblygu rhwydweithiau staff gweithredol; a
- gosod systemau gwresogi a goleuo sy'n defnyddio ynni'n effeithlon.

Ffynhonnell: Galwad am dystiolaeth Archwilio Cymru

# Atodiad

1 Dull a moddau archwilio

# 1 Dull a moddau archwilio

Ym mis Tachwedd 2021, gwnaethom gyhoeddi galwad am dystiolaeth i 48 o gyrff cyhoeddus, gan ofyn cwestiynau am eu sefyllfa llinell sylfaen o ran cyflawni uchelgais gyfunol 2030. Ymatebodd y mwyafrif o'r cyrff cyhoeddus yn ystod y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Ionawr 2022. Anfonwyd yr alwad am dystiolaeth at y cyrff a gwmpaswyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar y pryd. Roedd hyn yn cynnwys yr holl brif gynghorau, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG, a'r cyrff mwy a noddir gan Lywodraeth Cymru.

Anfonwyd yr alwad am dystiolaeth at Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru,  Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru hefyd er mwyn sicrhau bod gennym ddarlun mwy cyflawn ar draws y GIG. Anfonwyd yr alwad am dystiolaeth i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru hefyd, sef sefydliad cydfuddiannol annibynnol sy'n eiddo i GIG Cymru ac a gyfarwyddir ganddo, sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau i GIG Cymru ac ar ei ran. Cynhelir Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru o dan fframwaith cyfreithiol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ac mae'n gweithredu o dan fframwaith cyfreithiol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, a gwmpesir ei hun gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Cawsom ymatebion gan bob corff yr anfonwyd yr alwad am dystiolaeth atynt, er nad atebwyd pob cwestiwn mewn nifer fach o achosion. Pan nad atebwyd cwestiynau gan bob corff cyhoeddus, cynhwysir hyn mewn nodyn i bob graff perthnasol.

Er mwyn llywio ein gwaith, gwnaethom gynnal trafodaethau â rhanddeiliaid perthnasol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, cynrychiolwyr GIG Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Gwnaethom adolygu dogfennau allweddol hefyd, gan gynnwys polisïau a chanllawiau, a gwybodaeth berthnasol arall a ddarparwyd inni gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill.

Ni wnaethom gynnal adolygiad manwl ym mhob un o'r cyrff cyhoeddus. Er ein bod wedi dibynnu i raddau helaeth ar yr hyn a adroddwyd ganddynt drwy eu hatebion i'n galwad am dystiolaeth ac unrhyw ddogfennau ategol, rydym hefyd wedi ceisio triongli ein canfyddiadau drwy drafodaethau â rhanddeiliaid a thystiolaeth o'n hadolygiad o ddogfennau a data ehangach. Gwnaethom rannu a thrafod ein canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg mewn gweminar gyhoeddus a gynhaliwyd ym mis Mai 2022 hefyd. Roedd 109 o bobl o'r tu allan i Archwilio Cymru yn bresennol yn y gweminar, ac roedd y rhain yn cynrychioli amrywiaeth o sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

Fel y nodir yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae’r Archwilydd Cyffredinol wedi ymrwymo i raglen waith hirdymor ar newid hinsawdd. Rydym eisoes wedi adrodd ar ymdrechion datgarboneiddio awdurdodau, tân ac achub, rydym wedi dechrau adolygu cynlluniau gweithredu datgarboneiddio cynghorau ac rydym yn paratoi adroddiad ar reoli’r perygl o lifogydd. Yn dilyn ymgynghoriad diweddar ar ein rhaglen waith yn y dyfodol, rydym yn ystyried ein camau nesaf mewn cysylltiad ag archwilio camau gweithredu i ddatgarboneiddio ac addasu i’r newidiadau sydd eisoes yn digwydd i’n hinsawdd.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn destun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Anthony Connolly
Uwch Ymgynghorydd Risg, Zurich Risk Engineering
Awst 2022

# Gwiriad Iechyd Newid Hinsawdd

## Cyngor Sir Ynys Môn



Cyfrinachol: O ran cwestiynau mewn perthynas â dyblygu neu ddosbarthu'r ddogfen hon, cysylltwch â'r awdur os gwelwch yn dda
Hawlfraint © 2022 Zurich

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Crynodeb Gweithredol | 4 |
| Sylwadau a chanfyddiadau | 5 |
| Argymhellion | 6 |
| Camau Gweithredu a Argymhellir | 7 |
| Atodiad A – Cyfweledigion | 9 |




# Cyflwyniad


Mae Targedau Carbon Sero Net a Chytuniad Cytundeb Paris ar y newid yn yr hinsawdd wedi canolbwyntio ymdrechion a barnau o safbwynt byd-eang ar ein trywydd tuag at gynnydd mewn tymheredd o fwy na dwy radd Celsius. Ymgymerwyd â Gwiriad Iechyd Newid Hinsawdd yng Nghyngor Sir Ynys Môn (gyda chymorth Rheolwr Newid Hinsawdd CSYM a'r Tîm Archwilio Mewnol a Rheoli Risg) i gael gwell dealltwriaeth o'r meysydd allweddol yr ydym yn agored iddynt o ran risg, ynghyd â meysydd lle mae angen gwneud gwelliannau er mwyn cyflawni sero net erbyn 2030. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cipolwg ar y strategaethau, y cynlluniau a'r camau gweithredu presennol; nid asesiad technegol o'r cynlluniau cyfredol mo hwn. Mae rhai o'r strategaethau'n cael eu gosod / dylanwadu ar lefelau Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, ac mae'r adroddiad yn cydnabod y gall dylanwadau allanol, y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Cyngor, effeithio ar gyllid a chynlluniau.

Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar ddadansoddi dogfennau, ynghyd â chynnal cyfweliadau ag aelodau staff allweddol ac arsylwadau o fewn y gweithle, gyda pherfformiad yn cael ei asesu yn erbyn saith categori galluogi allweddol:

Diwylliant a dulliau gweithredu o fewn y sefydliad
Cyllido Camau Gweithredu yng Nghyswllt y Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd
Llywodraethu
Monitro – Targedau a DPA
Pobl a Hyfforddiant
Prosiectau, Partneriaid a'r Gadwyn Gyflenwi

Caiff pob galluogydd ei raddio yn ôl graddfa aeddfedrwydd, a darperir asesiad cyffredinol o'r Sefydliad. Caiff unrhyw fylchau neu arferion da o fewn grwpiau cymheiriaid eu hamlygu hefyd. Dyma'r raddfa a ddefnyddir i asesu pob maes:

| | | |
|---|---|---|
| **Tameidiog (Sgôr 1)** | Sefydliadau sy'n cydnabod pwysigrwydd camau gweithredu yng nghyswllt y newid yn yr hinsawdd ond bod diffyg ymwybyddiaeth a chysondeb o ran dulliau gweithredu cydlynus / camau gweithredu ar gyfer lliniaru effeithiau. | |
| **Ar y Gweill (Sgôr 2)** | **Sefydliadau lle ceir tystiolaeth o gynllun gweithredu, ond er bod gwell dealltwriaeth o'r risgiau yng nghyswllt yn newid yn yr hinsawdd, ni chafodd unrhyw gamau cydlynus eu rhoi ar waith hyd yma.** | ✓ |
| **Dan Reolaeth (Sgôr 3)** | **Sefydliadau lle ceir dealltwriaeth dda o'r risgiau o safbwynt y newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd ac sydd â pholisïau a gweithdrefnau diffiniedig. Rhoddwyd mesurau rheoli a chynlluniau gweithredu ar waith ond mae'n debygol y bydd anghysondebau o ran y modd y gweithredir hwy ar draws y sefydliad.** | ✓ |
| **Integredig (Sgôr 4)** | Sefydliadau lle mae cynlluniau yng nghyswllt y newid yn yr hinsawdd wedi'u hymgorffori a'u rhoi ar waith yn gyson ar draws y sefydliad. Mae sefydliadau o'r fath yn ceisio gwella eu prosesau a'u mesurau rheoli'n barhaus er mwyn cyfyngu eu heffaith ar yr amgylchedd. | |
| **Gweddnewidiol (Sgôr 5)** | Sefydliadau lle ystyrir bod mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd yn flaenoriaeth strategol, a manteisir ar y defnydd o gamau lliniaru effeithiol a chysylltiadau â'r gymuned / busnes i sbarduno dull cydlynus i liniaru'r niwed a'r effeithiau ar yr amgylchedd. | |




| Category | Organisation | Score |
|---|---|---|
| Culture | Level 3 - Managed | 3 |
| Financing CC&S | Level 3 - Managed | 3 |
| Governance | Level 2 - In Development | 2 |
| Monitoring Climate Change | Level 2 - In Development | 2 |
| People & Training | Level 2 - In Development | 2 |
| Projects, Partnerships and Supply Chain | Level 2 - In Development | 2 |

Hawlfraint © 2022 Zurich

## Crynodeb Gweithredol

Cwblhawyd gwiriad iechyd ar y camau / strategaethau lliniaru a gwaith cynllunio yng nghyswllt y Newid yn yr Hinsawdd o fewn Cyngor Sir Ynys Môn. Cwmpas yr ymarfer hwn oedd ystyried addasrwydd a chyflawnder y cynlluniau gweithredu cyfredol, ynghyd â llywodraethiant cysylltiedig â goruchwyliaeth o safbwynt rôl y Rheolwr Newid Hinsawdd a grëwyd o fewn y Cyngor.

Mae'n bosibl na fydd modd cyflawni targed Sero Net 2030 ym mhob maes o fewn y Cyngor, ond ceir tystiolaeth gref o bortffolio sylweddol o waith / rhaglenni sydd eisoes ar waith yng nghyswllt sicrhau sero net. Yn gyffredinol, mae can y Cyngor sylfaen gref iawn fel sail i fwrw ymlaen â chyflawni ei dargedau yng nghyswllt sero net ar draws meysydd strategol allweddol. Mae cynlluniau'n aeddfedu a bydd rôl y Rheolwr Newid Hinsawdd yn alluogydd allweddol o safbwynt sicrhau bod y gweithgaredd hwn ar y trywydd iawn, ac yn cael ei reoli'n unol â'r gyllideb.

I grynhoi, mae gwiriad iechyd newid hinsawdd wedi canfod sawl nodwedd gadarnhaol o fewn cynlluniau gweithredu a threfniadau cyfredol y Cyngor yng nghyswllt y newid yn yr hinsawdd / cyflawni sero net. Bydd yr argymhellion a wneir o fewn yr adroddiad hwn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes, a bydd yn helpu i gyflawni barn fwy gydlynus a chysylltiedig ar draws y Cyngor. Ceir gormod o fentrau / prosiectau o fewn gwasanaethau ar hyn o bryd sy'n gweithredu mewn modd ynysig, y mae angen iddynt fod yn gwbl weladwy a chael eu monitro'n ganolog, yn erbyn targedau cytunedig. Bydd y broses hon yn gofyn am ei threfniadau llywodraethu a goruchwylio ei hun i sicrhau y caiff uchelgeisiau o fewn y Cyngor o ran cyflawni sero net, eu gwireddu a'u cyflawni. Nodwyd tri maes allweddol:

| | |
|---|---|
| **Llywodraethu** | Creu pwynt penodedig ar gyfer cael sicrwydd a goruchwylio pob prosiect a menter yng nghyswllt sero net. Dylai'r cwmpas gynnwys cynllunio hirdymor ynghyd â ffynonellau cyllid, adnoddau a cherrig milltir gweladwy tuag at 2030. |
| **Recriwtio / Cadw Staff – sgiliau a gwybodaeth** | Dadansoddi bylchau o ran dibyniaeth ar rolau allweddol a meysydd lle bo galw am sgiliau neu eu bod yn brin. |
| **Hyfforddiant ym maes Llythrennedd Carbon** | Diwylliant, meddylfryd a dealltwriaeth newidiol o lythrennedd carbon a thaith y Cyngor tuag at gyflawni sero net ymhlith cydweithwyr yn fewnol ac, o safbwynt ehangach, yn allanol. |

Yn ychwanegol, dyma'r canfyddiadau allweddol:

- Mae rhaglen gynhwysfawr eisoes ar waith o safbwynt gwaith a gynlluniwyd ar draws sawl gwasanaeth o fewn CSYM. Hefyd mae penodi Rheolwr Newid Hinsawdd dynodedig yn dangos pwysigrwydd cyflawni sero net erbyn 2030 o safbwynt y Cyngor.
- Lluniwyd Cynllun Gweithredu Tuag at Sero Net sydd wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn a'i gytuno ganddynt. Dengys y cyfweliadau bod rhai gwasanaethau wedi mynd ymlaen yn bellach ar hyd y llwybr o ran rhoi eu cynlluniau ar waith. Yn yr un modd, gwelwyd o fewn rhai agweddau bod y gwaith o safbwynt y camau gweithredu yng nghyswllt yr hinsawdd / yr agenda werdd ond megis cychwyn. Er enghraifft, canfuwyd bod rhai contractau hirdymor wedi'u rhyddhau ar gyfer eu tendro / neu osod heb gynnwys nodau o safbwynt datgarboneiddio, a rheoli neu fonitro allyriadau.
- Mae gan y Rheolwr Newid Hinsawdd rôl allweddol i'w chwarae o ran canfod, mapio a monitro'r holl weithgareddau allweddol o ran newid hinsawdd, er mwyn adeiladu lens gynhwysfawr ledled y Cyngor.
- Dylai'r cynllun mapio / cyffredinol hwn fynd ati hefyd i ymgorffori targedau cyflawnadwy allweddol fel amser, adnoddau, pobl, costau ac effeithiau o safbwynt cyflawni sero net. Mae'r gweithgaredd hwn wedi dechrau eisoes, ac mae'r Rheolwr Newid Hinsawdd yn gwbl ymwybodol hefyd o'r angen i wirio / herio rhai o'r llinellau amser a'r costau o ran y Cyngor.

- Cam doeth hefyd fyddai ymgymryd ag ymarfer i fapio rhanddeiliaid, ynghyd ag ymgorffori metrigau a thargedau sy'n cyd-fynd â chyflawni targedau sero net er enghraifft, a chamau ychwanegol i gyflawni datgarboneiddio, a rhoi trefniadau ar waith i fonitro allyriadau carbon o fewn contractau sydd wedi'u sefydlu eisoes. Dylai hyn hefyd gynnwys sefydliadau mwy fel Llywodraeth Cymru (LlC) ac Uchelgais Gogledd Cymru, er ein bod yn ymwybodol bod y sefydliadau hyn yn cyflenwi rhaglenni sy'n cyflawni newid ar lefel genedlaethol a rhanbarthol yn hytrach na lleol.

## Sylwadau a chanfyddiadau

Buom yn gweithio'n agos â'r tîm Archwilio Mewnol a Rheoli Risg a'r Rheolwr Newid Hinsawdd o safbwynt datblygu cwmpas y Gwiriad Iechyd Newid Hinsawdd. Hoffai'r noddwyr a Zurich ddiolch i bob cyfranogwr o fewn y camau cyfweld am eu hamser, eu gwybodaeth am y testunau dan sylw a'u cyfraniad i'r prosiect.

Cydnabyddir bod y Cyngor wedi penodi Rheolwr Newid Hinsawdd penodedig i gefnogi'r gwaith pontio i sero net. Lleolir y rôl hon o fewn lefel gorfforaethol y sefydliad, ac mae'n atebol i'r Dirprwy Brif Weithredwr a'r Prif Weithredwr. Mae'r rôl hon yn dod yn fwy cyffredin o fewn Awdurdodau Lleol ledled y wlad (Cymru a'r DU).

Fel rhan o gam cyntaf y prosiect, fe gafodd dogfennau cyfredol a rhai sy'n bodoli eisoes, sy'n gysylltiedig â Tuag at Zero Net, eu hadolygu a chafwyd eu bod yn ddigon manwl ac wedi'u strwythuro'n briodol. Roedd hefyd yn dda gweld bod y Methiant o ran y Newid yn yr Hinsawdd / Tuag at Sero Net wedi'u nodi'n ffurfiol fel risg ar gofrestr risg strategol y Cyngor. Mae gwybodaeth a sgiliau o safbwynt adnoddau arbenigol a meysydd amgylcheddol ac ecolegol yn brin, ac mae'n ganmoladwy bod CSYM wedi creu sawl rôl ar sail prentisiaeth, sy'n anelu at uwchsgilio meysydd sy'n delio â sawl disgyblaeth ar draws y Cyngor. Mae hwn yn fodd effeithiol ac effeithlon i feithrin sgiliau arbenigol a rhoi cynlluniau ar waith ar gyfer olyniaeth, i sicrhau parhad y gwaith a gyflawnir o safbwynt y meysydd hynny sy'n dibynnu ar unigolion allweddol.

Roedd ail ran y prosiect yn ymwneud â chyfweld 18 unigolyn o blith y Prif Weithredwr / Uwch Arweinwyr / Penaethiaid Gwasanaeth, Rheolwyr a deiliaid cyllidebau wrth bennu aeddfedrwydd cynlluniau gweithredu a'r syniadau cyfredol o safbwynt cyflawni sero net erbyn 2030. Roedd y Prif Weithredwr yn awyddus i ddeall y diwylliant o fewn y sefydliad, ac roedd pawb a gyfwelwyd yn dangos dealltwriaeth glir o'r agenda sero net a'r heriau sy'n wynebu eu maes o fewn y Cyngor. Maes posibl arall i'w wella fyddai sicrhau bod y daith gydlynus hon tuag at gyflawni sero net, ynghyd â'r hyn y mae'n ei olygu, yn weladwy i'r Cyngor cyfan a'i Aelodau Etholedig, a'u bod yn deall yr hyn sydd dan sylw. Dylid hefyd ystyried cynnal asesiad digonolrwydd o ran p'un a oes modd cyflawni'r dyddiad targed, yn seiliedig ar ddata cyfredol.

Mae'r Ynys yn wynebu heriau sylweddol o ran isadeiledd o safbwynt lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a chyflawni carbon sero net; mae cyfran fawr o'r boblogaeth yn dal i ddibynnu ar danwydd ffosil, ac mae prif gyflenwadau ynni yn gyfyngedig. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cefnogi prosiectau cynhyrchu ynni amgen arloesol ac uchelgeisiol sydd wedi'u cynnwys o fewn y Rhaglen Ynys Ynni, ac sy'n cael eu cefnogi neu eu hwyluso ganddi. Tra bydd y prosiectau hyn yn darparu cyflenwadau ynni gwyrdd ar lefel genedlaethol, cam doeth fyddai archwilio p'un a ellid gwella'r sefyllfa o ran cyflenwadau lleol, ynghyd â lleihau'r defnydd o danwydd ffosil yn ddramatig, neu ei ddileu ledled yr Ynys.

Tra bo'r Ynys yn edrych tuag at ddarparu rhwydwaith gwefru EV, mae'n dal i fod yn ei gyfnod cynllunio. Ond ni fydd modd i'r mwyafrif o'r boblogaeth gael mynediad i gerbydau EV neu eu fforddio yn y cyfnod hwn o fewn y broses bontio. Mae'r Cyngor yn gweithio mewn modd strategol i sicrhau bod mannau gwefru EV ar gael, a byddant yn ddwyieithog. Hefyd, mae Rheolwr Fflyd y Cyngor yn ymwybodol o'r heriau o safbwynt pontio yng nghyswllt y fflyd, o ran bod y cyfnodau disgwyl ar gyfer cerbydau EV yn tua 12-18 mis. Ceir problemau logistaidd hefyd i'w goresgyn yn nhermau cerbydau'r Cyngor, yn enwedig o ran cerbydau y mae staff yn mynd â hwy adref dros nos er mwyn cyflawni apwyntiadau a drefnwyd ar gyfer y diwrnod wedyn. Byddai hyn yn gofyn am bwyntiau gwefru i sicrhau bod cerbydau EV wedi'u gwefru'n ddigonol, cyn eu defnyddio yn y maes.

Ceir tystiolaeth gref o gynlluniau a dulliau gweithio aeddfed ar draws amryw wasanaethau allweddol; mae'r gwasanaethau Cynllunio, a'r Amgylchedd Adeiledig a Naturiol, ynghyd â Gwastraff ac Ailgylchu yn

enghreifftiau gwych. Yn hanesyddol, bu'r gweithgareddau yng nghyswllt ailgylchu yn eithriadol o lwyddiannus ar draws CSYM; mewn blynyddoedd diweddar a hyd heddiw, yr her yw sut i gyflawni targedau a osodir ar lefel genedlaethol, a'u gwella. Roedd y Cyngor hefyd yn un o'r cyntaf yn y DU i dreialu cerbyd Casglu Gwastraff EV, a oedd yn llwyddiant, ond mae pob uned yn costio dros £500k. Efallai y bydd angen diwygio'r dyddiadau ar gyfer cyflawni'r gwaith o bontio o danwydd ffosil i drydan neu ddewisiadau amgen eraill ar gyfer cerbydau fflyd / rheoli gwastraff, o ganlyniad i nifer o ffactorau allanol y tu hwnt i reolaeth y Cyngor, fel diffyg sglodion cyfrifiadurol, prinder o lithiwm, a'r galw amdanynt.

## Argymhellion

Rydym yn cydnabod yr angen i weithredu o fewn fframweithiau gwleidyddol presennol. Credwn hefyd y gall fod angen herio syniadau rhanddeiliaid mewnol / allanol o safbwynt lle bo cyfleoedd i fod yn arloesol a chreadigol o ran cyflawni targedau sero net. I wneud hyn mewn modd cyfrifol, bydd angen i'r Cyngor sicrhau bob amser nad yw'n gwneud ei hun yn rhy agored i risgiau gormodol o safbwynt ariannol a strategol, wrth geisio cyflawni sero net.

Tra gosodwyd sawl un o'r targedau ar lefel genedlaethol, dylai'r Cyngor hefyd ystyried datblygu a mabwysiadu ei set ei hun o fetrigau a meincnodau mewnol, sy'n cyd-fynd a chamau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd / sero net. Dylai'r rhain fod yn rhai campus, mesuradwy a realistig. Yn wir, roedd y cyfweliadau yn awgrymu, o safbwynt rhai gwasanaethau, efallai na fydd yn bosibl iddynt gyflawni sero net erbyn 2030, o ystyried y sefyllfa bresennol, neu ddibyniaeth ar randdeiliaid a chyllid allanol.

Dylai'r Cyngor ystyried y set a ganlyn o argymhellion. Ceir sawl cam yr awgrymir y gallant helpu'r sefydliad i ymgorffori proses gadarn o safbwynt rheoli risg a llywodraethu fel rhan o'i daith tuag at gyflawni sero net.

## Camau Gweithredu a Argymhellir

### Diwylliant – diwylliant a dulliau gweithredu o fewn y sefydliad

**Ymwybyddiaeth o'r Newid yn yr Hinsawdd (Allanol)** – Dylid rhoi ystyriaeth i'r modd y caiff y daith tuag at gyflawni sero net ei chyfathrebu'n fewnol ac yn allanol. Cynhwysir Cynllun Cyfathrebu ar hyn o bryd fel prosiect o fewn Cynllun Gweithredu Sero Net 2022/23. Ceir posibilrwydd o risg i enw da'r Cyngor o ganlyniad i beidio â sicrhau tryloywder ac amcanion gweladwy wrth geisio cydbwyso barn y cyhoedd a'u canfyddiadau o ran cyflawni'r amcanion hyn.

**Dileu Seilos a Chanfod Cyfleoedd ar y Cyd** – Canfod unrhyw gyfleodd i weithredu ar y cyd o fewn rhaglenni neu brosiectau yng nghyswllt cyflawni sero net, er mwyn manteisio i'r eithaf ar unrhyw fuddion a chyfleoedd. Er enghraifft, gellid ychwanegu gorsafoedd monitro aer glân at offer monitro tywydd pob ysgol, i gynyddu graddfa a chwmpas y gwaith o fonitro aer glân.

### Cyllido o safbwynt y newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd

**Cyllido** - Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog 151 a Rheolwr Newid Hinsawdd CSYM i ymgymryd â gwaith cychwynnol i gynnal adolygiad manwl o'r holl weithgareddau a gynllunnir mewn perthynas â chyflawni sero net / lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys asesiad ar sail amser, costau, pobl, adnoddau a'r gostyngiadau a wireddwyd o safbwynt carbon. Dilynir hyn gan adolygiad o'r cynllun ariannol hirdymor sy'n nodi'r buddion a'r penderfyniadau ariannol allweddol (cyfleoedd o ran contractau, prosiectau cyfalaf), ynghyd â cherrig milltir o safbwynt cyflawni targed 2030.

**Cyllido** – Cynlluniau ôl-osod ar gyfer asedau, adeiladau ac ysgolion presennol er mwyn cyflawni sero net. Gan adeiladu ar lwyddiant cynlluniau ôl-osod blaenorol, bydd y Gwasanaethau Eiddo'n datblygu cynllun hirdymor manwl ynghylch y modd y bydd / y gellir eu newid i gyflawni sero net erbyn 2030. Cydnabyddir efallai bod rhai asedau erbyn hyn wedi pasio'r pwynt y mae'n hyfyw yn economaidd i'w cynnwys o fewn cynllun ôl-osod, cafodd y rhain eu nodi eisoes o fewn y portffolio asedau. Mae angen ystyried y cyllid sydd ar gael hefyd fel rhan o'r ymarfer gwerthuso manwl hwn.

**Strategaethau Buddsoddi at y Dyfodol** – Mae CSYM yn defnyddio dull traddodiadol i reoli buddsoddiadau ariannol. Ceir nifer gynyddol o gyfleoedd buddsoddi yng nghyswllt datblygu cynaliadwy, sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio, y newid yn yr hinsawdd, a bioamrywiaeth. Gall fod yn werth mynd ati yn y dyfodol i ystyried p'un a yw'r cyfleoedd hyn ar gyfer buddsoddi yn cynnig dewisiadau amgen i'r Cyngor, sy'n cydweddu â'i nodau ei hun o ran cynaliadwyedd.

### Monitro

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015** – Dylai unrhyw adolygiadau o'r Cynllun Corfforaethol / Cynllun Tuag at Sero Net gydweddu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a'i chwmpasu.

**Monitro Aer Glân** – Ceir nifer benodedig o orsafoedd monitro aer glân ar hyn o bryd ledled Ynys Môn. Lleolir gorsafoedd monitro tywydd ym mhob ysgol ar draws yr Ynys, a gall hyn gyflwyno cyfle i gynyddu capasiti o ran monitro aer glân trwy ddefnyddio'r lleoliadau presennol mewn ysgolion. Bydd y Rheolwr Newid Hinsawdd yn archwilio'r potensial o ran ehangu cwmpas hyn er mwyn ystyried hyfywedd cynnwys systemau monitro aer awtomatig i ddarparu gwybodaeth amser real.

### Pobl a Hyfforddiant

**Adnoddau** – Mae gweithwyr proffesiynol ym maes y newid yn yr hinsawdd, ynghyd â sgiliau a gwybodaeth mewn meysydd gwasanaeth allweddol yn brin, neu nid oes cyllid ar eu cyfer ar hyn o bryd, tra bo cyflwyno rolau ar sail prentisiaethau wedi llenwi'r bylchau. Dylai'r Cyngor werthuso p'un a fydd model y gweithlu presennol yn ddigonol i gyflawni'r newidiadau a gynllunnir o ran cyflawni sero net. Nodwyd yn yr holl gyfweliadau o fewn gwasanaethau bod diffyg adnoddau a chapasiti yn rhwystr posibl o safbwynt cyflawni targedau, e.e. ni chafodd swydd yr ecolegydd ei llenwi am 7-8 mis - gwnaed penodiad i'r swydd hon yn ddiweddar.

**Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth** – Ar ôl cwblhau'r gwaith mapio o'r holl weithgaredd yng nghyswllt "tuag at sero net" a gynlluniwyd, dylai'r Rheolwr Newid Hinsawdd gyflwyno cyfathrebiadau rheolaidd i'r holl aelodau staff, swyddogion ac aelodau etholedig ynghylch y cynnydd a wnaed yn erbyn yr amserlenni cyflawni / llinellau amser a'r trywyddau cwblhau. Dylid cynnwys hyn fel rhan o'r Hyfforddiant Llythrennedd Carbon ehangach a gynhwysir o fewn y Crynodeb Gweithredol.

## Prosiectau, partneriaid a'r gadwyn gyflenwi

**Contractau / Cyflenwyr** – Argymhellir y dylid gwirio'r holl gontractau presennol, rhai sydd angen eu hadnewyddu, neu rai newydd, a sicrhau eu bod yn cyflawni targedau mewnol yng nghyswllt y dyheadau o ran mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a chyflawni sero net, ac yn cydweddu â hwy ac yn gwneud cynnydd o ran eu gwireddu. O safbwynt agweddau neu fetrigau na chawsant eu nodi neu ei hystyried, dylid hysbysu'r Rheolwr Newid Hinsawdd ynghylch dyddiadau unrhyw gontractau sy'n dod i ben, a chyfrannu at unrhyw weithgareddau posibl a gynigir neu a gytunwyd â thrydydd parti yng nghyswllt datrysiadau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd / sero net, a'u goruchwylio. Gan weithio gyda'r Rheolwr Caffael Corfforaethol, gall y Rheolwr Newid Hinsawdd nodi map ar gyfer canfod a lleihau allyriadau o nwyddau a gwasanaethau a brynwyd, ynghyd ag ymgysylltiad ar draws cadwyn gyflenwi'r Cyngor.

# Atodiad A – Cyfweledigion

| Categori | Enw | Rôl |
|---|---|---|
| Swyddog sy'n Gyfrifol am yr Amgylchedd | Christian Branch | Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| Swyddog sy'n Gyfrifol am Archwilio | Marion A. Pryor | Pennaeth Archwilio a Risg |
| 2 x Bennaeth Cyfarwyddiaeth / Rheolwyr Gwasanaeth (gyda chyfrifoldeb am adrodd yng nghyswllt risgiau / yr hinsawdd) | Marc Jones<br>Huw Percy | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog 151<br>Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo |
| Uwch Gynrychiolydd Cyllid | Marc Jones | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog 151 |
| Unrhyw rolau eraill sy'n chwarae rhan allweddol yng nghyswllt rheoli'r newid yn yr hinsawdd | Rhys A Williams | Rheolwr Newid Hinsawdd |
| Noddwr Gweithredol Newid yn yr Hinsawdd | Dylan Williams | Prif Weithredwr |
| Rheoli'r Fflyd – cynllun cerbydau | Gareth Owens | Rheolwr Fflyd a Thrafnidiaeth |
| Trafnidiaeth Gyhoeddus / Ysgolion – trwyddedau lleol rhyddfraint Arriva ar rai llwybrau bysiau | Iwan Cadwaladr | Uwch Swyddog Trafnidiaeth |
| Trafnidiaeth Gyhoeddus / Bysiau - bysiau rhyddfraint Arriva / llwybrau bysiau – trwyddedau lleol ar rai llwybrau | | |
| Casglu Sbwriel – wedi'i gontractio i sefydliad arall | Meirion P. Edwards<br>Elin Owen | Prif Swyddog Rheoli Gwastraff<br>Uwch Swyddog Rheoli Gwastraff |
| Yr Amgylchedd – Aer Glân | Trystan Owen | Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd > Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd (o 1af Ebrill) |
| Bioamrywiaeth | John Williams | Rheolwr Cynllunio, yr Amgylchedd Adeiledig a Naturiol |
| Rheolaeth Cefn Gwlad | Gwenllian D. Owen<br>Alun Owen | Rheolwr yr Economi Ymwelwyr ac Ardaloedd Arfordirol |
| Rheoli Adeiladau - Asedau; PV | T. Dylan Edwards | Prif Swyddog Prisio |
| Isadeiledd ar yr Ynys – strategaeth y rhwydwaith gwefru – cynllun cymeradwyedig | Dylan Llewelyn Jones | Uwch Beiriannydd (Trafnidiaeth Strategol a Chynaliadwy) |
| Rhaglen Ynys Ynni | Angharad Crump | Rheolwr Cyflawni Rhaglen Ynys Ynni |

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Dylan Williams
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

**Cyfeirnod:** 3198A2022

**Dyddiad Cyhoeddi:** Tachwedd 2022

Annwyl Dylan

# Cyngor Sir Ynys Môn – Diweddariad ar Gynnydd Datgarboneiddio

**Mae gan y Cyngor weledigaeth ar gyfer ei uchelgais datgarboneiddio, ond mae'r weledigaeth yn nyddiau cynnar ei thaith. Bydd angen i'r Cyngor ddatblygu gwell dealltwriaeth o'i ôl troed carbon, effaith carbon a chost ei gamau gweithredu arfaethedig, a chyllid i helpu i wireddu'i weledigaeth o fod yn sero net erbyn 2030.**

## Cyd-destun

Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol barodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030, a oedd yn edrych ar gamau datgarboneiddio mewn 48 o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys pob cyngor. Canfu'r adroddiad hwn ansicrwydd y bydd yr uchelgais ar y cyd ar gyfer sector cyhoeddus sero net erbyn 2030 yn cael ei gyflawni. Nododd ein gwaith rwystrau cyffredin sylweddol rhag cynnydd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus fynd i'r afael â nhw ar y cyd i gyflawni'r uchelgais ar y cyd. Canfuom er bod cyrff cyhoeddus yn dangos ymrwymiad i leihau carbon, mae'n rhaid iddyn nhw bellach gynyddu eu gweithgareddau yn


Cysylltwch â ni yn Gymraeg neu Saesneg / please contact us in Welsh or English.

sylweddol, cynyddu cydweithio a gosod datgarboneiddio wrth wraidd eu gweithrediadau a'u penderfyniadau o ddydd i ddydd.

Yn yr adroddiad, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud y pum galwad canlynol am gamau gweithredu gan gyrff cyhoeddus:

- Cryfhau eich arweinyddiaeth a dangos eich cyfrifoldeb cyfunol drwy gydweithio'n effeithiol;
- Egluro eich cyfeiriad strategol a chyflymu'r ffordd yr ydych yn gweithredu;
- Mynd i'r afael â'r cyllid sydd ei angen arnoch;
- Gwybod beth yw eich bylchau sgiliau a chynyddu eich capasiti; a
- Gwella ansawdd a monitro data i gefnogi eich penderfyniadau.

Mae'r paragraffau canlynol yn nodi canfyddiadau ein gwaith archwilio lleol yng nghynllun gweithredu datgarboneiddio'r Cyngor. Mae'r canfyddiadau hyn yng nghyd-destun ehangach adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Gorffennaf 2022 sy'n galw am weithredu cyflymach ac arweinyddiaeth gadarnach ledled Cymru wrth leihau allyriadau carbon.

## Yr hyn a wnaethom:

Gwnaethom gynnal asesiad o drefniadau'r Cyngor i ddatblygu a chyflawni ei Gynllun Datgarboneiddio. Gwnaethom gasglu tystiolaeth drwy gyfweliad, adolygu dogfennau ac ymatebion i Alwad am Dystiolaeth y Cyngor ar gyfer yr Adolygiad Llinell Sylfaen o Ddatgarboneiddio.

## Yr hyn a ganfuom:

Ym mis Medi 2020 cyhoeddodd y Cyngor Argyfwng Hinsawdd ac ymrwymiad i "foderneiddio ac addasu i fod yn Gyngor sero net erbyn 2030". Dilynwyd hyn ym mis Mawrth 2021 gydag ymrwymiad gan y Weithrediaeth i ddarparu Rhaglen Newid Hinsawdd fel y nodwyd yn y Cynllun Tuag at Sero Net a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2022. Mae gan Gynllun presennol y Cyngor 2017-2022 flaenoriaeth allweddol i "Weithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau gan warchod ein hamgylchedd naturiol" sy'n cwmpasu'r agenda ddatgarboneiddio. Ond mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen aliniad llawer cliriach rhwng iteriad nesaf Cynllun y Cyngor, sydd i'w gyhoeddi

yn nhymor yr hydref 2022, a'i Gynllun Tuag at Sero Net. Mae'r Cyngor yn cydnabod ei fod yng nghyfnod cychwynnol ei daith tuag at sero net erbyn 2030.

Dywedodd y Cyngor fod y pum ffordd o weithio, a'r egwyddor datblygu cynaliadwy wedi'u hintegreiddio i'w holl benderfyniadau ac y byddai'r meysydd hyn yn cael eu hystyried ar gyfer pob un o'r prosiectau unigol yn ei Gynllun Tuag at Sero Net. Fodd bynnag, er bod y Cynllun yn destun asesiad effaith a oedd yn cynnwys rhywfaint o ystyriaeth o'r meysydd hyn, byddai ystyriaeth fanylach o sut mae'r Cynllun yn defnyddio'r pum ffordd o weithio i gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn cryfhau'r trefniadau.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn casglu data ar allyriadau carbon o sawl ffynhonnell, ond mae angen dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o'i ôl troed carbon i'w alluogi i flaenoriaethu'r camau gweithredu ac ymyriadau arfaethedig yn seiliedig ar eu heffeithiau ariannol a charbon dros y tymor byr, canolig a hir. Mae'r Cyngor wedi dweud wrthym, fel rhan o'i brosiect corfforaethol ehangach i wella canoli casglu data, ei fod yn bwriadu mireinio sut mae'n diffinio ac yn mesur ei ôl troed carbon a chanoli'r broses o gasglu data carbon yn ystod 2022-23.

Mae'r cynllun Tuag at Sero Net yn cydnabod pwysigrwydd llywodraethu, monitro ac adolygu ac wedi nodi hyn fel un o'i bum thema yn y cynllun. Ond mae trefniadau llywodraethu, monitro ac adolygu sy'n ymwneud â chynnydd y cyngor tuag at Sero Net yn parhau i fod yn y cyfnod cynnar o ran eu datblygiad. Ar adeg ein gwaith nid oedd y Bwrdd Rhaglen Sero Net wedi cwrdd eto. Er bod y Cynllun yn nodi camau allweddol yn ymwneud â llywodraethu, monitro ac adolygu, ni chytunwyd ar unrhyw amserlenni penodol ar gyfer cwblhau'r camau pwysig hyn. Bydd yn bwysig i'r Cyngor roi'r camau allweddol hyn ar waith cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau ei fod yn rheoli ei gynnydd tuag at sero net yn effeithiol.

Mae Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio presennol y Cyngor a'i Adroddiad Perfformiad Blynyddol diweddaraf (2021/22) yn cynnwys nifer bach o fetrigau ar allyriadau Carbon. Er bod y Cyngor yn mesur rhywfaint o ddata allyriadau ac wedi adrodd y rhain wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20 a 2021-22, mae'n dal i ddatblygu ei ddull o weithredu o ran casglu ac adrodd yn gyhoeddus ar ei gynnydd ym maes lleihau allyriadau carbon.

Nid yw datblygiad Cynllun Tuag at Sero Net y Cyngor wedi ei lywio'n uniongyrchol gan ymgysylltu neu ymgynghori â dinasyddion. Ond dywedodd y Cyngor wrthym ei fod yn bwriadu ymgysylltu â'r maes hwn fel rhan o'r ymgysylltiad arfaethedig ar Gynllun newydd y Cyngor. Bydd cael dealltwriaeth glir o ddinasyddion a safbwyntiau rhanddeiliaid ehangach a sut y gallant gefnogi'r Cyngor yn gam pwysig wrth lunio gweledigaeth gyffredin ar gyfer ei uchelgeisiau sero net.

Wrth ddatblygu ei Gynllun Tuag at Sero Net fe wnaeth y Cyngor ymgysylltu â Chynghorau eraill, yn ogystal â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Er bod enghreifftiau o gydweithio yn ymwneud â datgarboneiddio fel y "Rhaglen Ynys Ynni" mae angen i'r Cyngor barhau i archwilio cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill os yw am wireddu ei weledigaeth o fod yn sero net erbyn 2030.

Mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n flaenorol mewn sawl cychwyn i gefnogi ei gynlluniau Sero Net y mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw'r £2.6 miliwn yn ei gynllun Ailosod Effeithlonrwydd Ynni a chyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer system wresogi ffynhonnell dŵr ac aer newydd ar gyfer ei brif swyddfeydd cyngor. Mae'r Cyngor hefyd wedi clustnodi cyllideb refeniw fechan ar gyfer newid hinsawdd a buddsoddi mewn Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd newydd. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor wedi neilltuo £200,000 ychwanegol ar gyfer prosiectau costus penodol yn ystod 2021/22 gyda £300,000 ychwanegol mewn cronfeydd wrth gefn ar gyfer prosiectau datgarboneiddio. Fodd bynnag, mae'n cydnabod yr heriau buddsoddi ar gyfer technoleg carbon isel ac na fydd yr adnoddau a glustnodwyd ar hyn o bryd ar gyfer y maes hwn yn ddigon i gyrraedd targed Sero Net 2030. Mae perygl sylweddol felly na fydd y Cyngor yn cyrraedd y targed allyriadau sero net erbyn 2030. Os yw'r Cyngor am gyrraedd y targed heriol hwn, bydd angen iddo sicrhau bod ei Gynllun Corfforaethol a'i Strategaeth Gyfalaf yn adlewyrchu'n llawn sut mae'n bwriadu ariannu ei brosiectau a'i fentrau carbon isel.

## Argymhellion

### Arddangosyn 1 argymhellion

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion a nodwyd gennym yn dilyn yr adolygiad hwn

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod y camau lefel uchel yn ei gynllun datgarboneiddio:<br>• wedi'u blaenoriaethu yn seiliedig ar feini prawf clir, gan gynnwys effaith carbon ac ariannol;<br>• yn cyd-fynd â'i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'i Raglen Gyfalaf; ac<br>• wedi'u hintegreiddio mewn cynlluniau busnes. |

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| A2 | Dylai'r Cyngor ddatblygu cyfres gadarn o fetrigau i fesur ac adrodd ar y cynnydd ar ei daith ddatgarboneiddio. |

Yn gywir

Alan Hughes

Arweinydd Archwilio

This page is intentionally left blank


| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad** | 08 Rhagfyr 2022 |
| **Pwnc** | Strategaeth atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2021-24 |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyfrifoldeb goruchwylio dros drefniadau'r Cyngor ar gyfer atal, canfod, ymchwilio ac erlyn twyll a llygredd. | |

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r gweithgaredd y bydd Archwilio Mewnol yn ei gynnal yn ystod 2022-25 i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn digwydd o fewn ac yn erbyn y Cyngor.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adolygu ac yn nodi strategaeth yr Archwiliad Mewnol ar gyfer gwrthsefyll twyll, llwgrwobrwyo a llygredd ar gyfer 2022-25.




# STRATEGAETH ATAL TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD 2022-25

Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS

Rhagfyr 2022

Pennaeth Archwilio a Risg

MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# CYNNWYS

CYFLWYNIAD ______ 3
BETH YW TWYLL? ______ 4
BETH YW LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD? ______ 5
PAM FOD ATAL TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD YN BWYSIG? ______ 6
TREFNIADAU AC ADNODDAU ATAL TWYLL ______ 7
Trefniadau'r DU ar gyfer atal twyll ______ 7
Trefniadau Cymru gyfan ar gyfer atal twyll ______ 8
Trefniadau Rhanbarthol ______ 8
Trefniadau yn y Cyngor ______ 8
RISGIAU TWYLL CYFREDOL A RISGIAU SY'N DOD I'R AMLWG ______ 9
Seibr ______ 10
Twyll sy'n cael ei alluogi gan Seibr ______ 10
Bygythiad Mewnol ______ 10
Twyll yn gysylltiedig â Thai ______ 11
Gostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor ______ 11
Consesiynau Parcio i'r Anabl ______ 11
Caffael ______ 12
Prynu i Dalu ______ 12
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ______ 12
AMCANION STRATEGOL ______ 13
Llywodraethu ______ 13
Cydnabod ______ 14
Atal ______ 14
Erlyn ______ 14
Amddiffyn ei hun a'i breswylwyr ______ 15
CASGLIAD ______ 16
ATODIAD 1 - DOGFENNAU A ADOLYGWYD ______ 17
ATODIAD 2 - CYNLLUN GWEITHREDU ATAL TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD ______ 18

# CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r gweithgareddau y bydd Archwilio Mewnol yn eu cyflawni yn ystod 2022-25 i leihau'r risg o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd rhag digwydd yn y Cyngor ac yn ei erbyn.

Mae hyn yn cefnogi gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, 2018 (PSIAS), sy'n nodi bod rhaid i archwilio mewnol arfarnu'r posibilrwydd y bydd twyll yn digwydd a sut mae'r sefydliad yn rheoli'r risg o dwyll (Safon 2120).

Yn ogystal, mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn datgan bod rhaid i swyddog ariannol cyfrifol y Cyngor (Swyddog Adran 151) sicrhau fod ei systemau rheoli cyfrifeg yn cynnwys mesurau sy'n caniatáu i wallau a thwyll gael eu hatal a'u canfod.

Mae lleihau twyll ac anghysonderau yn hanfodol er mwyn sicrhau fod adnoddau y bwriadwyd iddynt ddarparu gwasanaethau hanfodol i breswylwyr a busnesau Ynys Môn yn cael eu defnyddio i'r perwyl hwnnw. Mae twyll yn erbyn y Cyngor gyfystyr â dwyn arian trethdalwyr, a gall niweidio enw da'r Cyngor ac arwain at golli hyder y cyhoedd neu randdeiliaid a chael effaith niweidiol ar forâl staff. Trwy gyfrwng mesurau atal twyll effeithiol, gall y Cyngor leihau'r risg o gamgymeriadau, colledion a thwyll.

Mae twyllwyr yn adolygu a mireinio eu technegau yn gyson ac mae angen i awdurdodau lleol wneud hynny hefyd. Mae angen clir am safiad cadarn sy'n cael ei gefnogi gan aelodau etholedig, prif weithredwyr a'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethiant. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â thwyll a llygredd traws-ffiniol a thwyll a llygredd cyfundrefnol, yn ogystal â mynd i'r afael â risgiau newydd, megis twyll ym maes gofal cymdeithasol neu faterion seibr.


Pwrpas y strategaeth hon yw sicrhau fod Cyngor Sir Ynys Môn yn gwneud popeth yn ei allu i fynd i'r afael â'r bygythiad hwn a lleihau'r risg o dwyll a llygredd.

# BETH YW TWYLL?

Mae twyll, llwgrwobrwyo a llygredd i gyd yn fathau o ymddygiad sy'n cynnwys elfennau o anonestrwydd neu elw anghyfreithlon. Gellir diffinio twyll fel ymddygiad troseddol sy'n ymwneud â thwyll bwriadol er mwyn elwa mewn modd annheg, anghyfiawn neu anghyfreithlon ac, fel arfer, mae'n disgrifio gweithgareddau megis lladrata, llygredd, gwyngalchu arian, cynllwynio, llwgrwobrwyo ac ecstorsiwn.

Cyn ei ddeddfu o fewn y gyfraith, y farn gyffredinol oedd bod twyll yn gysyniad cyfreithiol eang a oedd yn cyfeirio'n gyffredinol at weithred fwriadol a gyflawnwyd i elwa mewn ffordd annheg neu anghyfreithlon, ac roedd yn cael ei gynnwys mewn deddfwriaeth droseddol amrywiol arall, megis Deddf Lladrata 1968.

Fodd bynnag, ers hynny mae twyll wedi dod yn drosedd yn ei rinwedd ei hun yn y DU; mae Deddf Twyll 2006 yn nodi'r tair ffordd y gellir cyflawni'r drosedd:




Mae Canolfan Atal Twyll CIPFA yn argymell y diffiniad a ganlyn ar gyfer twyll:

**Mae twyll yn drosedd caffaelgar sy'n golyg dwyn (lladrata) trwy ryw fath o ddichell neu gamliwio.**

# BETH YW LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD?

Daeth Deddf Llwgrwobrwyo 2010 i rym yn 2011. Roedd y Ddeddf yn diwygio ac yn cyfuno'r deddfau llwgrwobrwyo a oedd mewn bodolaeth. Roedd hefyd yn symleiddio ac yn ehangu'r ystod o droseddau y gall unigolion a sefydliadau gael eu herlyn am eu cyflawni.

O dan y Ddeddf, mae'r troseddau hyn yn cynnwys:

- Llwgrwobrwyo naill ai'n uniongyrchol neu trwy drydydd parti
- Derbyn llwgrwobrwyon
- Llwgrwobrwyo swyddog cyhoeddus tramor
- Methiant gan sefydliad masnachol i atal llwgrwobrwyo (trosedd gorfforaethol)

Yn gyffredinol, mae llwgrwobrwyo'n cynnwys cynnig, addo neu roi mantais ariannol neu fantais arall er mwyn cymell rhywun i gyflawni swyddogaeth gyhoeddus neu weithgarwch busnes mewn modd amhriodol, neu eu gwobrwyo am wneud hynny. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi ystyriaeth arbennig i feysydd gweithgarwch penodol, gan gynnwys lletygarwch a rhoddion.

Mae llygredd yn golygu diffyg uniondeb neu onestrwydd (ac fe all gynnwys llwgrwobrwyo) neu gamddefnyddio statws i sicrhau elw anghyfreithlon. O safbwynt cyfreithiol, mae llygredd yn anoddach i'w ddiffinio, gan fod ymddygiadau a ystyrir yn rhai llwgr mewn rhai gwledydd yn cael eu diogelu gan fframwaith cyfreithiol mewn gwledydd eraill. Mae hyn yn arbennig o wir mewn achosion yn gysylltiedig â llwgrwobrwyo.

Rydym ni'n dehongli llygredd fel naill ai ymddygiad twyllodrus neu weithgareddau yn ymwneud â llwgrwobrwyo.

# PAM FOD ATAL TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD YN BWYSIG?

Gall twyll effeithio ar enw da'r sector cyhoeddus ac arallgyfeirio cyllid oddi wrth wasanaethau cyhoeddus holl bwysig, gan danseilio ymddiriedaeth y cyhoedd, cynaliadwyedd ariannol ac effeithiolrwydd sefydliadol. Mae twyll, llwgrwobrwyo a llygredd, yn ogystal â gwyngalchu arian a chyllido terfysgaeth, wedi tyfu'n aruthrol i fod yn aflwydd byd-eang sy'n herio llywodraethau cenedlaethol a diwydiannau preifat fel ei gilydd.

Mae CIPFA, yn ei adroddiad tracio twyll a llygredd diweddaraf, sef y *National Fraud and Corruption Tracker* (2020), yn cydnabod bod pob punt a gaiff ei cholli oherwydd twyll yn golled i'r pwrs cyhoeddus ac mae'n golygu fod llai o allu gan y sector cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau i bobl sydd eu hangen. Mae CIPFA yn dadlau:

> **"Mae cyfrifoldeb ar arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i wreiddio safonau effeithiol ar gyfer atal twyll a llygredd yn eu sefydliadau eu hunain. Mae hyn yn cefnogi llywodraethiant da ac yn arddangos stiwardiaeth ariannol effeithiol a rheolaeth ariannol gyhoeddus effeithiol."**

Mae llawer mwy i weithgareddau atal twyll llwyddiannus nag arbed arian yn unig. Gall y gweithgareddau anghyfreithlon hyn danseilio ymddiriedaeth y cyhoedd. Pan fydd cynghorau'n cymryd camau atal twyll effeithiol byddant yn ailadeiladu ymddiriedaeth y cyhoedd ac yn sicrhau bod arian prin yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Yn ogystal â cholledion ariannol, gall twyll wneud niwed mawr i ffyniant, diogelwch a llesiant unigolion.

Yng Nghymru, roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol[1] yn tynnu sylw at y ffaith y gallai gwasanaethau cyhoeddus fod yn colli hyd at £1 biliwn y flwyddyn o ganlyniad i dwyll. Mewn cyfnod pan mae pwysau ariannol yn cynyddu, mae'n bwysicach nac erioed bod pob corff cyhoeddus yng Nghymru'n ceisio lleihau'r risg o golledion oherwydd twyll.

Yn ôl y Sefydliad Marchnad Gymdeithasol, sef melin drafod amhleidiol sy'n canolbwyntio ar bolisi economaidd a chymdeithasol, twyll yw'r drosedd fwyaf cyffredin yng Nghymru a Lloegr erbyn hyn. Mae'r sefydliad yn amcangyfrif fod twyll yn costio £137 biliwn y flwyddyn[2] i economi'r DU ac mae'r ffigwr yn cynyddu'n gyflym[3].

---

[1] Trefniadau Atal Twyll yn Sector Cyhoeddus Cymru, Trosolwg ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Mehefin 2019

[2] *Fraud is now Britain's dominant crime, Social Market Foundation*, Mawrth 2022

[3] *The financial cost of fraud 2021, Centre for Counter Fraud Studies, University of Portsmouth*

# TREFNIADAU AC ADNODDAU ATAL TWYLL

## Trefniadau'r DU ar gyfer atal twyll

Mae nifer o gyrff yn cefnogi ac yn gyrru arferion da o ran atal twyll ledled y DU, gan gynnwys Canolfan Atal Twyll CIPFA, y Rhwydwaith Cenedlaethol Atal Twyll (NAFN)[4] ac, yn fwyaf nodedig, y Fenter Twyll Genedlaethol.

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ymarfer sy'n cael ei gynnal bob dwy flynedd ac mae'n paru data tu mewn i sefydliadau, systemau a ffiniau cenedlaethol, a rhwng sefydliadau, systemau a ffiniau cenedlaethol er mwyn cynorthwyo cyrff cyhoeddus i nodi twyll neu wallau posib mewn hawliadau a thrafodion. Rhaglen atal twyll y llywodraeth ydyw ac mae'n cael ei rhedeg gan Swyddfa'r Cabinet a chafodd ei sefydlu yn 1996 i warchod arian cyhoeddus a chosbi twyllwyr.

Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol[5] (Hydref 2022) yn nodi fod yr ymarfer wedi canfod neu atal dros £49.4 miliwn o dwyll a gordaliadau yng Nghymru ers ei sefydlu 25 mlynedd yn ôl ac roedd yr ymarfer yn 2020-21 wedi cynorthwyo cyrff cyhoeddus yng Nghymru i adnabod twyll a gordaliadau gwerth £6.5 miliwn. Yn ogystal, cynorthwyodd y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru sefydliadau mewn rhannau eraill o'r DU i nodi 153 achos o dwyll a gwallau gwerth cyfanswm o £183,045.

Serch hynny, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod gwerth deilliannau Menter Twyll Genedlaethol 2020-21 yng Nghymru wedi gostwng £1.5 miliwn o gymharu â'r ymarfer blaenorol. Roedd yn priodoli'r gostyngiad i ostyngiad yn nifer yr hawliadau twyllodrus neu wallus am Ostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor a budd-dal Tai a nodwyd trwy'r Fenter Twyll Genedlaethol, a hynny'n rhannol oherwydd amseru, gyda nifer o'r sefydliadau a gymerodd ran yn y Fenter Twyll Genedlaethol yn adolygu parau data'r ymarfer yn hwyrach na'r arfer oherwydd pwysau gwaith yn sgil y pandemig COVID-19.

[4] Mae NAFN yn sefydliad sector cyhoeddus a gynhelir ar hyn o bryd gan Tameside MBC. Mae aelodaeth yn agored i unrhyw sefydliad sydd â chyfrifoldeb am reoli arian cyhoeddus a/neu asedau. Ar hyn o bryd, mae bron i 90% o awdurdodau lleol yn aelodau.
[5] https://www.audit.wales/cy/news/ps65-miliwn-o-dwyll-ac-ordaliadau-nodwyd-gan-y-fenter-twyll-cenedlaethol-yng-nghymru

Roedd yr adroddiad yn nodi saith prif faes a oedd yn gyfrifol am bron i 98% o'r deilliannau; budd-dal tai, taliadau credydwyr, gostyngiad yn y dreth gyngor, bathodynnau glas, grantiau cymorth COVID-19 i fusnesau, cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor a rhestrau aros.

## Trefniadau Cymru gyfan ar gyfer atal twyll

Nododd adolygiad[6] o drefniadau atal twyll ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru a gynhaliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn 2020 fod adnoddau a ddyrannwyd i weithgaredd atal twyll yn amrywio'n sylweddol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Ar draws llywodraeth leol yng Nghymru, roedd y trefniadau ar gyfer darparu adnoddau atal twyll yn amrywio'n fawr o gyngor i gyngor ac nid oedd unrhyw dîm Cymru gyfan yn gyfrifol am weithgareddau atal twyll mewn llywodraeth leol, nac unrhyw strategaeth gyffredinol neu fframwaith polisi.

## Trefniadau Rhanbarthol

Gan nad os grŵp neu rwydwaith proffesiynol sy'n hyrwyddo atal twyll mewn llywodraeth leol yng Nghymru, ffurfiwyd is-grŵp o Bartneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru ym mis Mai 2021 i lenwi'r bwlch ac i rannu a gyrru arfer da mewn perthynas ag atal twyll. Mae'n parhau i gwrdd bob chwarter ac mae wrthi'n meincnodi arfer da mewn perthynas â'r 15 argymhelliad yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.

## Trefniadau yn y Cyngor

Mae Côd CIPFA yn sefydlu y bydd y gallu i weithredu'n ddibynnol ar faint a natur sefydliad a maint ei gapasiti atal twyll.

Yn dilyn trosglwyddo ymchwilwyr twyll o Lywodraeth Leol i'r Adran Gwaith a Phensiynau yn 2014, nid oes gan y mwyafrif o gynghorau yng Nghymru, gan gynnwys Cyngor Sir Ynys Môn, adnodd atal twyll pwrpasol ar gyfer y cyngor cyfan erbyn hyn ac, yn lle hynny, dynodwyd y rôl atal twyll yn y Cyngor i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol.

Llynedd, fe wnaethom recriwtio Uwch Archwilydd sydd yn Dechnegydd Atal Twyll Ardystiedig cymwys. Byddwn yn defnyddio ei sgiliau i yrru'r gwaith atal twyll yn y Cyngor. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn Arbenigwr Atal Twyll Ardystiedig hefyd.

---

[6] 'Gwella Ein Perfformiad' Mynd i'r afael â Thwyll yng Nghymru – Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gorffennaf 2020

# RISGIAU TWYLL CYFREDOL A RISGIAU SY'N DOD I'R AMLWG

Mewn cyfnod ansefydlog fel yr un hwn lle mae dirwasgiad economaidd ar y gorwel, mae'n anorfod y bydd argyfwng costau byw a lefelau chwyddiant nas gwelwyd ers blynyddoedd, tarfu ar y gadwyn gyflenwi, problemau cadw a recriwtio staff, effeithiau parhaus y pandemig Covid a'r Rhyfel rhwng Rwsia a Wcráin yn arwain at ansicrwydd, ofn a diffyg gobaith - sef amodau y mae troseddwyr yn manteisio arnynt.

Mae'r demtasiwn a'r cyfleoedd i dwyllo wedi cynyddu, a bydd twyllwyr yn cymryd mantais o'r sefyllfa trwy ddefnyddio dulliau mwyfwy soffistigedig i gyflawni eu troseddau.

Cyn i'r Comisiwn Archwilio ddod i ben yn 2015, croesawyd ei adroddiad *'Protecting the Public Purse'* fel yr unig un o'i fath drwy'r byd i gynnwys gwybodaeth am nifer, cyfanswm a'r math o achosion twyll ym mhob cyngor yn y wlad[7]. Heddiw, mae'n rhaid i ni droi at amrywiaeth eang o wahanol ffynonellau er mwyn chwilio am wybodaeth am y risgiau o dwyll.

Nodwyd y prif risgiau o dwyll y mae llywodraeth leol yn eu hwynebu yn *'Fighting Fraud and Corruption Locally: A Strategy for the 2020s'*[8] (fydd yn cael ei drafod mewn mwy o fanylder yn ddiweddarach) fel:

- Dibynnol ar seibr ac yn cael ei alluogi gan seibr
- Gofal cymdeithasol – cyllidebau personol a thaliadau uniongyrchol
- Ysgolion
- Hawl i brynu / tenantiaeth
- Gwyngalchu arian
- Comisiynu gwasanaethau
- Caffael
- Twyll cyflogres a thwyll hunaniaeth
- Treth Gyngor
- Consesiynau parcio i'r anabl
- Grantiau

[7] *Public Eyes, IIA Audit & Risk*, Awst 2022
[8] https://www.cipfa.org/services/cipfa-solutions/fraud-and-corruption/fighting-fraud-and-corruption-locally

- Trethi Busnes
- Yswiriant
- Grantiau cyfleusterau i'r anabl

## Seibr

Yn gynyddol mae Cynghorau'n cael eu targedu - gyda rhai'n cael eu targedu gan filoedd o ymosodiadau bob dydd. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd eang i'r ymosodiad meddalwedd wystlo ar Gyngor Redcar a Cleveland ym mis Chwefror 2020, ynghyd â chynghorau Hackney a Glouster a gafodd eu taro'n ddrwg wedi hynny. Dylai'r maes hwn fod yn uchel ar yr asesiad o risgiau twyll ym mhob cyngor ac mae wedi'i gynnwys ar gofrestr risg strategol Cyngor Sir Ynys Môn.

## Twyll sy'n cael ei alluogi gan Seibr

Mathau o dwyll yw'r rhain a oedd yn bodoli cyn dyfodiad cyfrifiaduron ond maent yn haws i'w cyflawni gan ddefnyddio technoleg. I gynghorau, y prif fathau o dwyll sy'n cael eu galluogi gan seibr yw arallgyfeirio taliadau i gredydwyr a chyflogau (twyll mandad). Mae'r mwyafrif o risgiau seibr-gysylltiedig yn gweithredu ar egwyddor y 'man gwannaf' ac mae hynny'n golygu mai dim ond un methiant sydd ei angen yn y mesurau rheoli i'r twyll lwyddo. Mae codi ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant parhaus yn hanfodol.

## Bygythiad Mewnol

Mae trosedd yn ffynnu yn ystod dirywiad economaidd. Mewn cyfnod o galedi ariannol, gall dinasyddion sy'n arfer cadw at y gyfraith gael eu cymell a'u gwthio i gyflawni troseddau. Bywyd na fyddent fyth wedi'i ystyried oni bai am y pwysau y maent yn ei wynebu ar hyn o bryd. Wrth i bobl ymdrechu i ymdopi â chostau byw cynyddol, efallai y cânt eu temtio i ychwanegu at eu hincwm drwy gam-fanteisio ar eu gwybodaeth am brosesau mewnol. Gall enghreifftiau o hyn gynnwys hawlio gormod o oramser, cam-drin treuliau neu gam-fanteisio ar fynediad i gyllid y sefydliad. Efallai y bydd mwy o staff yn cael eu targedu, gydag unigolion yn cael cyfle i wneud arian trwy wneud newidiadau i gyfrifon, neu werthu data a gwybodaeth yn gysylltiedig ag ymarferion tendro cystadleuol.

Mae Thirdport[9] yn adrodd fod 41% o achosion bygythiad mewnol yn y DU yn 2021 yn ymwneud â gweithredoedd anonest, ac roedd y mwyafrif ohonynt yn ymwneud â dwyn

[9], Harriet Holmes, Rheolwr Gwasanaethau AML, Thirdfort, Hydref 2022

arian gan gyflogwr. Yn ystod hanner cyntaf 2022, mae 175 o unigolion wedi eu cofnodi fel bygythiad mewnol – cynnydd o 51% o gymharu â'r un cyfnod yn 2021. Yn ystod yr un cyfnod, gwelwyd cynnydd o 47% mewn gweithredoedd anonest gan staff, yn ymwneud â 72 o achosion. Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o unigolion a oedd yn ymwneud â'r achosion hyn wedi cael eu cyflogi am gyfnod o rhwng dwy a phum mlynedd (43%).

## Twyll yn gysylltiedig â Thai

Twyll yn gysylltiedig â thenantiaeth tai yw'r maes twyll sy'n tyfu fwyaf yn y DU, ac amcangyfrifir fod £60.1m wedi'i golli yn 2019-20, o gymharu â £47.7m yn 2018-19. Mae twyll tenantiaeth yn cynnwys isosod eiddo yn anghyfreithlon, olyniaeth ar gam, dweud celwydd am gytundebau tenantiaeth neu geisiadau am dai, ynghyd â methu â datgelu newid mewn amgylchiadau, ac mae'n costio miloedd o bunnoedd i'r trethdalwr bob blwyddyn.

Gan fod y galw am dai cymdeithasol eisoes yn enfawr, ni ddylid gadael eiddo yn wag am fod tenant wedi symud i fyw gyda phartner, yn byw yn rhywle arall neu'n gwneud arian yn anghyfreithlon trwy isosod eu heiddo cyngor. Mae twyll tenantiaeth yn atal pobl ar restr aros y Cyngor rhag cael cartref digonol.

## Gostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor

Gostyngiad person sengl y Dreth Gyngor yw'r ail faes twyll sy'n tyfu gyflymaf yn y DU ac mae'n cynrychioli bron i ddwy ran o dair (65%) o'r achosion o dwyll a nodwyd, gyda gwerth amcangyfrifedig o £35.9m yn 2019-20 (£29.0m yn 2018-19).

Mae'r Cyngor yn defnyddio cwmni allanol i adolygu a dilysu ei geisiadau am y Gostyngiad Person Sengl yn rheolaidd er mwyn canfod hawliadau lle mae risg o dwyll neu wallau. Yn ystod yr ymarfer diwethaf ym mis Awst 2021, sgriniwyd 11,200 o gyfrifon, targedwyd 2,245 o gyfrifon a chanfuwyd 484 o wallau, a'r gyfradd wallau oedd 4.3%. Amcangyfrifir fod yr adolygiad hwn wedi cynhyrchu £152,090 o refeniw.

## Consesiynau Parcio i'r Anabl

Amcangyfrifir fod consesiynau parcio i'r anabl (Cynllun Bathodyn Glas) yn cyfrif am 17% o'r holl achosion o dwyll sector cyhoeddus yn y DU. Rydym yn gweithio gyda'r Fenter Twyll Genedlaethol i nodi achosion lle mae unigolion sydd â bathodynnau glas wedi marw ond efallai nad yw'r Cyngor wedi cael ei hysbysu. Yn yr achosion hyn, buom yn gweithio gyda

Chyswllt Môn i ganslo'r bathodyn a diweddaru'r system i sicrhau nad yw'r bathodyn yn cael ei adnewyddu.

Serch hynny, mae rhai awdurdodau lleol yn cymryd camau ychwanegol i atal camddefnydd twyllodrus, megis cymryd camau i adennill y bathodyn glas, rhannu'r wybodaeth gyda swyddogion parcio er mwyn iddynt wirio nad yw'r bathodynnau'n cael eu defnyddio i osgoi talu ffioedd parcio ac mae rhai awdurdodau'n defnyddio'r wybodaeth i adennill cyfarpar a fenthycwyd i'r ymadawedig gan y gwasanaethau cymdeithasol.

## Caffael

Caffael oedd un o'r meysydd oedd â'r risg canfyddedig uchaf o dwyll yn 2019-20 a bu felly am ddwy flynedd yn olynol. Yn llysoedd y DU, gwelwyd cynnydd o 400% yn nifer yr achosion o dwyll caffael (o dri achos yn 2020 i 15 yn 2021) gyda'r gwerth yn cynyddu i £9.5m, o gymharu â £2.6m yn 2020.

## Prynu i Dalu

Mae prosesau prynu i dalu yn agored i dwyll oherwydd y niferoedd mawr o drafodion sy'n cael eu prosesu, yr amrywiaeth o gyflenwyr dan sylw, heriau staffio a thrafodion uchel eu gwerth. Dim ond y chweched math mwyaf cyffredin o 'Daliad Gwthio Awdurdodedig' oedd sgamiau'n ymwneud ag anfonebau a mandad yn 2020, ond roeddent yn gyfrifol am 17% o'r holl golledion, gyda chyfanswm o £81.9m. Roedd y mwyafrif o golledion yn ôl eu gwerth, sef tua £52.5m, yn dod o gyfrifon busnes neu gyfrifon heblaw am gyfrifon personol, ac roedd y taliad twyllodrus cyfartalog yn £18,871[10].

## Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl

Mae'r grantiau hyn yn helpu tuag at gostau addasiadau a chyfleusterau er mwyn galluogi person anabl i barhau i fyw yn eu cartrefi. Mae twyll yn digwydd pan fydd ymgeiswyr yn ymgeisio am grant ar sail gwybodaeth y maent yn gwybod ei bod yn gamarweiniol neu'n anghywir. Gallai hyn gynnwys peidio â datgan y cyfan, neu gyfran o'u cynilion, neu fethu â datgan eu hincwm llawn. Mae'r cyllid sydd ar gael i ariannu'r addasiadau hyn yn gyfyngedig, felly gallai'r math hwn o dwyll olygu bod pobl haeddiannol yn gorfod aros yn hirach cyn bod gwaith hanfodol yn cael ei wneud, gan eu gadael yn agored i anafiadau a straen ac achosi straen ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

[10] *Fraud - The Facts 2021*, UK Finance

# AMCANION STRATEGOL

Wrth ystyried y strategaeth hon, fe wnaethom ystyried Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Risg o Dwyll a Llygredd (2014)[11] (Côd CIPFA), sydd yn nodi'r arfer orau ar gyfer gwaith atal twyll mewn llywodraeth leol, a hynny'n seiliedig ar bum egwyddor.

Fodd bynnag, rhoesom ystyriaeth i gyhoeddiad mwy diweddar yn ogystal, sydd hefyd yn cael ei gymeradwyo gan CIPFA. Mae'r ddogfen *'Fighting Fraud and Corruption Locally: A Strategy for the 2020s*[12] (FFCL), a drafodwyd yn gynharach o dan yr adran Risgiau Twyll Cyfredol a Risgiau sy'n dod i'r Amlwg yn strategaeth atal twyll a llygredd gyffredinol ar gyfer llywodraeth leol yn Lloegr ac mae'n darparu glasbrint ar gyfer ymateb yn fwy cadarn i dwyll a llygredd yn erbyn awdurdodau lleol. Gan nad oes strategaeth benodol ar gyfer Cymru, rydym wedi defnyddio'r strategaeth hon fel sylfaen i'n ffocws strategol.

Yn yr un modd â Chôd CIPFA, mae'r strategaeth FFCL yn canolbwyntio ar bum piler o weithgarwch, neu amcanion strategol, ac mae'n ein cynorthwyo i nodi ym mhle mae angen i'r Cyngor ganolbwyntio ei ymdrechion yn y maes atal twyll. Y pileri yw:

## Llywodraethu

| | |
|---|---|
| Sylfaen y Strategaeth yw bod *'y rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethiant'* yn cefnogi'r gweithgareddau trwy sicrhau fod trefniadau cadarn ar waith a chefnogaeth gan y weithrediaeth i sicrhau fod mesurau atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn cael eu gwreiddio ym mhob rhan o'r Cyngor.<br><br>Mae trechu twyll yn fater i bawb, ac mae angen trefniadau mewnol cadarn ar y Cyngor sy'n cael eu cyfathrebu ar draws y Cyngor i arddangos y diwylliant a'r ymrwymiad i atal twyll. | **Sicrhau trefniadau cadarn a chefnogaeth y weithrediaeth i sicrhau fod mesurau atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn cael eu gwreiddio ym mhob rhan o'r sefydliad.** |

[11] https://www.cipfa.org/services/networks/better-governance-forum/counter-fraud-documentation/code-of-practice-on-managing-the-risk-of-fraud-and-corruption
[12] https://www.cipfa.org/services/cipfa-solutions/fraud-and-corruption/fighting-fraud-and-corruption-locally

## Cydnabod

| | |
|---|---|
| I greu ymateb atal twyll, mae'n rhaid i'r Cyngor gydnabod a deall risgiau twyll ac yna dangos hynny trwy ymrwymo'r gefnogaeth gywir a'r adnoddau priodol er mwyn taclo twyll.<br><br>Mae'r Tîm Arweinyddiaeth (TA) wedi cydnabod bygythiadau twyll a llygredd a'r niwed y gallant eu hachosi i'r Cyngor, ei nodau ac amcanion ac i ddefnyddwyr gwasanaeth, a hynny trwy ganiatáu i dwyll gael ei gynnwys ar gofrestr risg pob gwasanaeth.<br><br>Rydym yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn caniatáu iddo herio gweithgareddau a deall gweithgareddau atal twyll y Cyngor. | Asesu a deall risgiau twyll.<br><br>Ymrwymo'r gefnogaeth gywir a thaclo twyll a llygredd.<br><br>Dangos bod ganddo ymateb atal twyll cadarn.<br><br>Cyfathrebu'r risgiau i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am Lywodraethiant. |

## Atal

| | |
|---|---|
| Gall y Cyngor atal a chanfod trwy wella mesurau rheoli a phrosesau mewn perthynas â thwyll a defnyddio gwybodaeth a thechnoleg yn well, ynghyd â datblygu diwylliant atal twyll mwy effeithiol.<br><br>O dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i sicrhau fod trefniadau priodol yn cael eu gwneud ar gyfer materion ariannol y Cyngor a'i fod yn anelu i sicrhau fod systemau a gweithdrefnau ariannol cadarn ar waith, sydd yn ymgorffori rheolaethau mewnol effeithlon ac effeithiol. | Gwneud y defnydd gorau o wybodaeth a thechnoleg.<br><br>Gwella mesurau rheoli a phrosesau'n ymwneud â thwyll.<br><br>Datblygu diwylliant atal twyll mwy effeithiol.<br><br>Cyfathrebu ei weithgareddau a'i lwyddiannau. |

## Erlyn

| | |
|---|---|
| Er mai prif nod y Cyngor yw atal twyll a llygredd rhag digwydd yn y lle cyntaf, mae'n hanfodol fod ymateb cadarn ar gael mewn perthynas â gorfodaeth er mwyn erlyn twyllwyr a rhwystro eraill. | Blaenoriaethu adennill colledion oherwydd twyll a defnyddio sancsiynau sifil.<br><br>Datblygu'r gallu a'r capasiti i gosbi troseddwyr. |

| | |
|---|---|
| Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau'r gosb gryfaf bosib ar bob achlysur yn erbyn unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n twyllo neu'n ceisio twyllo'r Cyngor.<br><br>Elfen bellach o ymateb y Cyngor i daclo twyll yw ceisio sicrhau iawndal ariannol. Mae adennill arian a gafwyd trwy dwyll yn rhan annatod o'r Strategaeth, a bydd camau'n cael eu cymryd i adennill unrhyw golledion. Lle bydd gweithred droseddol yn cael ei phrofi, yna bydd Deddf Enillion Troseddau 2002 yn cael ei defnyddio, lle bo'n briodol, i adennill arian.<br><br>Gallai dulliau adennill eraill gynnwys achosion sifil; gorchmynion elw anghyfreithlon a gorchmynion iawndal, ymysg pethau eraill. | Cydweithio ar draws ffiniau daearyddol a ffiniau sectorau.<br><br>Dysgu gwersi a chau'r bylchau. |

## Amddiffyn ei hun a'i breswylwyr

| | |
|---|---|
| Mae'r thema hon yn ymestyn ar draws pileri'r strategaeth hon ac mae'n ymwneud ag amddiffyn y Cyngor rhag trosedd ddifrifol a chyfundrefnol, diogelu unigolion rhag dioddef troseddau a diogelu rhag y niwed y gall twyll ei wneud i'r gymuned ehangach. Mae'n ymwneud hefyd â diogelu cyllid cyhoeddus, diogelu'r Cyngor rhag troseddau seibr a diogelu ei hun rhag twyll yn y dyfodol.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw twyll yn drosedd heb ddioddefwyr ac mae'n ceisio gwarchod pobl fregus rhag y niwed y gall twyll ei achosi yn y gymuned.<br><br>Mae dyletswydd arnom i amddiffyn preswylwyr yn ein cymunedau rhag twyll a dylem weithio ar y cyd gyda swyddogion ar draws y Cyngor ac asiantaethau partner i atal twyll a diogelu pobl fregus. | Sicrhau trefniadau cadarn a chefnogaeth y weithrediaeth i sicrhau bod mesurau atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn cael eu gwreiddio ym mhob rhan o'r sefydliad.<br><br>Cydnabod y niwed y gall twyll ei achosi i'r gymuned. |

# CASGLIAD

Fel ceidwaid adnoddau cyhoeddus, mae cyfrifoldeb ar bob sefydliad sector cyhoeddus i ymladd twyll a llygredd. Yn ogystal â chryfhau cyflwr cyllid cyhoeddus, mae ymdrechion llwyddiannus gan sefydliad i atal, nodi a rheoli gwahanol fathau o dwyll yn lliniaru risgiau moesol a risgiau i enw da ar draws y sector cyhoeddus.

Mae cyfrifoldeb ar bob aelod o Gyngor Sir Ynys Môn, a phob un o'i weithwyr, i hyrwyddo diwylliant atal twyll trwy sicrhau fod mesurau rheoli cadarn ac effeithiol ar waith i atal twyll a llygredd a thrwy nodi ac adrodd yn brydlon am achosion posib er mwyn ymchwilio iddynt.

Mae ganddynt rôl holl bwysig i'w chwarae wrth sefydlu a gweithredu diwylliant atal twyll cadarnhaol a diwylliant o ymwybyddiaeth ym mhob rhan o'r sefydliad, ac mae angen gosod y tôn cywir ar frig y sefydliad i ategu hynny. Mae hyn yn gweithredu fel mesur rheoli grymus i atal pobl rhag twyllo.

Mae rhan o'r gwaith o ddatblygu diwylliant atal twyll ac ymwybyddiaeth o dwyll yn golygu annog siarad am dwyll mewn ffordd dryloyw ac agored; sefydlu amgylchedd lle mae gweithwyr yn teimlo y gallant godi pryderon heb ofni y bydd rhywun yn talu'r pwyth yn ôl; a chyfleu'r neges mai pwrpas rheolaethau mewnol i atal a chanfod twyll yw diogelu staff yn ogystal â'r sefydliad.

Mae gan archwilio mewnol rôl bwysig i'w chwarae trwy gynorthwyo i godi ymwybyddiaeth am dwyll, hyrwyddo arfer orau o ran chwythu'r chwiban, a gweithredu fel ymgynghorydd y gall aelodau ac uwch reolwyr ymddiried ynddo mewn perthynas â meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r strategaeth hon yn sefydlu llwybr cadarn i sicrhau fod y Tîm Archwilio Mewnol yn gallu:

- Addasu i'r bygythiadau a'r materion sy'n dod i'r amlwg a mynd i'r afael â risgiau twyll ym mhob rhan o'r Cyngor yn awr ac yn y dyfodol;
- asesu, dadansoddi ac adrodd ar risgiau twyll sy'n effeithio ar y Cyngor ar hyn o bryd ac sy'n debygol o effeithio arno yn y dyfodol; a
- nodi gofynion ar gyfer gwaith atal twyll yn y dyfodol.

Cyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y cynnydd sydd angen ei wneud yn erbyn y strategaeth a'r gweithgareddau (gweler y manylion yn Atodiad 2) a bydd yn destun adolygiad parhaus.

# ATODIAD 1 – DOGFENNAU A ADOLYGWYD


- Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, Mawrth 2017
- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014
- *Fraud - The Facts 2021*, UK Finance https://www.ukfinance.org.uk/policy-and-guidance/reports-publications/fraud-facts-2021
- *CIPFA Fraud and corruption tracker, National Report* 2020 (Chwefror 2021) https://www.cipfa.org/services/cipfa-solutions/fraud-and-corruption/fraud-and-corruption-tracker
- *Fighting Fraud and Corruption Locally, A Strategy for the 2020s* https://www.cipfa.org/services/cipfa-solutions/fraud-and-corruption/fighting-fraud-and-corruption-locally
- *Review into the risks of fraud and corruption in local government procurement*, Y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, Mehefin 2020 https://www.local.gov.uk/review-risks-fraud-and-corruption-local-government-procurement
- ‘Gwella Ein Perfformiad’ Mynd i’r afael â Thwyll yng Nghymru, Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gorffennaf 2020 https://www.audit.wales/cy/publication/gwella-ein-perfformiad-mynd-ir-afael-thwyll-yng-nghymru
- Trefniadau Atal Twyll yn Sector Cyhoeddus Cymru, Trosolwg ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Mehefin 2019 https://www.audit.wales/publication/counter-fraud-arrangements-welsh-public-sector
- Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli’r Risg o Dwyll a Llygredd, 2014
- https://www.cipfa.org/services/networks/better-governance-forum/counter-fraud-documentation/code-of-practice-on-managing-the-risk-of-fraud-and-corruption
- *Fraud is on the rise: step up to the challenge*, Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol, Gorffennaf 2022
- *Fraud is now Britain’s dominant crime*, Sefydliad Marchnad Gymdeithasol, Mawrth 2022 https://www.smf.co.uk/commentary_podcasts/fraud-is-britains-dominant-crime/
- *The financial cost of fraud 2021*, Canolfan Astudiaethau Atal Twyll, Prifysgol Portsmouth https://f.datasrvr.com/fr1/521/90994/0031_Financial_Cost_of_Fraud_2021_v5.pdf
- *Five fraud types to watch for in 2023*, Harriet Holmes, Rheolwr Gwasanaethau AML, Thirdfort, Hydref 2022 https://www.thirdfort.com/resources/five-fraud-types-to-watch-for/?utm_campaign=Harriet+content&utm_source=LinkedIn&utm_medium=textlink&utm_content=Five+fraud+types

# ATODIAD 2 - CYNLLUN GWEITHREDU ATAL TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD

| Mater/Risg | Gweithred | Gan Bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| **Mae risg gan 'fygythiad mewnol' wedi cynyddu dros hanner ers 2021** | Byddwn yn cynnal adolygiad archwilio mewnol o'r trefniadau ar gyfer datgan gwrthdaro buddiannau posib yn ystod 2022-23. | Archwilio Mewnol | Mawrth 2023 |
| **Mae'r FFCL yn nodi Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl fel un o'r prif risgiau twyll mewn llywodraeth leol** | Byddwn yn cynnal adolygiad archwilio mewnol o'r trefniadau ar gyfer rheoli risgiau twyll yn gysylltiedig â Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn ystod 2023-24. | Archwilio Mewnol | Mawrth 2024 |
| **Twyll tenantiaeth yw'r maes twyll sy'n tyfu fwyaf yn y DU** | Er bod asesiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn nodi fod twyll tenantiaeth yn isel yn gyffredinol ar Ynys Môn, byddwn yn gweithio gyda'r Fenter Twyll Genedlaethol i nodi:<br>• achosion ble'r ymddengys fod unigolyn yn byw mewn dau gyfeiriad gwahanol, gan awgrymu achosion posib o isosod eiddo neu denantiaethau deuol<br>• achosion lle mae tenant tŷ wedi marw, ond ni hysbyswyd y Cyngor ac felly nid ydynt wedi cael eu tynnu oddi ar y denantiaeth<br>• achosion ble'r ymddengys fod unigolyn wedi cofrestru ar y rhestr aros gan ddefnyddio cyfeiriad gwahanol i'r un sydd ar y system rhenti tai, gan awgrymu newidiadau mewn amgylchiadau nad ydynt wedi cael eu datgelu o bosib, neu fod gwybodaeth ffug wedi'i darparu. | Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â'r Rheolwr Gwasanaeth - Tai Cymunedol, Gwasanaethau Tai | Mawrth 2023 |
| **Gostyngiad person sengl y dreth gyngor yw'r ail** | Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau i gefnogi adolygiadau rheolaidd o ostyngiadau person sengl. | Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â'r | Parhaus |

| Mater/Risg | Gweithred | Gan Bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| **faes twyll sy'n tyfu gyflymaf yn y DU** | Byddwn hefyd yn trosglwyddo canlyniadau'r data a barwyd mewn perthynas â gostyngiad person sengl y dreth gyngor a'r gofrestr etholiadol, fel rhan o ymarfer paru data y Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer 2022-23. | Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau | Mawrth 2023 |
| **Mae'r cynllun consesiynau parcio i'r anabl (Bathodynnau Glas) yn cynrychioli 17% o gyfanswm yr achosion amcangyfrifedig o dwyll sector cyhoeddus yn y DU** | Byddwn yn gweithio gyda Chyswllt Môn i atgyfnerthu gweithgareddau atal twyll yn y maes hwn.<br><br>Byddwn hefyd yn trosglwyddo canlyniadau'r data a barwyd mewn perthynas â chonsesiynau parcio i'r anabl ac unigolion sydd wedi marw, fel rhan o ymarfer paru data y Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer 2022-23. | Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â Rheolwr Profiad y Cwsmer Cyswllt Môn, Trawsnewid Corfforaethol | Parhaus<br><br>Mawrth 2023 |
| **Caffael oedd un o'r meysydd gyda'r canfyddiad uchaf o dwyll yn 2019-20** | Byddwn yn gweithio gyda'r Rheolwr Caffael i roi'r cynllun gweithredu ar waith yn dilyn yr adolygiad archwilio mewnol 'Rheoli'r Risg o Dwyll a Llygredd ym maes Caffael' a gynhaliwyd ym mis Awst 2022. | Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â'r Rheolwr Caffael | Mawrth 2023 |
| **Mae prosesau prynu i dalu yn agored i dwyll oherwydd y niferoedd mawr o drafodion sy'n cael eu prosesu, yr amrywiaeth o gyflenwyr dan sylw, heriau staffio a thrafodion uchel eu gwerth** | Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Tîm Credydwyr i nodi ac atal gwallau a thwyll, gan gynnwys trwy ddefnyddio technegau dadansoddi data (monitro parhaus) a chyhoeddi rhybuddion gan y Rhwydwaith Atal Twyll Cenedlaethol (NAFN) a rhybuddion twyll eraill. | Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â Rheolwr y Tîm Cyflogau a Thaliadau | Parhaus |
| **Cael trefniadau cadarn a chefnogaeth y weithrediaeth i sicrhau fod mesurau atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yn cael eu gwreiddio ym mhob rhan o'r sefydliad** | Bydd cael fframwaith atal twyll corfforaethol, sydd yn darparu ystod lawn o elfennau lefel uchel, yn cyfrannu tuag at sicrhau fod gan y Cyngor strategaeth atal twyll effeithiol. Mae gan y Cyngor fframwaith cadarn o weithdrefnau a pholisïau fydd yn cyfuno i weithredu fel rhwystr effeithiol yn erbyn gweithgarwch twyllodrus ac yn darparu ffordd o adrodd am dwyll a llygredd, neu eu canfod. Felly, byddwn yn cynnal:<br>• rhaglen gynhwysfawr i ddiweddaru polisïau | Pennaeth Archwilio a Risg | Rhagfyr 2023 |

| Mater/Risg | Gweithred | Gan Bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| | • codi ymwybyddiaeth am atal twyll<br>• pecyn e-Ddysgu | | |
| **Nodi, asesu a deall risgiau twyll yw conglfaen trefniadau atal twyll effeithiol** | Ar y cyd â gwasanaethau, byddwn yn datblygu tair ffrwd waith allweddol fydd yn:<br>• ceisio nodi risgiau twyll ar draws y Cyngor<br>• asesu gweithgareddau rheoli twyll a'u heffeithiolrwydd, a<br>• dyrannu'r lefel gywir o adnoddau er mwyn ymchwilio a chanfod twyll pan roddir gwybod am hynny<br><br>Bydd gweithgor atal twyll yn cael ei ddatblygu er mwyn cynorthwyo i nodi'r risg o dwyll ar draws y Cyngor.<br><br>Byddwn yn gweithio gyda'r grŵp i ddatblygu asesiad risg twyll er mwyn nodi'r twyll posib y gallai gwasanaethau fod yn agored iddo. Bydd yr asesiad yn amcangyfrif effaith bosib y twyll dan sylw a'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd. Bydd canlyniadau'r asesiadau'n galluogi'r Cyngor i ddeall yn well yr amgylchedd twyll y mae'n gweithredu ynddo. Bydd yr asesiadau'n cael eu defnyddio hefyd fel adnodd fydd yn cynorthwyo i ganolbwyntio adnoddau ar y risgiau twyll mwyaf perthnasol. | Pennaeth Archwilio a Risg | Rhagfyr 2023 |
| **Yn aml, atgyfeiriadau ymatebol yw prif ffynhonnell gwaith y Tîm Archwilio Mewnol** | Yn aml, mae atgyfeiriadau'n cael eu cynhyrchu gan fod y cyhoedd neu weithwyr yn effro a dyna sy'n caniatáu i'r mater gael ei ganfod. Byddwn yn edrych ar ddarparu adnodd adrodd am dwyll ar gyfer staff a'r cyhoedd er mwyn iddynt adrodd am bryderon. | Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â'r Rheolwr Tîm TG | Mehefin 2023 |
| **Gwneud y defnydd gorau o wybodaeth a thechnoleg trwy gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol** | Byddwn yn cymryd rhan yn yr ymarferion a gynhelir yn flynyddol a bob dwy flynedd gan y Fenter Twyll Genedlaethol, sy'n defnyddio data a ddarperir gan tua 1,200 o sefydliadau sy'n cymryd rhan ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat, er mwyn atal a chanfod twyll. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru data electronig mewn cyrff sector cyhoeddus a phreifat, a rhyngddynt, ac mae'r cyrff hyn yn cynnwys awdurdodau heddlu, byrddau prawf lleol, awdurdodau tân ac achub, yn ogystal â chynghorau lleol a nifer o gyrff sector cyhoeddus. Mae ymarfer paru data y Fenter Twyll | Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â gwasanaethau | Parhaus |

| Mater/Risg | Gweithred | Gan Bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| | Genedlaethol yn chwarae rhan bwysig wrth amddiffyn y pwrs cyhoeddus rhag risgiau twyll. | | |
| **Hyrwyddo diwylliant atal twyll** | Byddwn yn hyrwyddo diwylliant atal twyll ar draws y Cyngor trwy roi cyhoeddusrwydd ar y cyfryngau cymdeithasol i effaith twyll ar y Cyngor a'r gymuned. | Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â'r Tîm Cyfathrebu Corfforaethol | Parhaus |
| **Codi ymwybyddiaeth** | Y ffordd orau o atal twyll yw trwy rannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth. Felly, ar y cyd â'r Tîm Hyfforddi a Datblygu, byddwn yn cynnal digwyddiadau rheolaidd i godi ymwybyddiaeth am dwyll, gan gynnwys cyhoeddi newyddlenni a chynnal sesiynau hyfforddi a sesiynau briffio. | Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â'r Rheolwr Hyfforddi a Datblygu | Parhaus |
| **Adrodd am Dwyll** | Mae angen rhoi gwybod i Archwilio Mewnol am bob digwyddiad sy'n gysylltiedig â thwyll. Byddwn yn cyflwyno canlyniadau ymchwiliadau a gwersi i'w dysgu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Tîm Arweinyddiaeth. | Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â gwasanaethau | Parhaus |
| **Cydweithio, dysgu gwersi a chau'r bwlch** | Byddwn yn parhau i gydweithio ar draws rhanbarth gogledd Cymru i yrru gwelliannau mewn gweithgarwch atal twyll, gan gynnwys mynd i'r afael â'r 15 argymhelliad a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2020. Byddwn hefyd yn parhau i weithio tu hwnt i ffiniau cenedlaethol er mwyn cydweithio gydag Is-Grŵp Atal Twyll Prif Swyddogion Archwilio'r Gogledd Orllewin, er mwyn dysgu gwersi, rhannu arfer da a chau'r bwlch. | Pennaeth Archwilio a Risg | Parhaus |
| **Amddiffyn y Cyngor a'i Breswylwyr** | Er mwyn sicrhau fod ein strategaeth atal twyll yn alinio â chyfrifoldebau diogelu'r Cyngor i warchod yr unigolion mwyaf bregus yn ein cymunedau, byddwn yn gweithio'n agos gyda thimau gofal cymdeithasol i ddatblygu dulliau ar y cyd i nodi arfer orau o ran rhwystro risgiau'n ymwneud â thwyll ym maes gofal cymdeithasol. | Pennaeth Archwilio a Risg ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol | Parhaus |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **8 RHAGFYR 2022** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD AR YR ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN 2022/23 RHEOLI TRYSORLYS** |
| **AELODAU(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>E-BOST: | **JEMMA ROBINSON**<br>JemmaRobinson@ynysmon.llyw.cymru |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

## 1. Cefndir

### 1.1 Strategaeth Cyfalaf

Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus (CIPFA) godau diwygiedig ar gyfer Darbodusrwydd a Rheoli Trysorlys. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol baratoi Strategaeth Gyfalaf gyda'r bwriad o ddarparu'r canlynol:-

- trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, cyllido cyfalaf a gweithgareddau rheoli trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau;
- trosolwg o sut y mae'r risg gysylltiedig yn cael ei rheoli; a
- goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

Cyflwynwyd adroddiad a oedd yn amlinellu ein Strategaeth Gyfalaf i'r Pwyllgor Gwaith ar 3 Mawrth 2022, a bydd Strategaeth ddiwygiedig ar gyfer 2023/24 yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor llawn cyn 31 Mawrth 2023.

### 1.2 Rheoli Trysorlys

Mae'r Cyngor yn gweithredu cyllideb gytbwys, sy'n golygu'n fras y bydd arian a godir yn ystod y flwyddyn yn cwrdd â'i wariant arian parod. Mae'n rhan o'r gweithgareddau rheoli trysorlys i sicrhau bod y llif arian hwn wedi'i gynllunio'n ddigonol, gydag arian dros ben yn cael ei fuddsoddi mewn gwrthbartïon risg isel, gan ddarparu hylifedd digonol yn y lle cyntaf, cyn ystyried sicrhau'r elw uchaf posib o'r buddsoddiadau.

Ail brif swyddogaeth y gwasanaeth rheoli trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn rhoi syniad o faint y bydd angen i'r Cyngor gael benthyg sef, yn y bôn, cynllunio llif arian parod yn y tymor hirach i sicrhau y gall y Cyngor gyflawni ei weithgareddau gwariant cyfalaf. Gall y gwaith hwn o reoli arian parod yn y tymor hirach gynnwys trefnu benthyciadau tymor hir neu dymor byr, neu ddefnyddio gwargedion llif arian tymor hirach ac, ar brydiau, gellir ailstrwythuro unrhyw ddyled i fodloni amcanion cost neu risg y Cyngor.

Yn unol â hynny, diffinnir rheoli trysorlys fel:-

"*Rheoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod lleol, ei drafodion bancio, marchnad arian a marchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a cheisio'r perfformiad gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny.*"

## 2. Cyflwyniad

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (diwygiwyd 2017). Mae prif ofynion y Côd fel a ganlyn:-

**(i)** Creu a chynnal Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys, sy'n nodi polisïau ac amcanion gweithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor.

**(ii)** Creu a chynnal Arferion Rheoli Trysorlys, sy'n nodi'r modd y bydd y Cyngor yn ceisio cyflawni'r polisïau a'r amcanion hynny.

**(iii)** Bod y Cyngor llawn yn derbyn Datganiad Blynyddol ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, sy'n cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol a'r Polisi ar y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI) ar gyfer y flwyddyn i ddod, Adroddiad Adolygiad Canol Blwyddyn (yr adroddiad hwn) ac Adroddiad Blynyddol, yn ymdrin â gweithgareddau yn ystod y flwyddyn flaenorol.

**(iv)** Bod y Cyngor yn dirprwyo cyfrifoldebau dros weithredu a monitro polisïau ac arferion rheoli trysorlys ac ar gyfer gweithredu a gweinyddu penderfyniadau rheoli trysorlys.

**(v)** Bod y Cyngor yn dirprwyo rôl craffu ar y strategaeth a pholisïau rheoli trysorlys i gorff penodol a enwir. Ar gyfer y Cyngor hwn, y corff dirprwyedig hwnnw yw'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Paratowyd yr adroddiad canol blwyddyn hwn yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys, ac mae'n cynnwys y canlynol:-

- Diweddariad economaidd ar gyfer hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2022/23;
- Adolygiad o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol;
- Gwariant cyfalaf y Cyngor, fel y'i nodir yn y Strategaeth Gyfalaf, a dangosyddion darbodus;
- Adolygiad o bortffolio buddsoddi'r Cyngor ar gyfer 2022/23;
- Adolygiad o strategaeth fenthyca'r Cyngor ar gyfer 2022/23;
- Adolygiad o unrhyw aildrefnu dyledion a wnaed yn ystod 2022/23;
- Adolygiad o gydymffurfiaeth â'r Terfynau Trysorlys a Darbodus ar gyfer 2022/23.

## 3. Diweddariad Economaidd

**3.1** Mae ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor wedi darparu diweddariad economaidd ac mae i'w weld yn Atodiad 1. Yn ddiweddar, maent hefyd wedi darparu'r rhagolwg isod ar gyfer cyfraddau llog:-

| | Rhag 2022 | Maw 2023 | Meh 2023 | Medi 2023 | Rhag 2023 | Maw 2024 | Meh 2024 | Medi 2024 | Rhag 2024 | Maw 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfradd Banc (%) | 4.00% | 5.00% | 5.00% | 5.00% | 4.50% | 4.00% | 3.75% | 3.25% | 3.00% | 2.75% |
| Cyfradd 5 mlynedd y PWLB* (%) | 5.00% | 4.90% | 4.70% | 4.50% | 4.20% | 3.90% | 3.70% | 3.50% | 3.40% | 3.30% |
| Cyfradd 10 mlynedd y PWLB (%) | 4.90% | 4.70% | 4.60% | 4.30% | 4.10% | 3.80% | 3.60% | 3.50% | 3.40% | 3.30% |
| Cyfradd 25 mlynedd y PWLB (%) | 5.10% | 4.90% | 4.80% | 4.50% | 4.30% | 4.10% | 3.90% | 3.70% | 3.60% | 3.60% |
| Cyfradd 50 mlynedd y PWLB (%) | 4.80% | 4.60% | 4.50% | 4.20% | 4.00% | 3.80% | 3.60% | 3.40% | 3.30% | 3.30% |

*Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus

**3.2** Yn ddiweddar, darparodd ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor sylwebaeth i gyd-fynd â'r rhagolygon cyfraddau llog uchod. Gellir gweld y sylwebaeth hon yn Atodiad 2.

## 4. Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys a diweddariad ar y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

**4.1** Cymeradwyodd y Cyngor llawn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (TMSS) ar gyfer 2022/23 ar 10 Mawrth 2022. Nid oes unrhyw newidiadau polisi yn y TMSS; mae'r manylion yn yr adroddiad hwn yn diweddaru'r sefyllfa yng ngoleuni'r sefyllfa economaidd sydd ohoni a'r newidiadau cyllidebol a gymeradwywyd eisoes.

## 5. Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

**5.1** Yn unol â'r Côd, blaenoriaeth y Cyngor yw sicrhau diogelwch cyfalaf a hylifedd, a sicrhau lefel briodol o enillion sy'n gyson ag archwaeth risg y Cyngor. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, ystyrir ei bod yn briodol cadw'r buddsoddiadau i rai tymor byr er mwyn cwrdd ag anghenion llif arian, ond hefyd i chwilio am y gwerth sydd ar gael mewn cyfnodau hyd at 12 mis gyda sefydliadau ariannol sydd â statws credyd uchel.

**5.2** Roedd gan y Cyngor £55.224m o fuddsoddiadau ar 30 Medi 2022 (£46.115m ar 31 Mawrth 2022), a'r elw o'r portffolio buddsoddi am chwe mis cyntaf y flwyddyn oedd 1.11%. Fodd bynnag, dylid nodi fod yr enillion wedi cynyddu yn ystod yr ail chwarter ac mae disgwyl iddynt barhau i gynyddu yn ystod ail hanner y flwyddyn. Mae Atodiad 3 yn cynnwys rhestr lawn o'r buddsoddiadau ar 30 Medi 2022. Mae Atodiad 4 yn cynnwys crynodeb o'r buddsoddiadau a'r cyfraddau.

**5.3** Nid aethpwyd yn uwch na'r terfynau a gymeradwywyd yn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn ystod chwe mis cyntaf 2022/23. Serch hynny, gofynnir am godi'r terfyn ar gyfer benthyca i Awdurdodau Lleol eraill o £5m i £10m. Oherwydd bod ein balansau arian parod wedi cynyddu a'r galw gan awdurdodau eraill yn uwch, rydym eisiau manteisio ar y cyfleoedd buddsoddi gorau posib.

**5.4** Yr enillion o fuddsoddiadau y mae'r Cyngor wedi cynllunio ar eu cyfer am 2022/23 yn ei chyfanrwydd yw £0.004m ac nid yw perfformiad ar gyfer y flwyddyn hyd yma yn cyd-fynd â'r gyllideb, oherwydd derbyniwyd £0.208m hyd at ddiwedd Chwarter 2. Rydym yn rhagweld y bydd yr enillion ar ddiwedd y flwyddyn yn uwch na'r gyllideb gan fod ein balansau arian parod wedi bod yn uwch na'r arfer ac mae cyfraddau llog yn uwch nag a ragwelwyd pan osodwyd y gyllideb.

**5.5** Mae'r meini prawf presennol ar gyfer dewis gwrthbartïon buddsoddi a gymeradwywyd yn y TMSS yn cwrdd â gofynion y swyddogaeth rheoli trysorlys.

**5.6** Gellir gweld y gwledydd a gymeradwywyd ar gyfer buddsoddiadau yn Atodiad 5.

**5.7** Mae'r tabl isod yn rhestru buddsoddiadau a wnaed yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol hon. Gan mai diogelwch yr arian yw dangosydd allweddol y Cyngor, ac oherwydd diffyg yn y galw gan Awdurdodau Lleol eraill, ystyrir mai cyfrifon banc galw yw'r ffordd fwyaf diogel o fuddsoddi arian, ac mae hyn yn darparu enillion uwch yn dilyn y cynnydd mewn cyfraddau llog. Serch hynny, mae'r Cyngor yn ceisio ehangu nifer y gwrthbartïon sydd ar gael er mwyn lleihau'r symiau sy'n cael eu cadw mewn cyfrifon galw.


| Gwrthbarti | Dyddiad Cychwyn | Dyddiad Gorffen | Cyfradd Llog % | Swm £ | Llog a dderbyniwyd ar gyfer y cyfnod £ |
|---|---|---|---|---|---|
| National Westminster Bank | 11/04/2022 | 11/10/2022 | 1.30 | 10,000,000 | 65,178 |
| Santander | 10/05/2022 | 10/11/2022 | 1.47 | 7,500,000 | 55,578 |
| Nationwide Building Society | 17/05/2022 | 17/08/2022 | 0.97 | 7,500,000 | 18,337 |
| Goldman Sachs | 22/07/2022 | 22/12/2022 | 2.18 | 7,500,000 | 68,536 |
| Nationwide Building Society | 17/08/2022 | 17/11/2022 | 1.87 | 7,500,000 | 35,351 |

## 6. Benthyca

**6.1** Y gofyniad cyllid cyfalaf (GCC) a ragwelir ar gyfer 2022/23 yw £146.9m. Mae'r GCC yn dynodi angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca at ddibenion cyfalaf. Os yw'r GCC yn bositif, gall y Cyngor fenthyca gan y PWLB neu'r farchnad (benthyca allanol) neu o falansau mewnol ar sail dros dro (benthyca mewnol). Yn gyffredinol, mae'r cydbwysedd rhwng benthyca allanol a mewnol yn cael ei yrru gan amodau'r farchnad. Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd wedi cael benthyg £122.7m erbyn diwedd y flwyddyn a bydd wedi defnyddio £24.2m o gronfeydd llif arian yn lle benthyca. Mae hwn yn ddull darbodus a chost effeithiol yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, ond bydd angen ei fonitro'n barhaus os bydd y risg fod yr elw ar giltiau yn uwch na'r disgwyl yn parhau.

**6.2** Ni fenthycwyd unrhyw arian yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol, ac ni ragwelir y bydd angen unrhyw fenthyca allanol ychwanegol yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol. Bydd angen benthyca i gyllido rhan o raglen gyfalaf 2022/23, ond gwneir hynny trwy fenthyca mewnol (defnyddio balansau arian parod). Bydd hyn yn gohirio costau cyllido cyfalaf tra bod balansau arian parod y Cyngor yn gallu darparu ar gyfer y benthyca mewnol hwn. Yn y tymor canolig, efallai y bydd angen allanoli benthyca os bydd balansau arian y Cyngor yn gostwng i lefel isel. Mae'r rhaglen gyfalaf yn cael ei monitro'n rheolaidd oherwydd effeithiau pwysau chwyddiant, prinder deunyddiau a llafur. Felly, bydd ein strategaeth fenthyca hefyd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac yna'n cael ei haddasu, os bydd angen, er mwyn cyflawni'r gwerth gorau posib a'r lefel gorau o risg yn y tymor hir.

Mae'r graff a'r tabl isod yn dangos y newid yng nghyfraddau sicrwydd y PWLB ar gyfer chwe mis cyntaf y flwyddyn hyd yma. Roedd enillion giltiau a chyfraddau'r PWLB yn dangos tuedd ar i fyny rhwng 1 Ebrill a 30 Medi. Ar ddechrau 2022/23, roedd cyfradd darged 50 mlynedd y PWLB ar gyfer benthyca hirdymor newydd yn 2.20%, cyn cynyddu i 4.80% ym mis Medi. (Nodwch, serch hynny, ein bod yn rhagweld y bydd cyfraddau'r PWLB yn gostwng yn ystod 2023 a 2024.)




| | 1 Year | 5 Year | 10 Year | 25 Year | 50 Year |
|---|---|---|---|---|---|
| **Low** | 1.95% | 2.18% | 2.36% | 2.52% | 2.25% |
| **Date** | 01/04/2022 | 13/05/2022 | 04/04/2022 | 04/04/2022 | 04/04/2022 |
| **High** | 5.11% | 5.44% | 5.35% | 5.80% | 5.51% |
| **Date** | 28/09/2022 | 28/09/2022 | 28/09/2022 | 28/09/2022 | 28/09/2022 |
| **Average** | 2.81% | 2.92% | 3.13% | 3.44% | 3.17% |
| **Spread** | 3.16% | 3.26% | 2.99% | 3.28% | 3.26% |

**6.3** Prin iawn fu'r cyfleoedd a gafwyd i aildrefnu dyledion yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni ac yn dilyn codiadau amrywiol yn yr elw a ychwanegwyd i enillion giltiau, ac mae hyn wedi cael effaith ar gyfraddau benthyg newydd y PWLB ers mis Hydref 2010. Felly, nid oes unrhyw ddyledion wedi cael eu haildrefnu yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol hyd yma. Fodd bynnag, gan fod y gromlin enillion yn ei chyfanrwydd wedi symud i lefel uwch, efallai y bydd gwell cyfleoedd yn y dyfodol, er dim ond aildrefnu dyledion sy'n ddarbodus ac yn fforddiadwy fydd yn cael ei ystyried.

## 7. Sefyllfa Gyfalaf y Cyngor (Dangosyddion Darbodus)

**7.1** Mae'r rhan hon o'r adroddiad wedi ei strwythuro er mwyn rhoi diweddariad ar:-

- Cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor;
- Sut mae'r cynlluniau hyn yn cael eu cyllido;
- Effaith y newidiadau yn y cynlluniau gwariant cyfalaf ar y dangosyddion darbodus a'r angen sylfaenol i fenthyca; a
- Cydymffurfio â'r cyfyngiadau sydd ar waith ar gyfer gweithgareddau benthyca.

### 7.2 Dangosydd Darbodus ar gyfer Gwariant Cyfalaf

Mae'r tabl hwn yn dangos yr amcangyfrifon diwygiedig ar gyfer gwariant cyfalaf o'i gymharu â'r gyllideb gyfalaf:-

| Gwariant Cyfalaf | Amcangyfrif Gwreiddiol 2022/23 £'000 | Sefyllfa ar 30 Medi 2022 £'000 | Amcangyfrif Cyfredol 2022/23 £'000 |
|---|---|---|---|
| Cronfa'r Cyngor | 36,691 | 13,450 | 34,068 |
| CRT | 15,034 | 4,015 | 12,085 |
| **Cyfanswm** | **51,725** | **17,465** | **46,153** |

**7.2.1** Mae'r gwariant a ragwelir yn dangos bod y mwyafrif o brosiectau ar darged i'w cwblhau o fewn y gyllideb, ond mae rhai prosiectau'n rhagweld tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn, gyda'r cynllun a'r cyllid yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) yn rhagweld tanwariant sylweddol hefyd. Adlewyrchir hyn yn y tabl uchod. Mae dadansoddiad llawn o'r gwariant cyfalaf a gynlluniwyd ar gyfer 2022/23 i'w weld yn Adroddiad Monitro'r Gyllideb Cyfalaf ar gyfer Ch2, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 29 Tachwedd 2022.

### 7.3 Newidiadau o ran Cyllido'r Rhaglen Gyfalaf

**7.3.1** Mae rhai newidiadau i sut y cyllidir y rhaglen gyfalaf, fel y gwelir yn y tabl isod. Mae'r prif reswm am y newid yn cael ei nodi ym mharagraff 7.2.1, gan y bydd tanwariant sylweddol mewn cynlluniau cyfalaf yn 2022/23. Serch hynny, bydd y cynlluniau hyn yn llithro i 2023/24, ynghyd â'r cyllid ar eu cyfer ac, ar hyn o bryd, ni ragwelir y bydd unrhyw gyllid yn cael ei golli oherwydd yr oedi.

**7.3.2** Mae'r tabl isod yn dwyn ynghyd brif elfennau strategaeth y cynlluniau gwariant cyfalaf (uchod), gan dynnu sylw at ddull cyllido gwreiddiol y rhaglen gyfalaf, a threfniadau cyllido disgwyliedig y gwariant cyfalaf hwn. Mae elfen fenthyca'r tabl yn cynyddu dyled sylfaenol y Cyngor trwy'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), er y bydd hyn yn cael ei ostwng yn rhannol gan daliadau refeniw ar gyfer ad-dalu'r ddyled (Darpariaeth Refeniw Isaf). Efallai y bydd dyledion sy'n aeddfedu a gofynion trysorlys eraill yn ychwanegu at yr angen benthyca uniongyrchol hwn hefyd.

| Cyllido Cyfalaf | Amcangyfrif Gwreiddiol 2022/23 £'000 | Amcangyfrif Diwygiedig 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| Grantiau Cyfalaf | 19,253 | 18,331 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,108 | 830 |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 7,112 | 6,331 |
| Cyfraniad Refeniw | 10,365 | 7,602 |
| Benthyca â Chefnogaeth | 7,068 | 6,240 |
| Benthyca Digefnogaeth | 6,742 | 6,742 |
| Benthyciad | 77 | 77 |
| **Cyfanswm** | **51,725** | **46,153** |

## 7.4 Newidiadau i'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), Dyled Allanol a'r Terfyn Gweithredol

**7.4.1** Mae tablau 7.4.2 a 7.4.3 isod yn dangos y GCC, sef yr angen allanol sylfaenol i fenthyca at ddibenion cyfalaf. Mae hefyd yn dangos y sefyllfa o ran dyled yn ystod y cyfnod. Yr enw ar hyn yw'r Terfyn Gweithredol, ac mae'n cael ei osod yn flynyddol gan y Cyngor fel rhan o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys.

### 7.4.2 Dangosydd Darbodus – Y Terfyn Gweithredol ar gyfer dyledion allanol

| | Terfyn Gweithredol 2022/23 yn unol â TMSS 2022/23 £'000 | Sefyllfa Fenthyca Agoriadol 2022/23 £'000 | Swm o fewn y Terfyn £'000 | Amcangyfrif o Sefyllfa Fenthyca 2022/23 £'000 | Swm o fewn y Terfyn £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| ***Dangosydd Darbodus – Dyled Allanol / Y Terfyn Gweithredol*** | | | | | |
| Benthyca | 175,000 | 125,349 | 49,651 | 122,677 | 52,323 |
| Rhwymedigaethau hirdymor eraill | 5,000 | 0 | 5,000 | 0 | 5,000 |
| **Cyfanswm dyledion ar 31 Mawrth** | **180,000** | **125,349** | **54,651** | **122,677** | **57,323** |

### 7.4.3 Dangosydd Darbodus – Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)

**7.4.3.1** Ar hyn o bryd, rydym ychydig yn is na'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf a ragwelwyd yn wreiddiol oherwydd y tanwariant a ragwelir mewn benthyca, a hynny'n bennaf oherwydd y tanwariant a ragwelir yn y CRT ac oherwydd bod y Cyngor wedi derbyn cyllid grant ychwanegol a oedd yn cymryd lle'r cyllid gwreiddiol.

| | Amcangyfrif Gwreiddiol 2022/23 £'000 | Amcangyfrif Diwygiedig 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| ***Dangosydd Darbodus – Gofyniad Cyllido Cyfalaf*** | | |
| GCC – Cronfa'r Cyngor | 107,867 | 106,957 |
| GCC – CRT | 43,646 | 39,897 |
| Cyfanswm GCC | 151,513 | 146,854 |
| **Symudiad Net yn y GCC** | **10,567**[1] | **9,050**[2] |

| | |
|---|---|
| **Rhagolwg GCC Gwreiddiol** | **151,513** |
| Gostyngiad yn y DRI yn y rhagolwg diwygiedig ar gyfer Cyfalaf yn Ch2 2022/23 o gymharu â rhagolygon y TMSS ar gyfer 2022/23 | 150 |
| Tanwariant mewn Benthyca Digefnogaeth ar gyfer y CRT yn 2022/23 | -3,750 |
| Gwahaniaeth mewn benthyciadau (gwahaniaeth rhwng rhagolwg TMSS 2022/23 a'r rhagolwg diwygiedig ar gyfer Cyfalaf yn Ch2) – derbyniwyd benthyciad Salix ychwanegol nad oedd yn hysbys pan luniwyd y TMSS ar gyfer 2022/23 | 400 |
| Gorwariant ar Fenthyca Digefnogaeth yn 2021/22 a thanwariant yn 2022/23 oherwydd cafwyd gwariant Band B yn 2021/22, na chafodd ei ragweld wrth lunio'r TMSS, a thanwariant yn 2022/23 oherwydd gostyngiad mewn gwariant ar Fand A a Band B, o gymharu â'r ffigyrau oedd ar gael pan luniwyd y TMSS. | -911 |
| Tanwariant mewn Benthyca â Chefnogaeth yn 2021/22 oherwydd bod grant ychwanegol wedi'i dderbyn yn 2021/22 fel cyllid amgen a oedd yn golygu bod angen llai o Fenthyca â Chefnogaeth. | -549 |
| **Rhagolwg GCC Diwygiedig** | **146,854** |

## 7.5 Cyfyngiadau ar Weithgareddau Benthyca

[1] Symudiad rhwng amcangyfrif 2021/11 ac amcangyfrif 2022/23 yn y TMSS 2022/23

[2] Symudiad rhwng ffigyrau gwirioneddol 2021/22 (yn unol â'r Datganiad o'r Cyfrifon 2021/22) ac amcangyfrif diwygiedig 2022/23

**7.5.1** Y rheolaeth allweddol gyntaf dros weithgareddau trysorlys yw dangosydd darbodus i sicrhau, dros y tymor canol, y bydd benthyca net (benthyciadau llai buddsoddiadau) yn cael ei wneud at ddibenion cyfalaf yn unig. Ni ddylai benthyca allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, fod yn fwy na chyfanswm y GCC yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2022/23 a'r ddwy flwyddyn ariannol nesaf. Mae hyn yn caniatáu peth hyblygrwydd ar gyfer lefel cyfyngedig o fenthyca cynnar ar gyfer blynyddoedd i ddod. Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo polisi ar gyfer benthyca cyn yr angen, a glynir wrtho os gwelir bod hynny'n ddarbodus. Y sefyllfa fenthyca gyfredol yw £124.155m, sy'n is na'r rhagolwg GCC ar gyfer eleni a'r ddwy flynedd ariannol nesaf (gweler y tabl isod), felly, cydymffurfiwyd â'r dangosydd hwn.

| | **2022/23 £'000** | **2023/24 £'000** | **2024/25 £'000** |
|---|---|---|---|
| **GCC (rhagolwg diwedd blwyddyn)** | **146,854** | **161,468** | **167,556** |

| | **Amcangyfrif Gwreiddiol 2022/23 £'000** | **Sefyllfa Gyfredol ar 30 Medi 2022 £'000** | **Amcangyfrif Diwygiedig 2022/23 £'000** |
|---|---|---|---|
| Benthyca Allanol | 144,333 | 124,155 | 122,677 |
| Benthyca Mewnol | 7,180 | 22,699 | 24,177 |
| Ynghyd â rhwymedigaethau tymor hir eraill | 0 | 0 | 0 |
| **GCC (sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn)** | **151,513** | **146,854** | **146,854** |

**7.5.2** Ni ragwelir y bydd unrhyw anawsterau yn y flwyddyn gyfredol o ran cydymffurfio â'r dangosydd darbodus hwn.

**7.5.3** Mae dangosydd darbodus arall yn rheoli lefel gyffredinol y benthyca. Dyma'r Terfyn Awdurdodedig, sef y terfyn y gwaherddir benthyca y tu hwnt iddo, ac mae angen i'r Aelodau ei osod a'i adolygu, sef £185m ar hyn o bryd. Mae'n adlewyrchu lefel y benthyca y gellid ei fforddio yn y tymor byr, er nad yw'n lefel a ddymunir, ac ni fyddai'n gynaliadwy yn y tymor hirach. Dyma'r angen benthyca uchaf a ddisgwylir gyda rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer symudiadau annisgwyl. Dyma'r terfyn statudol a bennir o dan Adran 3 (1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

| **Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyled Allanol** | **Dangosydd Gwreiddiol 2022/23 £'000** | **Sefyllfa Fenthyca Gyfredol ar 30 Medi 2022 £'000** | **Amcangyfrif o'r Sefyllfa Fenthyca ar 31 Mawrth 2022 £'000** |
|---|---|---|---|
| Benthyca | 180,000 | 124,155 | 122,677 |
| Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 5,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **185,000** | **124,155** | **122,677** |

## 8. Cydymffurfio â Therfynau Trysorlys a Darbodus

**8.1** Mae'n ddyletswydd statudol ar y Cyngor i bennu a pharhau i adolygu'r terfynau benthyca fforddiadwy. Yn ystod yr hanner blwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2022, mae'r Cyngor wedi gweithredu o fewn y dangosyddion trysorlys a darbodus a nodir yn Natganiad y Cyngor ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2022/23. Ni ragwelir unrhyw anawsterau eleni nac yn y blynyddoedd i ddod o ran cydymffurfio â'r dangosyddion hyn.

Mae'r holl weithredoedd rheoli trysorlys hefyd wedi'u cynnal yn unol ag Arferion Rheoli Trysorlys y Cyngor.

## 9. Argymhelliad

**9.1** Argymell i'r Pwyllgor Gwaith fod y cynnig i newid y terfyn gwrthbartïon i awdurdodau lleol eraill, yn unol ag adran 5.3, yn cael ei argymell gan y Pwyllgor Gwaith a'i gymeradwyo gan y Cyngor llawn.

**9.2** Ystyried cynnwys yr adroddiad ac anfon unrhyw sylwadau ymlaen at y Pwyllgor Gwaith.

**MARC JONES**
**CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU)**
**A SWYDDOG ADRAN 151**

**Diweddariad ar yr Economi hyd yma a'r rhagolygon / Economic Update & Forecasts**

- The second quarter of 2022/23 saw:-
  - GDP revised upwards in Q1 2022/23 to +0.2% q/q from -0.1%, which means the UK economy has avoided recession for the time being;
  - Signs of economic activity losing momentum as production fell due to rising energy prices;
  - CPI inflation ease to 9.9% y/y in August, having been 9.0% in April, but domestic price pressures showing little sign of abating in the near-term;
  - The unemployment rate fall to a 48-year low of 3.6% due to a large shortfall in labour supply;
  - Bank Rate rise by 100bps over the quarter, taking Bank Rate to 2.25% with further rises to come;
  - Gilt yields surge and sterling fall following the "fiscal event" of the new Prime Minister and Chancellor on 23rd September.
- The UK economy grew by 0.2% q/q in Q1 2022/23, though revisions to historic data left it below pre-pandemic levels.
- There are signs of higher energy prices creating more persistent downward effects in economic activity. Both industrial production (-0.3% m/m) and construction output (-0.8% m/m) fell in July 2022 for a second month in a row. Although some of this was probably due to the heat wave at the time, manufacturing output fell in some of the most energy intensive sectors (e.g., chemicals), pointing to signs of higher energy prices weighing on production. With the drag on real activity from high inflation having grown in recent months, GDP is at risk of contracting through the autumn and winter months.
- The fall in the composite PMI from 49.6 in August to a 20-month low preliminary reading of 48.4 in September points to a fall in GDP of around 0.2% q/q in Q3 and consumer confidence is at a record low. Retail sales volumes fell by 1.6% m/m in August, which was the ninth fall in 10 months. That left sales volumes in August just 0.5% above their pre-Covid level and 3.3% below their level at the start of the year. There are also signs that households are spending their excess savings in response to high prices. Indeed, cash in households' bank accounts rose by £3.2bn in August, which was below the £3.9bn rise in July and much smaller than the 2019 average monthly rate of £4.6bn.
- The labour market remained exceptionally tight. Data for July and August provided further evidence that the weaker economy is leading to a cooling in labour demand. Labour Force Survey (LFS) employment rose by 40,000 in the three months to July (the smallest rise since February). But a renewed rise in inactivity of 154,000 over the same period meant that the unemployment rate fell from 3.8% in June to a new 48-year low of 3.6%. The single-month data showed that inactivity rose by 354,000 in July itself and there are now 904,000 more inactive people aged 16+ compared to before the pandemic in February 2020. The number of vacancies has started to level off from recent record highs but there have been few signs of a slowing in the upward momentum on wage growth. Indeed, in July, the 3my/y rate of average earnings growth rose from 5.2% in June to 5.5%.
- CPI inflation eased from 10.1% in July to 9.9% in August, though inflation has not peaked yet. The easing in August was mainly due to a decline in fuel prices reducing fuel inflation from 43.7% to 32.1%. And with the oil price now just below $90pb, we would expect to see fuel prices fall further in the coming months.
- However, utility price inflation is expected to add 0.7% to CPI inflation in October when the Ofgem unit price cap increases to, typically, £2,500 per household (prior to any benefit payments). But, as the government has frozen utility prices at that level for two years, energy price inflation will fall sharply after October and have a big downward influence on CPI inflation.

- Nonetheless, the rise in services CPI inflation from 5.7% y/y in July to a 30-year high of 5.9% y/y in August suggests that domestic price pressures are showing little sign of abating. A lot of that is being driven by the tight labour market and strong wage growth. CPI inflation is expected to peak close to 10.4% in November and, with the supply of workers set to remain unusually low, the tight labour market will keep underlying inflationary pressures strong until early next year.
- During H1 2022, there has been a change of both Prime Minister and Chancellor. The new team (Liz Truss and Kwasi Kwarteng) have made a step change in government policy. The government's huge fiscal loosening from its proposed significant tax cuts will add to existing domestic inflationary pressures and will potentially leave a legacy of higher interest rates and public debt. Whilst the government's utility price freeze, which could cost up to £150bn (5.7% of GDP) over 2 years, will reduce peak inflation from 14.5% in January next year to 10.4% in November this year, the long list of tax measures announced at the "fiscal event" adds up to a loosening in fiscal policy relative to the previous government's plans of £44.8bn (1.8% of GDP) by 2026/27. These included the reversal of April's national insurance tax on 6th November, the cut in the basic rate of income tax from 20p to 19p in April 2023, the cancellation of next April's corporation tax rise, the cut to stamp duty and the removal of the 45p tax rate, although the 45p tax rate cut announcement has already been reversed.
- Fears that the government has no fiscal anchor on the back of these announcements has meant that the pound has weakened again, adding further upward pressure to interest rates. Whilst the pound fell to a record low of $1.035 on the Monday following the government's "fiscal event", it has since recovered to around $1.12. That is due to hopes that the Bank of England will deliver a very big rise in interest rates at the policy meeting on 3rd November and the government will lay out a credible medium-term plan in the near term. This was originally expected as part of the fiscal statement on 23rd November but has subsequently been moved forward to an expected release date in October. Nevertheless, with concerns over a global recession growing, there are downside risks to the pound.
- The MPC has now increased interest rates seven times in as many meetings in 2022 and has raised rates to their highest level since the Global Financial Crisis. Even so, coming after the Fed and ECB raised rates by 75 basis points (bps) in their most recent meetings, the Bank of England's latest 50 basis points hike looks relatively dovish. However, the UK's status as a large importer of commodities, which have jumped in price, means that households in the UK are now facing a much larger squeeze on their real incomes.
- Since the fiscal event on 23rd September, we now expect the Monetary Policy Committee (MPC) to increase interest rates further and faster, from 2.25% currently to a peak of 5.00% in February 2023. The combination of the government's fiscal loosening, the tight labour market and sticky inflation expectations means we expect the MPC to raise interest rates by 100bps at the policy meetings in November (to 3.25%) and 75 basis points in December (to 4%) followed by further 50 basis point hikes in February and March (to 5.00%). Market expectations for what the MPC will do are volatile. If Bank Rate climbs to these levels the housing market looks very vulnerable, which is one reason why the peak in our forecast is lower than the peak of 5.50% - 5.75% priced into the financial markets at present.
- Throughout 2022/23, gilt yields have been on an upward trend. They were initially caught up in the global surge in bond yields triggered by the surprisingly strong rise in CPI inflation in the US in May. The rises in two-year gilt yields (to a peak of 2.37% on 21st June) and 10-year yields (to a peak of 2.62%) took them to their highest level since 2008 and 2014 respectively. However, the upward trend was exceptionally sharply at the end of September as investors demanded a higher risk premium and expected faster and higher interest rate rises to offset the government's extraordinary fiscal stimulus plans. The 30-year gilt yield rose from 3.60% to 5.10% following the "fiscal event", which threatened financial stability by forcing pension funds to sell assets into a falling market to meet cash collateral requirements. In response, the Bank did two things. First, it postponed its plans to start selling some of its quantitative easing (QE) gilt holdings until 31st October. Second, it committed to buy up to £65bn of long-term gilts to "restore orderly market conditions" until 14th October. In other words, the Bank is restarting QE, although for financial stability reasons rather than monetary policy reasons.
- Since the Bank's announcement on 28th September, the 30-year gilt yield has fallen back from 5.10% to 3.83%. The 2-year gilt yield dropped from 4.70% to 4.30% and the 10-year yield fell back from 4.55% to 4.09%.

- There is a possibility that the Bank continues with QE at the long-end beyond 14th October or it decides to delay quantitative tightening beyond 31st October, even as it raises interest rates. So far at least, investors seem to have taken the Bank at its word that this is not a change in the direction of monetary policy nor a step towards monetary financing of the government's deficit. But instead, that it is a temporary intervention with financial stability in mind.
- After a shaky start to the year, the S&P 500 and FTSE 100 climbed in the first half of Q2 2022/23 before falling to their lowest levels since November 2020 and July 2021 respectively. The S&P 500 is 7.2% below its level at the start of the quarter, whilst the FTSE 100 is 5.2% below it as the fall in the pound has boosted the value of overseas earnings in the index. The decline has, in part, been driven by the rise in global real yields and the resulting downward pressure on equity valuations as well as concerns over economic growth leading to a deterioration in investor risk appetite.

***Rhan o gyngor a dderbyniwyd gan / An extract from advice received from:  Link Asset Services***

**Sylwadau ar y rhagolygon diweddaraf ar raddfeydd llog /**
**Commentary on the latest interest rates forecasts**

- The Council has appointed Link Group as its treasury advisors and part of their service is to assist the Council to formulate a view on interest rates. The PWLB rate forecasts below are based on the Certainty Rate (the standard rate minus 20 bps) which has been accessible to most authorities since 1st November 2012.
- The latest forecast on 27th September sets out a view that both short and long-dated interest rates will be elevated for some little while, as the Bank of England seeks to squeeze inflation out of the economy, whilst the government is providing a package of fiscal loosening to try and protect households and businesses from the ravages of ultra-high wholesale gas and electricity prices.
- The increase in PWLB rates reflects a broad sell-off in sovereign bonds internationally but more so the disaffection investors have with the position of the UK public finances after September's "fiscal event". To that end, the MPC has tightened short-term interest rates with a view to trying to slow the economy sufficiently to keep the secondary effects of inflation – as measured by wage rises – under control, but its job is that much harder now.
- Our PWLB rate forecasts below are based on the Certainty Rate (the standard rate minus 20 bps, calculated as gilts plus 80bps) which has been accessible to most authorities since 1st November 2012.

***Rhan o gyngor a dderbyniwyd gan / An extract from advice received from: Link Asset Services***

**Crynodeb Benthyca a Buddsoddi – Chwarteroedd 1 a 2 2022/23**
**Borrowing and Investment Summary – Quarters 1 and 2 2022/23**

| | 30 Medi / Sept 2022 | | 30 Mehefin / June 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| | £'m | % (talwyd ar fenthyca a dderbyniwyd ar fuddsoddi) / % (paid on borrowing and received on investment) | £'m | % (talwyd ar fenthyca a dderbyniwyd ar fuddsoddi) / % (paid on borrowing and received on investment) |
| Benthyca – graddfa sefydlog<br>Borrowing – fixed rate<br>BBGC / PWLB<br>Dim BBGC / Non-PWLB | <br><br>120.9<br>3.3 | <br><br>4.58<br>0 | <br><br>121.9<br>3.3 | <br><br>4.58<br>0 |
| Benthyca – graddfa amrywiol<br>Borrowing – variable rate | Dim / Nil | d/b / n/a | Dim / Nil | d/b / n/a |
| Adneuon – galw hyd at 30 diwrnod<br>Deposits – Call to 30 days | 22.7 | 0.30 | 30.1 | 0.08 |
| Adneuon – Tymor sefydlog < 1 bl.<br>Deposits – Fixed Term < 1 year | 32.5 | 1.67 | 32.5 | 1.14 |
| Adneuon – Tymor sefydlog 1 bl. +<br>Deposits – Fixed Term 1 year + | Dim / Nil | d/b / n/a | Dim / Nil | d/b / n/a |
| Cyfanswm Adneuon<br>Total Deposits | 55.2 | 1.11 | 63.2 | 0.62 |
| Adneuon Uchaf yn y Chwarter<br>Highest Deposits in the Quarter | 63.2 | d/b / n/a | 64.7 | d/b / n/a |
| Adneuon Isaf yn y Chwarter<br>Lowest Deposits in the Quarter | 55.2 | d/b / n/a | 46.1 | d/b / n/a |
| Cyfartaledd Adneuon yn y Chwarter<br>Average Deposits in the Quarter | 58.5 | 0.88 | 60.8 | 0.51 |

**ATODIAD / APPENDIX 4**

## Graddfeydd Credyd Gwrthbartïon buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 30 Medi 2022*
## Credit ratings of investment counterparties and deposits held with each as at 30 September 2022*

| Grŵp Bancio/ Banking Group | Sefydliad/ Institution | Adneuon / Deposit £'000 | Hyd (Galw / tymor sefydlog) / Duration (Call / Fixed Term**) | Cyfnod (O / I) / Period (From / To) | Graddfa Enillion / Rate of Return % | Graddfa Tymor Hir Fitch Long Term Rating | Graddfa Tymor Byr Fitch Short Term Rating | Graddfa Tymor Hir Moody's Long Term Rating | Graddfa Tymor Byr Moody's Short Term Rating | Graddfa Tymor Hir Standard & Poor's Long Term Rating | Graddfa Tymor Byr Standard & Poor's Short Term Rating | Lliw Sector / Hyd Awgrymiedig / Sector Colour / Suggested Duration |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lloyds Banking Group plc | Bank of Scotland plc | **0.000** | **Galw/ Call** | **d/b / n/a** | **0.01** | **A+** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A+** | **A-1** | **Coch – 6 mis / Red - 6 months** |
| Santander Group plc | Santander UK plc | **0.000** | **Galw/ Call** | **d/b / n/a** | **0.41** | **A+** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch – 6 mis / Red - 6 months** |
| The Royal Bank of Scotland Group plc | The Royal Bank of Scotland plc (Rhan / Gwladoli / Part / Nationalised) | **0.002** | **Galw/ Call** | **d/b / n/a** | **0.10** | **A+** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Glas - 12 mis / Blue – 12 months** |
| The Royal Bank of Scotland Group plc | National Westminster Bank Deposit | **22.722** | **Galw/ Call** | **d/b / n/a** | **0.30** | **A+** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Glas - 12 mis / Blue – 12 months** |
| The Royal Bank of Scotland Group plc | National Westminster Bank | **10.000** | **Sefydlog/ Fixed** | **11/4/22 – 11/10/22** | **1.30** | **A+** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Glas - 12 mis / Blue – 12 months** |
| Santander Group plc | Santander UK plc | **7.5000** | **Sefydlog/ Fixed** | **10/5/22 – 10/11/22** | **1.47** | **A+** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch – 6 mis / Red - 6 months** |
| Goldman Sachs | Goldman Sachs | **7.5000** | **Sefydlog/ Fixed** | **22/7/22 – 22/12/22** | **2.18** | **A+** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch – 6 mis / Red - 6 months** |
| Nationwide Building Society | Nationwide Building Society | **7.5000** | **Sefydlog/ Fixed** | **17/8/22 – 17/11/22** | **1.87** | **A** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A+** | **A-1** | **Coch – 6 mis / Red - 6 months** |

* Ceir y Rhestr Benthyca Cymeradwy yn Atodiad 8 o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2022/23 / Strategaeth Buddsoddi Blynyddol / The Approved Lending List can be found at Appendix 8 of the 2022/23 Treasury Management Strategy Statement / Annual Investment Strategy

** Sef tymor ar pwynt y buddsoddi / Being term at the point of investment.

**ATODIAD / APPENDIX 5**

**Gwledydd cymeradwy ar gyfer buddsoddi**
**Approved countries for investments**

*Yn seiliedig ar y gyfradd credyd sofran isaf sydd ar gael*
*Based upon lowest available sovereign credit rating*

AAA

- Awstralia / Australia
- Denmarc / Denmark
- Yr Almaen / Germany
- Lwcsembwrg / Luxembourg
- Yr Iseldiroedd / Netherlands
- Norwy / Norway
- Singapôr / Singapore
- Sweden
- Y Swistir / Switzerland

AA+

- Canada
- Y Ffindir / Finland
- U.D.A. / U.S.A.

AA


- Abu Dhabi (UAE)
- Ffrainc / France


AA-

- Gwlad Belg / Belgium
- Hong Kong
- Qatar
- D.U. / U.K.

### Graffiau Ychwanegol / Additional Graphs

Cymhariaeth o baramedrau benthyca gyda benthyca allanol gwirioneddol /
Comparison of borrowing parameters to actual external borrowing



| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 08 Rhagfyr 2022 |
| **Pwnc:** | Diweddariad Archwilio Mewnol |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Yn unol â 'Strategaeth Cyfarfodydd Pwyllgor' y Cyngor, mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, sy'n amlinellu'r dyletswyddau deddfwriaethol sydd i'w cyflawni gan bwyllgor archwilio'r Cyngor, yn benodol, goruchwylio trefniadau archwilio mewnol yr awdurdod. | |

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r Pwyllgor ar y sefyllfa fel ag yr oedd hi ar 30 Tachwedd 2022 ynghylch yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ar 31 Awst 2022, llwyth gwaith cyfredol y gwasanaeth archwilio mewnol a'n blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr i'r tymor canol.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi darpariaethau sicrwydd a blaenoriaethau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wrth symud ymlaen.




# DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

## RHAGFYR 2022

**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS, Pennaeth Archwilio a Risg**

MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# CYNNWYS

GWAITH SICRWYDD A GWBLHAWYD ERS Y DIWEDDARIAD DIWETHAF ____ 3
Gwydnwch Ariannol ____ 3
Trin Arian Parod yng Nghyswllt Môn ____ 5
Ad-daliadau'r Dreth Gyngor ac Ardrethi Annomestig ____ 5
GWAITH SICRWYDD ARALL ____ 6
Gwiriad Iechyd Newid Hinsawdd (Zurich Municipal) ____ 6
GWAITH AR Y GWEILL ____ 7
CAMAU GWEITHREDU SY'N WEDDILL ____ 8
BLAENORIAETHAU AR GYFER 2022-23 A THU HWNT ____ 9
Capasiti Presennol ____ 9
Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig ____ 9
Risgiau Strategol Coch ac Ambr ____ 9
Y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) ____ 9
Gwaith Arall ____ 10
Blaenoriaethau Tymor Hwy ____ 10
ATODIAD 1 - CAMAU GWEITHREDU SY'N WEDDILL AR 30 TACHWEDD 2022 (DANGOSFWRDD 4ACTION) ____ 11

# GWAITH SICRWYDD A GWBLHAWYD ERS Y DIWEDDARIAD DIWETHAF

1. Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o adroddiadau archwilio mewnol a gwblhawyd ers y cyfarfod ym Medi 2022, yn cynnwys y raddfa sicrwydd gyffredinol a nifer y materion/risgiau a godwyd.

2. Rydym wedi cwblhau **tri** darn o waith sicrwydd yn ystod y cyfnod dan sylw. Maent wedi'u crynhoi isod:

| Teitl | Cyf. Cofrestr Risgiau Corfforaethol | Dyddiad yr Adroddiad Terfynol | Lefel Sicrwydd | Critigol | Sylweddol | Cymedrol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwydnwch Ariannol | YM1 | Tachwedd 2022 | Rhesymol | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Trin Arian Parod yng Nghyswllt Môn | Amh. | Tachwedd 2022 | Rhesymol | 0 | 0 | 3 | 3 |
| Ad-daliadau'r Dreth Gyngor ac Ardrethi Annomestig | Amh. | Tachwedd 2022 | Rhesymol | 0 | 0 | 4 | 4 |

## Gwydnwch Ariannol

| Sicrwydd Rhesymol | Materion/Risgiau | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 1 | Cymedrol |

3. Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

   **A oes gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith i reoli goblygiadau'r toriadau ariannol gwirioneddol i sicrhau y gall barhau i gyflawni ei flaenoriaethau a darparu gwasanaethau o ansawdd?**

4. Daeth ein harchwiliad i'r casgliad bod gan y Cyngor fframwaith o fesurau rheoli effeithiol ar gyfer rheoli goblygiadau'r toriadau ariannol gwirioneddol, a hynny o fewn cwmpas ei reolaeth. Er hyn, mae'n amlwg bod y Cyngor yn wynebu penderfyniadau anodd dros y ddwy flynedd nesaf oherwydd yr hinsawdd economaidd heriol ac anrhagweladwy sydd ohoni.

5. Mae gan y Cyngor broses effeithiol ar gyfer monitro cyllidebau, sydd yn sicrhau ei fod yn wyliadwrus ac yn effro i bwysau cyllidebol posib y gynnar iawn. Mae Cyfrifyddion y Gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda phob Pennaeth Gwasanaeth a thimau rheoli i gefnogi'r gwaith o reoli cyllidebau'n effeithiol. Hefyd, mae'r Pwyllgor Gwaith yn derbyn adroddiadau monitro cyllidebau rheolaidd a manwl, sydd yn amlinellu perfformiad ariannol cyfredol y Cyngor ar draws ei dri maes cyllid allweddol; refeniw, cyfalaf , a'r cyfrif refeniw tai (HRA).

6. Yn ddiweddar mae'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 wedi adolygu Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor (CATC) sy'n darogan, gan ddefnyddio nifer o ragdybiaethau technegol, y galw tebygol o ran adnoddau a'r cyllid a fydd ar gael i'r Cyngor dros gyfnod o ddwy flynedd. Mae hyn yn hanfodol bwysig o ran galluogi'r Cyngor i gynllunio'r modd y bydd yn mynd ati i ariannu ei weithrediadau'n effeithio yn y tymor canolig. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau, mae'r Cyngor yn debygol o fod angen £18.15m yn ychwanegol i gwrdd â'r galw a phwysau yn gysylltiedig â chwyddiant ym mlwyddyn ariannol 2023/24. Er bod y rhagolygon ariannol yn edrych yn heriol iawn yn y tymor canolig, gallwn gael sicrwydd yn gynnar yn y broses fel hyn bod yr uwch reolwyr a'r Pwyllgor Gwaith yn llwyr ymwybodol o'r heriau, a bod gwaith ar y gweill i ddod o hyd i arbedion. Er hyn, yn anochel, bydd rhaid i'r Cyngor wneud penderfyniadau anodd er mwyn mantoli'r gyllideb yn 2023/24 a 2024/25.

7. Yn dilyn yr etholiadau Cyngor Sir ym mis Mai 2022, darparodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 hyfforddiant yn ymwneud â chyllid i'r garfan newydd o aelodau, a darparwyd hyfforddiant penodol ar reoli'r trysorlys i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi 2022. Bwriedir cynnal sesiwn briffio pellach ar gyfer yr holl aelodau yn gynnar ym mis Tachwedd i sicrhau bod yr heriau a goblygiadau ariannol ar gyfer 2023/24 yn cael eu cyfleu a'u deall yn llawn.

8. Mae gan y Cyngor bolisi i gadw 5% o'i gyllideb refeniw net mewn cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Mae hyn er mwyn helpu i liniaru unrhyw risgiau ariannol annisgwyl. Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor £11.29m o falansau cyffredinol wrth gefn, sydd £3.37m yn uwch na'r isafswm a ganiateir. Er y gall defnyddio cronfeydd wth gefn helpu i bontio bylchau ariannu posib nid yw'n strategaeth ariannol gynaliadwy, ac mae cael balasau digonol yn sicrhau gwydnwch ac yn rhoi cyfle i'r Cyngor wneud arbedion ac ail-ddylunio gwasanaethau.

9. Mae'r Cyngor wedi amlinellu nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol y mae'n cadw golwg arnynt drwy gerdyn sgorio corfforaethol chwarterol. Er bod hyn yn ffordd effeithiol o fonitro perfformiad ariannol tymor byr, yn eu ffurf bresennol nid yw'r dangosyddion hyn yn caniatáu i'r defnyddiwr asesu gwydnwch ariannol tymor hwy'r Cyngor, a p'un ai a yw'n gwella neu'n gwaethygu. Mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) wedi nodi pum dangosydd i fesur gwydnwch ariannol yn y sector cyhoeddus, a mae modd eu defnyddio i'r diben hwn. Tra bo'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ac mewn adroddiadau monitro cyllidebau, rydym o'r farn y byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r uwch reolwyr ac aelodau etholedig gael mynediad rhwyddach at y data perfformiad hwn drwy ddangosfwrdd sy'n mesur dealltwriaeth y Cyngor o'r heriau ariannol sydd i ddod.

10. Yng nghyd-destun yr heriau a'r ansicrwydd economaidd presennol, cawsom sicrwydd bod y Cyngor yn cymryd pob cam rhesymol o fewn ei reolaeth i reoli ei risgiau ariannol allweddol. Gallwn felly roi **lefel resymol o sicrwydd** o lywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth yn y maes hwn ar yr adeg hon. Rydym wedi codi un 'Mater/Risg', sydd angen sylw rheolwyr ac rydym wedi cytuno ar gynllun gweithredu gyda'r rheolwyr.

## Trin Arian Parod yng Nghyswllt Môn

| Sicrwydd Rhesymol | Materion/Risg | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 3 | Cymedrol |

11. Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

    **A oes gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith i reoli a lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â derbyn incwm arian parod yng Nghyswllt Môn?**

12. Daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod gan y Cyngor ddulliau rheoli mewnol digonol i leiniau'r risgiau'n gysylltiedig â derbyn taliadau arian parod yng Nghyswllt Môn cyn i'r pandemig Covid-19 orfodi'r Cyngor i gau ei adeiladu cyhoeddus dros dro. Bu'r cyfnodau clo yn ystod 2020 a 2021 yn gyfle i'r Cyngor symud i brosesau talu electronig yn unig ac, o ganlyniad, nid yw Cyswllt Môn yn derbyn arian parod mwyach. Fodd bynnag, ar adegau prin pan fydd gwasanaethau'n derbyn arian parod yn uniongyrchol, mae diffyg prosesau dogfennu ffurfiol a chofnod o drosglwyddo'r arian rhwng swyddogion yn cynyddu'r risg o golled ariannol i'r Cyngor.

13. Er ein bod wedi codi tri 'Mater/Risg' cymedrol, sydd angen sylw rheolwyr, mae canlyniad ein hadolygiad yn gadarnhaol ar y cyfan. Felly, gallwn roi lefel resymol o sicrwydd mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth yn y maes hwn ac rydym wedi cytuno ar gynllun gweithredu gyda'r rheolwyr.

## Ad-daliadau'r Dreth Gyngor ac Ardrethi Annomestig

| Sicrwydd Rhesymol | Materion/Risg | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 4 | Cymedrol |

14. Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

    **A oes gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith i sicrhau bod Ad-daliadau'r Dreth Gyngor ac Ardrethi Annomestig yn fanwl gywir ac yn cael eu talu mewn pryd, unwaith yn unig?**

15. Daeth ein harolwg i'r casgliad bod trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli risgiau yn ymwneud ag ad-daliadau'r Dreth Gyngor ac Ardrethi Annomestig yn effeithiol ar y cyfan. Fodd bynnag, byddai'n fanteisiol pe byddai'r Cyngor yn gwneud rhywfaint o welliannau mewn perthynas â'r canlynol:

    - gwiriadau cyfnodol o'r ad-daliadau a delir a prosesau ar gyfer ad-dalu taliadau cerdyn credyd
    - gweinyddu a thrin balansau credyd y Dreth Gyngor ac Ardrethi Annomestig sydd ddim yn cael eu hawlio
    - adolygu ceisiadau am eithriad lle bo cyfraith achosion diweddar wedi gosod cynsail.

16. Er ein bod wedi codi pedwar 'Mater/Risg' cymedrol, sydd angen sylw rheolwyr, mae canlyniad ein hadolygiad yn gadarnhaol ar y cyfan. Felly, gallwn roi **lefel resymol o sicrwydd** mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth yn y maes hwn ac rydym wedi cytuno ar gynllun gweithredu gyda'r rheolwyr.

# GWAITH SICRWYDD ARALL

## Gwiriad Iechyd Newid Hinsawdd (Zurich Municipal)

17. Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi cydnabod bod newid hinsawdd yn fater tyngedfennol ac, yn unol â hynny, mae wedi nodi risg yn ei gofrestr risgiau strategol ei bod hi'n bosib na fydd y Cyngor yn gallu addasu i ddod yn Awdurdod carbon niwtral erbyn 2030.

18. Gan ei fod yn faes arbenigol, rydym wedi comisiynu Zurich Municipal Risk Engineers i gwblhau archwiliad iechyd newid hinsawdd i gefnogi Rheolwr Newid Hinsawdd y Cyngor, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r prif risgiau a wynebwn a'r meysydd sydd angen eu gwella er mwyn rheoli'r risg a chefnogi'r gwaith o sicrhau statws 'sero net' erbyn 2030.

19. Daeth y gwiriad iechyd i'r casgliad ei bod hi'n bosib na fydd modd sicrhau statws 'Net Sero' ym mhob maes o'r Cyngor erbyn 2030 ond mae tystiolaeth gadarn bod portffolio sylweddol o waith/rhaglenni 'sero net' mewn lle.

20. Nododd y gwiriad iechyd nifer o nodweddion cadarnhaol o ran cynlluniau gweithredu a threfniadau newid hinsawdd / sero net presennol y Cyngor sy'n darparu sylfaen gadarn y gall ei defnyddio i symud ymlaen i gyflawni ei dargedau sero net ar draws ei feysydd strategol allweddol. Mae'r cynlluniau'n aeddfedu a bydd rôl y Rheolwr Newid Hinsawdd yn gyfrwng allweddol i sicrhau bod y gweithgarwch hwn ar y trywydd cywir a'i fod yn cael ei reoli'n unol â'r gyllideb.

21. Mae Zurich Municipal Risk Engineers wedi argymell adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi cael ei gyflawni fel bod y gwaith hwn yn fwy cydlynol a chysylltiedig ar draws y Cyngor. Roeddent yn teimlo bod gormod o fentrau a phrosiectau seilo o fewn gwasanaethau a ddylai fod yn gwbl weladwy ac y dylid eu monitro'n ganolog yn erbyn y targedau cytunedig. Bydd rhaid llywodraethu ac arolygu'r darn hwn o waith i sicrhau bod y Cyngor yn gwireddu a chyflawni ei ddyheadau 'sero net'.

22. Mae'r adroddiad a gynhyrchwyd yn rhoi mewnwelediad i'r strategaethau, cynlluniau a chamau gweithredu presennol, ac fe'i cyflwynir fel eitem ar wahân ar agenda'r Pwyllgor. Mae'r Rheolwr Newid Hinsawdd wedi drafftio cynllun gweithredu sydd wedi cael ei gytuno gan yr uwch reolwyr, sydd hefyd yn cael ei gyflwyno fel eitem ar wahân ar yr agenda.

# GWAITH AR Y GWEILL

23. Mae'r darnau canlynol o waith ar y gweill ar hyn o bryd:

| Maes Archwilio | Cyf Cofrestr Risgiau Corfforaethol | Gwasanaeth | Rheswm am yr Archwiliad | Cam |
|---|---|---|---|---|
| **Galw Gofal (Trefniadau Llywodraethu'r Bartneriaeth)** | **Amh.** | Gwasanaethau Oedolion | Cais gan y Prif Weithredwr. | Adroddiad Drafft - i'w ystyried gan Fwrdd Partneriaeth Galw Gofal ar 01/12/22 |
| **Grant y Gronfa Adfywio Cymunedol** | **Amh.** | Adnoddau / Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Cais gan y Rheolwr Grantiau (gofynion y grant) | Gwaith Maes |
| **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** | **Amh.** | Adnoddau | Pryderon a godwyd yn ystod Archwiliad Pensiwn Athrawon | Gohiriwyd |
| **Archwilio TG - Cyfrifiadura Cwmwl** | YM3 | Trawsnewid Corfforaethol | Cofrestr Risgiau Strategol | Cwmpas wedi'i gytuno |
| **Adennill Mân Ddyledion y Cyngor** | **Amh.** | Adnoddau | Adroddiad dilyn i fyny yn dilyn adroddiad Sicrwydd Cyfyngedig ym mis Tachwedd 2021 | Gwaith Maes |
| **Taliadau - Cyflenwyr Cynnal a Chadw / Canfod anfonebau dyblyg ac adennill taliadau dyblyg** | **Amh.** | Adnoddau | Ail adroddiad dilyn i fyny yn dilyn adroddiad Sicrwydd Cyfyngedig ym mis Ebrill 2022 | Gwaith Maes |

# CAMAU GWEITHREDU SY'N WEDDILL

24. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi gwasanaethau i roi'r holl gamau gweithredu sy'n weddill ar waith. Mae'r dangosfwrdd 4action yn Atodiad 1 yn darparu trosolwg o statws y camau gweithredu ar 30 Tachwedd 2022.

25. Mae 14 gam gweithredu hwyr ar hyn o bryd (3 Sylweddol; 11 Cymedrol), sydd yn ymwneud â 'Materion/Risgiau' a godwyd mewn yn dilyn yr archwiliadau canlynol:

- Proses Ymadawyr
- Adennill Mân Ddyledion y Cyngor - archwiliad dilyn i fyny ar y gweill
- Mân Ddyledion - archwiliad dilyn i fyny ar y gweill
- Llywodraethu Gwybodaeth

26. Rydym yn gweithio gyda'r gwasanaeth i roi cymorth i roi'r camau gweithredu ar waith.

# BLAENORIAETHAU AR GYFER 2022-23 A THU HWNT

## Capasiti Presennol

27. Ar hyn o bryd rydym yn cario dwy swydd wag ar lefel Uwch Archwiliwr - un oherwydd secondiad tymor hir ac un oherwydd ymddiswyddiad. Nid ydym wedi llwyddo i ddenu digon o ymgeiswyr addas er ein bod wedi ceisio recriwtio ar dri achlysur.

28. Rydym yn defnyddio'r arbedion cyllidebol i gomisiynu cymorth allanol ychwanegol, gan gynnwys archwiliad TG technegol gan y Tîm Archwilio TG yng Nghyngor Salford

## Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig

29. Rydym yn parhau i gyflawni'r Strategaeth Archwilio Mewnol Flynyddol ar gyfer 2022-23 a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin 2022. Ein blaenoriaeth yw adolygu'r risgiau 'coch' ac 'ambr' nad ydym wedi'u hadolygu eto, neu nad ydynt wedi'u hadolygu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, tra'n parhau i fod yn hyblyg i ymateb i geisiadau am gymorth a sicrwydd gan wasanaethau, ac ymateb i ymchwiliadau.

### Risgiau Strategol Coch ac Ambr

30. Mae tri risg strategol yn weddill i'w hadolygu cyn diwedd y flwyddyn:

- YM5 Rhaglen Moderneiddio Ysgolion (coch/coch)
- YM11 Cynnydd mewn tlodi'n cynyddu'r galw am wasanaethau'r Cyngor (coch/coch)
- YM10 Diogelu Corfforaethol (coch/ambr)

### Y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI)

31. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ymarfer paru data ledled y DU sy'n helpu i ganfod ac atal twyll. Yng Nghymru fe'i cynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan ei bwerau paru data statudol fel y nodir yn Rhan 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004).

32. Mae'r Fenter wedi'i dylunio i helpu cyrff cyhoeddus gryfhau eu trefniadau atal twyll trwy ymarfer paru data cenedlaethol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cydweithio gyda Swyddfa Gabinet y DU, Swyddfa Archwilio'r Alban a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon wrth gynnal y Fenter Twyll Genedlaethol ledled y DU.

33. Cynhelir y prif ymarfer paru data pob dwy flynedd ac rydym wedi bod yn gweithio gyda gwasanaethau i echdynnu data o systemau i'w uwch lwytho ar gyfer yr ymarfer eleni. Cyn uwch lwytho, rhaid sicrhau ansawdd y setiau data i sicrhau eu bod yn bodloni'r manylebau data. Rhaid gwirio'r hysbysiadau preifatrwydd yn ogystal i sicrhau cydymffurfiaeth. Rhaid uwch lwytho'r data i borth diogel y Fenter Twyll Genedlaethol cyn 2 Rhagfyr 2022,neu fel arall bydd yn cael ei ddynodi'n hwyr a fel methiant i gydymffurfio â dyletswydd statudol y Cyngor.

34. Bydd canlyniadau'r ymarfer paru data ar gael ddiwedd Ionawr 2023, pan fyddwn yn dechrau adolygu'r canlyniadau paru ar sail risg a, lle bo modd, yn eu dosbarthu i'w hadolygu gan y gwasanaethau. Rhaid cofnodi canlyniad ein harolwg ar borth diogel y Fenter Twyll Genedlaethol.

**Gwaith Arall**

35. Byddwn yn parhau i fynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo a monitro'r gwaith o fynd i'r afael â'r materion/risgiau archwilio sydd yn weddill.

36. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal hunan-asesiad gydag aelodau'r Pwyllgor i bennu anghenion hyfforddi a datblygu yr aelodau etholedig ac aelodau lleyg newydd.

37. Ar hyn o bryd rydym yn destun Asesiad Ansawdd Allanol gan Gyngor Sir y Fflint o ran ein cydymffurfiaeth â'r Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus.


## Blaenoriaethau Tymor Hwy

- Cyflawni'r Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd newydd ar gyfer 2022-2025, gan gynnwys parhau i fynd i'r afael ag argymhellion Archwilio Cymru sydd wedi'u cynnwys yn ei adroddiad 'Gwella Ein Perfformiad - Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru'.

- Gweithio gyda chydweithwyr yn y Tîm Perfformiad i wella mapio sicrwydd ar draws y Cyngor a chyfrannu at ddatblygiad y Grŵp Adolygu Perfformiad.

- Unwaith y bydd wedi cael amser i aeddfedu, byddwn yn gweithio gydag aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i asesu effeithiolrwydd y Pwyllgor gan ddefnyddio canllawiau newydd CIPFA fel meincnod.

# ATODIAD 1 – CAMAU GWEITHREDU SY'N WEDDILL AR 30 TACHWEDD 2022 (DANGOSFWRDD 4ACTION)



| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 08 Rhagfyr 2022 |
| **Pwnc:** | Siartr Archwilio Mewnol |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddog (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus angen i'r prif swyddog gweithredol archwilio gynhyrchu Siartr Archwilio Mewnol, y mae'n rhaid i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei gymeradwyo. Nid yw adolygiad er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn briodol parhaus wedi nodi unrhyw newidiadau sylweddol. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn darparu ar gyfer adolygiad o'r Siartr Archwilio Mewnol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r siartr yn derfynol.

1.2. Cafodd y siartr ei hadolygu ddiwethaf, a'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Rhagfyr 2022. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi cynnal adolygiad er mwyn ei bod yn parhau i fod yn briodol ac nad yw wedi nodi unrhyw newidiadau sylweddol.

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymeradwyo'r newidiadau i'r Siartr Archwilio Mewnol.




# SIARTR ARCHWILIO MEWNOL

## RHAGFYR 2022

**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS, Pennaeth Archwilio a Risg**

MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# TABL CYNNWYS

RHAGARWEINIAD 3
PWRPAS ARCHWILIO MEWNOL 4
AWDURDOD ARCHWILIO MEWNOL 5
Hawliau Mynediad y swyddogaeth archwilio mewnol 5
Sgôp Gwaith Archwilio Mewnol 6
Annibyniaeth 6
CYFRIFOLDEBAU ARCHWILIO MEWNOL 7
ADRODD 8
Strategaeth Archwilio Mewnol 8
Barn Flynyddol 8
Adrodd ar Aseiniadau 8
Graddfa Sicrwydd 9
RÔL ARCHWILIO MEWNOL MEWN GWAITH SY'N YMWNEUD Â THWYLL 10
ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL 11
Archwilio Mewnol a Rheoli Risg (Rhagfyr 2022) 11
MESURAU DIOGELU I GYFYNGU AR UNRHYW AMHARIAD AR ANNIGYNIAETH NEU WRTHRYCHEDD 12

# RHAGARWEINIAD

1. Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus[1] (PSIAS) yn diffinio natur ac yn gosod yr egwyddorion sylfaenol ar gyfer archwilio mewnol yn sector cyhoeddus y DU.

2. Mae'r Safonau yn nodi'r angen i'r prif swyddog archwilio ddiffinio pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb y gweithgaredd archwilio mewnol mewn siartr archwilio mewnol. Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r Siartr Archwilio Mewnol yn derfynol.

3. Mae'r siartr archwilio mewnol yn sefydlu:

   - pwrpas archwilio mewnol a'i statws o fewn y Cyngor
   - awdurdod archwilio mewnol i gael mynediad i gofnodion, personél a phriodweddau ffisegol sy'n berthnasol i berfformiad ei waith
   - cyfrifoldebau archwilio mewnol
   - llinellau adrodd a natur perthynas y prif swyddog archwilio â'r uwch reolwyr a'r bwrdd
   - cwmpas y gwaith archwilio mewnol, yn cynnwys natur ei rôl sicrwydd a gwasanaethau ymgynghori
   - rôl archwilio mewnol mewn gwaith yn ymwneud â thwyll
   - trefniadau ar gyfer sicrhau adnoddau ar gyfer y gwasanaeth archwilio mewnol
   - y mesurau diogelwch ar gyfer cyfyngu ar amhariadau ar annibyniaeth neu wrthrychedd

4. Mae'r PSIAS yn defnyddio termau generig, sydd yn achos Cyngor Sir Ynys Môn, fel a ganlyn:

| Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus | Cyngor Sir Ynys Môn |
|---|---|
| Prif Swyddog Archwilio | Pennaeth Archwilio a Risg |
| Uwch Reolwyr | Dîm Arweinyddiaeth |
| Y Bwrdd | Pwyllgor Gwaith |

[1] Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus, Cyhoeddwyd gan y sawl sy'n gosod y Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol, Mawrth 2017

# PWRPAS ARCHWILIO MEWNOL

5. Gwasanaeth archwilio mewn proffesiynol, annibynnol a gwrthrychol yw un o elfennau allweddol llywodraethiant da, fel y cydnabyddir ar hyd a lled y sector cyhoeddus yn y DU.

6. Y ddarpariaeth o wasanaethau sicrwydd yw prif rôl archwilio mewnol. Drwy ein barn archwilio mewnol flynyddol ac adroddiadau eraill, rydym yn rhoi sicrwydd i aelodau etholedig a rheolwyr ac yn tynnu sylw at feysydd y mae angen eu gwella.

7. Mae'r PSIAS yn diffinio archwilio mewnol fel:

> **Mae archwilio mewnol yn weithgaredd annibynnol, sicrwydd gwrthrychol ac ymgynghorol sydd wedi ei gynllunio er mwyn ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau sefydliad. Mae'n helpu sefydliad i gyflawni eu hamcanion drwy sefydlu agwedd systematig a disgybledig er mwyn gwerthuso a gwella effeithlonrwydd rheolaeth risg, rheolaeth a phrosesau llywodraethu**

8. Mae ein rôl yn unigryw; mae'n darparu her effeithiol ac yn gweithio fel catalydd ar gyfer newidiadau cadarnhaol a gwelliant parhaus o ran llywodraethiant yn ei holl agweddau. Mae ein rôl yn hynod o bwysig wrth i'r Cyngor wynebu cyfnodau ansicr a heriol.

9. Er mwyn sicrhau'r budd gorau posibl i'r sefydliad, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r tîm rheoli i gynorthwyo'r sefydliad i gyflawni ei amcanion.

10. Ein prif amcanion yw:

    - Darparu sicrwydd a chyngor annibynnol i reolwyr ac aelodau lleyg ac etholedig ar reolaeth risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol
    - Datblygu a hyrwyddo ein rôl er mwyn gwneud cyfraniad sylweddol i flaenoriaeth y Cyngor i foderneiddio a darparu effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid.
    - Ychwanegu gwerth ym mhob maes o'n gwaith, rhoi gwasanaeth rhagorol i'n cwsmeriaid.

# AWDURDOD ARCHWILIO MEWNOL

11. Mae archwilio mewnol yn ofyniad statudol ar gyfer awdurdodau lleol ac mae'n cael ei awdurdod a'i rwymedigaethau o ddau ddarn o ddeddfwriaeth:

12. Mae Rhan 3, Rheoliad 7 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014[2] yn dweud bod "rhaid i awdurdod perthnasol ymgymryd ag archwiliad mewnol effeithiol er mwyn gwerthuso effeithlonrwydd ei brosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethiant, gan ystyried safonau neu arweiniad archwilio'r sector cyhoeddus".

13. Mae Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn nodi bod angen i bob awdurdod wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol a sicrhau bod gan un o'r swyddogion gyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Mae CIPFA wedi diffinio 'gweinyddiaeth briodol' fel rhywbeth ddylai gynnwys 'cydymffurfiaeth â'r gofynion statudol ar gyfer cyfrifo ac archwilio mewnol'.

14. Hefyd, mae datganiad CIPFA ar Rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol yn dweud bod rhaid i'r Prif Swyddog Ariannol (PSA):

    - sicrhau bod adnoddau ar gael ar gyfer swyddogaeth archwilio mewnol effeithiol a bod y swyddogaeth yn cael ei chynnal
    - sicrhau bod yr awdurdod wedi sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer rheolaeth fewnol yr amgylchedd rheoli
    - gefnogi trefniadau archwilio mewnol yr awdurdod
    - sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio yn derbyn y cyngor a'r wybodaeth angenrheidiol fel y gall y ddwy swyddogaeth weithredu'n effeithiol.

15. Mae Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor yn darparu ar gyfer cynnal swyddogaeth archwilio fewnol barhaus dan oruchwyliaeth annibynnol, wedi'i goruchwylio gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor ac yn amodol ar safonau archwilio proffesiynol (4.8.5.3.1).

## Hawliau Mynediad y swyddogaeth archwilio mewnol

16. Mae Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor (4.8.5.3.2) yn cynnwys darpariaethau ar gyfer hawliau mynediad i'r swyddogaeth archwilio mewnol ac yn rhoi i'r gwasanaeth yr awdurdod i:

    - gael mynediad ar unrhyw amser rhesymol i eiddo, tir neu safleoedd contract y Cyngor;
    - cael mynediad i'r holl gofnodion, dogfennau neu ohebiaeth yn ymwneud ag unrhyw drafodion ariannol neu drafodion eraill y Cyngor;
    - gofyn am, a derbyn, unrhyw esboniadau sy'n angenrheidiol gan weithwyr y Cyngor yn ôl yr angen;
    - gofyn i weithwyr y Cyngor ddangos arian parod, eitemau mewn storfeydd neu unrhyw eiddo arall sydd o dan reolaeth y Cyngor er mwyn iddynt ei archwilio.

---

[2] Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) 2018 yn diwygio Rheoliadau 2014 ond nid yw'n cael effaith ar y gofyniad hwn.

## Sgôp Gwaith Archwilio Mewnol

17. Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol yn rhagweithiol ac yn arloesol sydd bob amser yn anelu at wneud yn well. Mae gennym agwedd sy'n canolbwyntio ar y cwsmer wrth gynllunio archwiliadau, sgopio prosiectau a darparu gwasanaethau ac sy'n cynnwys aelodau etholedig, uwch reolwyr a staff gweithredol.

18. Mae ein strategaeth yn cymryd i ystyriaeth y gofrestr risg gorfforaethol ac unrhyw sicrwydd arall y gall y Cyngor ei dderbyn yn fewnol neu'n allanol, i atal dyblygu gwaith a chydlynu gwaith rheoleiddio. Mae hefyd yn ystyried trafodaethau ag uwch reolwyr.

19. Mae ein gwaith yn darparu agwedd sy'n seiliedig ar risg sy'n caniatáu i'r Pennaeth Archwilio a Risg ffurfio a rhoi tystiolaeth o'i barn ar yr amgylchedd rheoli er mwyn cefnogi Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor.

20. Efallai y bydd Archwilio Mewnol yn darparu arweiniad a chyngor ar adegau e.e. ar systemau newydd neu efallai y rhoddir cymorth i ddatblygu prosesau newydd gan ddefnyddio ein sgiliau arbenigol. Efallai y bydd gwasanaethau yn gofyn i ni ar adegau gyflawni prosiectau penodol ar sail ymgynghori. Ar yr adegau hyn, byddwn yn ei gwneud hi'n glir o'r dechrau ein bod yn gweithio ar sail ymgynghorol yn hytrach nag archwilio mewnol ac nad ydym yn rhoi sicrwydd archwilio ar yr achlysuron hyn.

## Annibyniaeth

21. Mae'r PSIAS yn nodi bod yn rhaid i'r prif swyddog archwilio, adrodd i lefel o fewn y sefydliad sy'n galluogi'r gweithgaredd archwilio mewnol i gyflawni ei gyfrifoldebau; adrodd i'r bwrdd neu'r corff cyfatebol yw'r dull o helpu a dderbynnir fel arfer er mwyn sicrhau bod annibyniaeth sefydliadol yn cael ei gyflawni.

22. Mae gan y Pennaeth Archwilio a Risg fynediad uniongyrchol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac mae'n rhydd i adrodd yn uniongyrchol i unrhyw aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth neu'r pennaeth gwasanaeth.

23. Er yn ymarferol yn adrodd i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, mae gan y Pennaeth Archwilio a Risg fynediad uniongyrchol i'r Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro, ac mae darpariaeth ar gyfer hynny yn Rheolau Gweithdrefnau Ariannol y Cyngor (4.8.5.3.5).

24. Mae'r llinellau adrodd estynedig hyn yn rhoi i'r swyddogaeth archwilio mewnol annibyniaeth ddigonol o ran y gweithgareddau y bydd yn eu hadolygu er mwyn galluogi ei archwilwyr i gyflawni eu dyletswyddau yn wrthrychol ac i ddod i farn ddiduedd ac effeithiol ac i godi materion ar gyfer gwella.

25. Bydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn gwerthuso perfformiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn flynyddol a cheir adborth gan y Prif Weithredwr a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae hyn yn sicrhau nad yw sefyllfa'r Pennaeth Archwilio a Risg o ran rheolaeth llinell yn y Cyngor yn cael ei chyfyngu na'i heffeithio.

# CYFRIFOLDEBAU ARCHWILIO MEWNOL

26. Wrth gynnal gweithgaredd archwilio mewnol parhaus, mae'r prif swyddog archwilio yn ystyried elfennau gorfodol y PSIAS:

    - Egwyddorion Craidd yr Ymarfer Proffesiynol o Archwilio Mewnol
    - Cod Moeseg
    - Safonau
    - Diffiniad o Archwilio Mewnol

27. Mae angen i holl aelodau'r gwasanaeth archwilio mewnol gydymffurfio â'r PSIAS, yn cynnwys ei God Moeseg. Yn ychwanegol at hynny, bydd yr holl archwilwyr yn arwyddo datganiad bob blwyddyn yn nodi y byddant yn parchu cyfrinachedd y wybodaeth y ceir mynediad iddi wrth wneud y gwaith, yn datgan unrhyw ddiddordeb sydd ganddynt mewn unrhyw wasanaethau y maent yn eu hadolygu a'u bod wedi darllen y PSIAS, y Cod Moeseg a Chod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Swyddogion.

28. Rhaid i'r holl archwilwyr mewnol:

    - weithio gydag eraill er mwyn hyrwyddo a dangos budd llywodraethiant da drwy gydol y Cyngor
    - hyrwyddo'r lefel uchaf bosibl o safonau a moeseg ar draws y Cyngor yn seiliedig ar unplygrwydd, gwrthrychedd, cymhwysedd a chyfrinachedd
    - mynegi barn gadarn wrth adnabod gwendidau yn amgylchedd rheoli'r Cyngor a darparu barn gytbwys o ran ba mor sylweddol yw'r rhain
    - ymrwymo i welliant parhaus
    - arddangos unplygrwydd
    - adrodd ar yr hyn sy'n cael ei ddarganfod yn ddiduedd a heb unrhyw ofn
    - rhoi cyngor clir, proffesiynol a gwrthrychol
    - dod â chymhwyster priodol a rhaglen weithredol ar gyfer datblygiad proffesiynol

29. Yn ychwanegol ar hyn, rhaid i'r Pennaeth Archwilio a Risg:

    - fod yn uwch reolwr sy'n ymgysylltu'n rheolaidd ac agored ar draws y Cyngor, yn enwedig gyda'r uwch reolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
    - fod â chymwysterau addas ac yn brofiadol
    - rhoi sicrwydd ar yr amgylchedd rheoli, yn cynnwys rheoli risg a gwybodaeth a rheoliadau mewnol ar draws y Cyngor
    - cynhyrchu barn archwilio mewnol flynyddol yn seiliedig ar dystiolaeth ar amgylchedd rheoli'r Cyngor sy'n adlewyrchu'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ac yn crynhoi'r prif ganlyniadau a chasgliadau gan dynnu sylw at unrhyw bryderon penodol
    - ymgysylltu'n agos â rheoleiddwyr allanol y Cyngor er mwyn rhannu gwybodaeth a defnyddio adnoddau archwilio yn y ffordd fwyaf effeithiol
    - penderfynu ar yr adnoddau, arbenigeddau, cymwysterau a systemau sydd eu hangen ar y gwasanaeth archwilio mewnol er mwyn gallu bodloni ei amcanion a darparu barn archwilio mewnol

30. Mae'r prif swyddog archwilio hefyd yn cymryd i ystyriaeth Ddatganiad CIPFA ar Bennaeth Archwilio Mewnol (2019), sy'n nodi cyfrifoldebau'r unigolyn a'r sefydliad ac sy'n darparu canllawiau ynghylch arfer orau er mwyn cefnogi effeithiolrwydd archwilio mewnol.

# ADRODD

## Strategaeth Archwilio Mewnol

31. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn paratoi'r strategaeth archwilio mewnol mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 15 a'r uwch reolwyr.

32. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn cyflwyno hyn yn flynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethau ar gyfer eu cymeradwyo. Darperir adolygiadau yn ystod y flwyddyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fel rhan o'r adroddiad diweddaru a gyflwynir i bob cyfarfod.

## Barn Flynyddol

33. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn rhoi barn i'r Cyngor ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheoli'r Cyngor i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

34. Wrth roi'r farn, dylid nodi na all sicrwydd byth fod yn absoliwt; y mwyaf y gellir ei ddarparu yw sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw wendidau mawr mewn prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheoli. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn rhoi'r farn flynyddol yn yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol ar ôl diwedd y flwyddyn.

## Adrodd ar Aseiniadau

35. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi ymrwymo'n llawn i bolisi Iaith Gymraeg y Cyngor. Adroddir yn ddwyieithog ble bynnag y mae hynny'n bosibl ac mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynnwys nifer o staff dwyieithog sy'n gallu ymgymryd ag adolygiadau yn newis iaith y rhai hynny sy'n cynorthwyo â'r adolygiadau.

36. Cyflwynir adroddiadau ffurfiol ar yr holl adolygiadau archwilio. Cynhelir cyfarfodydd adrodd yn ôl gyda'r rheolwyr sy'n gyfrifol am y maes sy'n destun adolygiad er mwyn cytuno ar gywirdeb ffeithiol y materion a'r risgiau a godwyd.

37. Yn dilyn cytundeb, cyflwynir adroddiadau drafft i'r rheolwr perthnasol sy'n cofnodi'r camau a fydd yn cael eu cymryd er mwyn delio â'r materion / risgiau a godwyd ynghyd â'r swyddogion sydd wedi cael y cyfrifoldeb o weithredu'r rhain, ynghyd â'r amserlen ar gyfer eu gweithredu. Unwaith y bydd y cynllun gweithredu wedi ei gwblhau yn llawn a'i gytuno arno gyda'r archwilydd, cyhoeddir adroddiad terfynol.

38. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn rhoi copi o bob adroddiad i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Deilydd Portffolio perthnasol. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn cyflwyno crynodeb o bob adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mhob cyfarfod.

39. Bydd aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Deilydd Portffolio hefyd yn derbyn copïau o unrhyw gynlluniau gweithredu cytunedig cysylltiedig lle mae adroddiadau wedi derbyn graddfa sicrwydd 'Cyfyngedig' neu 'Dim'.

## Graddfa Sicrwydd

40. Rydym yn rhoi barn ar y lefel gyffredinol o sicrwydd ar gyfer pob aseiniad archwilio mewnol unigol. Wrth ddod i gasgliad, byddwn yn defnyddio'r diffiniadau canlynol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2019:

| Lefel Sicrwydd | Diffiniad |
|---|---|
| Sicrwydd Sylweddol | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn **dda**.<br><br>**Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw Risgiau/Materion sylweddol neu berthnasol.** |
| Sicrwydd Rhesymol | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a / neu reolaeth fewnol yn **rhesymol**.<br><br>**Mae mân wendidau o ran y modd y rheolir risg ac/neu ddulliau rheoli ond nid oes unrhyw risg i gyflawniad yr amcanion. Gall Rheolwr a Phenaethiaid Gwasanaeth roi sylw i'r rhain.** |
| Sicrwydd Cyfyngedig | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn **gyfyngedig**.<br><br>**Mae gwendidau sylweddol o ran rheoli risgiau ac/neu'r dulliau rheoli sy'n golygu bod risg i gyflawniad yr amcanion. Mae angen i Benaethiaid Gwasanaeth ddatrys y rhain ac mae'n bosib y bydd raid hysbysu'r Dîm Arweinyddiaeth.** |
| Dim Sicrwydd | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn **sylweddol ddiffygiol**.<br><br>**Mae gwendidau sylfaenol o ran rheoli risgiau ac/neu'r dulliau rheoli a fydd yn arwain at fethiant i gyflawni amcanion. Mae angen i'r Dîm Arweinyddiaeth roi sylw brys i'r rhain ac mae'n bosibl y bydd angen i'r Pwyllgor Gwaith ymyrryd.** |

# RÔL ARCHWILIO MEWNOL MEWN GWAITH SY'N YMWNEUD Â THWYLL

41. Nid yw archwilio mewnol yn gyfrifol am reoli'r risg o dwyll – mae hyn yn gyfrifoldeb i uwch reolwyr y Cyngor.

42. Mae polisi'r Cyngor ar gyfer Atal Twyll a Llwgrwobrwyo yn gofyn i reolwyr hysbysu'r Pennaeth Archwilio a Risg am unrhyw dwyll, llwgrwobrwyo, amhriodoldeb sy'n cael ei amau neu ei ddarganfod, er mwyn siapio ei barn ar yr amgylchedd rheoli mewnol a'r rhaglen waith archwilio mewnol yn ogystal â chaniatáu iddi sicrhau bod y Cyngor yn cymryd camau priodol.


43. Er bod archwilio mewnol yn cyflawni prosiectau rhagweithiol er mwyn dod o hyd i dwyll, llwgrwobrwyo a / neu lygredd posibl ac yn gallu cynnal ymchwiliadau arbennig i anghysondebau honedig, mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn cadw'r hawl i benderfynu ar y camau priodol i'w cymryd, a gall hyn olygu ymchwiliad ar y cyd neu ymchwiliad gan y gwasanaeth. Fodd bynnag, dylai rheolwyr anfon canlyniad yr holl weithgareddau ymchwilio i'r Pennaeth Archwilio a Risg ar gyfer eu cynnwys yn yr Adroddiad Archwiliad Mewnol Blynyddol Gwrth-Dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd.

44. Lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol, gall yr archwiliwr allanol gynnal ymchwiliadau, un ai mewn cydweithrediad ag archwilio mewnol neu'n annibynnol.

# ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL

45. Er bod gennym ddwy swydd wag ar hyn o bryd, mae gennym dîm cymwys a phrofiadol gyda chymysgedd o gymwysterau perthnasol er mwyn adlewyrchu swyddogaethau amrywiol y gwasanaeth archwilio mewnol.

## Archwilio Mewnol a Rheoli Risg (Rhagfyr 2022)




46. Bob blwyddyn, bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adolygu adnoddau'r gwasanaeth archwilio mewnol drwy dderbyn y cynlluniau gweithredol a strategol ar gyfer archwilio mewnol.

47. Lle nad yw arbenigeddau penodol ar gael, bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn cael y rhain o'r tu allan i'r Cyngor lle mae'r adnoddau hynny ar gael.

48. Mae'r Safonau yn nodi bod yn rhaid i archwilwyr mewnol ehangu eu gwybodaeth, sgiliau a galluoedd eraill drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn cynnal adolygiadau rheolaidd o anghenion datblygu a hyfforddiant yr holl archwilwyr drwy oruchwyliaeth un i un a thrwy werthusiadau blynyddol.

# MESURAU DIOGELU I GYFYNGU AR UNRHYW AMHARIAD AR ANNIGYNIAETH NEU WRTHRYCHEDD

49. Er mwyn bod yn effeithiol, rhaid i archwilio mewnol fod yn annibynnol a rhaid iddo gael ei weld fel gwasanaeth annibynnol. Er mwyn sicrhau hyn bydd archwilio mewnol yn gweithredu o fewn fframwaith sy'n galluogi:

    - mynediad anghyfyngedig at uwch reolwyr a chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
    - adrodd yn ei enw ei hun
    - gwahaniad oddi wrth weithrediadau llinell

50. Gwneir pob ymdrech i sicrhau gwrthrychedd drwy reoli cyswllt staff archwilio gyda dyletswyddau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau posibl. Fodd bynnag, mae eithriadau penodol yn dderbyniol wrth gymryd rhan mewn prosiectau gwella gwasanaeth lle bydd yn cyflawni rôl 'ffrind beirniadol'.

51. Yn ychwanegol at hynny, mae trefniadau priodol wedi eu sefydlu er mwyn cyfyngu ar unrhyw amhariad ar annibyniaeth a gwrthrychedd o ganlyniad i'r ffaith bod y Pennaeth Archwilio a Risg yn rheolwr llinell i'r gwasanaeth Rheoli Risg ac Yswiriant. Ni fydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn sgopio nac yn adolygu gweithgareddau archwilio mewnol sy'n ymwneud â'r maes gwasanaeth hwn. Bydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn arwyddo adroddiadau.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 8 Rhagfyr 2022 |
| **Pwnc / Testun:** | Adolygiadau cenedlaethol a'i hargymhellion cysylltiedig |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn AD a Trawsnewid<br>01248 752502<br>CarysEdwards@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Gethin Morgan<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Perfformiad<br>01248 752511<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br><br>Pwrpas yr adroddiad hwn yw i roi sicrwydd i'r Pwyllgor fod yr argymhellion cenedlaethol sydd ynghlwm a'r adroddiadau cendlaethol wedi cael sylw dilys gan wasanethau'r Cyngor Sir a bod y rhai perthnasol yn cael eu gwireddu mewn modd ystyrlon. | |

## Cyflwyniad

1. Er mwyn arddangos llywodraethu da, mae'r adroddiad yn manylu ar ymateb y cyngor i adroddiadau cenedlaethol cydnabyddedig ac argymhellion cysylltiedig a gyhoeddwyd gan reoleiddwyr.

2. Darperir diweddariadau yn erbyn y gwaith y mae'r cyngor wedi'i wneud dros y 12 mis diwethaf yn ychwanegol i'r hyn a gyflwynwyd i'r pwyllgor yma ar 9 Rhagfyr 2021.

3. Yn dilyn adolygiad o'r adroddiadau a'r argymhellion cysylltiedig, mae rhai adroddiadau wedi'u nodi fel rhai nad oes angen eu monitro bellach. Mae'r rhesymau dros y newidiadau hyn wedi'u darparu ac felly cynigir eu dileu o adroddiadau monitro yn y dyfodol.

## Argymhelliad

4. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn –

    a. Ystyried yr adroddiad a derbyn yr ymatebion a'r diweddariadau fel adlewyrchiad cywir o ddiweddariad blynyddol y Cyngor Sir yn erbyn yr argymhellion cysylltiedig

# Adolygiadau cenedlaethol a'i hargymhellion cysylltiedig

## Rhagfyr 2022

## Statws – Swyddogol


## Paratowyd gan:

Gethin Morgan, Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Perfformiad

Mae'r Archwiliadau canlynol wedi'u diweddaru ar gyfer 2022:

| Enw'r Adroddiad | Argymhellion/ Cyfleoedd | Ymateb Cyngor Ynys Môn 2021 | Diweddariad 2022 |
|---|---|---|---|
| Yn ôl eich doethineb - Gwasanaethau Dewisol Llywodraeth Leol | Mae angen i gynghorau fanteisio ar y cyfle i adnewyddu, ailbrisio ac ailosod yr hyn y maent yn ei wneud a dysgu o'r pandemig er mwyn adeiladu dyfodol gwell.<br><br>Mae cyfleoedd i gynghorau gynnwys dinasyddion yn y gwaith o lunio a rhedeg gwasanaethau eu hunain.<br><br>Yr her i gynghorau lleol fydd cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd o'r pandemig a'i ddefnyddio i fireinio, addasu a chyflawni gwelliannau pellach er mwyn creu newid cadarnhaol, a parhau i fod yn berthnasol i'w holl ddinasyddion. | I'w ystyried ymhellach fel rhan o baratoadau ar gyfer Cynllun newydd y Cyngor 2022-27. | Cyfle i ddinasyddion ymwneud â llunio cyfeiriad strategol y Cyngor yn ystod 2022.<br><br>Mae'r agenda siapio lle yn parhau gyda 5 Cynghrair wedi eu sefydlu i wireddu blaenoriaethau lleol. |
| Darparu prydau ysgol am ddim yn ystod y cyfyngiadau | Cynyddodd y nifer a oedd yn cael prydau ysgol a theimlodd cynghorau eu bod mewn gwell sefyllfa pan fyddai unrhyw ysgolion yn cau yn y dyfodol<br>• Ym mis Mehefin 2020, nododd y rhan fwyaf o gynghorau gynnydd yn nifer y prydau ysgol am ddim cymwys yn ystod y pandemig Covid-19.<br>• Amrywiodd y nifer a oedd yn derbyn prydau am ddim amgen rhwng 85% a 100%, cynnydd o ffigur cenedlaethol o 77% cyn Covid.<br>• Ymatebodd 17 cyngor i'n cais am wybodaeth a dywedodd y cynghorau wrthym eu bod yn hyderus ym mis Mehefin pe bai ysgolion yn gorfod cau eto eu bod mewn gwell sefyllfa i gynnal darpariaeth prydau ysgol am ddim.<br>Mae trefniadau ar gyfer darparu prydau ysgol am ddim yn dal i gael eu profi gyda'r cyfnod atal byr a gynhaliwyd fis Hydref/Tachwedd 2020 a'r cynnydd mewn achosion o ddisgyblion yn gorfod hunanynysu. | Mae'r nifer o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim wedi codi o thua 1,300 disgybl cyn y pandemig i dros 1,800 o ddisgyblion erbyn hyn. Mae'r Cyngor wedi datblygu proses sy'n caniatáu iddo dalu pob disgybl cymwys pan fod angen gwneud hynny ac i ddisgyblion sy'n hunanynysu neu i'r holl ddisgyblion mewn ysgolion sy'n gorfod cau. Mae'r broses wedi'i datblygu i ddefnyddio swyddogaethau'r system fudd-daliadau sydd wedi gwella'r broses talu. | Mae'r cyllid a'r broses yn parhau yn eu lle i gynnwys 4 wythnos arall o gyllid ar gyfer gwyliau ysgol (hanner tymor mis Hydref; hanner tymor y Nadolig a mis Chwefror).<br>Dechreuodd y broses o gyflwyno prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd Cymru ym mis Medi 2022, ac nid oes angen gwneud cais am hyn mwyach. O ganlyniad, mae'n debygol y gallai nifer yr hawliadau gwirioneddol ar gyfer y rhai sy'n gymwys ar gyfer y budd-dal gwyliau ostwng gan nad yw'r elfen hon yn awtomatig ac efallai na fydd rhai sy'n gymwys yn gwneud y cais. |
| Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i'r Pandemig COVID-19 | **Pam ein bod wedi cynhyrchu'r adroddiad hwn**<br>1. Roeddem eisoes wedi adnabod cynaliadwyedd ariannol fel risg allweddol i drefniadau cynghorau cyn i'r pandemig ddigwydd. Roedd hyn, yn rhannol, i'w briodoli i'r pwysau sylweddol ar gyllid cyhoeddus y DU ac, felly, Cymru yn dilyn argyfwng ariannol 2008-09. Fe gynhyrchom ni adroddiad ar gynaliadwyedd ariannol pob cyngor lleol yn ystod 2019-20, ac roedd yr adroddiadau hyn yn dangos bod cynghorau mewn sefyllfaoedd gwahanol o ran eu lefel o gronfeydd wrth gefn a'u hanes o wario o fewn eu cytundebau cytunedig.<br><br>2. Yn erbyn y gefnlen hon mae'r pandemig eisoes wedi cael effaith fwy dwfn ac uniongyrchol ar gyllid y sector cyhoeddus ar y cyfan ac, o ganlyniad, ar sefyllfa ariannol cynghorau. Mae'r effaith ar wariant y sector cyhoeddus dros gyfnod mor fyr yn ddigynsail ar adeg heddwch yn y cyfnod modern.<br><br>3. Yr adroddiad hwn yw dechrau ein gwaith i fwrw golwg ar gynaliadwyedd cynghorau lleol yn ystod 2020-21, gan adeiladu ar | Roedd cynaliadwyedd ariannol y Cyngor bob amser yn risg allweddol. Roedd y risg yn cael ei fonitro ac adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn. Mae'r cyllid ychwanegol y mae'r Cyngor wedi'i dderbyn o ganlyniad i'r pandemig wedi cryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor yn y tymor byr, ond mae'r Cyngor yn ymwybodol efallai y bydd y cymorth ariannol y mae Llywodraeth Cymru'n ei ddarparu yn gostwng yn y dyfodol gan gynyddu pwysau ariannol.<br><br>Byddwn yn parhau i fonitro sefyllfa ariannol y Cyngor yn ofalus a gweithio gydag Archwilio Cymru i sicrhau bod prosesau monitro ariannol y Cyngor yn gadarn a bod pwysau ariannol yn y dyfodol yn cael eu nodi cyn gynted â phosib a bod cynlluniau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith i ddiogelu cynaliadwyedd ariannol y Cyngor. | Mae cynaliadwyedd ariannol y Cyngor yn parhau i gael ei fonitro ac adroddir arno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | y gwaith a gwblhawyd gennym yn 2019-20. Mae'r adroddiad yn nodi sefyllfa sylfaenol lefeluchel, gan gynnwys y sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn, cynghorau lleol cyn y pandemig. Mae hefyd yn nodi goblygiadau ariannol cychwynnol y pandemig ar gyfer cynghorau lleol a maint yr her a ragwelir wrth edrych tua'r dyfodol, yn ogystal â rhai myfyrdodau ar barodrwydd llywodraeth leol yng Nghymru ar gyfer digwyddiad mor ddigynsail. Yn olaf, rydym yn nodi sut y mae Archwilio Cymru yn bwriadu rhoi cymorth a her adeiladol i gynghorau a'r sector llywodraeth leol, yn ei gyfanrwydd, yn ystod gweddill 2020-21, yn eu hymdrechion i gynnal cynaliadwyedd ariannol yn erbyn pwysau mor sylweddol o ran cyllid. | | |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2018-20 | • Dylai'r holl gyfranogwyr yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol sicrhau eu bod yn cynyddu manteision eu cyfranogiad i'r eithaf. Dylent ystyried a yw'n bosibl gweithio'n fwy effeithlon ar bariadau'r Fenter Twyll Genedlaethol trwy adolygu'r adran gyfarwyddyd yng nghymhwysiad gwe diogel y Fenter Twyll Genedlaethol.<br>• Dylai pwyllgorau archwilio, neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny, a swyddogion sy'n arwain y Fenter Twyll Genedlaethol adolygu rhestr wirio hunanarfarnu'r Fenter Twyll Genedlaethol. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn meddu ar wybodaeth lawn am waith cynllunio a chynnydd eu sefydliad yn ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2020-22.<br>• Lle mae archwilwyr lleol wedi nodi meysydd penodol lle gellid gwneud gwelliannau, dylai'r cyrff cyhoeddus weithredu ar y rhain cyn gynted â phosibl.<br>Dylai'r holl gyfranogwyr fod yn ymwybodol o risgiau o dwyll sy'n dod i'r amlwg, e.e. oherwydd COVID-19, a chymryd camau priodol i'w hatal a'u canfod. | Er bod proses y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) wedi gwella dros y blynyddoedd, mae'r broses yn dal i gynhyrchu nifer sylweddol o barau annilys nad ydynt yn arwain at nodi unrhyw dwyll. Mae'n anodd i awdurdod bychan, nad oes ganddo Dîm Twyll dynodedig, adolygu'r parau hyn er mwyn gwneud y mwyaf o'r budd o gymryd rhan h.y. nid yw'r deilliannau bob amser yn cyfiawnhau'r adnoddau staffio sydd eu hangen i gynnal y gwiriadau.<br><br>Mae'r broses NFI yn darparu parau hanesyddol h.y. mae bwlch rhwng cyflwyno'r data a derbyn y parau ac yn y cyfamser efallai y bydd y Cyngor wedi defnyddio prosesau eraill i nodi a chywiro camgymeriadau / twyll a nodwyd yn yr ymarfer paru data e.e. rydym yn defnyddio Datatank yn rheolaidd i adolygu Gostyngiadau Person Sengl, a oedd yn gyfrifol am dros hanner y twyll a nodwyd yn adroddiad 2018-20.<br><br>Cwblhawyd y rhestr wirio NFI a bydd adroddiad ar ganlyniad yr ymarfer NFI yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol ar Dwyll, ond ni nodwyd unrhyw dwyll yn ystod yr ymarfer diwethaf.<br><br>Bydd y Cyngor yn parhau i ddefnyddio'r NFI fel rhan o'r strategaeth gyffredinol i adnabod twyll ac mae o wedi nodi rhan o un swydd i ddelio gyda pharau NFI. Fodd bynnag, ar sail profiad yn y gorffennol, ychydig iawn o werth sydd i'r NFI yn Ynys Môn.<br><br>Mae'r Pennaeth Archwilio, Risg ac Yswiriant yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Grŵp Partneriaeth Atal Twyll Gogledd a Chanolbarth Cymru i nodi arfer orau o ran yr NFI. | Gweithredwyd. Mae'r Uwch Archwilydd yn defnyddio swyddogaeth sy'n seiliedig ar risg cymhwysiad gwe diogel y Fenter Twyll Genedlaethol wrth ystyried pa achosion i'w hadolygu. Cwblhawyd Rhestr Wirio'r Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer ymarfer 2020-22 a bydd yn cael ei hailystyried yn ystod ymarfer 2022-24. Bydd unrhyw feysydd gwella a nodir yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio pan fydd yn ystyried y Strategaeth Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd wedi'i diweddaru ar gyfer 2022-25.<br>Gweithredwyd. Nododd Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2021-24 y Cyngor risgiau twyll sy'n dod i'r amlwg a nodwyd lle y gellid gwneud gwelliannau.<br><br>Gweithredwyd. Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2021-22 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi 2022. Ni ddarganfuwyd unrhyw dwyll o ymarfer eilflwydd Menter Twyll Genedlaethol 2020-22.<br>Gweithredwyd. Mae Uwch Archwilydd wedi cael cyfrifoldeb i lanlwytho data y gofynnwyd amdano ar gyfer ymarfer dwyflynyddol y Fenter Twyll Genedlaethol, sydd ar y gweill ar hyn o bryd ar gyfer ymarfer 2022-23. Bydd adnoddau yn cael eu rhoi i adolygu achosion risg uchel pan fydd yr achosion yn cael eu rhyddhau yn gynnar y flwyddyn nesaf.<br>Gweithredwyd. Mae Is-grŵp Atal Twyll Partneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn trafod materion a chanlyniadau'r Fenter fel eitem sefydlog. |
| Masnacheiddio mewn Llywodraeth Leol | **A1.** Mae ymgymryd â gweithgareddau masnacheiddio yn gofyn i gynghorau feddu ar allu digonol a'r sgiliau cywir, ac i fod â systemau cadarn ond ystwyth ar waith. Argymhellwn fod cynghorau'n defnyddio'n hofferynnau hunanwerthuso i ddatblygu strategaeth sy'n gweddu i'r graddau y maent am ddilyn y syniad o fasnacheiddio. | Mae'r pandemig Covid 19 wedi cael effaith sylweddol ar weithredu dull masnachol wrth ddarparu cyfleusterau'r Cyngor oherwydd i gyfleusterau orfod cau.<br><br>Byddwn yn adolygu ein cynlluniau masnachol wrth ddatblygu ein cynlluniau adfer yn dilyn y pandemig. | Mae'r Cyngor yn ymgymryd â pheth gweithgaredd masnachol ond mae hyn yn gyfyngedig oherwydd natur yr Ynys.<br>Yn ogystal, nid yw'r sefyllfa economaidd bresennol yn rhoi cyfle i fuddsoddi ymhellach. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| [Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb]() | **Defnydd deallus o ddata**<br><br>**A1** Dylai cyrff cyhoeddus a phartneriaid yn y trydydd sector sicrhau eu bod yn defnyddio data i gynllunio'r gwasanaethau cywir ar gyfer y dyfodol, ac i sefydlu protocolau rhannu data effeithiol i sicrhau eu bod yn ymateb yn effeithiol ac yn ddiogel i'r broblem o bobl yn cysgu allan. Rydym yn argymell bod cynghorau a'u partneriaid:<br><br>• yn buddsoddi mewn sgiliau dadansoddi data i ddeall yn well beth yw'r sefyllfa gyfredol a rhagweld y galw yn y dyfodol i atal digartrefedd yn y dyfodol;<br>• adolygu a diweddaru protocolau rhannu data i sicrhau eu bod yn cynorthwyo gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data'n effeithiol; a<br>• chyflwyno un broses casglu data ac asesu data i roi cymorth i ategu prosesau penderfynu diogel wrth ymdrin â phobl sy'n cysgu allan.<br><br>**Gwasanaethau integredig i fynd i'r afael ag angen cymhleth**<br><br>**A2** Gan bod cyrff cyhoeddus yn ymateb i bobl mewn argyfwng, maent yn aml yn ymdrin â materion acíwt ar wahân i'w gilydd ac anaml y maent yn mynd i'r afael ag achos sylfaenol yr argyfwng. Er mwyn gwneud hyn mae gofyn i gyrff cyhoeddus ddylunio a chreu modelau darparu gwasanaethau sy'n ymatebol. Rydym yn argymell bod cyrff cyhoeddus yn defnyddio ein hofferyn hunan-fyfyrio anghenion cymhleth i wella sut y gallant fynd i'r afael ag anghenion cymhleth ar y cyd yn y dyfodol | Gan weithio ar draws Gogledd Cymru, rydym wedi nodi pwy yw'r prif gysylltiadau o fewn<br>• Iechyd, gan gynnwys mynediad i ofal iechyd cynradd, iechyd meddwl a gwasanaethau cyffuriau ac alcohol<br>• Yr Heddlu<br>• Cyfiawnder Troseddol<br>• Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig<br>ac ein bod yn dechrau sgwrs ynglŷn â'r adroddiad hwn. Rhoddir diweddariad ar hyn yn ystod ein cyfarfod nesaf o gynrychiolwyr Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru ym mis Hydref. | Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o gyrff cyhoeddus ac yn defnyddio gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd o'n asesiad Anghenion HSG. Mae gennym gytundeb rhannu data gyda GLIEM a'r Gwasanaeth Prawf i rannu gwybodaeth berthnasol fesul achos. Rydym yn hyrwyddo Streetlink i helpu i nodi pobl sy'n ddigarterf ac yn cysgu ar y stryd ac yn gweithio gyda phartneriaid i gynnig gwasanaethau allgymorth. Rydym yn cynnig gwasanaeth achosion cymhleth i bobl ddigartref er mwyn sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â digartrefedd. |
| [Cynnydd o ran rhoi'r Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith]() | **A1** Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn amlygu, er bod gan gyrff cyhoeddus ddealltwriaeth gynyddol am wasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r galw amdanynt, bod bylchau sylweddol yn dal i fodoli a bod ymgysylltiad â goroeswyr a dioddefwyr i adolygu a datblygu gwasanaethau yn anghyson. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn argymell bod gwaith i asesu anghenion a mapio'r ddarpariaeth gwasanaethau gan gyrff cyhoeddus yn cael sylw o'r newydd a bod y modd y caiff pobl eu cynnwys yn cael ei ehangu a'i wella i gynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol er mwyn creu darlun mwy cywir o'r ddarpariaeth gyfredol o ran gwasanaethau ac adnabod bylchau.<br><br>**A2** Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn disgrifio sut y mae dioddefwyr a goroeswyr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn aml yn ei chael yn anodd ymgodymu â system dameidiog o ran y gwasanaethau a ddarperir. I gynorthwyo dioddefwyr a goroeswyr i gael mynediad at wasanaethau a'u defnyddio rydym yn argymell bod cyrff cyhoeddus:<br>• yn cynhyrchu gwybodaeth gynhwysfawr a pherthnasol mewn amrywiaeth o gyfryngau am yr ystod lawn o wasanaethau sydd ar gael i amddiffyn a chefnogi dioddefwyr a goroeswyr; ac<br>• yn creu llwybr ar y cyd i gael mynediad at wasanaethau a | 1. Mae asesiad o anghenion rhanbarthol yn cael ei lunio ar hyn o bryd. Mae Rhiannon Edwards yn arwain ar y ddogfen hon.<br><br>2. Mae nifer o fideos gwybodaeth gyhoeddus yn canolbwyntio ar faterion Trais yn erbyn Merched, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) wedi cael eu rhoi ar wefannau Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor a'r Wefan Gorfforaethol – Maent yn cynnwys 'Byw Heb Ofn', 'Gofyn am Ani / Ask for Ani' (angen help ar unwaith), Sut i gysylltu â darparwyr VAWDASV dynodedig megis Gorwel.<br><br>Ym mis Gorffennaf 2020, sefydlodd CSYM, ar y cyd â'r Elusen Safe Lives Borth Un Drws Ffrynt ar gyfer achosion VAWDASV lefel isel i ganolig, lle'r oedd plant ar yr aelwyd. Cyflwynir atgyfeiriadau drwy'r Gwasanaethau Plant (yn bennaf o ganlyniad i CID16s) ac maent yn cael eu trafod mewn grŵp aml-asiantaeth sy'n cynnwys rheolwyr canol / uwch reolwyr o'r Gwasanaethau Plant, Tai, Addysg, Iechyd, Uned Diogelu Pobl Fregus Heddlu Gogledd Cymru. Darparwr VAWDASV Dynodedig. Wedyn, cysylltir â dioddefwyr / goroeswyr a'r troseddwr a gwneir atgyfeiriadau i'r asiantaeth fwyaf briodol er mwyn iddynt ddarparu'r ymyrraeth / cymorth angenrheidiol. | 1. Yn anffodus bu oedi gyda'r broses ar Lefel Ranbarthol Gogledd Cymru. Asesiad anghenion rhanbarthol diwygiedig drafft yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.<br><br>2. Mae fideos Gwybodaeth Gyhoeddus yn parhau i fod ar gael ar wefannau'r cyngor. Mae fideos newydd a ddarperir gan sefydliadau fel Llywodraeth Cymru a Chymorth i Fenywod Cymru sydd ar flaen y gad o ran Rhaglenni Cam-drin Domestig hefyd yn cael eu rhannu. Mae amrywiaeth o daflenni ar gael hefyd a gellir eu cael o brosiect siop un stop Gorwel yn Llangefni. Gwybodaeth fel Ask For ANI.<br><br>Mae'r Prosiect Un Drws Ffrynt wedi bod yn llwyddiant heb os. Roedd adolygiad diweddar o'r prosiect a gynhaliwyd gan Safe Lives yn ategu CSYM a'i randdeiliaid allweddol sy'n bartneriaid megis Heddlu Gogledd Cymru, Gorwel (Darparwr 3ydd Sector dynodedig ar gyfer Cam-drin Domestig) a BIPBC ar y dull partneriaeth a ddefnyddiwyd ers ei sefydlu ym mis Gorffennaf 2020.<br>3.Mae canran y staff tai sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant ar-lein gorfodol bellach yng nghanol y nawdegau ac yn un o'r uchaf o fewn y Cyngor. Mae'r holl staff yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd o'u hangen i ddilyn yr hyfforddiant VAWDASV gorfodol ac rydym |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | chymorth ar gyfer dioddefwyr a gweithwyr proffesiynol ac yn hysbysebu trefniadau mynediad yn eang.<br><br>**A3** Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn nodi, er ei bod yn bwysig eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ar ddiogelu data, bod angen i sefydliadau rannu data gyda phartneriaid hefyd i ddiwallu anghenion dioddefwyr a goroeswyr yn well. Rydym yn argymell bod awdurdodau:<br>• yn sicrhau bod staff sy'n debygol o ddod i gysylltiad â dioddefwyr a goroeswyr yn cael hyfforddiant priodol ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol;<br>• yn darparu hyfforddiant diweddaru ar gyfer rheolwyr gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gwybod pryd y gallant ac na allant rannu data, a pha ddata y gallan ac na allan ei rannu; ac<br>• yn adolygu ac yn diweddaru protocolau rhannu data i sicrhau eu bod yn cynorthwyo gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data.<br><br>**A4** Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn nodi, er bod peth cynnydd da wedi cael ei wneud gyda gweithio'n rhanbarthol, nad oes ysgogwyr priodol yn eu lle bob amser i gefnogi'r broses o drawsnewid gwasanaethau yn unol â'r ddeddfwriaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. I sicrhau bod manteisio'n rhanbartholi'n cael eu gwireddu, rydym yn argymell bod asiantaethau darparu (awdurdodau lleol, cyrff iechyd, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub a'r trydydd sector) yn adolygu eu dull o weithio'n rhanbarthol i integreiddio gwasanaethau'n well a chynyddu i'r eithaf yr effaith gadarnhaol y gallant eu cael er ddioddefwyr a goroeswyr.<br><br>**A5** Mae Rhan 3 o'r adroddiad yn amlygu nad yw'r mecanweithiau cyllido cymhleth a byrdymor, diffyg data ac ymgynghori annigonol â rhanddeiliaid, o gymorth i gomisiynu gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol mewn modd cynaliadwy. I fynd i'r afael â hyn, rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn adolygu eu trefniadau comisiynu i:<br>• gael gwared ar ddyblygu a gorgyffwrdd rhwng gwahanol ddulliau yn yr awdurdod a chyda phartneriaid;<br>• rhesymoli trefniadau gweinyddu i wella effeithlonrwydd a gwerth am arian;<br>• symleiddio a safoni trefniadau comisiynu i leihau baich gweinyddu ar yr holl bartïon; a<br>• phennu mesurau perfformiad, targedau a meincnodau priodol i farnu effaith a deilliannau gwasanaethau a gomisiynir. | 3. Mae gwasanaeth tai CSYM wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein VAWDASV gorfodol ac mae ein Huned Adeiladu a Chynnal a Chadw wedi derbyn hyfforddiant ymarferol pwrpasol ar yr hyn y dylid edrych amdano a sut i roi gwybod os credir bod unrhyw achosion o VAWDSAV mewn eiddo. O ran rheoli risg, rhennir gwybodaeth ar sail yr angen i wybod ac yn unol â gofynion GDPR.<br><br>4. Mae gan Gogledd Cymru Fwrdd Comisiynu Aml-Asiantaeth at ddibenion VAWDASV, sydd yn adrodd i Fwrdd Bregusder a Chamfanteisio Gogledd Cymru. Mae'r Grŵp Comisiynu'n cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, cyrff iechyd, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub a'r trydydd sector.<br><br>5. Ar hyn o bryd mae'n cael ei ystyried ar lefel Ranbarthol a lleol. | yn cadw at ein mantra bod Diogelu yn gyfrifoldeb i bawb. O ran rheoli risg, rhennir gwybodaeth mewn modd cadarn a diogel ar sail 'angen gwybod'. Cedwir cronfa ddata o fewn y Gwasanaeth Tai mewn perthynas â hyfforddiant diogelu yn ogystal â modiwlau gorfodol eraill lle caiff staff eu hatgoffa o'u hangen a dyletswydd i ymgymryd â hyfforddiant atgoffa yn unol â hynny.<br>4. Mae Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio Gogledd Cymru yn parhau i fod yn Fwrdd Llywodraethu ar gyfer materion cam-drin domestig ac mae'n gyfrifol am wneud penderfyniadau strategol allweddol. Ar lefel fwy gweithredol, mae Bwrdd Comisiynu VAWDASV, sy'n cynnwys cynrychiolwyr amlasiantaethol, yn gyfrifol am drosolwg a llywio materion penodol megis asesiadau o anghenion, gofynion hyfforddi a cheisiadau am grantiau ar gyfer ceisiadau cyfalaf a refeniw ychwanegol gan Lywodraethau datganoledig Cymru a'r Llywodraeth Ganolog.<br>5. Mae'r sefyllfa bresennol yn aneglur ac nid oes modd adrodd ar gynnydd cadarnhaol yn y maes hwn.<br>Diogelu: A1<br>Bydd Asesiad Anghenion VAWDASV drafft Gogledd Cymru yn cael ei gyflwyno i Fwrdd y V ac E ar 18 Hydref am sylwadau ac argymhellion.<br>O ran cynnwys goroeswyr, mae gan y tîm VAWDASV rhanbarthol fforwm ddwywaith y flwyddyn ar gyfer goroeswyr a elwir yn grŵp SAS (Gwasanaethau Cynghori Goroeswyr) ac un arall ar gyfer goroeswyr trais rhywiol. Mae hwn yn gyfraniad pwysig i gael y goroeswyr<br>A2<br>Peth cydgysylltu gan y tîm VAWDASV rhanbarthol.<br><br>Mae'r dudalen Diogelwch Cymunedol ar wefan y Cyngor, sydd ar gael i'r cyhoedd, yn cynnig cyngor o ansawdd uchel am y gwasanaeth a ddarperir gan Gorwel i bobl sy'n dioddef trais yn y cartref; gan gynnwys cyngor ar Apiau defnyddiol, sut i gadw'n ddiogel (gan gynnwys plant), manylion cyswllt gwasanaethau cymorth lleol. I'r rhai sydd mewn perygl uniongyrchol, darperir manylion cyswllt ar gyfer gwasanaethau'r heddlu.<br><br>Mae'r dudalen hefyd yn cynnwys manylion Llinell Gymorth Byw Heb Ofn. Mae dolen hefyd a'r gyfer gwasanaethau cymorth Gorwel ar gyfer pobl hŷn sy'n dioddef trais domestig.<br><br>Yn fewnol, mae safle mewnrwyd yr Awdurdod Lleol yn cael ei ddatblygu i gynnwys adran ddiogelu benodol. Bydd hyn yn darparu adnodd un stop i bob gweithiwr. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am VAWDASV. Unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau, y bwriad yw datblygu'r safleoedd gwybodaeth cyhoeddus.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd hefyd yn arwain datblygiad y gwasanaeth 'Un Drws Ffrynt'. Mae hwn yn ddull aml-asiantaeth o nodi a graddio cyfeiriadau RAG a dderbyniwyd ac yn fforwm i werthuso a datblygu gwasanaethau o gwmpas |

cam-drin domestig yn dibynnu ar risg ac anghenion. Rydym wedi sicrhau cyllid i'n cynorthwyo gyda'r datblygiad. Bydd hyn yn helpu gydag ymyrraeth gynnar yn ogystal â chyfeirio at wasanaethau priodol.

A3

Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu hyfforddiant diogelu a diogelu data yn unol ag anghenion y gweithlu a nodwyd. Mae'r Awdurdod Lleol wedi parhau i weithredu gofynion y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol: Grŵp 1 a 6. Ar ddiwedd Medi 2022 ar draws y sefydliad roedd cydymffurfiad â hyfforddiant Grŵp 1 yn 81%.

Mae'r Awdurdod yn cyflwyno hyfforddiant Grŵp Gofyn a Gweithredu 2, er yn rhithiol i ddechrau. Mae gennym hyfforddwyr achrededig i gyflwyno hyfforddiant Grŵp 2 a phencampwyr Grŵp 3. Erbyn diwedd Awst 2022 roedd 389 o unigolion wedi cwblhau’r hyfforddiant Grŵp 2: gyda darpariaeth hefyd wedi’i darparu i ysgolion gyda 105 yn mynychu.

Mae gwreiddio CGC a rhannu gwybodaeth yn dilyn yr egwyddorion

Yn ystod 2020, unwyd Bwrdd Strategol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gogledd Cymru â’r bwrdd caethwasiaeth Fodern ac mae bellach yn fwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio ar gyfer Gogledd Cymru, gan gwmpasu VAWDASV Caethwasiaeth fodern a meysydd eraill o gamfanteisio gan gynnwys Llinellau Cymffuriau a chamfanteisio troseddol.

Nod y Bwrdd yw cydweithio mewn partneriaeth i sicrhau’r ymateb mwyaf effeithlon ac effeithiol i atal niwed difrifol a achosir gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn rhanbarth Gogledd Cymru ac i weithredu a chefnogi gofynion Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) (Cymru) 2015.

Aelodaeth y Bwrdd fel ag y mae ym mis Hydref 2022:

- Heddlu Gogledd Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Awdurdodau Lleol – Wrecsam, Sir y Fflint, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd ac Ynys Môn
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/CRC
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Bwrdd Cynllunio Ardal
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gogledd Cymru
- CEM Berwyn
- Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- 3 chynrychiolydd o wasanaethau arbenigol i gynrychioli holl grwpiau'r 3ydd sector

Cadeirydd presennol y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio yw Stephen Hughes (SCHTh) ac mae swydd yr Is-Gadeirydd yn wag, oherwydd newidiadau staffio. Rhoddir sylw i hyn yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio ar 3 Chwefror. Mae'r swyddi hyn yn cael eu dal am ddwy flynedd ar hyn o bryd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae'r Grŵp Comisiynu ar y Cyd yn eistedd o dan y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio ac yn arwain ar yr holl benderfyniadau comisiynu, gan gynnwys datblygu'r Asesiad Anghenion, edrych ar fylchau yn y ddarpariaeth a sicrhau diffyg dyblygu yn y ddarpariaeth. Mae'r Grŵp JC hefyd yn gweithredu fel corff sicrhau ansawdd, gan fonitro prosiectau a gomisiynir a sicrhau y cyrhaeddir targedau.<br>Mae'r Grŵp Comisiynu ar y Cyd yn cyfarfod bob chwarter i edrych ar berfformiad yr holl wasanaethau a gomisiynir, yn ogystal ag unrhyw benderfyniadau ariannu a wnaed gan yr is-grŵp Gwneud Penderfyniadau. Mae hwn yn gyfle i gwestiynu gwasanaethau, edrych ar ganlyniadau ac awgrymu sut i fynd i'r afael ag unrhyw heriau. Mae comisiynu pob gwasanaeth yn anelu at gydymffurfio â Chanllawiau Comisiynu Statudol VAWDASV, ac mae'n eitem sefydlog ar agenda holl gyfarfodydd y Grŵp Comisiynu ar y Cyd.<br>Rhennir y gwaith o fonitro gwasanaethau a gomisiynir rhwng y tîm comisiynu yn SCHTh a'r tîm VAWDASV Rhanbarthol a rhennir yr holl wybodaeth â Grŵp y Cyd-bwyllgor i'w harchwilio ymhellach. Cynhelir Asesiad Anghenion VAWDASV rhanbarthol trylwyr bob 3 blynedd ac mae fersiwn 2022 ar hyn o bryd gyda'r bwrdd V ac E i'w gadarnhau. |
| **Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** | **A1** Yn Rhan 1 o'r adroddiad rydym yn nodi bod deall effaith dewisiadau a phenderfyniadau yn golygu ei bod yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnwys dinasyddion a rhanddeiliaid yn llawn a chwblhau Asesiadau Effaith. Fodd bynnag, canfuom fod ymarfer presennol yn annigonol i roi sicrwydd bod anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu hystyried yn llawn wrth adolygu dewisiadau ac nad yw llai dinasyddion yn dylanwadu'n ddigonol ar benderfyniadau. Rydym yn argymell bod BGCau:<br>• yn cynnal asesiadau ffurfiol i ganfod yr effaith bosibl ar bobl â nodweddion gwarchodedig a'r Gymraeg ac yn adolygu camau gweithredu y cytunwyd arnynt i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw effeithiau andwyol;<br>• yn gwella tryloywder ac atebolrwydd trwy wneud cyfarfodydd, agendâu, papurau a chofnodion BGCau yn hygyrch ac ar gael i'r cyhoedd;<br>• yn cryfhau trefniadau cynnwys trwy weithio'n unol â'r canllawiau yn yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru; ac<br>• yn adrodd yn ôl ar ganlyniad gweithgarwch cynnwys gan nodi ble y gwneir newidiadau o ganlyniad i fewnbwn dinasyddion a rhanddeiliaid.<br><br>**A2** Yn Rhan 2 o'r adroddiad rydym yn adolygu trefniadau craffu BGCau ac yn dod i'r casgliad bod diffygion a gwendidau mewn perfformiad ac arfer presennol. I wella trefniadau craffu, rydym yn argymell:<br>• bod BGCau a chyrff cyhoeddus yn defnyddio canfyddiadau'r Papur Trafod: Chwe thema i helpu i wneud craffu'n 'Addas ar | **A1**<br>• Bydd asesiadau effaith yn cael eu datblygu pan fydd prosiectau yn cael eu cyflwyno gan y BGC sy'n argymell newid polisi / gwasanaeth. Bydd asesiadau effaith yn cael eu datblygu er mwyn mesur a deall effaith y penderfyniadau fydd yn cael eu gwneud gan y BGC.<br>• Mae gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn wefan sy'n weithredol o dan yr enw: https://www.llesiantgwyneddamon.org<br>Mae manylion o gyfarfodydd y Bwrdd a'r cofnodion wedi eu cynnwys ar y wefan.<br>• Mae'r gwaith ar ddiweddaru'r Asesiadau llesiant y BGC yn cael ei gynllunio yn unol â'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r cyhoedd.<br>• Yn flynyddol bydd y BGC yn paratoi adroddiad ar gynnydd eu gwaith. Mae'r adroddiad wedi ei lunio er mwyn nodi sut mae gwaith y BGC yn effeithio ar ein trigolion.<br><br>**A2**<br>• Mae'r BGC yn cydweithio hefo Pwyllgorau Craffu Gwynedd ac Ynys Môn ar amserlenni craffu (alinio â chyfarfodydd y BGC) a'r meysydd i'w craffu.<br><br>**A3** | A1. • Sefydlwyd gweithgor rhanbarthol i weithio gyda Chydgynhyrchu Cymru ar gynllun gwella ymgysylltu 5 mlynedd. Bydd hyn yn gweithio ar y cyd â'r bartneriaeth Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol i ystyried ac archwilio'r holl opsiynau ar y sbectrwm ymgynghori hyd at Gydgynhyrchu:<br>- meithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth gyda chymunedau,<br>- y dulliau a'r amseroedd mwyaf priodol i ymgysylltu yn ôl yr amgylchiadau,<br>- iaith a chyfryngau i ymgysylltu a gwrando<br>- cofrestr o grwpiau cymunedol allweddol / adeiladu rhwydwaith rhanddeiliaid - sicrhau amrywiaeth a chynhwysiant<br>- blaengynllunio gwaith rhanbarthol a rhannu adborth ymgysylltu dienw,<br>- y ffyrdd gorau o roi adborth i gyfranogwyr ar gynnydd<br>- hyfforddiant ymgysylltu a llwyfan ymgysylltu ar-lein posibl (i'w gadarnhau)<br><br>• Sefydlwyd ail weithgor rhanbarthol, a chynhaliwyd gweithdy gyda dros 50 o bobl yn bresennol. Trefnwyd y gweithdy gan dimau Cydlyniant Cymunedol Gogledd Cymru a'i gefnogi gan Rwydwaith Cydgynhyrchu Cymru a'i anelu at y sefydliadau a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda grwpiau lleiafrifol na chlywir yn aml. Roedd ffocws y gweithdy ar sut i greu deialog gyfartal a chynhwysol gyda chymunedau amrywiol yng Ngogledd Cymru. Dadansoddwyd themâu allweddol a'u rhannu'n rhanbarthol. Rydym yn defnyddio'r canfyddiadau hyn i adeiladu sgwrs barhaus gyda'r cymunedau hyn ac i fwydo i |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gyfer y Dyfodol' gan Archwilydd Cyhoeddus Cymru i adolygu eu perfformiad presennol a nodi ble y mae angen iddynt gryfhau trefniadau a gweithgarwch trosolwg; a<br>• bod BGCau yn sicrhau bod pwyllgorau craffu'n ymgysylltu'n ddigonol ag ystod ehangach o randdeiliaid perthnasol sy'n gallu helpu i ddwyn BGCau i gyfrif.<br><br>**A3** Yn Rhan 3 o'r adroddiad rydym yn crynhoi'r anhawster o ran datblygu BGCau, eu rhoi ar waith a darparu adnoddau ar eu cyfer a heriau rheoli partneriaethau lluosog sy'n aml yn gallu gorgyffwrdd â'i gilydd a dyblygu ei gilydd. I helpu i adeiladu capasiti, cysondeb a darparu adnoddau ar gyfer gweithgarwch rydym yn argymell:<br>• bod BGCau yn cymryd y cyfle i gyflawni rhwymedigaethau mewn cynlluniau a strategaethau eraill trwy'r Cynllun Llesiant Lleol;<br>• bod Llywodraeth Cymru yn galluogi BGCau i ddatblygu modelau gweithio hyblyg gan gynnwys:<br>– cyfuno, lleihau ac integreiddio eu gwaith gyda fforymau eraill megis Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol; a<br>– rhoi hyblygrwydd i BGCau gael, rheoli a gwario arian grant ar yr amod bod BGCau yn sicrhau bod ganddynt drefniadau diogelu a systemau priodol ar waith i reoli cyllid; rheolaethau effeithiol ar gyllidebau a rhaglenni grantiau; a systemau adrodd wrth y cyhoedd, trosolwg a chraffu i reoli gwariant.<br><br>**A4** Er mwyn helpu i feithrin capasiti, cysondeb a'r broses o ddarparu adnoddau ar gyfer gweithgarwch rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn eu hadolygiad o bartneriaethau strategol yn ystyried, ac yn archwilio, canfyddiadau'r adolygiad hwn. | • Mae BGC wedi bod yn arweiniol iawn mewn perthynas â'r weithred dan sylw. Mae is-grŵp Iechyd a gofal Gorllewin Cymru, sy'n atebol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn, ac yn cydweithio â'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu cynllunio ar gyfer y ein trigolion yn cwrdd ag anghenion lleol.<br><br>Mae'r ddogfen 'Cymru Iachach' yn llywio trefniadau llywodraethu a chynlluniau'r Is-grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig i Wynedd ac Ynys Môn. | mewn i'r cynllun Llesiant newydd.<br>• Mae gwefan y BGC yn cael ei diweddaru'n rheolaidd gyda manylion cyfarfodydd, aelodaeth, cofnodion a chynlluniau. https://www.llesiantgwyneddamon.org/cy/Amdanom/Amdanom-Ni/<br>• Bydd adroddiad blynyddol y BGC ar gyfer 21/22 yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2022 yn dilyn craffu gan y ddau Gyngor ac aelodau BGC. Mae'r adroddiad hwn yn nodi effaith y BGC ar les ein trigolion.<br>• Mae'r iaith Gymraeg yn ran ganolog drwy holl waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn. Mae gallu byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg a chael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau cymunedol yn Gymraeg yn bwysig i'n cymunedau ac rydym wedi ymrwymo i gydweithio i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn cyrff cyhoeddus yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Rydym hefyd wedi ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg fel dewis iaith cyfathrebu ymhlith sefydliadau cyhoeddus ar draws y ddwy sir.<br>A2 Mae pob aelod etholedig yn cael cynnig hyfforddiant penodol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n cynnwys dyletswyddau'r BGC a rolau a chyfrifoldebau pwyllgorau Sgriwtini.<br>Yn ystod 21/22, adolygwyd a diwygiwyd yr amserlenni Sgriwtini mewn perthynas â gwaith BGC i alinio â chyflawniadau allweddol BGC yn gynharach yn y broses. Bydd hyn yn sicrhau bod her ac argymhellion craffu yn fwy amserol ac yn cael mwy o effaith.<br>A3 • Mae Is-grŵp Iechyd a Gofal Gogledd Orllewin Cymru (a adwaenir fel arall fel y Bwrdd Gwasanaeth Integredig Ardal/AISB) yn gwasanaethu'r ardal yn dda i gydlynu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i gwrdd ag anghenion lleol. O dan lywodraethu BGC Gwynedd a Môn mae'n dilyn mandad "Cymru Iachach" Llywodraeth Cymru.<br>• Mae sawl enghraifft lle mae'r Bwrdd wedi blaenoriaethu gwaith lle mae angen adnoddau ariannol i'w gwireddu. Rydym wedi llwyddo i ddod i drefniant i gyd-ariannu nifer cyfyngedig o faterion, ond nid yw'n sefyllfa ddelfrydol gyda'r pwysau cynyddol ar gyllidebau ac mae hefyd yn golygu oedi cyn y gellir bwrw ymlaen â'r gwaith.<br>• Yn ystod 2022, mae BGC Gwynedd ac Ynys Môn wedi ymgysylltu'n rhagweithiol i gael mynediad at gyfleoedd a ariennir gan y gronfa BGC Rhanbarthol i wella ymhellach gwybodaeth, ymchwil ac ymgysylltiad cyhoeddus mewn perthynas â blaenoriaethau Llesiant. Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys rhoi cyfleoedd i ddinasyddion lleol gymryd rhan mewn rheithgorau/paneli dinasyddion a mynd â gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ysgolion uwchradd a chweched dosbarth fel y gellir herio penderfyniadau a blaenoriaethau yn weithredol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y 'drws blaen' i ofal cymdeithasol i oedolion | **Gwella mynediad i'r drws blaen**<br>**A1** Mae Rhan 1 yr adroddiad yn nodi sut y mae awdurdodau yn hyrwyddo mynediad i'r 'drws blaen' ac yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i helpu pobl i wella eu lles ac atal eu hanghenion rhag dirywio. Er mwyn gwella ymwybyddiaeth o'r drws blaen, rydym yn argymell y canlynol:<br>• awdurdodau lleol:<br>- adolygu eu dulliau presennol, ystyried eu cynulleidfa, a sicrhau bod gwybodaeth o ansawdd da ar gael yn brydlon er mwyn atal anghenion rhag dirywio a phobl rhag cyflwyno eu hunain am gymorth mewn 'argyfwng';<br>- gweithio mewn partneriaeth â phartneriaid y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i helpu i sicrhau bod pobl sy'n cael gafael ar wasanaethau trwy atgyfeiriadau gan bartneriaid, neu ddulliau eraill, yn cael yr wybodaeth orau i'w helpu;<br>- sicrhau bod gwasanaethau eirioli yn cael eu comisiynu a'u cynnig yn rhagweithiol i'r rhai y mae eu hangen arnynt ar y pwynt cyswllt cyntaf; ac - ysgwyddo cyfrifoldeb yn lleol ac arwain y gwaith o gydlynu a golygu gwybodaeth leol a gyhoeddir ar Dewis Cymru yn lleol.<br>• Llywodraeth Cymru<br>- gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gofalwyr o'u hawliau i gael eu hasesu ar gyfer eu hanghenion gofal a chymorth eu hunain gyda'r nod o greu galw am wasanaethau ataliol yr awdurdodau lleol; a<br>- chynnal gwerthusiad llawn o swyddogaeth Dewis Cymru wrth roi'r Ddeddf ar waith yn ehangach a defnyddio'r data a geir i adeiladu ar ei botensial fel porth ar gyfer rhannu gwybodaeth yn genedlaethol.<br><br>**Buddsoddi mewn atal a deall effaith**<br>**A2** Mae Rhan 2 yr adroddiad yn tynnu sylw at wendidau o ran sicrwydd yr awdurdodau ynghylch ansawdd y gwasanaethau trydydd sector, ataliol a chymunedol y maent yn atgyfeirio pobl iddynt, ac i ba raddau y maent ar gael. Rydym yn argymell y canlynol:<br>• awdurdodau lleol:<br>- mapio'r gwasanaethau ataliol sydd ar gael yn eu hardal er mwyn cael gwell dealltwriaeth o lefelau presennol y ddarpariaeth a nodi bylchau a dyblygiadau;<br>- cynnwys partneriaid y trydydd sector wrth gyd-lunio atebion ataliol i ddiwallu anghenion pobl a sicrhau y gall pobl gael gafael ar y gwasanaethau hyn mewn modd teg;<br>- gweithio gyda phartneriaid y trydydd sector er mwyn teilwra a chomisiynu gwasanaethau newydd lle nodir bylchau; a<br>- gweithio gyda phartneriaid i wella data er mwyn gwerthuso effaith gwasanaethau ataliol ar unigolion, ac ar y boblogaeth yn fwy cyffredinol.<br>• Llywodraeth Cymru:<br>- gwella'r gwerthusiad o gost mewn cysylltiad ag effaith y Ddeddf mewn cyd-destun cenedlaethol, a chefnogi awdurdodau lleol i | **R1**<br>Mae ein gwasanaeth un pwynt mynediad (SPOA) yn darparu mynediad drws blaen i ofal cymdeithasol Oedolion ac mae ganddo staff profiadol sydd yn ymwybodol o doreth o fentrau cymunedol lleol a mentrau trydydd sector sy'n cefnogi ein hagenda ataliol ac ymyrraeth gynnar.<br><br>Mae taflenni gwybodaeth amrywiol ar gael mewn nifer o bwyntiau mynediad lleol megis hybiau Cymunedol, meddygfeydd, ysbytai acíwt ac ysbytai cymunedol a gwefan y Cyngor er mwyn ceisio sicrhau bod gwybodaeth eang yn cael ei rhannu am fentrau ataliol a hunangymorth, cymorth i ofalwyr, llety a mynediad at ofal a chymorth.<br><br>Yn ogystal, rydym wedi datblygu  mewn partneriaeth â Medrwn Môn, y Cyngor Gweithredu Gwirfoddol lleol, bwynt mynediad ar gyfer yr holl adnoddau cymunedol. Gall y sefydliad hwn rannu gwybodaeth, darparu cyngor a chynnig cymorth i unigolion sydd angen gwybodaeth gyffredinol. Mae'r gwasanaeth hwn wedi datblygu i fod yn adnodd gwerthfawr i gyfeirio a chefnogi mynediad i wasanaethau ataliol, gan osgoi'r angen am ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol statudol.<br><br>Mae cytundeb dan gontract gyda gwasanaethau Eiriolaeth Gogledd Cymru yn darparu mynediad i wasanaethau Eiriolaeth ffurfiol ac mae ein cytundebau lleol gydag Age Cymru Gwynedd a Môn, Gofal a Thrwsio, CAB, yn sicrhau cymorth a mynediad i ystod o fentrau a gwasanaethau ataliol sydd yn cynnwys cymorth eiriolaeth. Mae aliniad â'r hyb gwybodaeth genedlaethol DEWIS wedi cael ei yrru gan y Cyngor Gweithredu Gwirfoddol trydydd sector ac mae arfarnu ei effeithlonrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr anffurfiol yn flaenoriaeth allweddol.<br><br>Mae cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu i wella'r profiad 'drws ffrynt' i gwsmeriaid sy'n mynd law yn llaw â gweithredu ein Timau Adnoddau Cymunedol integredig.<br><br>**R2**<br>Mae gennym strategaeth ataliol ac ymyrraeth gynnar tra datblygedig sydd wedi sicrhau ystod o adnoddau cymunedol a thrydydd sector sy'n cael eu gyrru gan anghenion a nodwyd ar gyfer y boblogaeth leol ac sy'n cael eu darparu trwy gytundebau partner gyda darparwyr Trydydd sector a mentrau cymunedol lleol.<br><br>Nod strategaeth 'Cynllunio Lle' y Cyngor yw ymgysylltu â'r boblogaeth leol i nodi anghenion cymunedol lleol a darparu ar eu cyfer gyda chymorth cynllun gweithredu ar gyfer darparu ar gyfer y bylchau gwasanaeth a nodwyd yn y ddarpariaeth.<br><br>Mae Cydlynwyr Asedau Lleol wedi hen sefydlu yn y gymuned ac maent wedi eu cysylltu â hybiau adnoddau Cymunedol, meddygfeydd ac maent yn weledol yn eu cymunedau lleol ac wedi ymgysylltu'n llawn â nhw. Maent yn darparu cysylltiadau cychwynnol ag adnoddau cymunedol lleol, yn eirioli ac yn cefnogi mynediad i fudd-daliadau, mentrau tai a llesiant ac | Mae Un Pwynt Mynediad a'r IAA ar gyfer plant a theuluoedd a Teulu Môn wedi'i gyfuno'n un pwynt mynediad. Enw'r gwasanaeth yw Teulu Môn. Yn dilyn cyfnod o ymgynghori, rydym wedi llwyddo i drosglwyddo staff i'r sefydliad newydd ac ar hyn o bryd mae gennym wyth swyddog ymgysylltu, dau gydlynydd a rheolwr. Wrth symud ymlaen mae angen i ni a. gwella a symleiddio prosesau yn arbennig i wasanaethau oedolion, b. cynyddu presenoldeb y trydydd sector a gwasanaethau eraill o fewn y cyngor yn Teulu Môn, (Ar hyn o bryd mae Gweithredu dros Blant a PARABL yn mynychu bob wythnos) c. mae angen inni werthuso lefel y galw a'r staffio yn y tymor byr, a oes gennym ddigon o gapasiti i ymdopi â'r galw a achosir gan yr argyfwng costau byw. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | sicrhau bod yr effaith a ddymunir o ran atal gwariant cyffredinol ar ofal cymdeithasol yn dod yn wirionedd dangosol. | yn cefnogi rhaglenni datblygu cymunedol.<br>Mae arfarniad ansoddol a meintiol o effaith ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth hon ac mae'n rhoi data gwerthfawr i lywio datblygiad i'r dyfodol ac effaith hirdymor ar iechyd a gofal cymdeithasol wrth leihau neu ohirio gofal a chymorth statudol. | |
| **Effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru** | **A1** Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn nodi cymhlethdodau'r system gynllunio gan ddangos faint o her ydyw i awdurdodau cynllunio lleol ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid a'u cynnwys mewn dewisiadau a phenderfyniadau. Er mwyn gwella'r modd y mae rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys a pherchnogaeth ar benderfyniadau rydym yn argymell fel a ganlyn:<br>• bod awdurdodau cynllunio lleol:<br>– yn profi arferion ymgysylltu a chynnwys ar hyn o bryd ac yn ystyried yr ystod lawn o opsiynau eraill sydd ar gael i sicrhau bod gweithgareddau cynnwys yn addas ar gyfer y diben;<br>– yn defnyddio 'Cynlluniau Lle' fel cyfrwng i ymgysylltu â chymunedau a dinasyddion a'u cynnwys mewn dewisiadau a phrosesau penderfynu ym maes cynllunio; ac<br>– yn gwella tryloywder ac atebolrwydd trwy gynnal cyfarfodydd cynllunio ar amseroedd priodol, gan gylchdroi cyfarfodydd fel eu bod yn cael eu cynnal mewn ardaloedd y byddai datblygiadau arfaethedig yn digwydd ynddynt, gweddarlledu cyfarfodydd a darparu cyfleoedd i randdeiliaid annerch cyfarfodydd pwyllgorau.<br>• bod Llywodraeth Cymru:<br>– yn adolygu Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu 2012 ac yn diweddaru'rsafonau ymgysylltu a chynnwys ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol.<br><br>**A2** Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn amlygu bod awdurdodau cynllunio lleol wedi profi gostyngiadau sylweddol mewn cyllid a'u bod yn ei chael yn anodd cyflawni eu cyfrifoldebau statudol. I wella cydnerthedd, rydym yn argymell bod awdurdodau cynllunio lleol:<br>• yn adolygu eu cyfundrefnau ffioedd rheoli datblygu i sicrhau bod y lefelau a bennir yn rhoi adlewyrchiad gwell o gost wirioneddol darparu'r gwasanaethau hyn ac yn gwneud y gwasanaeth yn hunangyllidol; ac<br>• yn gwella capasiti trwy weithio'n rhanbarthol i:<br>– integreiddio gwasanaethau er mwyn mynd i'r afael â bylchau mewn arbenigedd;<br>– datblygu canllawiau cynllunio atodol ar y cyd; a<br>– datblygu cynlluniau datblygu lleol yn y dyfodol ar sail ranbarthol ac mewn partneriaeth gydag awdurdodau cynllunio lleol eraill.<br><br>**A3** Mae Rhan 2 o'r adroddiad yn amlygu nad yw cost gwasanaethau rheoli datblygu'n cael ei hadlewyrchu yn y taliadau a godir am y gwasanaethau hyn a bod cynnydd i ddatblygu ymatebion rhanbarthol i gryfhau cydnerthedd wedi bod yn araf. | Aliniad sylweddol rhwng argymhelliad a sgôp / blaenoriaethau Cynllun Gwella Cynllunio CSYM.<br><br>Effaith sylweddol y pandemig Covid 19 ar berfformiad, capasiti a gwydnwch y Swyddogaeth Gynllunio.<br><br>Mae'r Swyddogaeth Gynllunio wedi wynebu arbedion / arbedion effeithlonrwydd sylweddol yn ystod y 10 mlynedd diwethaf – a gellir gweld eu heffaith yn glir yn awr.<br><br>Heriau parhaus mewn perthynas â chynnal capasiti a recriwtio swyddogion newydd / profiadol.<br><br>Mae'r Swyddogaeth eisoes yn cydweithio'n rhanbarthol mewn perthynas ag arbenigedd ym maes polisi cynllunio – rhagwelir y bydd cydweithio rhanbarthol pellach (h.y. paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol) yn creu heriau ychwanegol mewn perthynas â chapasiti, gallu a darparu adnoddau. | Mae ymateb 2021 yn dal yn gyfredol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru:<br>• yn adolygu ffioedd rheoli datblygu i sicrhau bod y lefelau a bennir yn rhoi adlewyrchiad gwell o gost wirioneddol darparu'r gwasanaethau hyn; ac<br>• yn ystyried sut i ddefnyddio'r pwerau yn y Ddeddf Cynllunio (Cymru) i gefnogi a gwella capasiti a chydnerthedd awdurdodau cynllunio lleol.<br><br>**A4** Mae Rhan 3 o'r adroddiad yn crynhoi effeithiolrwydd ac effaith prosesau penderfynu awdurdodau cynllunio lleol a pha mor dda y maent yn perfformio yn erbyn mesurau cenedlaethol. Rydym yn argymell bod awdurdodau cynllunio lleol yn gwella effeithiolrwydd pwyllgorau cynllunio trwy:<br>• adolygu eu cynllun dirprwyo i sicrhau bod pwyllgorau cynllunio'n canolbwyntio ar y materion strategol pwysicaf sy'n berthnasol i'w hawdurdod;<br>• diwygio templedi adroddiadau i sicrhau eu bod yn eglur a diamwys i helpu i roi arweiniad mewn prosesau penderfynu a lleihau lefel yr argymhellion gan swyddogion a gaiff eu gwrthdroi; a<br>• gorfodi safonau ymddygiad awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer cyfarfodydd.<br><br>**A5** Mae Rhan 4 o'r adroddiad yn nodi rôl ganolog cynllunio i gyflawni uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym yn argymell bod awdurdodau cynllunio lleol:<br>• yn pennu gweledigaeth uchelgeisiol eglur sy'n dangos sut y mae cynllunio'n cyfrannu at wella llesiant;<br>• yn darparu hyfforddiant a chymorth llesant rheolaidd a phriodol ar gyfer aelodau'r pwyllgor cynllunio i helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau ehangach;<br>• yn pennu mesurau priodol ar gyfer y modd y maent yn gweinyddu'r system gynllunio ac effaith eu penderfyniadau cynllunio ar lesiant; ac<br>• yn cyhoeddi'r mesurau perfformiad hyn yn flynyddol i ffurfio barn ynglŷn ag effaith awdurdodau cynllunio ar lesiant. | | |
| Rheoli Gwastraff yng Nghymru – Atal Gwastraff | **A1** Cynyddu'r pwyslais ar atal gwastraff er mwyn adlewyrchu amcanion cyffredinol Tuag at Ddyfodol Diwastraff Awgryma'r data sydd ar gael ar faint o wastraff a gynhyrchir bod cynnydd cymysg o ran cyflawni targedau atal gwastraff Llywodraeth Cymru. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol:<br>a) ailedrych ar y flaenoriaeth berthnasol y mae'n ei rhoi i ailgylchu ac atal gwastraff fel rhan o'i hadolygiad o Tuag at Ddyfodol Diwastraff;<br>b) gosod y disgwyliadau ar wahanol sefydliadau a sectorau ar gyfer atal gwastraff yn eglur; ac<br>c) ailedrych ar ei thargedau atal gwastraff cyffredinol a'r ffordd y mae wedi mynd ati i'w monitro, gan ystyried y cynnydd hyd yn hyn, enghreifftiau o wledydd eraill ac yng nghyd-destun yr amcanestyniadau cyfredol am wastraff a fydd yn cael ei | Mae'r Cyngor yn llwyr gefnogi nodau a thargedau strategaeth gwastraff Cymru ynghylch atal gwastraff. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau uchel iawn a bydd Cyngor Môn yn gwneud popeth posib i gyflawni'r canlyniadau a ddeisyfir.<br>Er bod y Cyngor yn canolbwyntio'n bennaf ar reoli gwastraff dinesig, mae'n llwyr gefnogi gweithio mewn partneriaeth â phob sector i wella casglu data gan y sectorau masnachol, diwydiannol ac adeiladu.<br>O ran gwella cyfrifoldeb y cynhyrchwr i ddylanwadu ar atal gwastraff, unwaith eto mae'r Cyngor yn llwyr gefnogi'r holl fentrau i hyrwyddo'r dull hwn o reoli gwastraff yng Nghymru. | Mae hyn yn dal yn gyfredol. Mae ymateb y Cyngor yn dal yn berthnasol. Mae angen ei gadw |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gynhyrchu hyd at 2050.<br>**A2** Gwella data ar wastraff masnachol, diwydiannol, adeiladu a dymchwel Mae Llywodraeth Cymru yn bartner mewn gwaith cychwynnol i asesu dichonoldeb datblygu datrysiad digidol newydd i olrhain yr holl wastraff. Os na fydd yr opsiwn dewisol hwn yn llwyddo, argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i archwilio costau a buddion opsiynau eraill i wella’r data ar wastraff nad yw’n drefol yng Nghymru, gan gynnwys pwerau ychwanegol i ofyn am ddata gwastraff gan fusnesau.<br>**A3** Gwella cyfrifoldeb cynhyrchwyr a defnyddio ysgogiadau mwy cyfreithiol, ariannol a chyllidol Mae gan Lywodraeth Cymru gyfleoedd i ddylanwadu ar atal gwastraff drwy ddeddfwriaeth a chymelliadau ariannol. Gall hefyd ddylanwadu ar newidiadau ar lefel y DU, lle nad yw materion cyllidol wedi eu datganoli. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn ystyried a oes angen darpariaethau i ehangu cyfrifoldebau cynhyrchwyr ac oes angen defnyddio pwerau ariannol fel amodau grant, mesurau cyllidol a thaliadau a chymelliadau cwsmeriaid i hyrwyddo a blaenoriaethu’r gwaith o atal gwastraff. | | |

Mae'r canlynol yn newydd ar gyfer 2022 ac mae ymateb y cyngor wedi'i gynnwys:

| Enw'r Adroddiad | Argymhellion/ Cyfleoedd | Ymateb gan Gyngor Sir Ynys Môn 2022 |
|---|---|---|
| Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030 | Mae gweithgareddau sylweddol yn digwydd i leihau allyriadau carbon. Fodd bynnag, mae angen i gyrff cyhoeddus gynyddu cyflymder eu gweithgarwch yn sgil ansicrwydd clir ynghylch a fyddant yn cyflawni'r uchelgais ar y cyd i gael allyriadau carbon sero net erbyn 2030. Mae rhwystrau gwirioneddol y mae angen i gyrff cyhoeddus fynd i'r afael â hwy, ac mae angen i ddatgarboneiddio fod yn ganolog i'w gweithgareddau o ddydd i ddydd.<br><br>Yn ein hadroddiad, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud y pum galwad a ganlyn am gamau gan gyrff cyhoeddus:<br>• Cryfhau eich arweinyddiaeth a dangos eich cyfrifoldeb ar y cyd trwy gydweithio effeithiol.<br>• Egluro eich cyfeiriad strategol a chyflymu eich gweithrediad.<br>• Ewch i'r afael â'r cyllid sydd ei angen arnoch.<br>• Gwybod eich bylchau sgiliau a chynyddu eich gallu; a<br>• Gwella ansawdd data a monitro i gefnogi eich penderfyniadau. | Drwy adolygu Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, mae swyddogion y Cyngor wedi ystyried yr argymhellion a wnaed ac wedi nodi cyfleoedd i wella ei ddull o gyrraedd sero net. Mae'r cyfleoedd hyn wedi'u blaenoriaethu a'u coladu mewn adroddiad diweddar a gyflwynwyd i'r Tîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Gwaith anffurfiol. Bydd adroddiad y Cyngor hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu a Risg. |
| Cwricwlwm newydd i Gymru | Deall a chefnogi craffu ar gost diwygio'r cwricwlwm yn well<br>A1 - Nid yw wedi bod yn hawdd i Lywodraeth Cymru na ninnau nodi gwariant ar ddiwygio'r cwricwlwm hyd yma. Mae hyn yn rhannol oherwydd anawsterau wrth gyfrifo gwariant sy'n benodol i ddiwygio'r cwricwlwm yn hytrach nag elfennau eraill o'r rhaglen diwygio addysg, neu'r rhaglen Adnewyddu a Diwygio, y gallai rhai ohonynt fod o fudd i ddiwygio'r cwricwlwm. Fodd bynnag, mae deall cost diwygio'r cwricwlwm yn hanfodol i gefnogi craffu a llywio unrhyw ystyriaeth o werth am arian. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn adrodd yn flynyddol ar gostau ei rhaglen diwygio'r cwricwlwm gan gynnwys costau i bartneriaid ac ysgolion. Wrth ddatblygu ac adrodd ar ei hamcangyfrif gorau, bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried effaith unrhyw gasglu data ychwanegol ar ysgolion yn benodol. Gwerthuso effeithiolrwydd y rhaglen dysgu proffesiynol a chymorth i ysgolion<br><br>A2 - Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu dysgu proffesiynol sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd ochr yn ochr â'i buddsoddiad ehangach yn nysgu proffesiynol athrawon. Mae hefyd wedi ariannu'r consortia addysg rhanbarthol a phartneriaethau i ddarparu cymorth pwrpasol i ysgolion. Cyhoeddodd yn ddiweddar hawl genedlaethol i ddysgu proffesiynol i bob athro a chynorthwyydd addysgu. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod effeithiolrwydd a gwerth am arian ei buddsoddiad mewn dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon a staff ysgol eraill yn cael ei werthuso.<br><br>Dylunio a gweithredu cymwysterau newydd sy'n cefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y cwricwlwm newydd<br>A3 - Mae Llywodraeth Cymru a Chymwysterau Cymru yn gwybod bod angen i gymwysterau newid i gyd-fynd â'r cwricwlwm newydd. Mae Cymwysterau Cymru yn gweithio gydag ysgolion, addysg bellach ac uwch ac eraill i gyd-ddylunio'r cymwysterau TGAU newydd ac, o ganlyniad, cymwysterau eraill. Nid yw manylion y cymwysterau a'r ffurfiau asesu wedi'u penderfynu eto. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Cymwysterau Cymru i:<br>a) monitro cyfranogiad athrawon a dysgwyr wrth ddatblygu'r cymwysterau newydd.<br>b) cynllunio rhaglen ddysgu broffesiynol genedlaethol effeithiol a fydd yn cefnogi athrawon i gyflwyno'r cymwysterau newydd; a<br>c) asesu'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer dysgu proffesiynol ar gyfer y cymwysterau newydd ac unrhyw newidiadau i'r broses asesu, gan gynnwys unrhyw rôl fwy ar gyfer asesiadau athrawon a/neu dechnoleg ddigidol. | Mae mesur effaith dysgu proffesiynol yn faes gwaith y mae'r Awdurdod Lleol a chonsortia rhanbarthol yn canolbwyntio arno. Rydym fel awdurdod yn ymwybodol o geisio lleihau'r llwyth gwaith i ysgolion ac felly'n cytuno bod angen ystyried effaith unrhyw gasglu data ychwanegol ar ysgolion. Byddem hefyd yn croesawu unrhyw wybodaeth bellach am sut y gellir nodi costau diwygio'r cwricwlwm gan ein bod yn teimlo ei bod yn anodd ar hyn o bryd gwahanu costau diwygio'r cwricwlwm oddi wrth gostau rhedeg ysgolion.<br><br>Mae mesur effaith dysgu proffesiynol yn faes gwaith y mae'r Awdurdod Lleol a chonsortia rhanbarthol yn canolbwyntio arno. Byddem hefyd yn croesawu unrhyw wybodaeth bellach am sut y gellir nodi a gwerthuso costau diwygio'r cwricwlwm gan ein bod yn teimlo ei bod yn anodd ar hyn o bryd gwahanu costau diwygio'r cwricwlwm oddi wrth gostau rhedeg ysgolion.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Dysgu yn cynnal cyfarfodydd chwarterol gyda'r consortia rhanbarthol lle cofnodir ymgysylltiad â dysgu proffesiynol. Bydd angen adolygu'r cynllun busnes er mwyn galluogi'r Awdurdod Lleol i gasglu'r wybodaeth ofynnol a bydd unrhyw gyfarfodydd chwarterol yn monitro'r cynnydd. Megis dechrau y mae datblygiad y cymhwyster newydd.<br><br>Ystyrir ymgysylltu yn fframwaith newydd Estyn ar gyfer arolygiadau ysgolion a bydd yr Awdurdod Lleol yn adolygu'r cynllun busnes i sicrhau ein bod yn casglu'r wybodaeth hon a bydd angen ei chynnwys fel pwnc i gynghorwyr ei drafod pan fyddant yn cael trafodaeth gyda'r disgyblion.<br><br>Mae fframwaith Gwella Ysgolion newydd a chanllawiau anstatudol wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Bydd grŵp gorchwyl a gorffen yn cael ei ffurfio'n rhanbarthol i gefnogi ysgolion ac Awdurdodau Lleol wrth i ganllawiau ddod yn statudol ar gyfer 2024-25.<br><br>Mae fframwaith Gwella Ysgolion newydd a chanllawiau anstatudol wedi'u cyhoeddi gan LlC. Grŵp gorchwyl a gorffen i'w ffurfio'n rhanbarthol i gefnogi ysgolion ac Awdurdodau Lleol wrth i ganllawiau ddod yn statudol ar gyfer 2024-25. |

| | | |
|---|---|---|
| | Gwerthuso effeithiolrwydd ymgysylltiad ysgolion â rhieni, gofalwyr a dysgwyr<br>A4 - Effaith gadarnhaol y pandemig fu cryfhau ymgysylltiad rhwng ysgolion a theuluoedd mewn llawer o achosion. Bydd yn ofynnol i ysgolion ymgysylltu â rhieni a gofalwyr am y cwricwla. Dylai rhieni, gofalwyr a dysgwyr allu cymryd rhan yn y gwaith o werthuso a gwella ysgolion. Mae hyn ar y gweill mewn rhai ysgolion. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi ysgolion i ymgysylltu'n effeithiol â rhieni, gofalwyr a dysgwyr ac yn gwerthuso pa mor dda y mae ysgolion yn gwneud hyn i gefnogi gwelliant.<br><br>Sefydlu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer dealltwriaeth gyflawn o weithgareddau a chanlyniadau ysgolion<br>A5 - Mae gwaith i gefnogi dull cenedlaethol o hunanwerthuso i fod i gael ei gwblhau erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2021/22. Mae llai o eglurder ynghylch y broses ar gyfer atebolrwydd a thryloywder democrataidd, gan gynnwys pa wybodaeth a fydd ar gael i lywodraethwyr, awdurdodau lleol neu esgobaethol, rhieni, gofalwyr a'r cyhoedd. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru:<br>a) yn sefydlu pa wybodaeth sydd ei hangen ar y rhai sy'n gyfrifol am ddwyn ysgolion i gyfrif fel rhan o ymagwedd newydd at atebolrwydd; a<br>b) yn nodi manylion ar sut y bydd yn sicrhau tryloywder i rieni, dysgwyr a'r cyhoedd.<br><br>Sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn parhau i fod yn addas i bwrpas<br>A6 - Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn cyflwyno gofyniad i Weinidogion barhau i adolygu'r cwricwlwm newydd. Nid yw'n nodi'r mecanwaith ar gyfer adolygiad cylchol. Rydym yn argymell, unwaith y bydd y garreg filltir o addysgu'r cwricwlwm newydd am y tro cyntaf wedi'i chyflawni, bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y mae'n bwriadu adolygu'r cwricwlwm yn barhaus er mwyn sicrhau y gall ymsefydlu ac eto aros yn addas i bwrpas. | |
| [Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol Oedolion]() | Yn Rhan 1 rydym yn nodi sut mae awdurdodau lleol yn hyrwyddo ac yn codi ymwybyddiaeth o Daliadau Uniongyrchol (paragraffau 1.2 i 1.7). Er mwyn sicrhau bod pobl yn gwybod am Daliadau Uniongyrchol, sut i gael mynediad at y gwasanaethau hyn ac yn cael eu hannog i fanteisio arnynt, rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn:<br>A1 - Adolygu gwybodaeth gyhoeddus mewn trafodaeth â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i sicrhau ei bod yn glir, yn gryno ac yn esbonio'n llawn yr hyn y mae angen iddynt ei wybod am Daliadau Uniongyrchol.<br>A2 - Ymgymryd â gwaith hyrwyddo ychwanegol i annog pobl i fanteisio ar Daliadau Uniongyrchol.<br>A3 - Sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth yn cael eu hystyried ar y pwynt cyswllt cyntaf i roi cyngor annibynnol ar Daliadau Uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.<br><br>Yn Rhan 1 rydym yn nodi pwysigrwydd y sgwrs 'Beth sy'n Bwysig' a phwysigrwydd gweithwyr cymdeithasol i helpu pobl i wneud dewisiadau gwybodus ar Daliadau Uniongyrchol (paragraffau 1.8 i 1.13). Er mwyn sicrhau bod Taliadau Uniongyrchol yn cael eu cynnig yn gyson, rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn:<br>A4 - Sicrhau bod gwybodaeth am Daliadau Uniongyrchol ar gael wrth ddrws ffrynt gofal cymdeithasol ac yn cael ei chynnwys yn y drafodaeth gychwynnol ar yr opsiynau gofal sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.<br>A5 - Darparu hyfforddiant i weithwyr cymdeithasol ar Daliadau Uniongyrchol i sicrhau eu bod yn deall eu potensial yn llawn ac yn teimlo'n hyderus yn ei hyrwyddo i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.<br><br>Yn Rhan 2 rydym yn amlygu rôl ganolog Cynorthwywyr Personol wrth helpu defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i gael y canlyniadau cadarnhaol gorau o'u defnydd o Daliadau Uniongyrchol (paragraffau 2.2 i 2.7). Er mwyn sicrhau bod digon o gapasiti Cynorthwywyr Personol, rydym yn argymell bod awdurdodau lleol drwy Fforwm Taliadau Uniongyrchol awdurdodau lleol Cymru Gyfan a Gofal Cymdeithasol Cymru yn:<br>A6 - Cydweithio i ddatblygu Cynllun Recriwtio a Chadw ar y cyd ar gyfer Cynorthwywyr Personol. | A1. Adolygiad ar y gweill o bolisi, deunydd canllaw, a gwefan.<br>A2. Codi ymwybyddiaeth gweithwyr cymdeithasol trwy sesiynau hyfforddi a chynhadledd staff. Ceisio adborth gan y rhai ar Daliadau Uniongyrchol a'r rhai a wrthodwyd/a stopiwyd.<br>A3. Opsiynau eiriolaeth ar gael i holl ddefnyddwyr y Gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol a Gofalwyr, gan hyrwyddo ymagwedd a arweinir gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth. Mae defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn cael y cyfle i ddewis darparwr addas sy'n adlewyrchu eu hanghenion<br>A4. Unwaith y bydd angen gofal wedi'i bennu, cynhelir sgwrs am opsiynau. Uno Teulu Môn a SPOA i sicrhau bod cyngor cyson yn cael ei ddarparu ar opsiynau gofal. Rhaglen waith wedi'i datblygu.<br>R5. Tîm Taliadau Uniongyrchol i gydlynu hyfforddiant i wasanaethau gofal cymdeithasol.<br>Fel uchod – rhaglen waith wedi'i datblygu.<br>A6. Mae NWAAA yn cynnal cronfa ddata Cynorthwywyr Personol a rôl Swyddog Adolygu a Datblygu Taliadau Uniongyrchol newydd a grëwyd ym mis Mai 2022 i helpu i lenwi swyddi gwag Cynorthwywyr Personol.<br>A7. Polisi yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.<br>A8. Amh<br>A9. Mae swyddogion yn mynychu grwpiau rhanbarthol a Chymru gyfan ac yn bwydo i mewn i ddatblygiadau ac yn chwarae rhan mewn trafodaethau.<br>A10. Aros am arweiniad gan Lywodraeth Cymru ynghylch gwybodaeth perfformiad i'w chyhoeddi mor gyson ag Awdurdodau Lleol eraill.<br>Cerdyn sgorio Perfformiad Lleol wedi'i greu. Bydd yn cael ei addasu unwaith y bydd cyngor LlC wedi'i dderbyn, os oes angen.<br>Bydd mesurau perfformiad ystadegol lleol yn cael eu hystyried yn y cyfamser, e.e. adolygu cynlluniau gofal yn cael eu cwblhau'n flynyddol. |

| | | |
|---|---|---|
| | Yn Rhan 2 rydym yn tynnu sylw at y ffaith, er bod awdurdodau lleol yn cydnabod gwerth Taliadau Uniongyrchol o ran cefnogi annibyniaeth a gwella llesiant, mae'r gwahaniaethau o ran dull gweithredu, safonau a'r swm a delir yn golygu bod pobl ag anghenion tebyg yn cael lefelau gwahanol o wasanaeth (paragraffau 2.9 i 2.18 a 2.23 i 2.27). Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n deg ac yn deg, rydym yn argymell bod awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru:<br>A7 - Egluro disgwyliadau polisi mewn iaith syml a hygyrch a nodi:<br>• yr hyn y gall Taliadau Uniongyrchol dalu amdano.<br>• sut mae prosesau ymgeisio ac asesu, amserlenni a phrosesau adolygu yn gweithio.<br>• sut y bydd monitro taliadau unigol a'r gwaith papur sydd ei angen i ddilysu taliadau yn gweithio.<br>• sut y bydd arian nas defnyddiwyd yn cael ei drin ac a ellir ei fancio; a<br>• sut i weinyddu a rheoli cyllidebau cyfun.<br>Dylid adolygu gwybodaeth gyhoeddus yn rheolaidd (bob dwy flynedd o leiaf) i sicrhau ei bod yn gweithio'n effeithiol ac yn parhau'n berthnasol.<br><br>Yn Rhan 2 rydym yn amlygu anawsterau yn y rhyngwyneb rhwng gofal iechyd parhaus y GIG a Thaliadau Uniongyrchol ac yn nodi nad yw arferion presennol yn cefnogi defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i arfer llais, dewis a rheolaeth (paragraffau 2.28 i 2.31). Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru:<br>A8 - Sicrhau bod gan bobl sy'n derbyn gofal iechyd parhaus y GIG a Thaliadau Uniongyrchol fwy o lais, dewis a rheolaeth wrth wneud penderfyniadau.<br><br>Yn Rhan 3 nodwn ei bod yn bwysig cael y dangosyddion perfformiad cywir ac adrodd yn rheolaidd ar berfformiad yn erbyn y rhain er mwyn i awdurdodau lleol reoli perfformiad gweithredol, nodi meysydd i'w gwella a gwerthuso effaith gadarnhaol gwasanaethau (paragraffau 3.8 i 3.10). Er mwyn rheoli perfformiad yn effeithiol a gallu barnu effaith a gwerth am arian Taliadau Uniongyrchol, rydym yn argymell bod awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn:<br>A9 - Cydweithio i sefydlu system i werthuso Taliadau Uniongyrchol yn llawn sy'n cynnwys pob elfen o'r broses – gwybodaeth, hyrwyddo, asesu, rheoli a gwerthuso'r effaith ar les ac annibyniaeth.<br>A10 - Cyhoeddi gwybodaeth perfformiad yn flynyddol ar gyfer pob elfen o Daliadau Uniongyrchol er mwyn galluogi golwg system gyfan ar gyflawni ac effaith er mwyn cefnogi gwelliant. | |
| Cyngor Sir Ynys Mon – Llamu Ymlaen | Gweledigaeth, strategaethau, cynlluniau cyflawni a'r egwyddor datblygu cynaliadwy<br>A1 - Mae angen i'r Cyngor ddangos bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth galon ei ystyriaethau, gan wreiddio'r gwersi a ddysgwyd o'r pandemig, gan ei fod yn:<br>• datblygu gweledigaeth y Cyngor ar gyfer siâp a maint ei asedau tir ac adeiladau a'i weithlu yn y tymor byr, canolig a hir.<br>• datblygu strategaeth asedau sy'n dangos ystyriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac sydd wedi'i hintegreiddio'n llawn â blaenoriaethau allweddol megis y rhaglenni Moderneiddio a Carbon Sero Net;<br>• diweddaru'r strategaeth gweithlu i ddangos bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei chymhwyso a'i bod wedi'i hintegreiddio'n llawn â blaenoriaethau allweddol megis y rhaglenni Moderneiddio a Carbon Sero Net; a<br>• datblygu cynlluniau cyflawni wedi'u costio<br><br>Data a meincnodi<br>A2 - Datblygu'r defnydd o ddata a meincnodi i lywio cynllunio, pennu cyllidebau, a monitro ac asesu llwyddiant hirdymor ei fentrau asedau a'r gweithlu. | Asedau: Mae'r Gwasanaeth yn y broses o ddatblygu cynllun rheoli asedau corfforaethol newydd, i ddarparu, cynnal a rheoli adeiladau a lleoedd y gallwn fod yn falch ohonynt. Cynllun 10 mlynedd yn nodi ein nodau i reoli ein hasedau mewn ffordd gynaliadwy, gan gyfrannu at gyflawni nod sero net y Cyngor tra hefyd yn sicrhau bod anghenion ein cymunedau yn cael eu diwallu i alluogi pobl i fod yn iach, ac i ffynnu.<br><br>Byddwn yn anelu at wneud y mwyaf o gyfleoedd incwm a dod ag incwm ychwanegol i'w fuddsoddi, i ddiogelu a chynnal ein hasedau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.<br><br>Hefyd yn datblygu Cynllun Rheoli Mân-ddaliadau wedi'i ddiweddaru, sy'n nodi ein hamcanion i ddarparu ystâd mân-ddaliadau cynaliadwy addas i bwrpas, tra'n cyfrannu at gyflawni cynllun sero net y Cyngor.<br><br>Byddwn yn adolygu ac yn mesur ein perfformiad yn rheolaidd, gan gymryd camau i fynd i'r afael â diffygion a heriau. Sefydlu grŵp eiddo strategol i fabwysiadu proses flaenoriaethu gyson a arweinir gan ddata a gwasanaeth.<br><br>Gweithlu: Mae'r gwasanaeth yn y broses o adolygu ei strategaeth Gweithlu i ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r hyn a ddysgwyd o'r pandemig. Mae Strategaeth Cynllunio'r Gweithlu 2022-2025 i'w lansio gan osod gweledigaeth ar gyfer dyfodol y gweithlu. Byddwn yn parhau i ymgorffori |

| | | |
|---|---|---|
| | | blaenoriaethau allweddol lle bo'n briodol ac rydym yn gweithio gyda'r Rheolwr Net Zero i lunio modiwlau hyfforddi perthnasol.<br>Rydym yn cynnal ymarfer meincnodi rheolaidd ac yn adrodd i gyrff perthnasol i gymharu â chynghorau eraill. Byddwn yn parhau i wneud hyn ac rydym wrthi'n adolygu strategaethau meincnodi. |
| Adfywio Canol Trefi yng Nghymru | A1 - Nid yw ardrethi annomestig wedi'u hadolygu yn y blynyddoedd diwethaf, ac nid yw'r lefelau a godir yn adlewyrchu'r rhenti presennol a gyflawnir mewn llawer o ganol trefi. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu Cyfraddau Annomestig i sicrhau bod y system yn adlewyrchu amodau canol y dref yn well pan ddaw'r gwyliau taliadau i ben ym mis Mawrth 2022.<br>A2 - Mae codi tâl am barcio ceir, mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a seilwaith trafnidiaeth gwael yn effeithio'n andwyol ar lawer o fusnesau canol tref. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i adolygu'r heriau trafnidiaeth sy'n wynebu canol trefi a chytuno ar y ffordd orau o fynd i'r afael â'r rhain.<br>A3 - Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu a denu ychydig o dan £900 miliwn yn uniongyrchol drwy 13 o gynlluniau ariannu i helpu i adfywio canol trefi. Fodd bynnag, mae rhai agweddau ar reolaeth Llywodraeth Cymru o'r cyllid yn cael eu hystyried yn broblemus. Er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu gwneud y mwyaf o effaith cyllid a mynd i'r afael â'r problemau anoddach a hirsefydlog a fyddai'n helpu i drawsnewid canol eu trefi, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru:<br>• cydgrynhoi cyllid i leihau biwrocratiaeth drwy symleiddio prosesau ac amodau grant a chadw ceisiadau am wybodaeth a deunyddiau ategol mor isel â phosibl.<br>• symud oddi wrth gylchoedd bidio blynyddol i ddyraniadau aml-flwyddyn; a<br>• ail-gydbwyso buddsoddiad o gyfalaf i refeniw i helpu awdurdodau lleol i fynd i'r afael â chapasiti staff a phrinder sgiliau.<br>A4 Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi hyfforddiant i bob un o'r 22 awdurdod lleol ar y ffordd orau o ddefnyddio pwerau gorfodi, cymorth ariannol ac adennill dyledion presennol, ond nid ydynt yn cael eu defnyddio'n gyson nac yn effeithiol i gefnogi adfywio. Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn cymryd camau priodol, gan ddefnyddio'r pwerau presennol a'r adnoddau sydd ar gael i gyflawni'r canlyniad gorau posibl i ganol trefi drwy:<br>• defnyddio dulliau gorfodi amgen cyn defnyddio Gorchmynion Prynu Gorfodol fel y dewis olaf.<br>• integreiddio strategaethau gorfodi â strategaethau adrannol ehangach ar draws timau tai, iechyd yr amgylchedd, cynllunio ac adfywio i wneud defnydd mwy effeithiol o sgiliau ac adnoddau presennol; a<br>• sicrhau bod y gallu a'r arbenigedd cywir i ddefnyddio'r ystod lawn o bwerau, gan gydweithio â chynghorau eraill i gyflawni canlyniadau da.<br>A5 - Mae dull 'Canol Trefi yn Gyntaf' Llywodraeth Cymru yn ceisio rhoi iechyd canol trefi wrth wraidd y penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, y sector cyhoeddus ehangach, busnesau a chymunedau. Mae hyn yn gofyn am lefel uchel o integreiddio rhwng fframweithiau polisi trawsbynciol a gwneud penderfyniadau i hyrwyddo canol trefi uwchlaw llawer o bethau eraill. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni hyn yn ymarferol, ei disgwyliadau o bartneriaid a'r camau ymarferol y bydd yn eu cymryd i wireddu'r uchelgais hwn.<br>A6 - Mae canol trefi yn newid, ac mae angen i awdurdodau lleol fod yn barod i dderbyn y newidiadau hyn a chynllunio i reoli'r sifftiau hyn. Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn defnyddio ein hofferyn adfywio i hunanasesu eu dulliau presennol o nodi lle mae angen iddynt wella eu gwaith ar adfywio canol trefi. (gellir cael mynediad at y teclyn yma). | A1 - Mae LlC wedi trefnu i restrau ardrethu newydd gael eu cyflwyno yng Nghymru o 1 Ebrill 2023, lle bydd gwerth ardrethol newydd yn cael ei neilltuo i bob eiddo annomestig yn seiliedig ar ei werth rhent blynyddol amcangyfrifedig ar 01.04.2021<br>A2- Mae LlC yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol ar faterion trafnidiaeth ac yn darparu cyllid cysylltiedig e.e. mae CSYM yn derbyn cyllid ar gyfer gwelliannau i arosfannau bysiau canol tref a phwyntiau gwefru cerbydau trydan R3 - Mae LlC wedi cydgrynhoi ei chyllid canol tref o dan y brand 'Trawsnewid Trefi', wedi sicrhau dyraniadau aml-flwyddyn, a darparwyd peth cyllid refeniw cyfyngedig dros dro (yn ogystal â chyfalaf). Nid yw'r cyllid refeniw hwn gan Lywodraeth Cymru yn ddigon mawr nac yn ddigon hirdymor i fynd i'r afael â'r angen am gapasiti staff penodol yng nghanol trefi ALlau, ac mae CSYM yn ystyried yr opsiwn o geisio cyllid newydd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.<br>A4 - Darparodd LlC ddau sesiwn hyfforddi gorfodi canol tref i swyddogion ac aelodau/uwch reolwyr CSYM, gyda nifer dda yn bresennol. Mae CSYM wedi paratoi cynllun gweithredu gorfodi eiddo gwag trawsadrannol yng nghanol y dref yn unol â chais Llywodraeth Cymru, ac mae'n mynd i'r afael â nifer o safleoedd problemus hirdymor, gan gynnwys sicrhau perchnogaeth (drwy negodi neu GPG) a chyllid i ailddatblygu Clwb Cymdeithasol Biwmares a Phlas Alltran ar gyfer defnydd tai. Mae capasiti staffio ar gyfer cynllunio a chyflawni prosiectau yn parhau i fod yn broblem.<br>A5 - Mae LlC wedi gwneud nifer o gyhoeddiadau ynghylch yr angen i flaenoriaethu a chefnogi canol trefi ac mae'n rhoi canllawiau manwl i awdurdodau lleol ar sut i wneud hynny. Yn ddiweddar cyhoeddwyd canllawiau i ALlau ar baratoi Cynlluniau Creu Lle ar gyfer canol trefi ac mae CSYM yn y broses o ddrafftio'r rhain. Cynhaliodd CSYM arolwg o'i bum canol tref ym mis Mehefin 2022 i fapio a meintioli eiddo gwag neu unrhyw eiddo sy'n cael effaith andwyol ar edrychiad yr ardal er mwyn llywio'r gwaith hwn.<br>A6 - Mae CSYM wedi cwblhau'r broses hunanasesu, a chyflwynwyd adroddiad ar hyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Chwefror 2022. |

| | | |
|---|---|---|
| **Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Adolygiad Cynnydd Bargen Twf Gogledd Cymru** | Cynigion ar gyfer gwella<br>C1 - Dylai cynghorau Gogledd Cymru, drwy’r Bwrdd Uchelgais, ddatblygu strategaeth rheoli risg a datblygu cofrestr risg sy’n cynnwys ystyried risgiau newydd i brosiectau a gyflwynir gan amgylchiadau allanol megis Brexit, COVID-19 a phwysau eraill ar yr economi leol.<br>C2 - Dylai cynghorau Gogledd Cymru, drwy'r Bwrdd Uchelgais, ehangu eu cysylltiadau â'r gymuned fusnes i gynyddu cyfleoedd i gefnogi cyflawni eu hamcanion.<br>C3 - Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau’n adlewyrchu’r angen i gynnal tryloywder a gwerthoedd y sector cyhoeddus wrth wneud penderfyniadau wrth weithredu yn yr amgylchedd busnes cystadleuol a masnachol iawn.<br>C4 - Sefydlu proses graffu ffurfiol ac amserol o’r Bwrdd Uchelgais i ddarparu tryloywder cyhoeddus ac sy’n rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r cynghorau sy’n noddi.<br>C5 - Datblygu cytundebau sy'n nodi'n glir y cymorth a ddarperir i'r SRhP gan Gyngor Gwynedd megis llywodraethu, adnoddau dynol a chyllid.<br>C6 - Wrth adolygu dichonoldeb prosiectau unigol, diffiniwch sut mae pob un yn cyfrannu at gyflawni saith Nod Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. | C1 - Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi datblygu eu cofrestrau risg eu hunain ar y prosiectau y mae'n gyfrifol am eu cyflawni. Trwy'r Byrddau Prosiect, mae'r cynghorau'n bwydo i mewn i'r AP.<br>C2 - Lle mae capasiti ac adnoddau’n caniatáu, mae’r cynghorau’n parhau i feithrin perthnasoedd â’r gymuned fusnes yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol drwy bartneriaid/rhanddeiliaid<br>C3 - Mae Byrddau Prosiect wedi'u sefydlu i herio'r prosiectau a sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r angen i gynnal tryloywder wrth wneud penderfyniadau ac mae cyfleoedd hefyd i graffu ymhellach drwy Arweinwyr Cynghorau a sesiynau gyda chynghorau unigol.<br>C4 - Gweler uchod<br>C5 - Mae hwn wedi'i nodi a'i gytuno ar draws yr holl gynghorau yn y cytundeb GA2 gyda'r Bwrdd Uchelgais<br>P6 - Ymdrinnir â'r agwedd hon fel rhan o'r Achosion Busnes Amlinellol a Llawn sy'n cael eu cwblhau gan y PMO fel rhan o gamau amrywiol y prosiect |
| **Cyngor Sir Ynys Mon – Cynllunio'r Gweithlu** | Gweithredu cynllun y gweithlu<br>A1 - Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod cynlluniau gweithlu adrannol yn cael eu ffurfioli, eu mabwysiadu a'u gweithredu ar draws yr holl wasanaethau. Sicrwydd bod Cynlluniau Gweithlu yn ddogfennau byw<br>A2 - Rhaid i'r Cyngor ddylunio a gwreiddio prosesau gwerthuso clir, gyda mesurau perfformiad, ym mhob un o bum cam y broses er mwyn sicrhau ei hun ei fod yn ystyried ac yn ymateb yn rhagweithiol i faterion cynllunio'r gweithlu a galw am wasanaethau yn briodol a thrwy hynny reoli risgiau ei weithlu yn effeithiol. | Rydym yn y broses o lansio cynllun gweithlu 2022-2025 sydd â’r nod o adlewyrchu’r 5 ffordd o weithio ac sy’n rhoi arweiniad i Benaethiaid Gwasanaeth a Rheolwyr Gwasanaeth i sicrhau bod eu hadolygiadau o’r gweithlu yn cynnwys agweddau megis gwersi a ddysgwyd o’r pandemig, ynghyd ag ystyried a dadansoddi unrhyw ddata gwerthfawr sydd ar gael i'w gwasanaeth. Mae Swyddogion AD y Gwasanaeth yn parhau i gynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Phenaethiaid Gwasanaeth i drafod eu cynllun gweithlu, sy'n cynnwys trafodaethau ar risgiau a galwadau posibl o fewn y gwasanaeth. |
| **Cyngor Sir Ynys Mon – Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol** | Strategaeth Rheoli Asedau<br>A1 Mae angen diweddaru a chymeradwyo Cynllun Rheoli Asedau’r Cyngor. | Mae'r Gwasanaeth yn y broses o ddatblygu cynllun rheoli asedau corfforaethol newydd. Cynllun 10 mlynedd yn nodi ein nodau i reoli ein hasedau mewn ffordd gynaliadwy, gan gyfrannu at gyflawni nod sero net y Cyngor tra hefyd yn sicrhau bod anghenion ein cymunedau yn cael eu diwallu. |

Rydym yn cynnig dileu'r adroddiadau ac argymhellion canlynol:

| Enw'r Adroddiad | Argymhellion / Cyfleoedd | Ymateb Cyngor Ynys Môn | Cynnigion |
|---|---|---|---|
| Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Pandemig COVID-19 | **Parodrwydd ar gyfer clefydau pandemig yn y dyfodol**<br><br>**A1** Fel rhan o ddull gwersi-a-ddysgwyd ehangach, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda gwledydd eraill y DU lle y bo'n bosibl i ddiweddaru cynlluniau i gadw pentwr ar gyfer pandemig i sicrhau ei fod yn ddigon hyblyg i ateb galwadau pandemig a allai ddeillio o wahanol fathau o feirysau.<br><br>**A2** Wrth ddiweddaru ei chynlluniau ei hun ar gyfer ymateb i bandemig yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru gydweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill i ddiffinio set o drefniadau llywodraethu ar draws y sector cyhoeddus ar gyfer cynllunio, caffael a chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol fel nad oes angen datblygu'r rhain o'r dechrau un.<br><br>**A3** Dylai'r Cydwasanaethau weithio gyda'r GIG a chyrff y sector gofal cymdeithasol i gynnal system gwybodaeth reoli gyfoes ar gyfer stoc sy'n darparu data amserol ar stociau lleol a chenedlaethol o Gyfarpar Diogelu Personol y gellir tynnu arnynt yn gyflym mewn pandemig yn y dyfodol i gefnogi amcanestyniadau o'r galw ac argaeledd yn ogystal â darparu ffynhonnell wybodaeth gadarn ar gyfer briffio rhanddeiliaid. | Ar ddechrau'r pandemig, nid oedd gan CSYM gyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol (PPE) ar gyfer Covid ac nid oedd ganddo gyfleusterau storio a dosbarthu. Llwyddodd y Cyngor i ddyfeisio canllawiau perthnasol i ddelio â phrinder cenedlaethol ar ddechrau'r pandemig, datblygu tîm PPE, sefydlu storfa a rheoli stoc i sicrhau bod staff a lleoliadau gofal yn derbyn cyflenwad rheolaidd a digonol o PPE. Roedd y gwaith wedi'i drefnu'n dda ac roedd yna gyswllt rheolaidd â LlC. Derbyniwyd cyflenwadau rheolaidd ganddynt, a gwelwyd gwaith da ar draws yr Awdurdod.<br>Roedd y Storfa Fenthyca Gymunedol a Chludiant Cymunedol Môn yn amhrisiadwy a dylid eu cynnwys mewn unrhyw bolisi cynllunio argyfwng Corfforaethol yn y dyfodol. Roedd y pandemig wedi gorfodi Awdurdodau Lleol i symleiddio'r broses gwneud penderfyniadau ac i wneud y llinellau cyfathrebu yn fyrrach ac roedd hynny wedi caniatáu i reolaeth weithredol weithio'n iawn.<br><br>Hefyd, sefydlodd y Cyngor drefniant cydweithio yn gysylltiedig â monitro aer a datblygu gwybodaeth gyda meddyg lleol cyn i'r llywodraeth gyhoeddi canllawiau. Yn yr un modd, mae'r Cyngor yn edrych ar buryddion aer ar hyn o bryd ac mae'n ymddangos ei fod ychydig ar y blaen i ganllawiau a gyhoeddwyd gan y llywodraeth.<br>Ar gyfer gweddill y pandemig covid, byddem yn gwerthfawrogi ymchwil pellach a pholisi clir/canllawiau ar fasgliau/masgliau clir. | Nid oes unrhyw ofynion i gyflenwi staff gyda PPE ac nid oes angen i fonitro'r argymhellion hyn.<br><br>Fodd bynnag, bydd y canfyddiadau sy'n ymwneud ag Awdurdodau Lleol yn cael eu gweithredu fel rhan o wersi a ddysgir yn y dyfodol os bydd angen.<br><br>**Cynnig dileu** |
| Profi, Olrhain, Diogelu yng Nghymru: Trosolwg o'r Cynnydd Hyd Yma | Yn ogystal â gwneud sylwadau am gyflawni'r rhaglen POD hyd at a chan gynnwys ym mis Rhagfyr 2020,<br>mae'r adroddiad yn nodi rhai heriau a chyfleoedd a fydd yn dod i'r amlwg fel rhan o'r frwydr barhaus i reoli COVID-19.<br><br>**Negeseuon allweddol**:<br>• Wrth gyflawni'r rhaglen POD gwelwyd gwahanol rannau o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru'n cydweithio'n dda, mewn partneriaethau cryf ac effeithiol, i fynd ati'n gyflym i greu rhaglen o weithgareddau sy'n gwneud cyfraniad pwysig at reoli COVID-19 yng Nghymru.<br>• Mae gan gyfluniad y system POD yng Nghymru nifer o gryfderau, gan gyfuno goruchwyliaeth ac arbenigedd technegol cenedlaethol â pherchnogaeth leol a rhanbarthol ar y rhaglen, a'r gallu i ddefnyddio gwybodaeth a chudd-wybodaeth leol i lunio ymatebion.<br>• Mae trefniadau ar gyfer profi ac olrhain cysylltiadau wedi esblygu wrth i'r pandemig ddatblygu. Ond mae cynnal y perfformiad gofynnol yn y meysydd hyn wedi profi'n her yn wyneb galw cynyddol.<br>• Mae POD yn rhan hollbwysig o ddull Llywodraeth Cymru ond nid dyma'r unig ffordd y mae wedi bod yn ceisio atal y feirws rhag ymledu. Er gwaethaf gweithgarwch profi ac olrhain cynyddol, mae'r feirws wedi parhau i ymledu. Yng Nghymru, | • Cael gwybodaeth well i wella effeithlonrwydd ac arfarnu effaith Profi, Olrhain, Diogelu<br>- Roedd defnyddio Power BI yn golygu bod data rhanbarthol wedi'i ddiweddaru'n rheolaidd ar effaith covid ar gael i alluogi timau i arfarnu eu hardaloedd awdurdod lleol ac i wneud cymariaethau â rhanbarthau eraill ledled Cymru neu'r rhanbarth.<br>- Sefydlwyd tîm mewnol i fonitro data Iechyd Cyhoeddus Cymru a BIPBC ochr yn ochr â data Profi, Olrhain a Diogelu lleol i nodi tueddiadau ac i ddyrannu adnoddau<br><br>• Sicrhau fod gweithgareddau profi yn addas i bwrpas a'u bod yn cwrdd â'r galw cynyddol<br>- Sefydlu perthynas waith agos a chadarnhaol rhwng CSYM a BIPBC i sicrhau bod cyfleusterau profi ar gael ar Ynys Môn<br>- Safleoedd profi dros dro wedi eu lleoli yn y 4 prif dref, yn cynnwys Amlwch, Caergybi, Llanfairpwll a Llangefni, ar sail cylchdro<br>- Dyrannwyd adnoddau i ardaloedd lle cafwyd clwstwr o achosion neu lle'r oedd niferoedd yn cynyddu<br>- Sefydlwyd safleoedd profi ychwanegol pan oedd angen er mwyn cynyddu capasiti ar yr ynys<br>- Rhoddwyd cyfleusterau profi ychwanegol ar waith mewn ardaloedd lle cafwyd achosion sylweddol, roedd hyn yn cynnwys dosbarthu profion, manau casglu profion LFD, safleoedd profion LFD a safleoedd profion PCR<br>- Canolfannau casglu profion LFD mewn canolfannau hamdden | Daeth Profi, Olrhain, Diogelu (TTP) Ynys Môn i ben ar 30 Mehefin 2022. Mae tua 5% o'r staff wedi bod yn rhan o'r TTP Rhanbarthol dan reolaeth Cyngor Sir y Fflint. Ni chynhelir unrhyw adroddiadau uniongyrchol / rheolaidd ac fe'n harweinir i gredu y bydd y swyddogaeth lai hwn yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2022.<br><br>**Cynnig dileu** |

| Enw'r Adroddiad | Argymhellion / Cyfleoedd | Ymateb Cyngor Ynys Môn | Cynnigion |
|---|---|---|---|
| | fel mewn rhannau eraill o'r DU ac yn rhyngwladol, bu angen ategu gweithgarwch profi ac olrhain â chyfyngiadau symud lleol a chenedlaethol mwyfwy caeth mewn ymgais i leihau cyfraddau trosglwyddo.<br><br>**Heriau a chyfleoedd allweddol:**<br>• Bod â gwybodaeth well i wella effeithlonrwydd a gwerthuso effaith POD<br>• Sicrhau bod gweithgareddau profi'n addas ar gyfer y diben ac yn ateb y galw cynyddol<br>• Creu gweithlu medrus a gwydn i gyflawni DOP<br>• Dylanwadu ar y cyhoedd i ddilyn canllawiau a gofynion diogelu iechyd y cyhoedd<br>• Cymhwyso'r gwersi o'r rhaglen POD i raglenni eraill a ffyrdd o weithio yn y dyfodol | - Dosbarthu profion LFD mewn ysgolion ar gyfer staff a disgyblion o oedran priodol<br><br>• Creu gweithlu medrus, gwydn i ddarparu gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu<br>- Disgrifiad swydd rhanbarthol i sicrhau ymgynghorwyr ac olrheinwyr addas a phrofiadol<br>- Ymgyrchoedd recriwtio ar lefel rhanbarthol a lleol drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod nifer cyson o staff medrus wedi'u penodi<br>- Rhaglen hyfforddi gynhwysfawr ar gyfer staff newydd yn cynnwys cysgodi, cyfarfodydd tîm a chwarae rôl<br>- Datblygiad parhaus trwy sesiynau hyfforddi ar gyfer yr holl staff i sicrhau cysondeb<br><br>• Dylanwadu ar y cyhoedd i ddilyn canllawiau a gofynion iechyd cyhoeddus<br>- Sefydlwyd tîm cyfathrebu mewnol a oedd yn cynnwys gwarchod y cyhoedd, addysg, tîm dadansoddi data a Profi, Olrhain a Diogelu i rannu gwybodaeth berthnasol â'r cyhoedd trwy'r cyfryngau cymdeithasol, y wefan gorfforaethol a negeseuon e-bost mewnol i staff.<br>- Ynys Môn oedd yr awdurdod lleol cyntaf yn y rhanbarth i ddefnyddio technoleg map i nodi lleoliadau achosion positif ar draws yr ynys er mwyn codi ymwybyddiaeth am y niferoedd cynyddol, ac roedd gwybodaeth a chyngor lleol yn cael ei ddefnyddio i gyd-fynd â hyn hefyd<br>- Rhoddodd Arweinydd y Cyngor gyfweliadau dros y ffôn, ar y teledu, ar y radio ac i bapurau newydd i godi ymwybyddiaeth am wybodaeth leol a chenedlaethol<br>- Darlledwyd diweddariadau wythnosol ar radio Môn FM ar y sefyllfa ddiweddaraf ar draws Ynys Môn<br>- Cyfarfodydd rheolaidd gyda'n darparwyr allanol i rannu gwybodaeth a thueddiadau ac yna roeddent yn helpu i rannu'r negeseuon â'r cyhoedd<br><br>• Defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r rhaglen Brofi, Olrhain a Diogelu mewn rhaglenni eraill a ffyrdd o weithio yn y dyfodol<br>- Mae'r cyngor yn datblygu ac yn dysgu'n barhaus o newidiadau i raglenni, prosiectau a pholisi<br>- Mae cofnodion 'gwersi a ddysgwyd' yn cael eu creu yn dilyn digwyddiadau mawr ac fe'u defnyddiwyd i gefnogi awdurdodau lleol eraill wrth ddelio gyda digwyddiadau tebyg.<br>- Sefydlwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda thimau rhanbarthol a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, BIPBC, Iechyd Cyhoeddus Cymru i rannu materion/risgiau neu bryderon a thrafod ffordd ymlaen a chynnig/cytuno ar newidiadau<br><br>Cyfarfod wythnosol gyda'r Dirprwy Brif Weithredwr yn Cadeirio gyda | |

| Enw'r Adroddiad | Argymhellion / Cyfleoedd | Ymateb Cyngor Ynys Môn | Cynnigion |
|---|---|---|---|
| | | chynrychiolwyr o BIPBC, ICC, addysg, Heddlu Gogledd Cymru, y Gwasanaethau Cymdeithasol, Profi, y gwasanaeth ambiwlans i gynllunio, paratoi a dysgu. | |
| Rheolaeth ariannol a llywodraethu - Cynghorau tref a chymuned 2018-19 | - Mae cynghorau cymuned yn rheoli mwy o arian ond mae cyfle i adolygu gwasanaethau a chyllidebau<br>- Dim ond 66% o gynghorau a gydymffurfiodd â'r terfyn amser statudol ar gyfer cyhoeddi cyfrifon Archwiliedig<br>- Mae nifer yr archwiliadau â barn amodol wedi cwympo ond mae'r nifer cyfredol, sef 218 o gynghorau, yn rhy uchel o hyd<br>- Fe arweiniodd problemau arwyddocaol at gyhoeddi adroddiadau er budd y cyhoedd ar 12 o gynghorau<br>- Archwiliad 2019-20 yw'r archwiliad olaf dan y trefniadau presennol a gofynnir am farn cynghorau ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig | Nid oes gan y Cyngor unrhyw gyfrifoldeb dros gyllid Cynghorau Cymuned nac am roi unrhyw un o'r argymhellion yn yr adroddiad ar waith. | Mae ymateb yr Awdurdod yn dderbyniol o dan yr amgylchiadau presennol<br><br>**A Cynnig dileu** |
| Papur Trafod: Chwe thema er mwyn helpu i wneud craffu yn 'Barod at y Dyfodol' | **Mae angen egluro rolau a chyfrifoldebau mewn rhai cynghorau o hyd, ac mae hyn yn hanfodol er mwyn craffu'n llwyddiannus**<br>Dylai cynghorau ystyried a oes gan yr aelodau etholedig a'r swyddogion ddealltwriaeth gadarn o'r rolau a'r cyfrifoldebau. A beth mae hyn yn ei olygu o safbwynt y ffordd y caiff cefnogaeth a swyddogaethau craffu eu strwythuro; a sut caiff gweithgareddau craffu eu cynllunio a'u cynnal.<br>**Mae llawer o gynghorau yn dal i gydnabod yr angen i wella'r trefniadau ymgysylltu â'r cyhoedd wrth graffu, ond mewn nifer o gynghorau, bydd hyn yn gofyn am newid sylweddol yn yr ymarfer craffu**<br>Yng ngoleuni'r heriau presennol ac i'r dyfodol, mae gan gynghorau gyfle i ailwerthuso'r hyn y maent yn ceisio'i gyflawni o ran ymgysylltu â'r cyhoedd. Byddai mynd ati i ailfeddwl yn gyfan gwbl ynglŷn â'r ffordd y maent yn cynllunio ac yn cynnal gweithgareddau craffu yn helpu i gyflawni hyn. Fel rhan o hyn gallent ystyried:<br>• diffinio'n glir eu huchelgeisiau i geisio ymgysylltu â'r cyhoedd wrth drosolygu a chraffu;<br>• sut gall gwell technoleg eu helpu i ymgysylltu'n rhwyddach ac yn fwy costeffeithiol;<br>• a yw'r ffordd y mae swyddogaethau craffu yn 'gweithredu' yn ffafriol i ymgysylltu'n rhagweithiol â'r cyhoedd a chynnwys rhanddeiliaid eraill; ac<br>• a ydynt yn meddu ar y gefnogaeth briodol o ran swyddogion sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad iawn yn ogystal â rhaglen o hyfforddiant, datblygu a chefnogaeth TGCh i aelodau fel bod y | **Cadarnhau rolau a chyfrifoldebau**<br>Datblygodd yr Awdurdod weledigaeth a strategaeth ar gyfer Sgriwtini y cytunodd y Pwyllgor Gwaith, Cadeiryddion / Is-gadeiryddion Sgriwtini a'r UDA arni. Mae'n diffinio rôl a swyddogaeth glir ar gyfer Sgriwtini a'r hyn y dylai ei gyflawni ac mae hefyd yn gosod y cyd-destun yn y tymor byr a'r tymor canolig. Cynhelir cyfarfodydd misol o'r Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion sgriwtini i gynllunio/blaenoriaethu/cydlynu a rheoli rhaglenni gwaith y ddau Bwyllgor Sgriwtini Sefydlog gan sicrhau aliniad gyda blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith. Yn ogystal, mae 3 Panel Sgriwtini penodol yn rhan o drefniadau sgriwtini ac maent yn rhoi cyfle i ddatblygu dyfnder o wybodaeth mewn perthynas â rheolaeth ariannol/gwella ysgolion a materion gwasanaethau cymdeithasol. Hefyd, mae'r Cyngor yn trefnu sesiynau briffio misol ar faterion strategol a gweithredol allweddol fel rhan drefniadau llywodraethiant corfforaethol.<br><br>Mae adroddiadau blynyddol yn cael eu paratoi a'u cyflwyno i'r Cyngor Llawn ar waith y ddau Bwyllgor Sgriwtini a'r 3 Phanel Sgriwtini. Mae hyn yn cynnwys hunanarfarniad gan Aelodau Sgriwtini. (**canlyniad disgwyliedig: dull Sgriwtini "Cyngor cyfan")**<br><br>**Ymgysylltiad Cyhoeddus mewn Sgriwtini**<br>Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn annog y cyhoedd i gyfranogi lle bynnag y bo'n bosib ac mae cyfle i'r cyhoedd siarad ar faterion agenda mewn cyfarfodydd Pwyllgorau Sgriwtini. I'r perwyl hwn, mae protocol siarad cyhoeddus ar waith ar gyfer Pwyllgorau Sgriwtini a'i fwriad yw bod yn gyfrwng i sicrhau y clywir lleisiau pobl a chymunedau lleol ar Ynys Môn fel rhan o'r broses | Ar ôl adolygu'r archwiliad, teimlaf fod digon o dystiolaeth i'w ddileu<br>Sylwch ar rai sylwadau isod.<br>Mae strwythur y Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys swyddogion sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad cywir i gefnogi Aelodau Sgriwtini i greu'r amodau ar gyfer craffu effeithiol gan Aelodau.<br>Mae dull system gyfan o graffu gan yr Awdurdod. Mae Sesiynau Briffio Misol yr Aelodau yn fforwm ar gyfer craffu anffurfiol a rhannu gwybodaeth. Mae'r strwythur hefyd yn cynnwys 3 phanel sgriwtini sy'n adrodd i'r rhiant-bwyllgorau sgriwtini. Mae gan y paneli hyn flaen raglenni gwaith ac maent yn cymhwyso ystod o wahanol ddulliau craffu.<br><br>**Cynnig dileu** |

| Enw'r Adroddiad | Argymhellion / Cyfleoedd | Ymateb Cyngor Ynys Môn | Cynnigion |
|---|---|---|---|
| | swyddogaethau craffu yn gallu ymgysylltu'n briodol ac yn rhagweithiol â'r cyhoedd.<br>**Dylai Cynghorau fyfyrio ar ba mor drylwyr y maent yn blaenoriaethu ac yna'n cynllunio gweithgareddau craffu i wella eu heffaith**<br>Dylai cynghorau ystyried a yw'r ffordd y caiff gweithgareddau craffu eu cynllunio a'u cynnal:<br>• yn cael ei blaenoriaethu'n ddigon dda, gan ystyried faint o amser ac anoddau y bydd eu hangen o bosibl i graffu ar destunau'n 'briodol', ar sail methodoleg briodol ac, felly, y goblygiadau o ran faint o eitemau y gall pwyllgorau eu hystyried yn briodol;<br>• yn rhoi ystyriaeth briodol i'r dewisiadau a'r dulliau y gellid eu defnyddio i graffu ar bob testun, yn hytrach nag ar rai testunau yn unig;<br>• yn cyd-fynd â rolau a chanlyniadau arfaethedig y swyddogaeth graffu, a bod y testunau a'r methodolegau a ddewisir yn cael eu dylunio i gyflawni yn erbyn y rhain, yn hytrach na throi'n 'ddiofyn' at ystyried y rhan fwyaf o eitemau yn y pwyllgor llawn ar ffurf adroddiadau swyddogion; ac<br>• yn mynd ati i ystyried sut gellid defnyddio egin-dechnolegau i wella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer craffu, i hysbysu'r broses o ddewis testunau wrth lunio'r rhaglen waith, a chanfyddiadau ac argymhellion y gwaith craffu.<br>**Mae'n bosibl y bydd angen dull gweithredu gwahanol i gefnogi aelodau'r pwyllgor craffu i ymateb i heriau heddiw ac i'r dyfodol**<br>Dylai cynghorau ystyried:<br>• beth mae eu swyddogaethau craffu yn ceisio'i gyflawni, ac a fydd y trefniadau cefnogaeth swyddogion presennol a'r cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn eu helpu i gyflawni hyn;<br>• a oes angen gwella sgiliau swyddogion sy'n gweithio i gefnogi'r pwyllgor craffu;<br>• gweithio'n fwy effeithio â rhannau eraill y cyngor a/neu sefydliadau eraill i wella'r dewis o sgiliau a gwybodaeth sydd ar gael i gefnogi'r pwyllgor craffu; ac<br>• ail-ddylunio'r rhaglenni hyfforddi a datblygu ar gyfer aelodau'r pwyllgor craffu.<br>**Gwerthuso effeithiolrwydd swyddogaethau craffu**<br>Ac ystyried rhai o'n sylwadau uchod sy'n awgrymu bod rolau yn dal i fod yn aneglur, ac y ceir dull 'traddodiadol' o ddewis testunau craffu mewn llawer o gynghorau, gallai cynnal adolygiadau rheolaidd o effeithiolrwydd y trefniadau y gweithredir arnynt yn ddiweddarach fod yn un ffordd allweddol o roi sylw i rai o'r problemau hyn sydd i'w gweld ers tro byd.<br>**Dylai Llywodraeth Cymru a'r cynghorau ystyried goblygiadau'r themâu uchod ar drefniadau llywodraethu cynghorau a phartneriaethau**<br>Dylai Cynghorau a Llywodraeth Cymru fyfyrio ar:<br>• i ba raddau y gallant ddibynnu ar swyddogaethau craffu awdurdodau lleol ar eu ffurf bresennol; a | gwneud penderfyniadau.<br><br>**(deilliannau disgwyliedig: gwella ymgysylltu cyhoeddus yn ein gwaith sgriwtini, sylfaen gref ar gyfer gwella deilliannau ar gyfer dinasyddion, gwell penderfyniadau a gwella ansawdd ymgysylltu democrataidd, galluogi lleisiau pobl leol a chymunedau i gael eu clywed fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau a pholisi)**<br><br><br>**Cynllunio ac Effaith Sgriwtini**<br>Mae 2 aelod o staff dynodedig yr Uned Sgriwtini yn cynorthwyo Pwyllgorau Sgriwtini. Rhennir arfer orau drwy rwydweithiau cenedlaethol a rhanbarthol.<br>Cynhelir y Fforwm cadeiryddion ac is-gadeiryddion bob mis i gynllunio/blaenoriaethu/cydlynu a rheoli rhaglenni gwaith y 2 Bwyllgor Sgriwtini Sefydlog gan sicrhau aliniad â blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.<br><br>Datblygwyd ein trefniadau lleol sy'n sylfaen i flaen raglenni gwaith sgriwtini i roi mwy o sylw i:<br>• Agweddau strategol<br>• Ymgysylltu â dinasyddion / rhanddeiliaid eraill a deilliannau<br>• Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2017/2022 a rhaglenni trawsnewid corfforaethol<br>• Risgiau<br>• Gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio<br>• Eitemau ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.<br>Amcan: rhaglenni gwaith treigl yn canolbwyntio ar ansawdd sgriwtini; llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth<br>**(Deilliannau disgwyliedig: creu'r amodau ar gyfer sgriwtini effeithiol, gweithredir ar effaith sgriwtini i wella effeithiolrwydd, trefniadau llywodraethu sy'n cefnogi penderfyniadau cadarn ac effeithiol).**<br><br>**Arfarnu effeithiolrwydd Sgriwtini**<br>Mae'r Cyngor yn arfarnu effeithiolrwydd ei drefniadau Sgriwtini yn rheolaidd – bob blwyddyn – fel rhan annatod o'r broses o baratoi ei Adroddiad Sgriwtini Blynyddol. Mae hyn yn cael ei ategu gan yr hunanarfarniad gan Aelodau a gwblheir ar wahân gan y 3 panel sgriwtini.<br><br>**(canlyniad disgwyliedig: hunanarfarniad gan Aelodau i fesur gwerth a ychwanegir ac effaith)**<br><br>Mae Adroddiad Blynyddol Sgriwtini a Throsolwg 2020/21 y Cyngor yn darparu crynodeb cynhwysfawr o'n trefniadau sgriwtini o fewn trefniadau llywodrethiant y Cyngor<br>http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s16241/Adroddiad%20Blynyddol%20Trosolwg%20a%20Sgriwtini%20201920.pdf?LLL=1 | |

| Enw'r Adroddiad | Argymhellion / Cyfleoedd | Ymateb Cyngor Ynys Môn | Cynnigion |
|---|---|---|---|
| | • beth allai hyn olygu i'r disgwyliadau sy'n cael eu gosod ar swyddogaethau craffu yn nhrefniadau rheoli a llywodraethu'r Cyngor ei hun ac mewn unrhyw arweiniad cysylltiol. | | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 8 Rhagfyr 2022 |
| **Pwnc / Testun:** | Cod Llywodraethu Lleol 2023-28 Drafft |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn AD a Trawsnewid<br>01248 752502<br>CarysEdwards@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Gethin Morgan<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Perfformiad<br>01248 752511<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |

**Natur a Rheswm dros Adrodd:**
Mae'r Cod Llywodraethu Lleol yn nodi dull y Cyngor o gyflawni llywodraethu da ar draws gwasanaethau'r Cyngor drwy ddatblygu, mabwysiadu a gweithredu polisïau a gweithdrefnau priodol.

Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried Cod Llywodraethu Lleol y Cyngor unwaith bob tymor gwleidyddol.

Bydd diweddariadau a gwelliannau blynyddol yn erbyn y Cod Llywodraethu Lleol yn cael eu nodi ac yn cael sylw gan ddefnyddio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gyflwynir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio unwaith bob cyfnod o 12 mis.

## Cyflwyniad

1. Er mwyn arddangos Llywodraethu da, rhaid i'r Awdurdod ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd (ac ategol) sydd yn y 'Framework for Delivering Good Governance in Local Government' (CIPFA / Solace, 2016).

2. Mae'r datganiad hwn wedi'i baratoi yn unol â'r egwyddorion hynny.

3. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei weithredu'n unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrif amdano'n briodol, a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

4. Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am roi yn eu lle drefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei faterion, gan hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, ac mae hynny'n cynnwys trefniadau i reoli risg, a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

5. Defnyddir dogfen y Cod Llywodraethu Lleol fel sail ar gyfer adolygiad blynyddol o lywodraethu ar gyfer y Cyngor Sir. Mae'r ffynonellau sicrwydd a nodir yn erbyn pob egwyddor wedi'u diweddaru.

6. Mae'r Cod Llywodraethu Lleol wedi bod drwy broses adolygu fewnol yn ystod 2022/23 drwy'r –

    a. Grŵp Adolygu Perfformiad a Llywodraethu (gan gynnwys Archwilio Mewnol)

    b. Tim Arweinyddiaeth

    ac fe'i cyflwynir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w ystyried yn dilyn yr adolygiad.

7. Yr ddogfennaeth gysylltiedig a ddefnyddir i gynnal adolygiad blynyddol yn erbyn disgwyliadau'r Cod Llywodraethu Lleol yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS). Mae'r AGS yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sy'n gyfrifol am gymeradwyo trefniadau llywodraethu'r Cyngor drwy'r AGS yn flynyddol fel rhan o'r Datganiad Cyfrifon.

## Argymhelliad

8. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried y Cod Llywodraethu Lleol fel adlewyrchiad cywir.

9. Bod Aelodau'r Pwyllgor, os ydynt yn dymuno, yn cynnig mân newidiadau i'r Cod Llywodraethu Lleol Drafft cyn iddo gael ei gynnig i'w fabwysiadu gan Gyngor Sir Ynys Môn ym mis Mawrth 2023.

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Cod Llywodraethu Lleol 2023-2028

## Rhagfyr 2022

## Statws – Swyddogol

**Paratowyd gan:**

Gethin Morgan, Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Perfformiad

# Cynnwys

Beth yw Llywodraethu Corfforaethol? ..... 3
Beth yw'r Cod Llywodraethu Corfforaethol? ..... 3
Sut ydyn ni'n dangos cydymffurfiad? ..... 5
Ymrwymiadau i'r Egwyddorion Llywodraethu ..... 7
Egwyddor A: Ymddwyn yn ddidwyll, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu'r rheol gyfreithiol ..... 7
Egwyddor B: Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid ..... 9
Egwyddor C: Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd cynaliadwy, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol ..... 12
Egwyddor D: Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir hyd eithaf ein gallu ..... 14
Egwyddor E: Datblygu capasiti'r endid, ynghyd â gallu ei arweinyddion a'r unigolion ynddo ..... 17
Egwyddor F: Rheoli risgiau a perfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref ..... 20
Egwyddor G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio ..... 23

## Beth yw Llywodraethu Corfforaethol?

Llywodraethu Corfforaethol yw'r system lle mae awdurdodau lleol yn cyfarwyddo ac yn rheoli eu swyddogaethau a chysylltu â'u cymunedau. Mae'n seiliedig ar egwyddorion sylfaenol didwylledd a chynwysoldeb, uniondeb ac atebolrwydd ynghyd â'r cysyniad trosfwaol o arweinyddiaeth. Mae'n system ryng-gysylltiedig sy'n dwyn ynghyd y set sylfaenol o ofynion deddfwriaethol, egwyddorion llywodraethu a phrosesau rheoli.

Mae Fframwaith Rhyngwladol y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol yn nodi:

*"Er mwyn sicrhau llywodraethu da yn y sector cyhoeddus, rhaid i gyrff llywodraethu ac unigolion sy'n gweithio i endidau'r sector cyhoeddus geisio cyflawni amcanion eu endid wrth weithredu er budd y cyhoedd bob amser."*

Mae'r Cyngor yn gweld Llywodraethu Corfforaethol fel sicrhau ein bod yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, i'r bobl iawn, mewn dull amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol. Mae'n cynnwys y systemau a'r prosesau, a'r diwylliannau a'r gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo a rheoli'r Cyngor a thrwyddynt, rydym yn atebol i'n cymunedau ac yn ymwneud â hwy. Y cynsail sylfaenol yw:

Llywodraethu Da → Gwneud Penderfyniadau Da → Perfformiad Da

## Beth yw'r Cod Llywodraethu Corfforaethol?

Er mwyn arddangos Llywodraethu da, rhaid i'r Awdurdod ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd (ac ategol) sydd yn y 'Framework for Delivering Good Governance in Local Government' (CIPFA / Solace, 2016). Yr egwyddorion sefydledig yw:

**Egwyddor A**
- Ymddwyn yn ddidwyll, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu'r rheol gyfreithiol

**Egwyddor B**
- Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid

**Egwyddor C**
- Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd cynaliadwy, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol

**Egwyddor D**
- Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir hyd eithaf ein gallu


**Egwyddor E**
- Datblygu capasiti'r endid, ynghyd â gallu ei arweinyddion a'r unigolion ynddo

**Egwyddor F**
- Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref

**Egwyddor G**
- Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio

Mae agweddau ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor wedi cael eu cryfhau a'u moderneiddio yn ystod y blynyddoedd diweddar ar draws nifer o themâu llywodraethu. Mae [Cynllun y Cyngor] wedi bod yn ei le ers 2017 ac mae'n rhoddi pwyslais ar ein trefniadau llywodraethu fel modd o gyflawni allbynnau'r cynllun. Gellir alinio'r rhain â'r saith egwyddor graidd yn fframwaith CIPFA/SOLACE.

Mae'r Cyngor yn anelu at gyflawni safonau llywodraethu da drwy lynu wrth y saith egwyddor graidd uchod a hefyd wrth yr egwyddorion sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio Sylfaen Cod Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor.




*Ffynhonnell: Delivering Good Governance in Local Government Guidance Notes for Welsh Authorities (2016 Edition)*

Tudalen 200

## Sut ydyn ni'n dangos cydymffurfiad?

Mae'r Cyngor yn adolygu ac yn adrodd yn erbyn ei drefniadau llywodraethu yn rheolaidd. Mae'r Swyddog Monitro yn sicrhau cydymffurfiad â'r polisïau, y gweithdrefnau, y deddfau a'r rheoliadau tra bod y swyddog Adran 151 yn cynghori ar bob mater ariannol, yn sicrhau bod cofnodion ariannol cywir yn cael eu cadw a bod system gadarn o reolaeth fewnol ar waith.

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn gyfrifoldeb am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithlonrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y drefn rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithlonrwydd wedi ei siapio gan waith rheolwyr o fewn yr awdurdod sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, gan adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol, a hefyd gan sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol ac asiantaethau arolygu ac archwilio eraill.

Mae effeithlonrwydd y fframwaith llywodraethu wedi ei werthuso trwy gyfuniad o:-

- canlyniadau adolygiadau a monitro cyson yn ystod y flwyddyn gan swyddogion a phwyllgorau sy'n cynnwys:
  - gweithgaredd rheoli risg ffurfiol, gan gynnwys ystyriaeth benodol o'r risgiau hynny sy'n gysylltiedig â phrosesau llywodraethu;
  - archwilio mewnol, lle mae'i gwaith yn cynnwys archwilio'r risgiau uchaf a nodwyd yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol, gan gynnwys rheoli risg, yn unol â'r strategaeth archwilio fewnol flynyddol, ac sy'n cynnwys gwaith 'dilynol' i sicrhau bod uwch swyddogion yn mynd i'r afael â Materion / Risgiau y cytunwyd arnynt;
  - yr archwiliad blynyddol o Archwilio Mewnol gan archwilwyr allanol y Cyngor;
  - gwaith Pwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a Phwyllgorau eraill, gan gynnwys ei bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio a Safonau;
  - barn ac argymhellion archwilwyr allanol y Cyngor, ac asiantaethau adolygu eraill ac arolygwyr;
  - Monitro gwelliant a pherfformiad yn rheolaidd yn erbyn Cynllun y Cyngor a'r cynlluniau a'i strategaethau ategol gan aelodau ac uwch reolwyr;
- adolygiad o ddogfennau perthnasol a baratowyd yn ystod y flwyddyn neu yn ymwneud â'r flwyddyn;
- adolygiad o gynnydd yn erbyn y Cynllun Corfforaethol;
- adolygu adborth gan Estyn ac AGC a'r panelau sgriwtini cysylltiedig;
- cyfres o gyfweliadau gyda swyddogion allweddol;
- trafodaeth a derbyn sylwadau gan grwpiau o swyddogion ac aelodau gan gynnwys yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Gwaith.


Cymeradwyir y polisïau allweddol, ac unrhyw ddiwygiadau iddynt gan y Pwyllgor Gwaith, ac fe'u mabwysiadir yn ffurfiol gan y Cyngor Sir fel bo'r angen.

Bydd yr asesiad cyffredinol ar gyfer yr adroddiad hwn yn dilyn y raddfa hunanasesu ganlynol —

| | |
|---|---|
| Rhagorol | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arferion rhagorol yn y sector |
| Da | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| Digonol | Cryfderau yn gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| Anfoddhaol | Meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Mae canlyniadau'r asesiad a'r adolygiad hwn, a wneir yn unol ag egwyddorion craidd y Cod, yn llywio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor, a gyflwynir fel rhan o'r Datganiad Cyfrifon.

Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio'r Model 'Tair Llinell' fel y dangosir yn y raffeg isod, lle gellir defnyddio pob llinell i roi sicrwydd. Yna defnyddir ystod o weithgareddau sicrwydd o bob llinell amddiffyn i ddarparu darlun sicrwydd cadarn.




Tudalen 202

## Ymrwymiadau i'r Egwyddorion Llywodraethu

| **Egwyddor A:** Ymddwyn yn ddidwyll, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu'r rheol gyfreithiol |
|---|
| **Rhesymeg:** Mae sefydliadau llywodraeth leol yn atebol nid yn unig am faint y maent yn ei wario, ond hefyd am y ffordd y maent yn defnyddio'r adnoddau sydd yn eu gofal. Mae hyn yn cynnwys atebolrwydd am allbynnau, cadarnhaol a negyddol, ac am y canlyniadau y maent wedi'u cyflawni. Yn ogystal, mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol i wasanaethu budd y cyhoedd wrth gadw at ofynion deddfwriaeth a pholisïau'r llywodraeth. Mae'n hanfodol, yn gyffredinol, y gallent ddangos priodoldeb eu holl weithredoedd a bod ganddynt fecanweithiau ar waith i annog a gorfodi ymlyniad at werthoedd moesegol ac i barchu rheolaeth y gyfraith. |

| Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i: | Ffynonellau Sicrwydd |
|---|---|
| **Ymddwyn yn ddidwyll**<br><br>A1. Sicrhau bod aelodau a swyddogion yn ymddwyn gydag uniondeb ac yn arwain diwylliant lle bod gweithredu er budd y cyhoedd yn cael ei arddangos yn weladwy ac yn gyson sydd o ganlyniad yn diogelu enw da'r Cyngor<br><br>A2. Sicrhau bod aelodau'n arwain wrth sefydlu egwyddorion neu weithredu neu weithredoedd safonol ar gyfer y Cyngor a'i staff a'u bod yn cael eu cyfathrebu a'u deall. Dylai'r rhain adeiladu ar y Saith Egwyddor ar gyfer Bywyd Cyhoeddus ('Egwyddorion Nolan')<br><br>A3. Arwain drwy esiampl a defnyddio'r egwyddorion gweithredol neu werthoedd safonol hyn fel fframwaith ar gyfer penderfynu a chamau gweithredu eraill<br><br>A4. Arddangos, cyfathrebu a gwreiddio'r egwyddorion gweithredu neu werthoedd safonol drwy bolisïau a phrosesau priodol sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol | • Mae nifer o godau ymddygiad a phrotocolau ar waith fel rhan o'r Cyfansoddiad i sicrhau safonau uchel o ymddygiad – maent yn cynnwys<br>  ○ Cod ymddygiad i Aelodau<br>  ○ Cod ymddygiad i swyddogion<br>  ○ Protocolau ar gyfer cysylltiadau rhwng Aelodau a Swyddogion<br>  ○ Polisi Gwrth-fwlio ac Aflonyddu<br>  ○ Protocolau ynghylch rhoddion a lletygarwch<br>  ○ Protocolau rheolaeth wleidyddol<br>• Rhaglen Cynefino a Datblygu Aeolodau<br>• Mae'r Swyddog Monitro'n gweithredu fel swyddog arweiniol ar gyfer y Pwyllgor Safonau lle mae saith o'r naw aelod yn benodiadau allanol, a'r gweddill yn aelodau etholedig.<br>• Cod Ymddygiad Aelodau a Swyddogion<br>• Pwyllgor Safonau<br>• Rheolau Gweithdrefn Ariannol<br>• Rheolau Gweithdrefn Contract |

Tudalen 203

| Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i: | Ffynonellau Sicrwydd |
|---|---|
| **Arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol**<br><br>A5. Ceisio sefydlu, monitro a chynnal safonau a pherfformiad moesegol y Cyngor<br><br>A6. Ategu ymddygiad personol gyda gwerthoedd moesegol a sicrhau eu bod yn treiddio i holl agweddau'r Cyngor o ran diwylliant a dulliau gweithredu<br><br>A7. Datblygu a chynnal polisïau a gweithdrefnau cadarn sy'n rhoi pwyslais ar werthoedd moesegol cytunedig<br><br>A8. Sicrhau bod gofyn i ddarparwyr gwasanaeth allanol ar ran y Cyngor weithredu gydag uniondeb ac mewn cydymffurfiaeth â'r safonau moesegol uchel a ddisgwylir gan y Cyngor<br><br>**Parchu rheolaeth y gyfraith**<br><br>A9. Sicrhau bod aelodau a staff yn arddangos ymrwymiad cryf i reol y gyfraith yn ogystal â chadw at gyfreithiau a rheoliadau perthnasol<br><br>A10. Creu'r amodau i sicrhau bod y swyddogion statudol, deiliaid swyddi allweddol ac aelodau'n gallu cyflawni eu cyfrifoldebau'n unol â gofynion deddfwriaethol a rheoliadol<br><br>A11. Ymdrechu i wneud y defnydd gorau o'r pwerau llawn sydd ar gael er bydd dinasyddion, cymunedau a rhanddeiliaid eraill<br><br>A12. Mynd ati i ddelio ag achosion o dorri darpariaethau cyfreithiol a rheoliadol mewn modd effeithio<br><br>A13. Sicrhau bod achosion o lygredigaeth a chamddefnyddio pŵer yn cael eu trin yn effeithiol | • Polisi Atal Twyll a Llygredd yn y Cyfansoddiad gyda chynlluniau ategol ar waith<br>• Protocol ar roddion a lletygarwch a rhestr o fuddiannau<br>• Datgan diddordebau cyn bob cyfarfod<br>• Cynefino Staff<br>• Polisi Chwythu'r Chwiban<br>• Swyddog Monitro Dynodedig<br>• Polisi Diogelwch TGCh<br>• Seiber-ddiogelwch<br>• Canllawiau GDPR<br>• Cynllun Cydraddoldeb ac Amrywiaeth<br>• Polisi Disgyblu<br>• Trafodaeth Ddatblygu Flynyddol gan gynnwys fframwaith cymhwysedd gweithwyr<br>• Trefn gwyno<br>• Porth Polisi<br>• Cronfa Ddysgu – gan gynnwys Caethwasiaeth Fodern<br>• Bwrdd Diogelu Corfforaethol<br>• Strategaeth Gaffael |

| **Egwyddor B:** Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid |
|---|
| |
| **Rhesymeg:** Mae llywodraeth leol yn cael ei redeg er lles y cyhoedd, felly dylai sefydliadau sicrhau eu bod yn agored yn eu gweithgareddau. Dylid defnyddio sianeli cyfathrebu ac ymgynghori clir y gellir ymddiried ynddynt i ymgysylltu'n effeithiol â phob grŵp o randdeiliaid, megis dinasyddion unigol a defnyddwyr gwasanaethau, yn ogystal â rhanddeiliaid sefydliadol. |

| Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i: | Ffynonellau Sicrwydd |
|---|---|
| **Bod yn agored**<br><br>B1. Sicrhau diwylliant agored drwy arddangos, dogfennu a chyfathrebu ein hymrwymiad i fod yn agored<br><br>B2. Gwneud penderfyniadau sy'n agored ynghylch camau gweithredu, cynlluniau, y defnydd o adnoddau, rhagamcanion, allbynnau a chanlyniadau. Ein rhagdybiaeth o blaid bod yn agored. Os nad felly y mae, dylid darparu cyfiawnhad ar gyfer yr ymresymiad dros gadw penderfyniad yn gyfrinachol<br><br>B3. Darparu ymresymiad a thystiolaeth ar gyfer penderfyniadau mewn cofnodion cyhoeddus ac o fewn eglurhad i randdeiliaid a bod yn bendant ynghylch y meini prawf, y sail resymegol a'r ystyriaethau a ddefnyddir. Yn y man, sicrhau bod effaith a chanlyniadau'r penderfyniadau hynny'n glir<br><br>B4. Defnyddio ymgynghori ac ymgysylltu ffurfiol ac anffurfiol i bennu'r ymyriadau/camau gweithredu mwyaf priodol ac effeithiol<br><br>**Ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid sefydliadol**<br><br>B5. Mynd ati'n effeithiol i ymgysylltu â rhanddeiliaid sefydliadol i sicrhau bod y pwrpas, yr amcanion a'r canlyniadau bwriadedig ar gyfer bob | • Cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor yn gyhoeddus (ac eithrio eitemau eithriedig) a chyhoeddir yr holl bapurau ar wefan y Cyngor.<br>• Darperir cofnod o benderfyniadau a dogfennau ategol.<br>• Ceir adroddiad eglurhaol i gyd-fynd â phob adroddiad pwyllgor sy'n darparu crynodeb o'r adroddiad, yr argymhellion y ceisir cymeradwyaeth iddynt a'r rhesymeg dros wneud y penderfyniad hwnnw, er mwyn dangos y rhesymeg dros y penderfyniadau a'r dystiolaeth gan gynnwys adborth gan uwch swyddogion a rolau statudol.<br>• Mae Blaen Raglen Waith gyfunol ar gyfer y Pwyllgor Gwaith, Sgriwtini, Cynllunio a Gorchmynion, a'r pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ar gael i'r cyhoedd ac mae'n cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.<br>• Mae amserlenni clir ar gyfer cyflwyno, cyhoeddi a dosbarthu adroddiadau.<br>• Mae cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith, y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a'r Cyngor yn cael eu gweddarlledu.<br>• Cyhoeddir adroddiadau blynyddol gan y Pwyllgorau Sgriwtini, y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. |

| Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i: | Ffynonellau Sicrwydd |
|---|---|
| cysylltiad â rhanddeiliaid yn glir fel bod canlyniadau'n cael eu cyflawni mewn modd llwyddiannus a chynaliadwy<br><br>B6. Datblygu partneriaethau ffurfiol ac anffurfiol i ganiatáu defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a chyflawni canlyniadau'n fwy effeithiol<br><br>B7. Sicrhau bod partneriaethau'n seiliedig ar ymddiriedaeth, ymrwymiad a rennir i newid ynghyd â diwylliant sy'n hybu ac yn derbyn her ymhlith partneriaid a bod gwerth ychwanegol gweithio mewn partneriaeth yn elfen bendant<br><br>**Ymgysylltu rhanddeiliaid yn effeithiol, gan gynnwys dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth unigol**<br><br>B8. Polisi clir o ran y math o faterion y bydd y Cyngor yn ymgynghori'n ystyrlon yn eu cylch neu'n cynnwys dinasyddion unigol, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod darpariaeth gwasanaeth yn cyfrannu tuag at gyflawni'r canlyniadau bwriadedig<br><br>B9. Sicrhau bod dulliau cyfathrebu'n effeithiol a bod aelodau a swyddogion yn glir o ran eu rolau mewn perthynas ag ymgysylltu cymunedol<br><br>B10. Annog, casglu a gwerthuso barnau a phrofiadau cymunedau, dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a sefydliadau o wahanol gefndiroedd, gan gynnwys cyfeiriad at anghenion i'r dyfodol<br><br>B11. Gweithredu mecanweithiau effeithiol ar gyfer rhoi adborth er mwyn arddangos sut y cafodd eu barnau eu hystyried<br><br>B12. Cydbwyso adborth gan grwpiau rhanddeiliaid mwy gweithgar gyda grwpiau eraill o randdeiliaid i sicrhau eu cynwysoldeb | • Cyhoeddir y Ddogfen Gyflawni Flynyddol sy'n amlinellu pa weithgareddau yr ymgymerir â nhw drwy gydol y flwyddyn yn erbyn Cynllun y Cyngor<br>• Cyhoeddir yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol i ddangos cynnydd yn erbyn Cynllun y Cyngor (Dogfen Gyflawni Flynyddol) ar gyfer y flwyddyn flaenorol.<br>• Cyhoeddir adroddiad monitro cerdyn sgorio chwarterol i ddangos cynnydd yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn gysylltiedig â Chynllun y Cyngor ac amcanion y Gwasanaethau.<br>• Mae'r Cyngor yn defnyddio'r Wefan a'r Cyfryngau Cymdeithasol i gyrraedd nifer cynyddol o drigolion a rhanddeiliaid.<br>• Mae arferion Rhyddid Gwybodaeth ar waith er mwyn cyhoeddi ymatebion i geisiadau.<br>• Daeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer ardaloedd awdurdod lleol Gwynedd ac Ynys Môn yn gorff statudol o dan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<br>• Cynhelir Arolwg Staff bob tair mlynedd a defnyddir y canlyniadau i lywio gwahanol agendâu ar draws y cyngor.<br>• Aelodau o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru<br>• Aelodau o fwrdd GwE<br>• Aelodau o wasanaeth Galw Gofal<br>• Partneriaid gydag Awdurdodau Lleol eraill a'r Bwrdd Iechyd ar Gydweithredfa Ranbarthol Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru<br>• Cynghorau Gogledd Cymru – Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng<br>• Defnyddir y Model Ymgysylltu Cymunedol i wella'r ymagwedd gorfforaethol ar gyfer ymgysylltu cymunedol. Mae'r model hwn yn hanfodol er mwyn nodi'r cymunedau |

| Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i: | Ffynonellau Sicrwydd |
|---|---|
| B13. Ystyried buddiannau cenedlaethau o drethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth i'r dyfodol | a'r grwpiau hynny fydd â diddordeb mewn derbyn cyfrifoldebau am ddarparu ar gyfer anghenion lleol yn eu cymunedau.<br>• Mae'r Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori yn darparu dull ar draws y Cyngor ar gyfer ymgysylltu a chynnwys rhanddeiliaid sydd yn lleihau dyblygu, yn sicrhau dull ar y cyd ar gyfer ymgysylltu ac yn gwella ein gwybodaeth seiliedig ar ardaloedd fel Cyngor.<br>• Cynhelir ymarferion siopwr cudd i archwilio cydymffurfiaeth y Cyngor â'r Safonau Iaith Gymraeg a'r Siarter Gofal Cwsmer.<br>• Mae cyfarfodydd y Cyngor Llawn, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn cael eu gweddarlledu a gellir edrych arnynt ar-lein am hyd at 6 mis yn dilyn y cyfarfodydd.<br>• Mae croeso i ddinasyddion fynychu cyfarfodydd cyhoeddus a threfnu i siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Sgriwtini a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.<br>• Mae gweithdrefn Gwynion Gorfforaethol ar waith a chyhoeddir ystadegau ar y wefan yn chwarterol.<br>• Mae gweithdrefn gwynion ar wahân ar waith ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• Gall rhanddeiliaid ymateb i ymgynghoriadau ar y wefan.<br>• Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd<br>• Fframwaith Cyfranogiad Cyhoeddus Cenedlaethol<br>• Adolygiadau Gwasanaeth Blynyddol<br>• Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio – rhestr partneriaethau<br>• Cynllunio Lle |

| **Egwyddor C:** Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd cynaliadwy, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol |
|---|
| **Rhesymeg:** Mae natur ac effaith hirdymor llawer o gyfrifoldebau llywodraeth leol yn golygu y dylai ddiffinio a chynllunio canlyniadau ac y dylai'r rhain fod yn gynaliadwy. Dylai penderfyniadau hyrwyddo diben yr awdurdod, cyfrannu at y manteision a'r canlyniadau a fwriedir, ac aros o fewn terfynau awdurdod ac adnoddau. Mae mewnbwn gan bob grŵp o randdeiliaid, gan gynnwys dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid sefydliadol, yn hanfodol i lwyddiant y broses hon ac i gydbwyso gofynion sy'n cystadlu wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael. |

| Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i: | Ffynonellau Sicrwydd: |
|---|---|
| **Diffinio Canlyniadau**<br><br>C1. Cael gweledigaeth glir sy'n ddatganiad ffurfiol cytunedig o bwrpas a chanlyniadau bwriadedig y Cyngor sy'n cynnwys dangosyddion perfformiad priodol sy'n darparu'r sail ar gyfer strategaeth gyffredinol y Cyngor, ynghyd â chynllunio a phenderfyniadau eraill<br><br>C2. Pennu'r effaith fwriadedig ar, neu newidiadau ar gyfer rhanddeiliaid gan gynnwys dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth. Gall hyn fod ar unwaith neu dros gyfnod o flwyddyn neu gyfnod hwy<br><br>C3. Cyflawni canlyniadau diffiniedig ar sail gynaliadwy o fewn yr adnoddau a fydd ar gael<br><br>C4. Canfod a rheoli risgiau o ran cyflawni canlyniadau<br><br>C5. Rheoli disgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth yn effeithiol o ran pennu blaenoriaethau a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael<br><br>**Buddiannau economaidd, cymdeithasol ac economaidd cynaliadwy** | • Mae Cynllun y Cyngor yn adlewyrchu gweledigaeth gyffredinol y Cyngor ac mae'n cwmpasu cyfnod yr etholiadau lleol o 5 mlynedd. Mae'n gynllun sy'n disgrifio blaenoriaethau yn eglur ac yn esbonio sut mae'r blaenoriaethau'n adlewyrchu safbwyntiau'r dinasyddion ac mae wedi ei alinio â'r strategaeth ariannol tymor canolig sy'n datblygu'n barhaus.<br>• Adolygir y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig dwy waith y flwyddyn, yn unol â'r blaenoriaethau corfforaethol.<br>• Mae pob gwasanaeth yn cynhyrchu Cynllun Cyflawni Gwasanaeth blynyddol sy'n dangos yn glir sut maent yn cyfrannu at gyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol. Mae pob cynllun gwasanaeth yn cynnwys mesurau a meini prawf llwyddiant i dystiolaethu sut y bydd gweithredoedd yn gwneud gwahaniaeth.<br>• Mae Dangosyddion Perfformiad Allweddol sydd wedi'u halinio â Chynllun y Cyngor yn cael eu monitro yn chwarterol drwy'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol. Cyflwynir adroddiad ar y Cerdyn Sgorio Corfforaethol i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith lle cytunir ar gamau lliniaru i'r Gwasanaethau eu rhoi ar waith ar gyfer unrhyw DPA sy'n tanberfformio.<br>• Mae Gwasanaethau yn derbyn Adolygiadau Gwasanaeth bob chwe mis – gan edrych yn benodol ar y gyllideb a gwariant ym mis Mehefin ac ar berfformiad a chanlyniadau rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr. |

| Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i: | Ffynonellau Sicrwydd: |
|---|---|
| C6. Ystyried a chydbwyso effaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol polisïau, cynlluniau a phenderfyniadau ar y cyd wrth wneud penderfyniadau am ddarpariaeth gwasanaeth<br><br>C7. Cymryd golwg mwy hirdymor o ran penderfynu, gan ystyried risg a gweithredu mewn modd tryloyw lle bo gwrthdaro posibl rhwng canlyniadau bwriadedig y Cyngor a ffactorau tymor byr fel y cylch gwleidyddol neu gyfyngiadau ariannol<br><br>C8. Pennu budd ehangach y cyhoedd sy'n gysylltiedig â chydbwyso buddion sy'n gwrthdaro rhwng cyflawni'r amryw fuddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, drwy ymgynghori lle bynnag y bo modd, er mwyn sicrhau cyfaddawdau priodol<br><br>C9. Sicrhau mynediad teg i wasanaethau | Mae aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac aelodau etholedig, o'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol, yn herio perfformiad gwasanaethau yn gadarn yn ystod y sesiynau adolygu gwasanaeth. Yna, cytunir ar gamau gweithredu yn y cyfarfod i fynd i'r afael â phroblemau neu wella perfformiad yn erbyn targedau a osodir er mwyn eu rhoi ar waith yn ystod y 12 mis nesaf.<br>• Mae perfformiad a chynnydd yn erbyn Cynllun y Cyngor yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol a chyhoeddir gwybodaeth am berfformiad ariannol yn y Datganiad o Gyfrifon.<br>• Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn yn 2016, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn darparu Adroddiad Blynyddol ac adroddiadau Cynnydd drwy gydol y flwyddyn.<br>• Datganiad Llywodraethu Blynyddol<br>• Adroddiadau Refeniw a Chyfalaf Chwarterol<br>• Mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol gynhyrchu Adroddiad Blynyddol<br>• Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg<br>• Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol<br>• Dogfen Gyflawni Flynyddol<br>• Cofrestr Risg Strategol a Chofrestrau Risg Gwasanaeth<br>• Ceir adroddiad eglurhaol i gyd-fynd â phob adroddiad pwyllgor sy'n darparu crynodeb o'r adroddiad, yr argymhellion y ceisir cymeradwyaeth iddynt a'r rhesymeg dros wneud y penderfyniad hwnnw, er mwyn dangos y rhesymeg dros y penderfyniadau a'r dystiolaeth gan gynnwys effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. |

| **Egwyddor D:** Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir hyd eithaf ein gallu |
|---|
| **Rhesymeg:** Mae llywodraeth leol yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd drwy ddarparu cymysgedd o ymyriadau cyfreithiol, rheoleiddiol ac ymarferol. Mae pennu'r cymysgedd cywir o'r camau gweithredu hyn yn ddewis strategol hollbwysig y mae'n rhaid i lywodraeth leol ei wneud i sicrhau y cyflawnir y canlyniadau a fwriedir. Maent angen mecanweithiau gwneud penderfyniadau cadarn i sicrhau y gellir cyflawni eu canlyniadau diffiniedig mewn ffordd sy'n darparu'r fasnach orau rhwng y gwahanol fathau o fewnbynnau adnoddau tra'n parhau i alluogi gweithrediadau effeithiol ac effeithlon. Mae angen adolygu penderfyniadau a wneir yn barhaus er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu cyflawni yn y ffordd orau posibl. |

| Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i: | Ffynonellau Sicrwydd: |
|---|---|
| **Penderfynu a chynllunio ymyriadau**<br><br>D1. Sicrhau bod penderfynwyd yn derbyn dadansoddiad gwrthrychol a thrylwyr o amrywiaeth o opsiynau sy'n dangos sut y byddai canlyniadau bwriadedig yn cael eu cyflawni a chynnwys y risgiau sy'n gysylltiedig â'r opsiynau hynny. Felly sicrhau bod y gwerth gorau'n cael ei gyflawni sut bynnag y darperir gwasanaethau<br><br>D2. Ystyried adborth gan ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth wrth wneud penderfyniadau am welliannau i wasanaethau neu lle nad oes angen gwasanaethau mwyach er mwyn blaenoriaethu galwadau sy'n anghyson â'i gilydd o fewn yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael, gan gynnwys pobl, sgiliau, tir ac asedau a gan gofio effeithiau i'r dyfodol<br><br>**Sicrhau'r cyflawniad gorau posibl o'r canlyniadau a fwriedir**<br><br>D3. Sefydlu a gweithredu cylchoedd cynllunio a rheoli cadarn sy'n cwmpasu cynlluniau strategol a gweithredol, blaenoriaethau a thargedau | • Mae'r Cyfansoddiad yn nodi'r glir sut mae'r Cyngor yn gweithredu a sut y gwneir penderfyniadau a'r gweithdrefnau y mae angen eu dilyn i sicrhau effeithlonrwydd, tryloywder ac atebolrwydd.<br>• Strwythurau Pwyllgorau'r Cyngor - Cyngor, Pwyllgor Gwaith, Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, Trwyddedu, Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a'r Pwyllgor Safonau.<br>• Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am y fframwaith polisi a chyllideb. Mae adroddiadau llywodraethiant allweddol yn faterion i'r Cyngor, ac mae'r Cyngor yn cyntuno ar gyllideb refeniw a chyfalaf flynyddol.<br>• Y Pwyllgor Gwaith yw'r prif gorff gwneud penderfyniadau ac mae'n cynnwys yr arweinydd ac wyth aelod portffolio arall.<br>• Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethiant yr awdurdod. Mae gan y pwyllgor ddau aelod cyfetholedig sydd yn gyfrwng i ehangu gwybodaeth a phrofiad annibynnol.<br>• Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn darparu sicrwydd ynghylch perfformiad a darparu'r holl wasanaethau. Mae'n sicrhau bod y cyngor yn cyflawni ei amcanion corfforaethol ac |

| Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i: | Ffynonellau Sicrwydd: |
|---|---|
| D4. Ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol wrth bennu sut y dylid cynllunio a chyflawni gwasanaethau a chamau gweithredu eraill<br><br>D5. Ystyried a monitro’r risgiau sy’n wynebu pob partner wrth weithio ar y cyd gan gynnwys y risgiau a rennir<br><br>D6. Sicrhau bod trefniadau’n hyblyg ac yn ystwyth fel y gellir addasu’r mecanweithiau ar gyfer cyflawni allbynnau yn ôl amgylchiadau newidiol<br><br>D7. Sefydlu dangosyddion perfformiad lleol priodol (yn ogystal â dangosyddion perfformiad statudol neu genedlaethol eraill) fel rhan o’r broses gynllunio er mwyn canfod sut y dylid mesur perfformiad gwasanaethau a phrosiectau<br><br>D8. Sicrhau bod capasiti’n bodoli i gynhyrchu’r wybodaeth a fynnir i adolygu ansawdd gwasanaethau’n rheolaidd<br><br>D9. Paratoi cyllidebau’n unol ag amcanion sefydliadol, strategaethau a’r cynllun ariannol tymor canolig<br><br>D10. Llywio gwaith cynllunio adnoddau tymor canolig a hirdymor drwy lunio amcanestyniadau realistig o ran gwariant refeniw a chyfalaf sy’n anelu at ddatblygu strategaeth ariannu gynaliadwy<br><br>**Cyflawni’r canlyniadau bwriadedig yn y modd gorau bosibl**<br><br>D11. Sicrhau bod y strategaeth ariannol tymor canolig yn integreiddio ac yn cydbwyso blaenoriaethau gwasanaethau, fforddiadwyedd a chyfyngiadau eraill o ran adnoddau | amcanion ei wasanaethau tra’n cefnogi ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant parhaus.<br>• Mae’r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn sicrhau bod buddion dinasyddion yr Ynys yn cael eu hyrwyddo a bod y defnydd gorau’n cael ei wneud o adnoddau’r cyngor, yn unol â blaenoriaethau’r Cyngor, sy’n darparu gwerth ychwanegol o weithio gyda phartneriaid.<br>• Tair Panel Sgriwtini – Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyllid ac Ysgolion<br>• Ceir adroddiad eglurhaol i gyd-fynd â phob adroddiad pwyllgor sydd yn rhoi crynodeb o’r adroddiad, yr argymhellion y ceisir eu cymeradwyo a’r rhesymeg dros wneud yr argynhelliad, er mwyn dangos y rhesymeg a thystiolaeth dros y penderfyniadau.<br>• Mae’r Tîm Arweinyddol a'r Tim Rheoli Corfforaethol yn sicrhau bod canlyniadau’n cael eu monitro a’u cyflawni drwy gydol y flwyddyn.<br>• Mae Gwasanaethau yn derbyn Adolygiadau Gwasanaeth bob chwe mis – gan edrych yn benodol ar y gyllideb a gwariant ym mis Mehefin ac ar berfformiad a chanlyniadau rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr. Mae aelodau’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac aelodau etholedig, o’r Pwyllgor Gwaith a’r Pwyllgor Gwaith Cysgodol, yn herio perfformiad gwasanaethau yn gadarn yn ystod y sesiynau adolygu gwasanaeth. Yna, cytunir ar gamau gweithredu yn y cyfarfod i fynd i’r afael â phroblemau neu wella perfformiad yn erbyn targedau a osodir er mwyn eu rhoi ar waith yn ystod y 12 mis nesaf.<br>• Mae gan y Cyngor Fframwaith Cynllunio a Rheoli Perfformiad ar waith.<br>• Mae’r rhaglenni a’r prosiectau sydd wedi eu halinio â Chynllun y Cyngor yn cael eu monitro gan y Byrddau Rhaglen.<br>• Mae Rhaglen Ynys Ynni™ Ynys Môn a sefydlwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn yn ymdrech ar y cyd rhwng nifer o randdeiliaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat a’r trydydd sector sy’n gweithio |

| Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i: | Ffynonellau Sicrwydd: |
|---|---|
| D12. Sicrhau bod y broses gyllidebu yn hollgynhwysol, gan ystyried cost lawn gweithrediadau dros y tymor canolig a'r tymor hwy<br><br>D13. Sicrhau bod y strategaeth ariannol tymor canolig yn gosod y cyd-destun ar gyfer penderfyniadau parhaus mewn perthynas â materion arwyddocaol o ran cyflenwi neu ymatebion i newidiadau yn yr amgylchedd allanol all godi yn ystod y cyfnod cyllidebu er mwyn cyflawni canlyniadau wrth wneud y gorau o'r defnydd o adnoddau | mewn partneriaeth, gan roi Ynys Môn ar flaen y gad ym maes ymchwil a datblygu, cynhyrchu a gwasanaethu ynni carbon isel, a sicrhau buddion economaidd enfawr posib.<br>• Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid yn y diwydiant twristiaeth er mwyn creu strategaeth twristiaeth hirdymor ar gyfer yr Ynys. Mae Bwrdd Partneriaeth Cyrchfan Ynys Môn yn monitro cyflawniadau yn erbyn y Cynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn<br>• Ymgynghoriad ar Gyllideb a'r broses gosod yr cyllideb a'r heriau yn ei erbyn<br>• Cynllun Ariannol Tymor Canolig<br>• Strategaeth Cyfalaf<br>• Llyfr Cyllideb y Cyngor<br>• Llyfr ffioedd a thaliadau<br>• Adolygiadau Gwasanaeth Ariannol<br>• Bwrdd Ymgynghori ac Ymgysylltu ar y Cyd<br>• Sesiynau Briffio Aelodau<br>• Strategaeth Rheoli Risgiau<br>• Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn yn 2016, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<br>• Sefydlwyd Swyddi Rheolwyr Busnes ar gyfer pob Gwasanaeth<br>• Ymgynghoriad Cynllun y Cyngor |

| **Egwyddor E:** Datblygu capasiti’r endid, ynghyd â gallu ei arweinyddion a’r unigolion ynddo |
| --- |
| **Rhesymeg:** Mae angen strwythurau ac arweinyddiaeth briodol ar lywodraeth leol, yn ogystal â phobl sydd â'r sgiliau cywir, cymwysterau priodol a meddylfryd priodol, i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol a chyflawni eu canlyniadau arfaethedig o fewn y cyfnodau penodedig. Rhaid i sefydliad llywodraeth leol sicrhau bod ganddo'r gallu i gyflawni ei fandad ei hun a sicrhau bod polisïau ar waith i warantu bod gan ei reolwyr y gallu gweithredol i'r sefydliad cyfan. Gan y bydd unigolion a'r amgylchedd y mae awdurdod yn gweithredu ynddo yn newid dros amser, bydd angen parhaus i ddatblygu ei allu yn ogystal â sgiliau a phrofiad arweinyddiaeth aelodau unigol o staff. Atgyfnerthir arweinyddiaeth mewn endidau llywodraeth leol drwy gyfranogiad pobl sydd â llawer o wahanol fathau o gefndiroedd, gan adlewyrchu strwythur ac amrywiaeth cymunedau. |

| Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i: | Ffynonellau Sicrwydd: |
| --- | --- |
| **Datblygu capasiti’r endid**<br><br>E1. Datblygu a chynnal cynllun effeithiol ar gyfer y gweithlu er mwyn dyrannu adnoddau mewn modd mwy strategol<br><br>E2. Adolygu gweithrediadau, perfformiad a’r defnydd o asedau’n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol<br><br>E3. Gwella’r defnydd o adnoddau drwy ddefnyddio technegau mewn modd priodol, fel meincnodi ac opsiynau eraill, er mwyn pennu sut y mae adnoddau’r Cyngor yn cael eu dyrannu fel bod canlyniadau’n cael eu cyflawni mewn modd effeithiol ac effeithlon<br><br>E4. Adnabod buddion partneriaethau a gweithio ar y cyd lle gellir cyflawni gwerth ychwanegol<br><br>**Datblygu gallu arweinyddiaeth yr endid ac unigolion eraill**<br><br>E5. Datblygu protocolau i sicrhau bod arweinyddion sydd wedi’u hethol a’u penodi yn negydu â’i gilydd ynghylch eu rolau perthnasol yn fuan yn y berthynas a bod dealltwriaeth a rennir o rolau ac amcanion yn cael ei chynnal | • Strategaeth Cynllunio’r Gweithlu<br>• Chynlluniau Gweithlu ar gyfer pob Gwasanaeth<br>• Strategaeth Pobl<br>• Gwerthusiad Blynyddol (Adolygiad Datblygu Perfformiad)<br>• Cynllun Cydraddoldeb 2020-24<br>• Sesiynau briffio aelodau<br>• Siarter ar gyfer Cefnogi Aelodau CLlLC<br>• Rhaglen Datblygu a Hyfforddi Aelodau<br>• Cynllun Hyfforddai<br>• Y Gronfa Ddysgu / E-Ddysgu<br>• Rhaglen Hyfforddi Mewnol – yn cynnwys Arweinyddion Môn, Academi Môn ac ‘Twf a Datblygu’<br>• Protocol Aelodau a Swyddogion<br>• Cyfansoddiad<br>• Cyllideb Hyfforddiant Corfforaethol<br>• Disgrifiadau Swydd wedi'u diffinio'n glir<br>• Gweithdrefn Gwella Perfformiad<br>• Rhaglen Gynefino'r Cyngor a Rhaglen Gynefino Aelodau<br>• Proses Adolygu Gwasanaeth<br>• Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol a Chwnsela Medra |

| Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i: | Ffynonellau Sicrwydd: |
| --- | --- |
| E6. Cyhoeddi datganiad sy'n pennu'r mathau o benderfyniadau sy'n cael eu dirprwyo a'r rheiny sy'n cael eu cadw ar gyfer proses benderfynu'r corff llywodraethu ar y cyd<br><br>E7. Sicrhau bod gan yr arweinydd a'r prif weithredwr rolau sydd wedi'u diffinio'n glir ac sy'n arbennig iddynt hwy o fewn strwythur, lle mae'r prif weithredwr yn arwain yr awdurdod wrth weithredu strategaeth a rheoli'r modd y cyflawnir gwasanaethau ac allbynnau eraill a osodir gan aelodau, a bod y naill a'r llall yn darparu rhwystrau a gwrthbwysau ar gyfer awdurdod y naill a'r llall<br><br>E8. Datblygu galluoedd aelodau ac uwch reolwyr o ran cyflawni arweinyddiaeth effeithiol a rennir ac i alluogi'r Cyngor i ymateb yn llwyddiannus i alwadau newidiol o ran materion cyfreithiol a pholisïau yn ogystal â newidiadau a risgiau economaidd, gwleidyddol ac amgylcheddol drwy:<br>• sicrhau bod aelodau a staff yn cael mynediad i sesiynau ymsefydlu priodol sydd wedi'u haddasu ar gyfer eu rôl a bod gweithgareddau hyfforddiant a datblygu parhaus ar gael sy'n cyfateb i ofynion unigol a sefydliadol a'u bod yn cael eu hannog,<br>• sicrhau bod gan aelodau a swyddogion y sgiliau, y wybodaeth, yr adnoddau a'r cymorth priodol i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau a sicrhau eu bod yn gallu diweddaru eu gwybodaeth yn barhaus,<br>• sicrhau datblygiad personol, sefydliadol a ledled y system drwy rannu dysgu, gan gynnwys<br>• gwersi a ddysgwyd yng ngolau gwendidau mewnol ac allanol o ran llywodraethu<br><br>E9. Sicrhau bod strwythurau yn eu lle i annog cyrfanogiad cyhoeddus | • Pecyn Cymorth i Reolwyr<br>• Cynllun Beicio i'r Gwaith<br>• Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y Cyd<br>• Arolwg Staff |

| Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i: | Ffynonellau Sicrwydd: |
|---|---|
| E10. Cymryd camau i ystyried effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth ei hun a sicrhau bod arweinwyr yn agored i adborth adeiladol drwy adolygiadau cymheiriaid ac arolygiadau<br><br>E11. Dal staff yn atebol drwy adolygiadau rheolaidd o berfformiad sy'n ystyried anghenion o ran hyfforddiant neu ddatblygu<br><br>E12. Sicrhau bod trefniadau yn eu lle i gynnal iechyd a llesiant y gweithlu ac i gefnogi unigolion i gynnal eu llesiant corfforol a meddyliol eu hunain | |

| **Egwyddor F:** Rheoli risgiau a perfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref |
|---|
| **Rhesymeg:** Mae angen i lywodraeth leol sicrhau bod y sefydliadau a'r strwythurau llywodraethu y mae'n eu goruchwylio wedi gweithredu, ac yn gallu cynnal, system rheoli perfformiad effeithiol sy'n hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cynlluniedig yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rhannau pwysig ac annatod o system rheoli perfformiad ac yn hanfodol i gyflawni canlyniadau. Dylid ystyried risg a mynd i'r afael â hi fel rhan o'r holl weithgareddau gwneud penderfyniadau.<br>Mae system gref o reolaeth ariannol yn hanfodol ar gyfer gweithredu polisïau a chyflawni'r canlyniadau a fwriedir, gan y bydd yn gorfodi disgyblaeth ariannol, dyrannu adnoddau'n strategol, darparu gwasanaethau'n effeithlon, ac atebolrwydd.<br>Mae hefyd yn hanfodol bod diwylliant a strwythur ar gyfer craffu ar waith fel rhan allweddol o wneud penderfyniadau atebol, llunio polisïau ac adolygu. Mae diwylliant gwaith cadarnhaol sy'n derbyn, yn hyrwyddo ac yn annog her adeiladol yn hanfodol i graffu llwyddiannus a chyflawni'n llwyddiannus. Yn bwysig, nid yw'r diwylliant hwn yn digwydd yn awtomatig, mae'n gofyn am ymrwymiad cyhoeddus mynych gan y rhai sydd mewn awdurdod. |



| Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i: | Ffynonellau Sicrwydd: |
|---|---|
| **Rheoli Risgiau**<br><br>F1. Cydnabod bod rheoli risg yn rhan annatod o bob gweithgaredd a rhaid ystyried hyn ym mhob agwedd ar wneud penderfyniadau<br><br>F2. Gweithredu trefniadau rheoli risg cadarn ac integredig a sicrhau eu bod yn gweithio’n effeithiol<br><br>F3. Sicrhau bod cyfrifoldebau o ran rheoli risgiau unigol yn cael eu neilltuo’n glir<br><br>**Rheoli Perfformiad**<br><br>F4. Monitro’r gwaith o gyflenwi gwasanaethau’n effeithiol gan gynnwys cynllunio, manylebau, cyflawni ac adolygiadau annibynnol ar ôl eu gweithredu | • Polisi a Fframwaith Rheoli Risg<br>• Cofrestr Risg Strategol<br>• Cofrestr Risg Gwasanaeth<br>• Cofrestrau Risg Thematig<br>• Meddalwedd rheoli risg 4Risk<br>• Adroddiadau Rheoli Risg<br>• Fframwaith Rheoli Perfformiad<br>• Cynllun y Cyngor<br>• Cynllun Cyflawni Blynyddol<br>• Adroddiad Perfformiad Blynyddol<br>• Hunanasesiad Corfforaethol<br>• Byrddau Rhaglen Corfforaethol<br>• Adolygiadau Gwasanaeth – Ariannol a Pherfformiad<br>• Hunanasesiad Archwilio Mewnol yn erbyn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS)<br>• Adroddiadau Archwilio Mewnol |

| Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i: | Ffynonellau Sicrwydd: |
|---|---|
| F5. Gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar ddadansoddi a chyngor perthnasol a chlir gan amlygu'r goblygiadau a'r risgiau sy'n rhan annatod o sefyllfa a rhagolygon ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol y Cyngor<br><br>F6. Sicrhau bod swyddogaeth graffu neu drosolwg effeithiol yn ei lle sy'n annog herio a dadlau adeiladol mewn perthynas â pholisïau cyn, yn ystod ac ar ôl gwneud penderfyniadau, gan wella perfformiad y Cyngor ac unrhyw sefydliad y mae'n gyfrifol amdano<br><br>F7. Darparu adroddiadau rheolaidd i aelodau ac uwch reolwyr ar y cynnydd tuag at gyflawni canlyniadau<br><br>F8. Sicrhau bod cysondeb rhwng cyfnodau pennu manylion (fel cyllidebau) ynghyd ag adrodd ar ôl eu gweithredu (e.e. datganiadau ariannol)<br><br>**Rheolaeth Fewnol Gadarn**<br><br>F9. Cysoni'r strategaeth rheoli risg a pholisïau ar reolaeth fewnol gyda chyflawni amcanion<br><br>F10. Gwerthuso a monitro'r modd y mae risgiau'n cael eu rheoli a rheolaeth fewnol yn rheolaidd<br><br>F11. Sicrhau bod trefniadau gwrth-dwyll a gwrthlygredigaeth effeithiol yn eu lle<br><br>F12. Sicrhau bod yr archwilydd mewnol yn darparu sicrwydd ychwanegol o ran digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol y fframwaith llywodraethu, rheoli a rheolaeth risg<br><br>F13. Sicrhau bod pwyllgor archwilio neu grŵp neu swyddogaeth gyfatebol sy'n annibynnol o'r bwrdd gweithredol ac sy'n atebol i'r corff llywodraethu: | • Adroddiad Blynyddol yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO)<br>• Hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth<br>• Polisi Llywodraethu Gwybodaeth<br>• Adroddiad Blynyddol Seiberddiogelwch<br>• Adroddiadau Refeniw Chwarterol<br>• Adroddiadau Cyfalaf Chwarterol<br>• Datganiad o Gyfrifon<br>• Mae trefniadau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn dilyn arferion proffesiynol ac maent yn cael eu hadolygu'n chwarterol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn<br>• Cynllun Ariannol Tymor Canolig<br>• Strategaeth Gaffael<br>• Cadarnhaodd y Dystysgrif Cydymffurfiaeth Blynyddol bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau'n ymwneud ag adroddiadau ariannol, defnyddio adnoddau, cynllunio gwelliant a rheoli perfformiad<br>• Cerdyn Sgorio Corfforaethol<br>• Ceir adroddiad eglurhaol i gyd-fynd â phob adroddiad pwyllgor sy'n darparu crynodeb o'r adroddiad, yr argymhellion y ceisir cymeradwyaeth iddynt a'r rhesymeg dros wneud y penderfyniad hwnnw, er mwyn dangos y rhesymeg dros y penderfyniadau a'r dystiolaeth<br>• Pwylgorau a Phaneli Sgriwtini<br>• Strategaeth Gyfalaf<br>• Strategaeth atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd<br>• Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol<br>• Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio<br>• Adroddiad Archwilio Cyfrifon ISA260 |

| Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i: | Ffynonellau Sicrwydd: |
|---|---|
| • yn darparu ffynhonnell bellach o sicrwydd effeithiol o ran trefniadau ar gyfer rheoli risg a chynnal amgylchedd rheoli effeithiol<br>• y dylid gwrando ar yr argymhellion a gweithredu arnynt<br><br>**Rheoli Data**<br><br>F14. Sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer casglu, storio, defnyddio a rhannu data, gan gynnwys prosesau i ddiogelu data personol<br><br>F15. Sicrhau bod trefniadau effeithiol yn eu lle ac yn gweithredu'n effeithiol wrth rannu data â chyrff eraill<br><br>F16. Mynd ati'n rheolaidd i adolygu ac archwilio ansawdd a chywirdeb y data a ddefnyddir wrth wneud penderfyniadau a monitro perfformiad<br><br>**Rheolaeth Ariannol Gyhoeddus Gref**<br><br>F17. Sicrhau bod rheolaeth ariannol yn cefnogi cyflawniad hirdymor canlyniadau ynghyd â pherfformiad ariannol a gweithredol yn y tymor byr<br><br>F18. Sicrhau bod rheolaeth ariannol tra datblygedig wedi'i hintegreiddio ar bob lefel gynllunio a rheolaeth, gan gynnwys rheoli risgiau a rheolaethau ariannol | |

| **Egwyddor G:** Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio |
|---|
| **Rhesymeg:** Mae atebolrwydd yn ymwneud â sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau yn atebol amdanynt. Mae atebolrwydd effeithiol yn ymwneud nid yn unig ag adrodd ar y camau a gwblhawyd, ond hefyd â sicrhau bod rhanddeiliaid yn gallu deall ac ymateb wrth i'r sefydliad gynllunio a chyflawni ei weithgareddau mewn modd tryloyw. Mae archwilio allanol a mewnol yn cyfrannu at atebolrwydd effeithiol. |

| Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i: | Ffynonellau Sicrwydd: |
|---|---|
| **Gweithredu arferion da o ran tryloywder ac adrodd**<br><br>G1. Ysgrifennu a chyfathrebu adroddiadau ar gyfer rhanddeiliaid cyhoeddus ac eraill mewn dull dealladwy sy’n briodol ar gyfer y gynulleidfa fwriadedig a sicrhau eu bod yn hawdd cael mynediad atynt a’u cwestiynu<br><br>G2. Cyflawni cydbwysedd rhwng darparu digon o wybodaeth i fodloni galwadau o ran tryloywder a hybu craffu cyhoeddus gan sicrhau nad yw’n ormod i’w ddarparu ac i ddefnyddwyr ei deall<br><br>G3. O leiaf yn flynyddol, adrodd ar berfformiad, gwerth am arian a stiwardiaeth adnoddau<br><br>G4. Sicrhau bod gan berchnogion ac uwch reolwyr berchnogaeth dros y canlyniadau<br><br>G5. Sicrhau trefniadau cadarn ar gyfer asesu’r graddau y mae’r egwyddorion a gynhwysir yn y Fframwaith wedi cael eu gweithredu, a chyhoeddi’r canlyniadau ar yr asesiad hwn gan gynnwys cynllun gweithredu ar gyfer gwella a thystiolaeth i arddangos llywodraethu da (datganiad llywodraethu blynyddol) | • Mae pob agenda ac adroddiad ar gael ar wefan y Cyngor<br>• Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio<br>• Cofrestr o ddiddordebau Aelodau<br>• Cofrestr o ddiddordebau Cynghorau Tref a Chymuned<br>• Adroddiadau Archwilio Mewnol<br>• Sesiynau briffio misol Aelodau<br>• Adroddiadau Archwilio Allanol, gan gynnwys Estyn, Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru<br>• Adroddiadau Arolygiaeth<br>• Adroddiad Sgriwtini Blynyddol<br>• Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol<br>• Adroddiad Perfformiad Blynyddol<br>• Hunanasesiad Corfforaethol<br>• Datganiad Cyfrifon<br>• Ceir adroddiad eglurhaol i gyd-fynd â phob adroddiad pwyllgor sy’n darparu crynodeb o’r adroddiad, yr argymhellion y ceisir cymeradwyaeth iddynt a’r rhesymeg dros wneud y penderfyniad hwnnw, er mwyn dangos y rhesymeg dros y penderfyniadau a’r dystiolaeth<br>• Gwe-ddarlledu cyfarfodydd cyhoeddus |

| Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i: | Ffynonellau Sicrwydd: |
|---|---|
| G6. Sicrhau bod y Fframwaith yn cael ei weithredu mewn perthynas â sefydliadau gwasanaeth sy'n cael eu rheoli ar y cyd neu eu rhannu fel y bo'n briodol<br><br>G7. Sicrhau bod y wybodaeth o ran perfformiad sy'n cyd-fynd â'r datganiadau ariannol y'n cael ei pharatoi mewn modd cyson ac amserol a bod y datganiadau'n caniatáu cymharu â sefydliadau tebyg eraill<br><br>**Sicrwydd ac atebolrwydd effeithiol**<br><br>G8. Sicrhau y gweithredir ar yr argymhellion ar gyfer camau unioni a wneir drwy archwilio allanol<br><br>G9. Sicrhau bod gwasanaeth archwilio mewnol effeithiol yn ei le gyda mynediad uniongyrchol i aelodau sy'n darparu sicrwydd o ran trefniadau llywodraethu ac y gweithredir ar argymhellion<br><br>G10. Croesawu herio gan gymheiriaid, ynghyd ag adolygiadau ac arolygon gan gyrff rheoleiddio a gweithredu argymhellion<br><br>G11. Cael sicrwydd o ran risgiau sy'n gysylltiedig â chyflenwi gwasanaethau drwy drydydd partïon a bod tystiolaeth o hyn yn y datganiad llywodraethu blynyddol<br><br>G12. Sicrhau, wrth weithio mewn partneriaeth, bod trefniadau ar gyfer atebolrwydd yn glir a bod yr angen am atebolrwydd cyhoeddus ehangach wedi'i gydnabod a'i gyflawni | • Cyhoeddi agendâu a chyfarfodydd ar gyfer pwyllgorau<br>• Polisi Rhyddid Gwybodaeth<br>• Archwiliad Allanol Blynyddol ac Adroddiadau Cenedlaethol<br>• Asesiad Ansawdd Allanol o Gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus<br>• Cylch Gorchwyl Llywodraethu ac Archwilio<br>• Siarter Archwilio Mewnol<br>• Sustem 4action<br>• Adroddiadau ar faterion / risgiau sy'n eithrio<br>• Asesiad Sicrwydd ac Risg Blynyddol<br>• Datganiad Llywodraethu Blynyddol |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad** | 08 Rhagfyr 2022 |
| **Pwnc** | Adolygiad o'r Blaenraglen Waith ar gyfer 2022-23 f6 |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd**<br>Darparu Blaenraglen Waith ar gyfer 2022-23 i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. | |

## Cyflwyniad

1. Mae Blaenraglen Waith (f6) ynghlwm yn Atodiad A, ynghyd â rhaglen hyfforddiant yn Atodiad B.

2. Mae'r rhaglen wedi'i datblygu gan ystyried cyfrifoldebau newydd y Pwyllgor o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a'r newidiadau i gylch gorchwyl y Pwyllgor yn sgil y ddeddf newydd.

## Argymhelliad

3. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- yn ystyried a yw'r Blaenraglen Waith a gynigir ar gyfer 2022-23 yn bodloni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl.

## Atodiad A – Blaenraglen Waith 2022-23 (f6)

Tudalen 222

| Swyddogaeth Graidd | 29 Mehefin 2022 | 26 Gorffennaf 2022 | 28 Medi 2022 | 20 Hydref 2022 | 08 Rhagfyr 2022 | 18 Ionawr 2023 | 07 Chwefror 2023 | 18 Ebrill 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trefniadau Atebolrwydd (3.4.8.3) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 f2 (3.4.8.3.2)<br><br>Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2021-22 (3.4.8.3.1) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 f3 (3.4.8.3.2) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 f4 (3.4.8.3.2) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 f5 (3.4.8.3.2) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 f6 (3.4.8.3.2) | | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 (3.4.8.3.2)<br><br>Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor (3.4.8.3.2) | Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2022-23 (3.4.8.3.2)<br><br>Hunan Asesiad y Pwyllgor (3.4.8.3.2) |
| Llywodraethiant (3.4.8.4) | | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft (3.4.8.4.1/2/3) | | | Cod Llywodraethiant Lleol (3.4.8.4.1/3)<br><br>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ac Adfywio 2021-22 (3.4.8.4.4) | Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol (3.4.8.4.1/2/3) | | |
| Rheoli Trysorlys (3.4.8.5) | | | Adroddiad Blynyddol 2021-22 (3.4.8.5.1/2/3/4) | | Adroddiad Canol Blwyddyn (3.4.8.5.3) | | Strategaeth a Dangosyddion Darbodus 2023-24) (3.4.8.5.3/4) | |
| Fframwaith Sicrwydd (3.4.8.7) | | | ~~Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant Gwybodaeth~~ | | Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant mewn | | | Adroddiad Yswiriant Blynyddol (3.4.8.7.1) |

| **Swyddogaeth Graidd** | **29 Mehefin 2022** | **26 Gorffennaf 2022** | **28 Medi 2022** | **20 Hydref 2022** | **08 Rhagfyr 2022** | **18 Ionawr 2023** | **07 Chwefror 2023** | **18 Ebrill 2023** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | ~~2021-22 (3.4.8.7.1)~~<br><br>Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2021-22 (3.4.8.7.1)<br><br>Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2021-22 (3.4.8.7.1) | | ysgolion (3.4.8.7.1)<br><br>Adroddiad Blynyddol Caffael 2021-22 (3.4.8.7.1) | | | |
| Rheoli Risg (3.4.8.8) | | | Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | | | | Adolygiad Blynyddol o Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)<br><br>Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1) | |
| Atal Twyll a Llygredd (3.4.8.9) | | | Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2021-22 (3.4.8.9.4)<br><br>Adroddiad Pryderon, Cwynion a | | Adolygiad Blynyddol o Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd (3.4.8.9.2/3) | | | |

| Swyddogaeth Graidd | 29 Mehefin 2022 | 26 Gorffennaf 2022 | 28 Medi 2022 | 20 Hydref 2022 | 08 Rhagfyr 2022 | 18 Ionawr 2023 | 07 Chwefror 2023 | 18 Ebrill 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Chwythu Chwiban Blynyddol (3.4.8.9.1) | | | | | |
| Archwilio Mewnol (3.4.8.10) | Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2021-22 (3.4.8.10.6/7/8/9/12/14/15) (3.4.8.6)<br><br>Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol 2022-23 (3.4.8.10.1/2/5/6) | | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/11) (3.4.8.6)<br><br>Materion/ Risgiau sy'n Weddill (3.4.8.10.11) | | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/11) (3.4.8.6)<br><br>Adolygiad o'r Siartr Archwilio Mewnol (3.4.8.10.3/13) | | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/11) (3.4.8.6) | Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.10/11) (3.4.8.6)<br><br>Materion/Risgiau sy'n Weddill (3.4.8.10.11)<br><br>Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol 2023-24 (3.4.8.10.1/2/5/6) |
| Archwilio Allanol (3.4.8.11) | | | | | Crynodeb Archwilio Blynyddol 2022 (3.4.8.11.3) | Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2) (3.4.8.12.3) | | Cynllun Archwilio Blynyddol 2022-23 (3.4.8.11.1/3) |
| Adrodd Ariannol (3.4.8.12) | | Datganiad Cyfrifon Drafft 2021-22 (3.4.8.12.1/2) | | | | Datganiad Cyfrifon Terfynol 2021-22 (3.4.8.12.1/2) | | |
| Rheoleiddwyr ac Archwilwyr | | | | | | | | |

| Swyddogaeth Graidd | 29 Mehefin 2022 | 26 Gorffennaf 2022 | 28 Medi 2022 | 20 Hydref 2022 | 08 Rhagfyr 2022 | 18 Ionawr 2023 | 07 Chwefror 2023 | 18 Ebrill 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Eraill (3.4.8.13) | | | | | | | | |
| Delio â Chwynion (3.4.8.14) | | | Adroddiad Blynyddol Pryderon, Cwynion a Chywthu Chwiban 2021-22 (3.4.8.14.1/2) Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2021-22 (3.4.8.14.1/2) | | | | | |
| Adroddiad Hunanasesu (3.4.8.15) | | Adolygiad o'r Adroddiad Hunanasesu Blynyddol Drafft (3.4.8.15.1/2/3) | | Adolygiad o'r Adroddiad Corfforaethol Hunanasesu Blynyddol Drafft (3.4.8.15.1/2/3 ) | | | | |
| Asesiad o berfformiad gan Banel (3.4.8.16)[1] | | | | | | | | |

[1] O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol cynhelir asesiad o berfformiad gan banel yn ystod y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor. Gall y cyngor ddewis comisiynu mwy nag un asesiad gan banel mewn cylch etholiadol, ond nid yw hyn yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhaid i'r cyngor drefnu bod drafft o'i ymateb i'r asesiad o berfformiad gan banel ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio, a rhaid i'r pwyllgor hwnnw wedyn adolygu'r ymateb drafft a gall wneud unrhyw argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r ymateb i asesiad y panel.

# Atodiad B – Rhaglen Hyfforddiant

## Hyfforddiant benodol i'r pwyllgor

| Maes | Cyfrwng | Darparwr | Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu | Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|
| Sefydlu | Rhithiol | Jo Hendy, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | 23 Mehefin 2022 | 11 / 12 (92%) |
| Datganiadau Ariannol | Rhithiol | Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 | 13 Gorffennaf 2022 | 9 / 12 (75%) |
| Cwynion | Rhithiol | Matthew Harris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 9 Medi 2022 | 9 / 12 (75%) |
| Rheoli Trysorlys | Rhithiol | Richard Bason, Uwch Gyfarwyddwr, Link Treasury Services | 14 Medi 2022 | 7 / 12 (58%) |
| Rheoli Risg | | Julie Jones, Rheolwr Risg ac Yswiriant | | |



## Hyfforddiant gorfodol

| Maes | Cyfrwng | Darparwr | Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu | Wedi ei Gwblhau |
|---|---|---|---|---|
| Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Seiber Ninjas ar gyfer Cynghorwyr | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Ymwybyddiaeth Sylfaenol o Ddiogelu | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Atal/Prevent (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |
| Caethwasiaeth Fodern (dewisol ar gyfer aelodau lleyg) | eDdysgu | Mewnol | Ar gael unrhyw bryd | |